# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 17/06/2015

Cynnwys Contents


1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol
1. Questions to the Minister for Natural Resources

2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

3. Datganiad: Dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru
3. Statement: the Future of Local Government in Wales

4. Cynnig i Ddiwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
4. Motion to Amend Standing Orders 2, 13 and 17 in relation to the Registration and Declaration of Members' Interests and Standing Orders 17 and 22 in relation to the Membership of the Standards of Conduct Committee

5. Cynnig i Gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill a Mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Diwygiedig
5. Motion to Approve the Guidance for Assembly Members on the Registration, Declaration and Recording of Financial and Other Interests and Adopt the Revised Code of Conduct

6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gofal Dementia
6. Welsh Conservatives Debate: Dementia Care

7. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llywodraethu ac Arweinyddiaeth yn y GIG
7. Welsh Conservatives Debate: Governance and Leadership in the NHS

8. Dadl Plaid Cymru: Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
8. Plaid Cymru Debate: Local Government and Public Services

9. Cyfnod Pleidleisio
9. Voting Time

10. Dadl Fer: Clefydau'r Croen: Blaenoriaethu Anghenion Pobl yng Nghymru sydd â Chlefydau sy'n Effeithio ar y Croen
10. Short Debate: Skin Matters—Prioritising the Needs of People in Wales with Skin Disease


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:29 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:29 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:29

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

13:29

# 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

# 1. Questions to the Minister for Natural Resources

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources. Question 1 is from Llyr Gruffydd.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Daw cwestiwn 1 gan Llyr Gruffydd.

### Gweithredu'r Strategaeth Dŵr

### Implementing the Water Strategy

13:29

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu'r strategaeth ddŵr i Gymru? OAQ(4)0314(NR)*

*1. Will the Minister make a statement on implementing the Water Strategy for Wales? OAQ(4)0314(NR)*

13:29 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I thank the Member for his question. The water strategy for Wales is supported by a high-level action plan set over a 25-year period. We will engage and involve our delivery partners in work to achieve actions through the water forum for Wales. We will issue an annual report on progress in delivering on actions.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'r strategaeth ddŵr i Gymru yn cael ei chefnogi gan gynllun gweithredu lefel uchel wedi'i osod dros gyfnod o 25 mlynedd. Byddwn yn ymgysylltu â'n partneriaid cyflenwi ac yn eu cynnwys mewn gwaith i gyflawni camau gweithredu drwy'r fforwm dŵr i Gymru. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd ar gyflawni camau gweithredu.

13:30 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer. The strategy says that you will monitor the costs and benefits of market reform and the introduction of competition to non-household customers. We know it's something that's happened in England but has been resisted here in Wales. Now, when I asked you previously about this, you suggested there may be an aspiration at a later date for a renationalisation of water. So, will you therefore rule out any competition in the non-household market in Wales?

Diolch i chi am eich ateb. Mae'r strategaeth yn dweud y byddwch yn monitro costau a manteision diwygio'r farchnad a chyflwyno cystadleuaeth i gwsmeriaid dibreswyl. Rydym yn gwybod ei fod yn rhywbeth sydd wedi digwydd yn Lloegr ond sydd wedi'i wrthwynebu yma yng Nghymru. Nawr, pan ofynnais i chi o'r blaen am hyn, fe awgrymoch y gallai fod dyhead yn y dyfodol i ail-wladoli dŵr. Felly, a fyddwch felly yn diystyru unrhyw gystadleuaeth yn y farchnad ddibreswyl yng Nghymru?

13:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Byddaf.

13:30 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the water strategy obviously identifies rivers and inland waterways as an important element of that strategy. One of your former predecessors actually indicated that the Green Paper on access to inland waterways created tremendous confusion, and perhaps concern, amongst many anglers, who are being challenged by the canoeists on the rivers. What progress has been made in relation to that to ensure that there is a fair balance of activities on the rivers?

Weinidog, mae'r strategaeth ddŵr yn amlwg yn nodi afonydd a dyfrffyrdd mewndirol fel elfen bwysig o'r strategaeth. Dangosodd un o'ch cyn-ragflaenwyr, mewn gwirionedd, fod y Papur Gwyrdd ar fynediad i ddyfrffyrdd mewndirol wedi creu dryswch aruthrol, a phryder efallai, ymhlith nifer o bysgotwyr sy'n cael eu herio gan y canŵ-wyr ar yr afonydd. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â hynny i sicrhau y ceir cydbwysedd teg o weithgareddau ar yr afonydd?

13:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure the Member will be welcoming our announcement shortly on the introduction of the Green Paper on access to waterways. Of course, I recognise that what we do need to have is a more constructive approach to how the many users of our natural resources can work together to the betterment of that, including canoe users and fishermen as well.

Rwy'n siŵr y bydd yr Aelod yn croesawu ein cyhoeddiad yn fuan ar gyflwyno Papur Gwyrdd ar fynediad i ddyfrffyrdd. Wrth gwrs, rwy'n cydnabod mai'r hyn sydd ei angen arnom yw dull mwy adeiladol i'r nifer uchel o bobl sy'n defnyddio ein hadnoddau naturiol allu gweithio gyda'i gilydd i wella hynny, yn cynnwys defnyddwyr canŵod a physgotwyr hefyd.

13:31 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may be aware that Dŵr Cymru Welsh Water recently officially opened a new state-of-the-art visitor and water resource centre at Llandegfedd reservoir in my constituency. This is a fantastic facility that shows how we can develop our water sources far more, particularly in areas of tourism and sporting activities. What are you doing to support ventures like this, and perhaps, if your diary permits, you would agree to visit the centre with me at some point to see the excellent work that is being undertaken at the reservoir?

Weinidog, efallai y gwyddoch fod Dŵr Cymru wedi agor canolfan ymwelwyr ac adnoddau dŵr newydd o'r radd flaenaf yn swyddogol yn ddiweddar yng nghronfa ddŵr Llandegfedd yn fy etholaeth. Mae'n gyfleuster gwych sy'n dangos sut y gallwn ddatblygu ein ffynonellau dŵr ymhellach, yn enwedig mewn ardaloedd twristiaeth a gweithgareddau chwaraeon. Beth rydych yn ei wneud i gefnogi mentrau fel hyn, ac efallai, os yw eich dyddiadur yn caniatáu hynny, a fyddech yn cytuno i ymweld â'r ganolfan gyda mi ar ryw adeg i weld y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn y gronfa?

13:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I'll be delighted to wait for the invitation from the Member formally. I think he's right to say that using leverage between Government and other agencies to enhance area-based schemes is something that the Environment (Wales) Bill actually looks at. I'd be grateful for the Member's invitation, but also grateful for the Member's support as the environment Bill goes through this Chamber.

Byddaf yn falch iawn o aros am y gwahoddiad gan yr Aelod yn ffurfiol. Rwy'n credu ei fod yn iawn i ddweud bod defnyddio trosoledd rhwng y Llywodraeth ac asiantaethau eraill i wella cynlluniau ar sail ardal yn rhywbeth y mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn edrych arno. Byddwn yn ddiolchgar am wahoddiad yr Aelod, ond hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelod wrth i daith Bil yr amgylchedd drwy'r Siambr.

Senedd.tv Fideo Video

## Prosiectau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach

## Small-scale Renewable Energy Projects

13:32 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

*2. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yng Nghymru? OAQ(4)0312(NR)*

*2. What steps will the Minister take to increase the number of small-scale renewable energy projects in Wales? OAQ(4)0312(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for Cardiff North for her question. Our Resource Efficient Wales advice service provides clear, impartial and comprehensive advice on renewable energy to Welsh households, communities, businesses and farmers. I am currently working with the sector to design a new support programme that will accelerate delivery of small and medium-scale renewables in Wales.

Diolch i'r Aelod dros Ogledd Caerdydd am ei chwestiwn. Mae ein gwasanaeth cyngor Cymru Effeithlon yn rhoi cyngor clir, diduedd a chynhwysfawr ar ynni adnewyddadwy i gartrefi, cymunedau, busnesau a ffermwyr Cymru. Rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r sector i gynllunio rhaglen gymorth newydd a fydd yn cyflymu darpariaeth ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a chanolig yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Thanks, Minister, for that response. Is the Minister aware of the Radyr weir hydroelectric scheme on the River Taff in Whitchurch in my constituency of Cardiff North on the border, which will be completed in March next year and should generate enough sustainable electricity to power 550 homes? Would he agree that excellent small-scale projects like this, which harness the natural resources, is the way that we need to go for energy, and what steps is he taking to increase the number of these small-scale projects in Wales?

Diolch am eich ymateb, Weinidog. A yw'r Gweinidog yn gwybod am gynllun trydan dŵr cored Radyr ar Afon Taf yn yr Eglwys Newydd yn fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd ar y ffin, a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, a dylai gynhyrchu digon o drydan cynaliadwy i bweru 550 o gartrefi? A fyddai'n cytuno mai prosiectau rhagorol ar raddfa fach fel hyn, sy'n harneisio adnoddau naturiol, yw'r hyn sydd angen i ni ei wneud ag ynni, a pha gamau y mae'n eu rhoi ar waith i gynyddu nifer prosiectau ar raddfa fach o'r fath yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Of course, and the Member will be aware of the Ynni'r Fro scheme that we have in place, and we are looking to move forward, within the regional development plan proposals, to look at how we can enhance community-owned, community generation for smaller scale projects. I'm very familiar with the programme the Member raises within her own constituency and I congratulate the people who are involved in that, and also the support that she gives to such programmes in her constituency and across Wales.

Wrth gwrs, a bydd yr Aelod yn ymwybodol o gynllun Ynni'r Fro sydd gennym ar waith ac y bwriadwn ei ddatblygu yng nghynigion y cynllun datblygu rhanbarthol er mwyn edrych ar sut y gallwn wella cynhyrchu cymunedol sy'n eiddo i'r gymuned ar gyfer prosiectau ar raddfa lai. Rwy'n gyfarwydd iawn â'r rhaglen y mae'r Aelod yn ei chrybwyll yn ei hetholaeth ei hun ac rwy'n llongyfarch y bobl sy'n cymryd rhan yn hynny, a hefyd y gefnogaeth y mae hi'n ei rhoi i raglenni o'r fath yn ei hetholaeth a ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Russell George** Bywgraffiad Biography

I'm sure you will agree with me, Minister, that small-scale renewables are particularly important in helping farmers diversify. Now, several constituents have approached me as regards the time it's taking for Natural Resources Wales to respond to the local authority as regards comments on applications, specifically as regards small-scale hydro schemes. Can I ask what you can do to help to remove these barriers?

Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi, Weinidog, fod ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn arbennig o bwysig o ran helpu ffermwyr i arallgyfeirio. Nawr, mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r amser y mae'n ei gymryd i Gyfoeth Naturiol Cymru ymateb i'r awdurdod lleol mewn perthynas â sylwadau ar geisiadau, yn benodol o ran cynlluniau hydro ar raddfa fach. A gaf fi ofyn beth y gallwch ei wneud i helpu i gael gwared ar y rhwystrau hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd be interested in the detail from the Member and, if he'd like to write to me specifically on that, I will take that up with NRW. But, what we have to do is make sure that we have careful consideration of impacts on communities where we do make investments and in terms of abstraction licences, whether it's hydro or otherwise. The Member will be very well aware of the impact of renewable energy, particularly in his constituency and the council that he represents.

Byddai gennyf ddiddordeb yn y manylion gan yr Aelod, ac os hoffai ysgrifennu ataf yn benodol ar hynny, byddaf yn tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru atynt. Ond yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau ar gymunedau lle rydym yn buddsoddi ac o ran trwyddedau tynnu dŵr, boed yn hydro neu fel arall. Bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o effaith ynni adnewyddadwy, yn enwedig yn ei etholaeth a'r cyngor y mae'n ei gynrychioli.

13:34 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ond a fyddai'r Gweinidog yn cytuno mai un o'r anawsterau yw agwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn enwedig ynglŷn â thaliadau bwydo i mewn ar gyfer ynni adnewyddol? A yw'r Gweinidog yn debyg o gael cyfle i addysgu dipyn ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd newydd, a ninnau ar drothwy datganiad pwysig iawn gan Ei Sancteiddrwydd y Pab ynglŷn â newid hinsawdd yn y greadigaeth?

But would the Minister agree that one of the difficulties is the attitude of the UK Government particularly in terms of feed-in tariffs for renewable energy? Is the Minister likely to have an opportunity to educate the new Secretary of State for Energy and Climate Change, as we are on the verge on a very important statement from His Holiness the Pope on climate change in the creation?

13:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. I have actually spoken to the new Minister in the Department of Energy and Climate Change twice over the last week, and I spoke to Amber Rudd only yesterday, in discussions around the issue he raises. Let us put it very clearly on the record here: the disruption around the feed-in tariff and the actual impacts that may have on industry across the UK, and in particular in Wales, will cost people's jobs, and I urge the UK Government to consider that proposal very carefully.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwyf wedi siarad â'r Gweinidog newydd yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ddwywaith dros yr wythnos diwethaf, a siaradais ag Amber Rudd ddoe ddiwethaf, i drafod y mater y mae'n ei grybwyll. Gadewch i ni ei roi ar gofnod yn glir iawn yma: bydd y tarfu sy'n ymwneud â'r tariff cyflenwi trydan a'r effeithiau gwirioneddol y gallai eu cael ar ddiwydiant ledled y DU, ac yn enwedig yng Nghymru, yn arwain at golli swyddi, ac rwy'n annog Llywodraeth y DU i ystyried y cynnig yn ofalus iawn.

13:35 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae rhaglen Ynni'r Fro wedi dod i ben ers mis Mawrth. Felly, a ydych chi mewn sefyllfa i ddweud pa bryd fydd y rhaglen newydd yn dechrau? Hefyd, a ydych chi wedi cael cyfle i ystyried a oes angen canllawiau cynllunio newydd, wrth feddwl bod adroddiad Lyndhurst wedi sôn am yr oedi sy'n cymryd lle yn y gyfundrefn gynllunio yng Nghymru?

Minister, the Ynni'r Fro was wound up in March. Therefore, are you now in a position to tell us when the new programme will commence? Also, have you had an opportunity to consider whether we need new planning guidance, given that the Lyndhurst report mentioned the delays that take place within the planning regime in Wales?

13:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Member will be aware of the new Planning (Wales) Bill, and the Act that will follow, in terms of details around planning regimes. I've always said—very topical today—that 25 planning authorities across Wales is far too diverse, in their views and actions in delivering planning systems. I think we should radically look at that proposal, which will, I believe, enhance the opportunities that I know the Member is supportive of—the renewable small-scale energy schemes, the Ynni'r Fro scheme, which I am considering carefully in relation to the requirements around the successor programme and whether that needs further guidance as to how to enable that programme. I think the issue with Ynni'r Fro has been that it's highly complex to get communities engaged in that whole programme. It's something that we can learn lessons from —the historic one—but, certainly, when moving forward, it'll be something I'm very keen to extend to Members for their views on how we can enhance that programme, moving forward.

Wel, wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r Bil Cynllunio (Cymru) newydd, a'r Ddeddf a fydd yn dilyn, o ran y manylion sy'n gysylltiedig â chyfundrefnau cynllunio. Rwyf wedi dweud erioed—yn amserol iawn heddiw—fod 25 o awdurdodau cynllunio ledled Cymru yn llawer rhy amrywiol yn eu barn a'u gweithredoedd wrth gyflwyno systemau cynllunio. Rwy'n credu y dylem edrych yn radicalaidd ar y cynnig, a fydd, rwy'n credu, yn gwella'r cyfleoedd y gwn fod yr Aelod yn eu cefnogi—y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, cynllun Ynni'r Fro sy'n cael ystyriaeth ofalus gennyf mewn perthynas â gofynion y rhaglen olynol ac a oes angen arweiniad pellach ynglŷn â sut i gryfhau'r rhaglen honno. Rwy'n credu mai'r broblem gydag Ynni'r Fro yw ei bod yn broses gymhleth iawn i gael cymunedau'n rhan o'r rhaglen. Mae'n rhywbeth y gallwn ddysgu gwersi ohono—yr un hanesyddol—ond yn sicr, wrth symud ymlaen, bydd yn rhywbeth rwy'n awyddus iawn i'w ymestyn i'r Aelodau i gael eu barn ynglŷn â sut y gallwn wella'r rhaglen honno ar gyfer y dyfodol.

13:37 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Julie Morgan and I visited the small village of Schönau in Baden-Württemberg, as part of the Environment and Sustainability Committee's visit to look at Energiewende. This village of 2,000 people have developed a whole range of renewable energy schemes, which means they now have 150,000 customers. What are the regulatory barriers that the Minister might be able to help unpick—apart from, obviously, the moving feast of feed-in tariffs—to enable all small communities to benefit from renewable energy projects in this way?

Ymwelodd Julie Morgan a minnau â phentref bach Schönau yn Baden-Württemberg fel rhan o ymweliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i edrych ar Energiewende. Mae'r pentref o 2,000 o bobl wedi datblygu ystod eang o gynlluniau ynni adnewyddadwy, sy'n golygu bod ganddynt 150,000 o gwsmeriaid bellach. Beth yw'r rhwystrau rheoleiddio y gallai'r Gweinidog helpu i'w goresgyn—ar wahân i'r wledd symudol o dariffau cyflenwi trydan, yn amlwg—i alluogi pob cymuned fach i elwa ar brosiectau ynni adnewyddadwy yn y ffordd hon?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I think the Member alludes to a very positive project in Germany, and I welcome her contribution today. It is something that we should aspire to—the opportunities in Wales to enhance our natural environment, to give back to communities a sustainable, resilient service, is something that this Government is very keen to pursue. But, there are barriers in place. The devolved nature of energy is just one of them, and looking at how Ofgem works, electricity generation and management of the grid, et cetera, are all factors in this proposal. But, as Lord Dafydd Elis-Thomas alluded to before, there are immediate issues around feed-in tariffs that would have a negative effect on development here in Wales, under current and future proposals, which we should be very wary of as we move forward.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn cyfeirio at brosiect positif iawn yn yr Almaen ac rwy'n croesawu ei chyfraniad heddiw. Mae'n rhywbeth y dylem anelu ato—mae'r cyfleoedd yng Nghymru i wella ein hamgylchedd naturiol, er mwyn rhoi gwasanaeth cynaliadwy a chydnerth yn ôl i gymunedau, yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth hon yn awyddus iawn i fynd ar ei drywydd. Ond mae yna rwystrau. Mae natur ddatganoledig ynni yn un ohonynt, ac mae edrych ar sut y mae Ofgem yn gweithio, cynhyrchu trydan a rheolaeth y grid ac ati, oll yn ffactorau yn y cynnig hwn. Ond fel y soniodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas o'r blaen, mae yna faterion uniongyrchol sy'n ymwneud â thariffau cyflenwi trydan a fyddai'n cael effaith negyddol ar ddatblygiad yma yng Nghymru, dan gynigion presennol ac yn y dyfodol, a dylem fod yn wyliadwrus iawn ohonynt wrth i ni symud ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is the Welsh Conservative spokesperson, Janet Howarth.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Howarth.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Presiding Officer. Minister, my first question is about what support you are offering to councils to help them achieve their recycling targets.

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae fy nghwestiwn cyntaf yn ymwneud â pha gefnogaeth rydych yn ei chynnig i gynghorau i'w helpu i gyrraedd eu targedau ailgylchu.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

We invest many millions of pounds into our recycling. I welcome the new Member in her role, questioning me today, and as spokesperson for her party. The Member will be aware that we are first in the UK—much better than any targets set in any other parts of the union—and fourth in Europe. I've also used the expression: I'd like to be the Real Madrid of Europe in terms of recycling—being the No. 1. But, based on how Wales played last week, we could be the Wales of Europe in terms of our recycling rates. [Laughter.]

Rydym yn buddsoddi miliynau lawer o bunnoedd yn ein hailgylchu. Rwy'n croesawu'r Aelod newydd yn ei rôl yn fy holi heddiw ac fel llefarydd dros ei phlaid. Bydd yr Aelod yn ymwybodol ein bod ar y blaen yn y DU—yn well o lawer nag unrhyw dargedau a osodwyd mewn unrhyw ran arall o'r undeb—ac yn bedwerydd yn Ewrop. Rwyf hefyd wedi defnyddio'r ymadrodd: hoffwn fod yn Real Madrid Ewrop o ran ailgylchu—sef y Rhif 1. Ond yn ôl y ffordd y chwaraeodd Cymru'r wythnos diwethaf, gallem fod yn Gymru Ewrop o ran ein cyfraddau ailgylchu.[Chwerthin.]

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. It is heartening to hear of your commitment to recycling. But the press reports last week highlighted that three Labour-run councils in south Wales had had their fines waivered for missing their recycling targets, because, in your words, they had demonstrated that they were doing enough to meet their figures. This lack of action undermines the innovative approach that councils, such as mine in Conwy, have taken to meeting their targets. I would like to also extend an invitation to you to visit the Conwy team and look at their practices so that their approaches can be shared with the failing councils. Because, Minister, if you continue to allow this to happen, not only do you undermine the good work of the councils that are working so hard to achieve these targets, but you're also undermining the targets set in our own environment Bill, because we can do good work in one part of Wales and then it's undermined in another.

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae'n galonogol clywed am eich ymrwymiad i ailgylchu. Ond nododd adroddiadau yn y wasg yr wythnos diwethaf fod tri chyngor dan arweiniad Llafur yn ne Cymru wedi cael eu dirwyon wedi'u diystyru ar ôl iddynt fethu â chyrraedd y targedau ailgylchu, oherwydd, yn eich geiriau chi, roeddent wedi dangos eu bod yn gwneud digon i gyrraedd eu ffigurau. Mae'r diffyg gweithredu hwn yn tanseilio'r agwedd arloesol sydd gan gynghorau fel fy un i yng Nghonwy tuag at gyrraedd eu targedau. Hoffwn hefyd estyn gwahoddiad i chi i ymweld â thîm Conwy ac edrych ar eu harferion fel y gellir rhannu eu dulliau o weithredu gyda'r cynghorau sy'n methu. Oherwydd, Weinidog, os byddwch yn parhau i ganiatáu i hyn ddigwydd, byddwch nid yn unig yn tanseilio gwaith da'r cynghorau sy'n gweithio mor galed i gyflawni'r targedau, ond byddwch hefyd yn tanseilio'r targedau a osodwyd yn ein Bil hamgylchedd ein hunain, gan y gallwn wneud gwaith da mewn un rhan o Gymru a'i danseilio wedyn mewn rhan arall.

13:40 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You know, I was really looking forward to the contribution from the new Member today, but instead, she has picked up Antoinette Sandbach's—the previous Member's—notes. We have some really positive effects. What can I say? We are No. 1 in the UK and fourth in Europe in terms of recycling. The reason I did not place infraction charges on those authorities was because they have demonstrated how they will be able to achieve more beneficial results by us not penalising them and enabling them to get better. I think that's a very positive move for those communities and the people who they represent across Wales.

Wyddoch chi, roeddwn yn edrych ymlaen yn fawr at gyfraniad yr Aelod newydd heddiw, ond yn lle hynny, mae hi wedi codi nodiadau Antoinette Sandbach, yr aelod blaenorol. Mae gennym rai effeithiau cadarnhaol iawn. Beth y gallaf ei ddweud? Ni yw'r Rhif 1 yn y DU a'r pedwerydd yn Ewrop o ran ailgylchu. Y rheswm na chodais daliadau cosb ar yr awdurdodau hynny oedd am eu bod wedi dangos sut y byddant yn gallu cyflawni canlyniadau mwy buddiol drwy i ni beidio â'u cosbi a'u galluogi i wella. Rwy'n credu bod hwnnw'n gam cadarnhaol iawn i'r cymunedau hynny a'r bobl y maent yn eu cynrychioli ledled Cymru.

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you asking a third question? Do you have a third question?

A ydych chi'n gofyn trydydd cwestiwn? A oes gennych drydydd cwestiwn?

13:41 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'd like to stick with recycling despite your resistance to it. I do have serious concerns about the up-and-coming environment Bill and that our small businesses will, once again, be hit financially if they do not subscribe to the letter of the law when it comes to recycling. I've had discussions with a number of small businesses in north Wales that are already encountering practical issues surrounding the separating of waste collection that will be required of them. This is really about a number of small businesses that are in very tight restricted locations in our high streets, which I think will need some assistance and help with meeting those requirements to separate waste. So, what reassurances can you provide that the views of these businesses on the high street, which are the heart of our communities and are under significant pressure, are listened to so that we don't end up with yet another Bill that is full of good intentions but has problems with practical enforcement?

Oes, hoffwn barhau ag ailgylchu er gwaethaf eich gwrthwynebiad iddo. Mae gennyf bryderon difrifol ynglŷn â'r Bil amgylchedd sydd ar y gweill ac y bydd ein busnesau bach, unwaith eto, yn cael ergyd ariannol os nad ydynt yn dilyn llythyren y ddeddf o ran ailgylchu. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda nifer o fusnesau bach yn y gogledd sydd eisoes yn wynebu problemau ymarferol mewn perthynas â chasgliadau gwastraff ar wahân fel sy'n ofynnol. Mae hyn yn ymwneud mewn gwirionedd â nifer o fusnesau bach mewn lleoliadau cyfyngedig iawn ar ein prif strydoedd, ac rwy'n meddwl y bydd angen rhywfaint o gymorth a help arnynt i fodloni'r gofynion i wahanu gwastraff. Felly, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd barn y busnesau hyn ar y stryd fawr, sy'n ganolog i'n cymunedau ac sydd o dan bwysau sylweddol, yn cael eu clywed fel nad ydym yn cael Bil arall eto sy'n llawn bwriadau da ond yn cael trafferthion gyda gorfodi'n ymarferol?

13:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member should look at this in more detail. I would advise her to ask this of some of the businesses that are doing really well by making sure that they look at their waste streams effectively. I visited a factory in Llantrisant recently and one in Ruthin in the last six weeks, which have turned their businesses around. Instead of paying for the treatment of their waste, they are getting paid for the waste treatment that they have now. Therefore, what we're doing with the environment Bill is ensuring consistency in the approach to that. There will be areas, I do accept, which will be hard-to-reach areas, where recycling collection or recyclate is already difficult to manage in some areas. But, I don't see that in the high street. I think I would encourage you and your Members to be positive about this approach. Why doesn't the Member want to be the best in Europe in terms of recycling rather than advocate that people don't stick to the letter of the law? Let's be positive and work together to make sure that we are the best in Europe.

Dylai'r Aelod edrych ar hyn yn fwy manwl. Byddwn yn ei chynghori i ofyn hyn i rai o'r busnesau sy'n gwneud yn dda iawn drwy sicrhau eu bod yn edrych ar eu ffrydiau gwastraff yn effeithiol. Ymwelais â ffatri yn Llantrisant yn ddiweddar ac un yn Rhuthun yn ystod y chwe wythnos diwethaf, sydd wedi newid eu busnesau yn llwyr. Yn hytrach na thalu i'w gwastraff gael ei drin, maent bellach yn cael eu talu am drin gwastraff. Felly, yr hyn rydym yn ei wneud gyda Bil yr amgylchedd yw sicrhau cysondeb yn y dull o wneud hynny. Rwy'n derbyn y bydd yna ardaloedd anodd eu cyrraedd, lle y mae casgliadau ailgylchu neu ddeunydd eildro eisoes yn anodd ei reoli mewn rhai ardaloedd. Ond nid wyf yn gweld hynny ar y stryd fawr. Rwy'n credu y byddwn yn eich annog chi a'ch Aelodau i fod yn gadarnhaol ynglŷn â'r dull hwn. Pam nad yw'r Aelod yn dymuno bod y gorau yn Ewrop o ran ailgylchu yn hytrach na dadlau nad yw pobl yn cadw at lythyren y ddeddf? Gadewch i ni fod yn gadarnhaol a gweithio gyda'n gilydd i sicrhau mai ni yw'r gorau yn Ewrop.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.

13:43 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Deputy Minister, the rural development plan for Wales now, of course, has been adopted by the Commission and it does represent a major opportunity for us to deliver transformational change to Welsh farms and rural communities. So, do you agree that, in order to achieve the level of change needed, the key challenge will be in moving away from a business-as-usual approach to RDP implementation, and can you tell us what steps you will be taking to ensure that the new RDP makes a real and significant difference to farms in Wales?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, mae cynllun datblygu gwledig Cymru erbyn hyn, wrth gwrs, wedi cael ei fabwysiadu gan y Comisiwn ac mae'n gyfle pwysig i ni sicrhau newid trawsnewidiol i ffermydd a chymunedau gwledig Cymru. Felly, a ydych yn cytuno, er mwyn cyflawni lefel y newid sydd ei angen, mai'r her allweddol fydd symud oddi wrth ymagwedd busnes fel arfer i weithredu cynllun datblygu gwledig, ac a allwch ddweud wrthym pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod y cynllun datblygu gwledig newydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a sylweddol i ffermydd yng Nghymru?

13:44 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Senedd.tv Fideo Video

I absolutely agree with the spokesperson that it's no longer a business-as-usual approach to the RDP. Equally, it's no longer a business-as-usual approach to farming in Wales as well. You'll be aware that we recently launched our strategic framework for agriculture, and the rural development programme will provide us with a mechanism to get us to where we need to be in farming in Wales. You will be aware that the RDP requires us to increase the competitiveness of agriculture in Wales and that's very much at the heart of our strategic approach going forward. It also requires us to ensure the sustainable management of natural resources and climate action. It also requires us to achieve a balanced territorial development of rural economies and communities, including the creation and the maintenance of employment. So, it's also about tackling poverty as well. So, it's no longer business as usual, and although we will, obviously, seek to maintain what was best out of the previous rural development plan, things will be different in future. I've listened to the industry in terms of what their bugbears have been about the previous plan, such as a one-size-fits-all approach to business planning, so now we're taking more of a bespoke approach to that, for example. It's very much a case of having listened to what's worked well in the past and seeking to build on that, but realising where we can and will do better.

Cytunaf yn llwyr â'r llefarydd nad ymagwedd busnes fel arfer a geir bellach tuag at y cynllun datblygu gwledig. Yn yr un modd, nid ymagwedd busnes fel arfer a geir bellach tuag at ffermio yng Nghymru chwaith. Fe fyddwch yn ymwybodol ein bod wedi lansio ein fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth yn ddiweddar, a bydd y cynllun datblygu gwledig yn rhoi mecanwaith i ni gyrraedd lle y mae angen i ni fod o ran ffermio yng Nghymru. Fe fyddwch yn ymwybodol fod y cynllun datblygu gwledig yn gofyn i ni gynyddu cystadleurwydd amaethyddiaeth yng Nghymru ac mae hynny yn ganolog i'n hymagwedd strategol wrth symud ymlaen. Mae hefyd yn gofyn i ni sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a gweithredu ar yr hinsawdd. Yn ogystal, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni gyflawni datblygiad tiriogaethol cytbwys o economïau a chymunedau gwledig, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth. Felly, mae hefyd yn ymwneud â threchu tlodi. Felly, nid busnes fel arfer yw hi bellach, ac er y byddwn, yn amlwg, yn ceisio cadw'r hyn a oedd orau yn y cynllun datblygu gwledig blaenorol, bydd pethau'n wahanol yn y dyfodol. Rwyf wedi gwrando ar y diwydiant o ran beth oedd eu casbethau am y cynllun blaenorol, megis y dull o gynllunio busnes un maint i bawb, felly mae gennym ddull mwy pwrpasol bellach ar gyfer hynny, er enghraifft. Mae'n sicr yn achos o fod wedi gwrando ar yr hyn sy'n gweithio'n dda yn y gorffennol a cheisio adeiladu ar hynny, ond gan sylweddoli lle y gallwn a lle y byddwn yn gwneud yn well.

13:45 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. You mentioned the consultation that you've issued on the new strategic framework for agriculture, and that certainly emphasises—and I quote—

'a partnership approach, very much led by the industry.'

Can you explain, therefore, how this partnership or maybe co-production approach is being taken forward, specifically in relation to the development and implementation of RDP schemes? You said that you've listened. How is that going to be practically applied in developing jointly with the industry some of the ideas moving forward?

Diolch i chi am yr ateb. Fe sonioch am yr ymgynghoriad rydych wedi'i gyhoeddi ar y fframwaith strategol newydd ar gyfer amaethyddiaeth, ac mae hynny'n sicr yn pwysleisio—ac rwy'n dyfynnu—

'a partnership approach, very much led by the industry'.

Felly, a allwch egluro sut y mae'r dull partneriaeth neu'r dull cydgynhyrchu, efallai, yn cael ei ddatblygu, yn benodol mewn perthynas â datblygu a gweithredu cynlluniau'r cynllun datblygu gwledig? Fe ddywedoch eich bod wedi gwrando. Sut y mae hynny'n mynd i gael ei gymhwyso'n ymarferol wrth ddatblygu rhai o'r syniadau ar y cyd â'r diwydiant wrth symud ymlaen?

13:46 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The industry will be key partners in helping us deliver our rural development programme. One specific set of schemes that we have is the strategic initiatives. These will be aimed at specific sectors and themes, such as red meat, dairy, animal health and so on. So, we'll be working very much with the industry to deliver these schemes, which will be delivered in partnership and in co-production with the industry itself.

Bydd y diwydiant yn bartneriaid allweddol wrth helpu i gyflawni ein cynllun datblygu gwledig. Un set benodol o gynlluniau sydd gennym yw'r mentrau strategol. Bydd y rhain yn cael eu hanelu at sectorau a themâu penodol, fel cig coch, llaeth, iechyd anifeiliaid ac yn y blaen. Felly, byddwn yn gweithio i raddau helaeth iawn gyda'r diwydiant i gyflawni'r cynlluniau hyn, a fydd yn cael eu cyflwyno mewn partneriaeth ac mewn cydgynhyrchiad â'r diwydiant ei hun.

13:46 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you've said 'delivery' a few times. That's co-delivery, I suppose. We want to look at co-developing and co-producing some of these schemes, so I would be interested if you could elaborate a little bit on how the sector will actually play a role in designing some of the schemes that we're looking at. I also wanted to question you about the national herd, because Hybu Cig Cymru's review of the beef sector that you launched last November highlighted the importance of a productive national suckler herd at the heart of our beef industry. We also know that the number of suckler cows in Wales now sits at around 220,000, which is down around 15 per cent since CAP reform and subsidy decoupling back in 2005. I am aware, of course, of the innovative programmes that are being taken forward by other countries, such as Scotland and Ireland, to support improvements in the performance of the national herds. What will you be doing to support this sector particularly in Wales through the RDP?

Wel, rydych wedi dweud 'cyflawni' nifer o weithiau. Dyna yw cydgyflawni, mae'n debyg. Rydym yn awyddus i edrych ar gyd-ddatblygu a chydgynhyrchu rhai o'r cynlluniau hyn, felly byddai gennyf ddiddordeb pe gallech ymhelaethu ychydig ar sut y bydd y sector yn chwarae rhan yn y broses o lunio rhai o'r cynlluniau rydym yn edrych arnynt. Roeddwn hefyd am eich holi ynglŷn â'r fuches genedlaethol, gan fod adolygiad Hybu Cig Cymru o'r sector cig eidion a lansiwyd fis Tachwedd diwethaf yn amlygu pwysigrwydd buches sugno genedlaethol gynhyrchiol wrth galon ein diwydiant cig eidion. Rydym hefyd yn gwybod bod nifer y buchod sugno yng Nghymru bellach oddeutu 220,000, sy'n ostyngiad o tua 15 y cant ers diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a datgysylltu cymorthdaliadau yn ôl yn 2005. Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol o'r rhaglenni arloesol sy'n cael eu datblygu gan wledydd eraill, fel yr Alban ac Iwerddon, i gefnogi gwelliannau ym mherfformiad y buchesi cenedlaethol. Beth a wnewch i gefnogi'r sector hwn yn benodol yng Nghymru drwy'r cynllun datblygu gwledig?

13:47 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

To go to the start of your question, which was about co-production and co-design of projects, the FUW, NFU, CLA and other organisations such as the Tenant Farmers Association, Hybu Cig Cymru and DairyCo came together about a year ago and produced a principles paper. That principles paper was a list of aspirations and almost demands that they would like to see met through the rural development programme. We've very much listened to that, and that principles paper has been at the heart of the design of the agriculture strategy moving forward as well. So, that takes us to the core of where we are with our RDP and our programmes. One of those streams of work is the strategic initiatives, and those are whole supply-chain initiatives, from farm right through to food production and on, to try and strengthen our industry in Wales. The industry partners are very much at the heart of helping us not only design but deliver those. As I say, one of those will be for the red meat sector in particular, and we'll be picking up on the work that Hybu Cig Cymru have been doing with the red meat plan, which we'll be launching in just a couple of weeks' time now. That will deal with some of the issues that you've referred to about the suckler herd.

I fynd at ddechrau eich cwestiwn, a oedd yn ymwneud â chydgynhyrchu a chydgynllunio prosiectau, daeth Undeb Amaethwyr Cymru, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad a sefydliadau eraill megis Cymdeithas Ffermwyr Tenant, Hybu Cig Cymru a DairyCo at ei gilydd tua blwyddyn yn ôl a chynhyrchu papur egwyddorion. Rhestr o ddyheadau a gorchmynion, bron, y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu bodloni drwy'r cynllun datblygu gwledig oedd y papur egwyddorion. Rydym wedi gwrando'n astud ar hynny, ac mae'r papur egwyddorion wedi bod yn ganolog i gynllun y strategaeth amaeth wrth symud ymlaen hefyd. Felly, mae hynny'n mynd â ni at graidd ein sefyllfa gyda'n cynllun datblygu gwledig a'n rhaglenni. Un o'r ffrydiau gwaith hynny yw'r mentrau strategol, ac mae'r rheini'n fentrau ar gyfer y gadwyn gyflenwi gyfan, o'r fferm i gynhyrchu bwyd ac ymlaen, i geisio cryfhau ein diwydiant yng Nghymru. Mae'r partneriaid diwydiant yn ganolog i'r gwaith o'n helpu i lunio ac i gyflawni hynny. Fel y dywedais, bydd un o'r rheini ar gyfer y sector cig coch yn arbennig, a byddwn yn rhoi sylw i'r gwaith y mae Hybu Cig Cymru wedi bod yn ei wneud â'r cynllun cig coch y byddwn yn ei lansio mewn ychydig wythnosau. Bydd yn ymdrin â rhai o'r materion rydych wedi cyfeirio atynt ynglŷn â'r fuches sugno.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:48 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister please make a statement on the withdrawal of funding from Environment Wales?

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â thynnu cyllid Amgylchedd Cymru yn ôl?

13:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The issue of grants for organisations has been very clear with stakeholders. We are currently working up to a new programme where all people who have applied for a grant will be considered over the next couple of months.

Mae mater grantiau i sefydliadau wedi bod yn glir iawn i randdeiliaid. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar raglen newydd lle y bydd yr holl bobl sydd wedi gwneud cais am grant yn cael eu hystyried dros y misoedd nesaf.

13:49 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister for that explanation, but statistics provided for us by Environment Wales show that, in 2013 and 2014, 42 per cent of grant recipients contributed to actions on climate change, 64 per cent delivered biodiversity benefits, 30 per cent of grant support contributed to environmental enterprise, and 12 recycling and reuse initiatives were also supported. Overall, the scheme is said to have delivered a 365 per cent return on the grant funding that's been invested. Given these statistics, Minister, do you not agree with me that this abrupt withdrawal of funding is difficult to justify? Does the enormous discord that's unleashed within the sector not fall at a very difficult time when we're all seeking to pull together to look towards a successful implementation of the Environment (Wales) Bill?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr esboniad, ond mae ystadegau a ddarparwyd ar ein cyfer gan Amgylchedd Cymru yn dangos, yn 2013 a 2014, fod 42 y cant o'r rhai a dderbyniodd grantiau wedi cyfrannu at gamau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, 64 y cant wedi sicrhau buddiannau o ran bioamrywiaeth, mae 30 y cant o gymorth grant wedi cyfrannu at fentrau amgylcheddol, a chefnogwyd 12 o fentrau ailgylchu ac ailddefnyddio hefyd. At ei gilydd, dywedir bod y cynllun wedi sicrhau elw o 365 y cant ar y cyllid grant a fuddsoddwyd. O ystyried yr ystadegau hyn, Weinidog, onid ydych yn cytuno â mi ei bod yn anodd cyfiawnhau'r ffaith fod y cyllid hwn yn sydyn wedi'i dynnu'n ôl? Onid yw'r anghytgord enfawr sydd wedi'i greu yn y sector yn digwydd ar adeg anodd iawn pan fo pawb ohonom yn ceisio tynnu gyda'n gilydd i sicrhau bod Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cael ei weithredu'n llwyddiannus?

13:50 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, and the Member's absolutely right to raise this issue in the Chamber today, but can I just point out to the Member that the Member is saying that we are under strained times because of finances and we need to pull together, but the reasoning behind some of this discussion is because we have £1.5 billion less going into the Welsh economy, because of the Welsh Conservatives' friends in London? In this year alone, £50 million of in-year cuts have been made to this Government here in Wales. I have to make priorities, and I do accept the Member is absolutely right. May I place on record my thanks to the Members across Wales who have made interventions protecting our climate and environment in a very positive way? We have to make sure that we get our priorities in place to deliver all aspects across government. I am giving very serious consideration around this particular grant.

Wrth gwrs, ac mae'r Aelod yn gwbl gywir i grybwyll y mater yn y Siambr heddiw, ond a gaf fi dynnu sylw'r Aelod at y ffaith fod yr Aelod yn dweud ein bod mewn cyfnod anodd yn ariannol a bod angen i ni dynnu gyda'n gilydd, ond y rhesymeg wrth wraidd peth o'r drafodaeth yw bod gennym £1.5 biliwn yn llai yn mynd i mewn i economi Cymru, oherwydd cyfeillion y Ceidwadwyr Cymreig yn Llundain? Yn ystod y flwyddyn hon yn unig, cafwyd gwerth £50 miliwn o doriadau canol blwyddyn i'r Llywodraeth yma yng Nghymru. Mae'n rhaid i mi flaenoriaethu, ac rwy'n derbyn bod yr Aelod yn berffaith iawn. A gaf fi gofnodi fy niolch i'r Aelodau ledled Cymru sydd wedi gwneud ymyriadau i ddiogelu ein hinsawdd a'n hamgylchedd mewn modd cadarnhaol iawn? Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn blaenoriaethu er mwyn cyflawni pob agwedd ar draws y llywodraeth. Rwy'n rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r grant penodol hwn.

13:50 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I'm sure that Members who have given many of their volunteer hours over many years to these projects, and are keen to continue to do so in the future, will welcome your recognition of what they have contributed, but they stand ready to continue making that contribution if we are able to find a way through here. Analysis carried out by Resources for Change has calculated that the financial value of the volunteer input since the beginning of this grant scheme, which is long standing—back in 1992—amounts to over £26 million. Many of the groups are somewhat disappointed at the distinct lack of consultation and engagement that they feel that they've had with you and your officials. In that context, Minister, and in order to maintain that goodwill, which is so important, will you commit to facilitating a meeting with relevant stakeholders so as to mitigate at least some of the potential harm that could be wrought by the measures that you feel the need to bring forward at this time?

Weinidog, rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau sydd wedi rhoi llawer o'u horiau'n wirfoddol dros flynyddoedd lawer i'r prosiectau hyn, ac sy'n awyddus i barhau i wneud hynny yn y dyfodol, yn croesawu eich cydnabyddiaeth o'r hyn y maent wedi'i gyfrannu, ond maent yn barod i barhau i wneud y cyfraniad hwnnw os gallwn ddod o hyd i ffordd drwodd yn y fan hon. Mae dadansoddiad a gyflawnwyd gan Resources for Change wedi cyfrifo bod gwerth ariannol y mewnbwn gwirfoddol ers dechrau'r cynllun grant hwn, sy'n un hirsefydlog—yn ôl yn 1992—dros £26 miliwn. Mae llawer o'r grwpiau braidd yn siomedig am yr hyn a deimlant a fu'n ddiffyg ymgynghori ac ymgysylltu amlwg â chi a'ch swyddogion. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, ac er mwyn cynnal yr ewyllys da sydd mor bwysig, a wnewch chi ymrwymo i hwyluso cyfarfod gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn lliniaru o leiaf rywfaint ar y niwed posibl y gellid ei achosi gan y mesurau rydych yn teimlo'r angen i'w cyflwyno ar yr adeg hon?

13:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm disappointed that the Member has alluded to lack of engagement, because I've actually met with Environment Wales, I've met with WCVA, and I've met with many organisations affected by the grant changes personally. I've had this discussion with those organisations. I can absolutely see why they are lobbying you and many Members in this Chamber. What I can say is what I am committed to looking at a pathway through in order to maintain some presence on the ground with volunteers across Wales that do an incredible job in managing our environment, but I cannot commit to funding streams long term, as I just do not know the financial security based upon actions by the UK Government.

Wel, rwy'n siomedig fod yr Aelod wedi crybwyll diffyg ymgysylltu, gan fy mod wedi cyfarfod ag Amgylchedd Cymru mewn gwirionedd, rwyf wedi cyfarfod â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac rwyf wedi cyfarfod yn bersonol â nifer o sefydliadau yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau i'r grant. Rwyf wedi cael y drafodaeth hon gyda'r sefydliadau hynny. Gallaf weld yn iawn pam y maent yn gwasgu arnoch a nifer o'r Aelodau yn y Siambr. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw fy mod wedi ymrwymo i edrych ar lwybr drwy hyn er mwyn cynnal rhywfaint o bresenoldeb ar lawr gwlad gyda gwirfoddolwyr ledled Cymru sy'n gwneud gwaith anhygoel yn rheoli ein hamgylchedd, ond ni allaf ymrwymo i ffrydiau ariannu hirdymor, gan nad oes gennyf sicrwydd ariannol yn seiliedig ar weithredoedd Llywodraeth y DU.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Jeff Cuthbert.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur. Daw cwestiwn 3 gan Jeff Cuthbert.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

13:52 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(4)0315(NR)*

*3. Will the Minister make a statement on the implementation of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015? OAQ(4)0315(NR)*

13:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. Work to implement the Act is well under way, with engagement taking place currently on the statutory guidance and 14 organisations now early adopters. Within Welsh Government, we are developing the key products required by the Act and working to ensure that this is across all our departments and others externally.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae gwaith i weithredu'r Ddeddf wedi hen ddechrau, gydag ymgysylltu'n digwydd ar hyn o bryd ar y canllawiau statudol a 14 o sefydliadau bellach yn fabwysiadwyr cynnar. O fewn Llywodraeth Cymru, rydym yn datblygu'r cynnyrch allweddol sy'n ofynnol gan y Ddeddf ac yn gweithio i sicrhau bod hyn ar draws ein holl adrannau ac eraill yn allanol.

13:53 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that response. Like you, I am very much persuaded of the need for such a game-changing and all-encompassing Act in order to ensure the sustainability of Wales and its public services for future generations. Minister, would you agree with me that ensuring the effective implementation of this Act in the years ahead will mean working closely with the future generations commissioner and focusing on the seven wellbeing goals? Also, do you agree with me that it will mean striking that all-important balance between economic growth and environmental sustainability, focusing on the likes of green technologies and relevant skills development, as we see a greater focus on renewable energy in the years ahead?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Fel chi, rwyf wedi fy argyhoeddi'n gryf o'r angen am Ddeddf mor bellgyrhaeddol a hollgynhwysfawr er mwyn sicrhau cynaliadwyedd Cymru a'i gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Weinidog, a fyddech yn cytuno â mi y bydd sicrhau gweithrediad effeithiol y Ddeddf hon yn y blynyddoedd i ddod yn golygu gweithio'n agos gyda chomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol a chanolbwyntio ar y saith nod lles? Hefyd, a ydych yn cytuno â mi y bydd yn golygu taro'r cydbwysedd hollbwysig rhwng twf economaidd a chynaliadwyedd amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar bethau fel technolegau gwyrdd a datblygu sgiliau perthnasol, wrth i ni weld mwy o ffocws ar ynni adnewyddadwy yn y blynyddoedd sydd i ddod?

13:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The Member's right. We shouldn't go without saying about the involvement that the Member had previously in the development of the Bill. Congratulations to him. The actual detail now is about enablement of communities, and I'm really encouraged. Prior to the delivery of the Well-being of Future Generations Act, there are already organisations implementing this. South Wales Police, Alun Michael and Sophie Howe are already delivering, with many organisations: Labour commissioners delivering for the people of Wales, in particular of Swansea. There are people in Deeside, in my own constituency, who today are planting many things, cabbages and lettuces, working socially, engaging with people, and delivering the future generations Act here in action. This is something that means we can make sure that we engage communities right across Wales, and I welcome the positive comments from the Member.

Mae'r Aelod yn llygad ei le. Ni ddylem anghofio'r rhan a oedd gan yr Aelod yn natblygiad y Bil yn flaenorol. Llongyfarchiadau iddo. Mae'r manylion yn awr yn ymwneud â galluogi cymunedau, ac rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr. Cyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae yna sefydliadau eisoes yn gweithredu hyn. Mae Heddlu De Cymru, Alun Michael a Sophie Howe eisoes yn ei gyflawni, gyda llawer o sefydliadau: comisiynwyr Llafur yn cyflawni dros bobl Cymru, yn enwedig yn Abertawe. Mae yna bobl ar Lannau Dyfrdwy, yn fy etholaeth i, sydd heddiw yn plannu llawer o bethau, bresych a letys, gan weithio'n gymdeithasol ac ymgysylltu â phobl, ac sy'n cyflwyno Deddf cenedlaethau'r dyfodol yma'n weithredol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n golygu y gallwn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru, a chroesawaf y sylwadau cadarnhaol gan yr Aelod.

Senedd.tv
Fideo Video

13:54 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, you've spoken about the future generations commissioner. I wonder whether you could update us, Minister, on when the commissioner will be in place, and update us on the approach to appointing that commissioner.

Weinidog, rydych wedi siarad am gomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, Weinidog, ynghylch pa bryd y bydd y comisiynydd yn ei le, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y dull o benodi'r comisiynydd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:55 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The details of the commissioner's appointment will be public knowledge shortly. I will write to Members on how we intend to recruit for that post.

Bydd manylion am benodiad y comisiynydd yn wybodaeth gyhoeddus yn fuan. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau ynglŷn â sut y bwriadwn recriwtio ar gyfer y swydd honno.

Senedd.tv
Fideo Video

13:55 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Minister, you won't be able to deliver on the objectives of the Well-being of Future Generations Act unless you get the support of the third and voluntary sector. I make no apology to return to the point that William Powell raised with you earlier, because I raised this in the Chamber previously. The way you have withdrawn the grant for the Environment Wales management grant has broken your own third sector scheme, published in January 2015, where you say clearly—and the Government agrees with this—that a 12-week notice period should be given to any policy changes or decisions made that would lead to the withdrawal or the significant reduction of grants. There's no point talking to people after you've withdrawn the grant. You broke your own sector scheme in arriving at this decision halfway through a financial year. How will you get the confidence of the environmental groups back on board to deliver on your objectives?

Weinidog, ni fyddwch yn gallu cyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oni bai eich bod yn cael cefnogaeth y trydydd sector a'r sector gwirfoddol. Nid wyf yn ymddiheuro am ddod yn ôl at y pwynt a grybwyllodd William Powell wrthych yn gynharach, oherwydd rwyf wedi codi hyn yn y Siambr o'r blaen. Mae'r ffordd rydych wedi tynnu'r grant rheoli ar gyfer Amgylchedd Cymru yn ôl wedi torri eich cynllun trydydd sector eich hun, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, lle rydych yn dweud yn glir—ac mae'r Llywodraeth yn cytuno â hyn—y dylai cyfnod rhybudd o 12 wythnos gael ei roi ynghylch unrhyw newid neu benderfyniad polisi a wnaed a fyddai'n arwain at dynnu grantiau yn ôl neu at ostwng y grantiau'n sylweddol. Nid oes pwynt siarad â phobl ar ôl i chi dynnu'r grant yn ôl. Rydych wedi torri eich cynllun sector eich hunain wrth wneud y penderfyniad hwn hanner ffordd drwy flwyddyn ariannol. Sut y byddwch yn adfer hyder y grwpiau amgylcheddol i allu cyflawni eich amcanion?

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Well, I don't agree with the Member in his view that we've broken any contract with them. We have not withdrawn any funding and we have maintained the funding stream. We have made our commitment to look at the future funding of this model. I've talked to the organisations and therefore do not recognise the issues the Member raises.

Wel, nid wyf yn cytuno â barn yr Aelod ein bod wedi torri unrhyw gontract â hwy. Nid ydym wedi tynnu unrhyw arian yn ôl ac rydym wedi cynnal y ffrwd ariannu. Rydym wedi ymrwymo i edrych ar gyllid y model hwn yn y dyfodol. Rwyf wedi siarad â'r cyrff ac felly nid wyf yn cydnabod y materion y mae'r Aelod yn eu codi.

Senedd.tv
Fideo Video

## Blaenoriaethau Rheoli Gwastraff (Canol De Cymru)

## Waste Management Priorities (Mid South Wales)

13:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau rheoli gwastraff ar gyfer y dyfodol agos yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0323(NR)*

*4. Will the Minister outline his priorities for waste management for the near future in Mid South Wales? OAQ(4)0323(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his question. My immediate priorities are to work with local authorities to meet the waste strategy targets cost-effectively and to deliver sustainable waste infrastructure whilst helping to deliver wider Welsh Government priorities.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Fy mlaenoriaethau uniongyrchol yw gweithio gydag awdurdodau lleol i gyrraedd targedau'r strategaeth wastraff yn gosteffeithiol a darparu seilwaith gwastraff cynaliadwy wrth helpu i gyflawni blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Minister. One of the things that would greatly help waste management, certainly in South Wales Central, is the ability to create more anaerobic digesters on farms. One of the issues—and I think it does fall in your competency, Minister—is grid connection up to a certain point. This is a real issue, and certainly it's within the Government's gift, anyway, so there's a cross-over there. The lack of ability for developers, and in particular farmers, to get that grid connection is inhibiting the ability for anaerobic digestion to take off, and thus help meet waste management targets and recycling targets. What discussions are going on across Government to link these two together, so that there can be improvement in the network and greater use of anaerobic digesters?

Diolch yn fawr, Weinidog. Un o'r pethau a fyddai'n helpu i reoli gwastraff cryn dipyn, yn sicr yng Nghanol De Cymru, yw'r gallu i greu mwy o dreulwyr anerobig ar ffermydd. Un o'r problemau—ac rwy'n credu ei fod o fewn eich cymhwysedd, Weinidog—yw cysylltiad grid hyd at bwynt penodol. Mae hon yn broblem go iawn ac yn sicr yn rhywbeth y gall y Llywodraeth ei ddarparu beth bynnag, felly ceir croesi drosodd yno. Mae diffyg gallu datblygwyr, a ffermwyr yn arbennig, i gael cysylltiad â'r grid yn atal y gallu i dreuliant anaerobig fynd o nerth i nerth, a helpu felly i gyrraedd targedau rheoli gwastraff a thargedau ailgylchu. Pa drafodaethau sy'n digwydd ar draws y Llywodraeth i gysylltu'r ddau fel y gellir gwella'r rhwydwaith a sicrhau mwy o ddefnydd o dreulwyr anerobig?

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Of course, the Member raises a valid question. I actually agree with him today on that proposal. The issue with the renewable infrastructure, or anaerobic digestion processes, is partly the issue about grid connection. It's something that I have had discussions with the Minister for Economy, Science and Transport on, but ultimately it's a devolved and non-devolved function issue here with the UK Government. We have had discussions with the UK Government over this issue, but at the moment I've got nothing positive to offer the Member in terms of additional grid capacity. It's something that we do recognise and we would hope that the UK Government can help us with in proposals moving forward.

Wrth gwrs, mae'r Aelod yn gofyn cwestiwn dilys. Rwy'n cytuno â'i argymhelliad heddiw. Mae'r broblem gyda'r seilwaith adnewyddadwy, neu brosesau treulio anaerobig, yn ymwneud yn rhannol â'r broblem o ran cysylltu â'r grid. Mae'n rhywbeth rwyf wedi'i drafod gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ond yn y pen draw mae'n fater sy'n ymwneud â swyddogaethau datganoledig a heb eu datganoli gyda Llywodraeth y DU. Rydym wedi trafod y mater gyda Llywodraeth y DU, ond ar hyn o bryd nid oes gennyf ddim byd cadarnhaol i'w gynnig i'r Aelod o ran capasiti grid ychwanegol. Mae'n rhywbeth rydym yn ei gydnabod a byddem yn gobeithio y gall Llywodraeth y DU ein helpu gyda hyn mewn cynigion wrth symud ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, I've raised concerns about the operations of the Splott incinerator with you on a number of occasions, regarding the sorting of metals out of ash in the open air on the Lamby Way waste disposal site. I've recently had claims brought to me by local residents that there has been some kind of issue or problem with the incinerator and that, for the last two weeks, black bags have been taken to the Lamby Way site, and they're causing, obviously, smell and other inconvenience to local residents. I wonder whether I could ask you, please, to investigate the situation in Cardiff and find out what exactly is happening there.

Weinidog, rwyf wedi lleisio pryderon am weithgarwch llosgydd Sblot wrthych ar sawl achlysur, o ran didoli metelau o'r lludw yn yr awyr agored ar safle gwaredu gwastraff Lamby Way. Rwyf wedi cael honiadau gan drigolion lleol yn ddiweddar yn dweud bod rhyw broblem wedi codi gyda'r llosgydd ac am y pythefnos diwethaf, mae bagiau duon wedi bod yn cael eu cludo i safle Lamby Way ac yn amlwg, maent yn creu arogleuon drwg ac anhwylustod arall i drigolion lleol. Tybed a gaf fi ofyn i chi edrych ar y sefyllfa yng Nghaerdydd, os gwelwch yn dda, a chael gwybod beth yn union sy'n digwydd yno.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

If the Member would like to write to me with the detail specifically of that, I'm not aware of that issue, but I would look into that, if she would care to write.

Os hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf gyda'r manylion penodol am hynny, nid wyf yn ymwybodol o'r mater, ond fe fyddwn yn edrych yn fanwl ar hynny, ond iddi ysgrifennu ataf.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Cynllun Gofodol Morol

### The Marine Spatial Plan

13:58 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun gofodol morol? OAQ(4)0325(NR)*

*5. Will the Minister make a statement on the marine spatial plan? OAQ(4)0325(NR)*

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Marine planning is an exciting new concept. The first Welsh national marine plan is eagerly awaited and presents us with a unique opportunity to bring clarity for all those planning and undertaking activities in Welsh seas.

Mae cynllunio morol yn gysyniad newydd cyffrous. Mae disgwyl eiddgar am gynllun morol cenedlaethol cyntaf Cymru ac mae'n rhoi cyfle unigryw i ni sicrhau eglurder i bawb sy'n cynllunio ac yn ymgymryd â gweithgareddau ym moroedd Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch am y datganiad yna. Mae'r rhanddeiliaid rydym ni wedi siarad efo nhw yn dweud nad oes digon o adnoddau yn eich uned chi i ddod â'r cynllun yma i fod o fewn eich amserlen. Felly, y cwestiwn ydy: a oes gennych chi'r adnoddau, a phryd fydd y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi?

Thank you for that statement. The stakeholders to whom we have spoken have said that your unit does not have sufficient resources to bring this scheme into being within your timetable. So, my question is: do you have the resources, and when will this scheme be announced?

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Do I have the resources? Yes, I do. I'm introducing a marine planning system as a long-term plan, introducing later this year.

A oes gennyf yr adnoddau? Oes, yn wir. Rwy'n cyflwyno system cynllunio morol fel cynllun hirdymor, a byddaf yn ei gyflwyno yn nes ymlaen eleni.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Minister, people in my region are concerned that the marine spatial plan will be the new technical advice note 8 and will open the floodgates to new offshore wind. Will you give us an assurance that, when the national marine plan is finalised, you will have listened to those who said that conservation and protection of the coastal environment should be a greater focus for that plan?

Weinidog, mae pobl yn fy rhanbarth yn poeni mai'r cynllun gofodol morol fydd y nodyn cyngor technegol 8 newydd a bydd yn agor y llifddorau i ffermydd gwynt ar y môr newydd. A wnewch chi roi sicrwydd i ni, pan gwblheir y cynllun morol cenedlaethol, y byddwch wedi gwrando ar y rhai a ddywedodd y dylai cadwraeth a gwarchod yr amgylchedd arfordirol fod yn fwy o ffocws ar gyfer y cynllun?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Well, I thank the Member for his question. I can assure him that TAN 8 exists and the marine plan will exist and they are not the same by any means. He can give his constituents reassurance. But what I can say is that, in Wales, we are open for business in terms of renewable energy and wind power, which seems to be very different in England and across the borders that he looks over.

Wel, diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Gallaf ei sicrhau bod nodyn cyngor technegol 8 yn bodoli a bydd y cynllun morol yn bodoli ac nid ydynt yr un fath mewn unrhyw fodd. Gall roi sicrwydd i'w etholwyr. Ond yr hyn y gallaf ei ddweud yw ein bod ar agor am fusnes yng Nghymru o ran ynni adnewyddadwy ac ynni gwynt, sy'n wahanol iawn i Loegr, mae'n ymddangos, ac ar draws y ffiniau y mae'n edrych drostynt.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Further to that question, Minister, in terms of the Swansea tidal bay lagoon, I understand that Natural Resources Wales consent has still not been given to that. Can I ask what consideration you're making in terms of your marine plan and also in terms of discussions you've had with local people about the impact of that lagoon on the angling community and whether you've had any discussions about that particular issue?

Yn ychwanegol at y cwestiwn hwnnw, Weinidog, o ran morlyn bae llanw Abertawe, deallaf nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi caniatâd iddo hyd yma. A gaf fi ofyn pa ystyriaeth a rowch i'ch cynllun morol a hefyd i'r trafodaethau a gawsoch â phobl leol ynglŷn ag effaith y morlyn ar y gymuned bysgota ac a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater penodol hwn?

14:01 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, the Member will be aware of the devolved nature of the planning consent around that and also the independence of NRW in the way they operate. I would expect NRW to act in an appropriate manner and a timely manner. Again, I will raise that with them—non-specific in terms of detail, but ensuring that they have confidence in the process where they are able to offer your constituents and many others the ability for transparency during that decision-making process.

Wel, wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol o natur ddatganoledig y caniatâd cynllunio mewn perthynas â hynny a hefyd annibyniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn y ffordd y maent yn gweithredu. Byddwn yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu mewn modd priodol ac amserol. Unwaith eto, byddaf yn trafod hynny gyda hwy—yn amhenodol o ran y manylion, ond gan sicrhau bod ganddynt hyder yn y broses lle y gallant gynnig y gallu i fod yn dryloyw i'ch etholwyr a nifer o rai eraill yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

### Gwella Lles Anifeiliaid Domestig

### Improving the Welfare of Domestic Animals

14:01 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles anifeiliaid domestig yng Nghymru? OAQ(4)0309(NR)*

*6. What action is the Welsh Government taking to improve the welfare of domestic animals in Wales? OAQ(4)0309(NR)*

14:01 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Development work is ongoing on several animal welfare policies, in particular the compulsory microchipping of dogs, responsible dog ownership, sanctuaries and circuses.

Mae gwaith datblygu yn mynd rhagddo ar nifer o bolisïau lles anifeiliaid, yn enwedig gosod microsglodion gorfodol ar gŵn, perchnogaeth cŵn cyfrifol, gwarchodfeydd a syrcasau.

14:01 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister. I was delighted to host an event here at the Assembly last week for RSPCA Cymru, at which young people discussed whose responsibility animal welfare is. I was very impressed by the high standard of debate, and I'm sure you'll join with me in offering congratulations to all the participants. In what ways could the Welsh Government encourage greater understanding of the responsibilities involved in animal ownership amongst young people in Wales? As we know, awareness of these responsibilities is key to improving welfare.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog. Roeddwn wrth fy modd yn cyflwyno digwyddiad yma yn y Cynulliad yr wythnos diwethaf ar ran RSPCA Cymru, lle roedd pobl ifanc yn trafod cyfrifoldeb pwy yw lles anifeiliaid. Roeddwn yn llawn edmygedd o safon uchel y ddadl, ac rwy'n siŵr y byddwch yn ategu fy llongyfarchiadau i'r holl gyfranogwyr. Ym mha ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru annog mwy o ddealltwriaeth ymhlith pobl ifanc Cymru o'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar anifeiliaid? Fel y gwyddom, mae ymwybyddiaeth o'r cyfrifoldebau hyn yn allweddol i wella lles.

14:02 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I'm very happy to join you in congratulating everybody involved with that RSPCA event. I know that our chief veterinary officer was also able to attend and lend her expertise to the panel as well. I agree with you that awareness of responsibility is key to improving animal welfare. There's probably no better place to start than with children and young people. As you know, I've asked the RSPCA to carry out a piece of work on responsible dog ownership in conjunction with other partners in Wales, and a key result of that would be to provide us with options or actions to raise awareness of responsible dog ownership, and that will include the education of children and young people. In addition to this, the Wales animal health and welfare framework was launched last July, and that sets out our plan for lasting and continuing improvements in standards of animal health and welfare in all kept animals in Wales. The consultation for that framework involved work with children and young people as well to help us see through their eyes what they thought needed to be improved and how we could do it together.

Diolch yn fawr. Rwy'n hapus iawn i ymuno â chi i longyfarch pawb a oedd yn rhan o ddigwyddiad yr RSPCA. Gwn fod ein prif swyddog milfeddygol wedi gallu bod yno hefyd i gynnig ei harbenigedd i'r panel. Rwy'n cytuno â chi fod ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb yn allweddol i wella lles anifeiliaid. Mae'n debyg nad oes le gwell i ddechrau na gyda phlant a phobl ifanc. Fel y gwyddoch, rwyf wedi gofyn i'r RSPCA gyflawni gwaith ar berchnogaeth cŵn cyfrifol ar y cyd â phartneriaid eraill yng Nghymru, a chanlyniad allweddol hynny fyddai rhoi opsiynau neu gamau gweithredu i ni allu codi ymwybyddiaeth o berchnogaeth cŵn cyfrifol, a bydd hynny'n cynnwys addysgu plant a phobl ifanc. Yn ogystal, lansiwyd fframwaith iechyd a lles anifeiliaid Cymru fis Gorffennaf diwethaf, ac mae'n nodi ein cynllun ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaol yn y safonau iechyd a lles i bob anifail sy'n cael eu cadw yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer y fframwaith yn cynnwys gweithio gyda phlant a phobl ifanc hefyd i'n helpu i weld drwy eu llygaid hwy beth y credent oedd angen ei wella a sut y gallwn wneud hynny gyda'n gilydd.

14:03 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the majority of domestic pet owners are very caring, taking animal welfare matters very seriously. However, there are instances where some dog owners take a perverse pleasure in allowing their dogs to participate in the most cruel form of badger baiting. In recent events in Flintshire, residents heard bloodcurdling screams as a bull breed was left to fight a female badger, leaving her lifeless and in a pool of blood. This is simply not acceptable and has the potential to desensitise what can then become a dangerous animal, often kept in close proximity with children. How are you working with the RSPCA and the police to educate, prevent and punish those responsible for these horrific events?

Weinidog, mae'r mwyafrif o berchnogion anifeiliaid anwes yn y cartref yn ofalgar iawn, ac o ddifrif ynghylch materion lles anifeiliaid. Fodd bynnag, ceir achosion lle y mae rhai perchnogion cŵn yn cael pleser creulon o ganiatáu i'w cŵn gymryd rhan yn y math mwyaf creulon o faetio moch daear. Mewn digwyddiadau diweddar yn Sir y Fflint, clywodd trigolion sgrechfeydd a oedd yn ddigon i oeri'r gwaed wrth i gi o frîd y ci tarw gael ei adael i ymladd mochyn daear fenywaidd, gan ei gadael yn gorwedd yn ddifywyd mewn pwll o waed. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n bosibl y gallai ddadsensiteiddio cŵn o'r fath nes eu gwneud yn anifeiliaid peryglus sy'n aml yn cael eu cadw'n agos iawn at blant. Sut y byddwch yn gweithio gyda'r RSPCA a'r heddlu i addysgu, atal a chosbi'r rhai sy'n gyfrifol am y digwyddiadau erchyll hyn?

14:04 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that question. I share your disgust at what we saw in the media just last week in terms of that badger-baiting incident. It was very distressing, I think, for anyone who was reading that. I share your complete disgust and I'd encourage anybody with any knowledge to come forward and share with the police any information they might have with regard to that specific incident. As you know, Welsh Government works very closely with the third sector, including the RSPCA, Dogs Trust and others in terms of raising awareness and trying to increase the standards of welfare for all kept animals in Wales. Part of that work is through our code of practice for the various domestic animals, including dogs, which the RSPCA is able to share with dog owners who they might have concerns about in terms of whether they have the skills, or the resources and knowledge and so on, in order to look after their pets properly.

Diolch i chi am y cwestiwn. Rwy'n rhannu eich ffieidd-dod at yr hyn a welsom yn y cyfryngau'r wythnos diwethaf am y digwyddiad baetio moch daear. Rwy'n meddwl ei fod wedi peri gofid mawr i bawb a'i darllenodd. Rhannaf eich ffieidd-dod llwyr a byddwn yn annog unrhyw un sydd ag unrhyw wybodaeth am y digwyddiad i'w rhannu â'r heddlu. Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda'r trydydd sector, gan gynnwys yr RSPCA, Dogs Trust ac eraill, i godi ymwybyddiaeth a cheisio codi safonau lles ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu cadw yng Nghymru. Rhan o'r gwaith hwnnw yw ein cod ymarfer ar gyfer y gwahanol anifeiliaid domestig, gan gynnwys cŵn, a gall yr RSPCA rannu'r rhain â pherchnogion cŵn y gallent fod yn bryderus nad oes ganddynt y sgiliau neu'r adnoddau a'r wybodaeth ac yn y blaen, i edrych ar ôl eu hanifeiliaid anwes yn iawn.

After our previous discussion in questions last time as well, I'll have that meeting with the police in due course. I'd be more than happy to write to you with an update following that.

Ar ôl ein trafodaeth flaenorol mewn cwestiynau y tro diwethaf yn ogystal, byddaf yn cael y cyfarfod hwnnw gyda'r heddlu yn y man. Byddwn yn fwy na pharod i ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn hynny.

14:05 **Simon Thomas** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Deputy Minister, we quite rightly banned electric shock collars for domestic animals in Wales, but one of the side effects of that has been to make it illegal to use electric and sensor fencing that keep domestic cats and dogs off the main roads, and many responsible pet owners in Wales feel that that is limiting their ability to protect their animals from the dangers of many of our roads in Wales. In the past, a previous Deputy Minister has told me that you will, at some stage, be relooking at the regulations in order to see whether they can accommodate such useful measures. Is that still your position and can you give me an idea of the timescale by which you might be looking at reviewing these regulations?

Ddirprwy Weinidog, yn gwbl briodol, rydym wedi gwahardd coleri sioc drydanol ar gyfer anifeiliaid domestig yng Nghymru, ond un o sgil-effeithiau hynny oedd ei gwneud yn anghyfreithlon i ddefnyddio ffensys trydan a synwyryddion sy'n cadw cathod a chŵn domestig oddi ar y prif ffyrdd, ac mae llawer o berchnogion anifeiliaid anwes cyfrifol yng Nghymru yn teimlo bod hynny'n cyfyngu ar eu gallu i amddiffyn eu hanifeiliaid rhag peryglon llawer o'n ffyrdd yng Nghymru. Yn y gorffennol, dywedodd Dirprwy Weinidog blaenorol wrthyf y byddwch, ar ryw adeg, yn ailedrych ar y rheoliadau er mwyn gweld a allant ddarparu ar gyfer mesurau defnyddiol o'r fath. Ai dyna eich safbwynt o hyd ac a allwch roi syniad i mi pa bryd y byddech yn anelu i adolygu'r rheoliadau hyn?

14:06 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I met with the chair of the animal health and welfare framework group just a couple of weeks ago and discussed this specific issue with him. The group has considered the policy and they've agreed that further work should be undertaken through a literature review by an appropriate university department. My officials are currently arranging this and also planning to meet with the electronic collar manufacturers, and that meeting will take place this month.

Cyfarfûm â chadeirydd y grŵp fframwaith iechyd a lles anifeiliaid ychydig o wythnosau yn ôl a thrafodais y mater hwn gydag ef. Mae'r grŵp wedi ystyried y polisi ac maent wedi cytuno y dylid gwneud mwy o waith drwy adolygiad llenyddiaeth gan adran brifysgol briodol. Mae fy swyddogion wrthi'n trefnu hyn a hefyd yn bwriadu cwrdd â'r gwneuthurwyr coleri electronig, a bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal y mis hwn.

The aim of that piece of work is to see whether the original policy intent is being met by the current application of it and, as I've previously promised, I will be writing to all Members with an update as soon as I have more to say.

Nod y gwaith yw gweld a yw bwriad gwreiddiol y polisi yn cael ei gyflawni gan y modd y caiff ei gymhwyso ar hyn o bryd, ac fel yr addewais eisoes, byddaf yn ysgrifennu at yr holl Aelodau gyda'r wybodaeth ddiweddaraf cyn gynted ag y bydd gennyf fwy i'w ddweud.

### Ardaloedd Menter Bwyd

### Food Enterprise Zones

14:06 **William Graham** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hystyriaethau mewn perthynas â chreu ardaloedd menter bwyd? OAQ(4)0321(NR)*

*7. Will the Minister outline her considerations regarding the creation of food enterprise zones? OAQ(4)0321(NR)*

14:06 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you. My officials continue to work with the Department for Economy, Science and Transport and partner organisations to look at ways in which the existing enterprise zones in Wales could be supportive of food business development. This includes actively exploring opportunities to attract prospective companies to utilise 'food grade' property.

Diolch yn fawr. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gydag Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a sefydliadau partner i edrych ar ffyrdd y gallai'r ardaloedd menter sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru gefnogi datblygiad busnesau bwyd. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i archwilio cyfleoedd i ddenu darpar gwmnïau i ddefnyddio eiddo 'safon bwyd'.

14:07 **William Graham** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I'm grateful to the Deputy Minister for the reply. So, do you think you might consider the actual creation of an Usk valley zone, which, like many other areas of Wales, produces a rich variety and diversity of food and drink? Do you not agree that these producers would benefit from the creation of such an Usk and Wye valley food enterprise zone, and could you perhaps give some idea of a timescale?

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am yr ateb. Felly, a ydych chi'n meddwl y gallech ystyried creu ardal dyffryn Wysg sydd, fel llawer o ardaloedd eraill yng Nghymru, yn cynhyrchu amrywiaeth gyfoethog o fwyd a diod? Onid ydych yn cytuno y byddai'r cynhyrchwyr hyn yn elwa ar greu ardal fenter bwyd o'r fath ar gyfer dyffryn Wysg a dyffryn Gwy, ac a allech chi roi rhyw syniad o amserlen efallai?

14:07 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd be happy to meet the Member to hear more in detail about what his proposals might be and then perhaps we can give it some further consideration.

Byddwn yn hapus i gwrdd â'r Aelod i glywed rhagor o fanylion ynglŷn â'i gynigion a gallwn roi ystyriaeth bellach iddo wedyn efallai.

14:07 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Cardiff sustainable food co-ordinator has had great success in persuading schools and hospitals to buy local produce if it's available, but there is a great concern that there is a shortage of supplies of local fruit and vegetables, and I wondered, whether through the food enterprise zone idea or some other way, how the Government could ensure that the supply chains are there to meet the demand.

Mae cydlynydd bwyd cynaliadwy Caerdydd wedi cael llwyddiant mawr yn perswadio ysgolion ac ysbytai i brynu cynnyrch lleol pan fo ar gael, ond mae pryder mawr fod prinder cyflenwadau o ffrwythau a llysiau lleol, ac roeddwn i'n meddwl tybed sut y gallai'r Llywodraeth sicrhau bod y cadwyni cyflenwi yno i ateb y galw, naill ai drwy'r syniad o ardal fenter bwyd neu drwy ffordd arall.

14:08 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that question. The survey of public sector food purchasing in Wales 2013, which is our most recent record, stated that total public sector purchases on food and drink is estimated at around £74 million, with purchases from Welsh companies, including producers and distributors, accounting for 63 per cent of that, so that's £47 million. Sixty-eight per cent of local authority spend is sourced through Welsh companies, whilst 77 per cent of NHS spend is sourced through Welsh companies, so that does say that we are doing well, but there is significant potential to improve on that as well.

Diolch am eich cwestiwn. Roedd arolwg sector cyhoeddus Cymru 2013 ar brynu bwyd, sef ein cofnod diweddaraf, yn dweud bod cyfanswm pryniant bwyd a diod y sector cyhoeddus oddeutu £74 miliwn, a phrynu gan gwmnïau o Gymru, gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr, oedd 63 y cant o hynny, sef £47 miliwn. Mae 68 y cant o wariant awdurdodau lleol yn mynd i gwmnïau o Gymru, a 77 y cant o wariant y GIG yn mynd i gwmnïau o Gymru, felly mae hynny'n dangos ein bod yn gwneud yn dda, ond mae potensial i wella eto.

We have actions in our food and drink action plan that relate to this specific issue and our food and drink industry board will be working with Government to look for further opportunities to enable Welsh food and drink companies to supply to the public sector.

Mae gennym gamau gweithredu yn ein cynllun gweithredu ar fwyd a diod sy'n ymwneud â'r mater penodol hwn a bydd ein bwrdd diwydiant bwyd a diod yn gweithio gyda'r Llywodraeth i chwilio am gyfleoedd pellach i alluogi cwmnïau bwyd a diod Cymru i gyflenwi i'r sector cyhoeddus.

In terms of how we'll do that, we've also commissioned a report looking at the distribution infrastructure in Wales in relation to public sector procurement and that will help us seek to take action to optimise the supply chain for the benefit of both the public sector and taxpayers, but also our local producers.

O ran sut y byddwn yn gwneud hynny, rydym hefyd wedi comisiynu adroddiad i edrych ar y seilwaith dosbarthu yng Nghymru mewn perthynas â chaffael y sector cyhoeddus a bydd hynny'n gymorth i ni geisio rhoi camau ar waith i elwa i'r eithaf ar y gadwyn gyflenwi er lles y sector cyhoeddus a threthdalwyr, ond hefyd er lles ein cynhyrchwyr lleol.

14:09 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, I'm sure that you'd join me in welcoming the recent news that Tesco has committed to donating unsold food from its stores to charities, and also the commitment by Greggs, the bakery, to sign up to a Cardiff campaign that, for some time, has been urging restaurants to donate surplus food to the homeless and disadvantaged. Recently, you may be aware that the French Assemblée Nationale voted unanimously to pass legislation that will penalise larger supermarkets that decide to throw away food that could otherwise be donated to charity or, indeed, used for animal feed. Whilst there are some measures in the Environment (Wales) Bill, as it currently stands, to bear down on food waste, will you, Deputy Minister, commit to working with your colleague the Minister for Natural Resources to see if there are ways in which the Bill can be enhanced so as to further drive down this practice of tolerating food waste, while also attracting the additional benefits in terms of bearing down on carbon dioxide emissions?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn ategu fy nghroeso i'r newyddion diweddar fod Tesco wedi ymrwymo i roi bwyd heb ei werthu o'u siopau i elusennau, a'r ymrwymiad hefyd gan Greggs, y cwmni siopau bwyd wedi'i bobi, i ymuno ag ymgyrch yng Nghaerdydd a fu'n annog bwytai ers peth amser i roi bwyd dros ben i bobl ddigartref a phobl dan anfantais. Yn ddiweddar, efallai eich bod yn ymwybodol fod Assemblée Nationale Ffrainc wedi pleidleisio'n unfrydol i basio deddfwriaeth i gosbi archfarchnadoedd mwy o faint sy'n penderfynu cael gwared ar fwyd a allai fod yn mynd i elusen, neu'n wir, a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer bwydo anifeiliaid. Er bod rhai mesurau i leihau gwastraff bwyd ym Mil yr Amgylchedd (Cymru) fel y mae ar hyn o bryd, a wnewch chi ymrwymo, Ddirprwy Weinidog, i weithio gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, i weld a oes ffyrdd y gellid gwella'r Bil er mwyn lleihau'r arfer hwn o oddef gwastraff bwyd, gan ddenu'r manteision ychwanegol o ran lleihau allyriadau carbon deuocsid?

14:10 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure the Minister's heard your contribution on that specific point, but I'm keen to work with colleagues right across Government, because food does cover so many different portfolios. Just last week, I met with the Minister for Communities and Tackling Poverty and we discussed exactly the examples that you've given about Tesco and Greggs and their most recent initiatives. Also last week I met with WRAP to discuss how we can work together to further reduce food waste in Wales. There are lots of initiatives going on. Again, I'd be happy to write to you further with a list of those initiatives.

Rwy'n siŵr bod y Gweinidog wedi clywed eich cyfraniad ar y pwynt penodol hwnnw, ond rwy'n awyddus i weithio gyda chyd-Aelodau ar draws y Llywodraeth, gan fod bwyd yn cwmpasu cymaint o wahanol bortffolios. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a buom yn trafod yr union enghreifftiau a roesoch am Tesco a Greggs a'u mentrau diweddaraf. Yr wythnos diwethaf hefyd, cyfarfûm â WRAP i drafod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i leihau gwastraff bwyd ymhellach yng Nghymru. Mae llawer o fentrau ar y gweill. Unwaith eto, fe fyddwn yn hapus i ysgrifennu atoch gyda rhestr bellach o'r mentrau hynny.

### Cynllun Taliad Sylfaenol

### The Basic Payment Scheme

14:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun y taliad sylfaenol? OAQ(4)0318(NR)*

*8. Will the Minister make a statement on the basic payment scheme? OAQ(4)0318(NR)*

14:11 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government is currently consulting on payment options for the basic payment scheme in Wales. The consultation closes on 23 June and, after consideration of all responses, a decision will be made as soon as possible.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar opsiynau talu ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 23 Mehefin, ac ar ôl ystyried yr holl ymatebion, bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn gynted ag y bo modd.

14:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Minister. The move to area-based payments was always going to be challenging for constituencies such as Brecon and Radnorshire, which traditionally have been very highly stocked. It seems to me that the only fair way forward would be to undergo a mapping exercise to have a true understanding of the nature of land across Wales, but, obviously, as your letter suggests, that would take a great deal of time to achieve. Is there anything within EU regulations that would prevent you from starting off with a flat-rate tunnelled scheme, with then an option to review at mid-term review to move to a land-based scheme based on mapping, which would lead to minimal disruption in the short term but would get us to the goal of a fair system following that?

Diolch yn fawr, Weinidog. Roedd newid i daliadau sy'n seiliedig ar arwynebedd bob amser yn mynd i fod yn her i etholaethau fel Brycheiniog a Sir Faesyfed lle y ceir lefelau uchel o stoc yn draddodiadol. Mae'n ymddangos i mi mai'r unig ffordd deg ymlaen fyddai cynnal ymarfer mapio i gael gwir ddealltwriaeth o natur y tir ledled Cymru, ond yn amlwg, fel y mae eich llythyr yn awgrymu, byddai hynny'n cymryd llawer iawn o amser i'w gyflawni. A oes unrhyw beth yn rheoliadau'r UE a fyddai'n eich atal rhag dechrau gyda chynllun twnnel cyfradd safonol, gydag opsiwn i adolygu adeg yr adolygiad canol tymor i newid i gynllun tir sy'n seiliedig ar fapio, a fyddai'n arwain at ychydig bach o amharu yn y tymor byr, ond a fyddai'n cyflawni ein nod o system deg ar ôl hynny?

14:12 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, as you know, one of the options that we are consulting on at the moment would be tunnelling and redistributive payments and so on. I'll give your contribution some thought. However, there are options within the current laws as they stand in terms of things that we could do around regional payments, but they're things that just wouldn't make sense for the Welsh context, such as payments on administrative boundaries, for example. You know the effect that would have in Brecon and Radnorshire, for example. So, of the current regional options that are available to us at the moment, there aren't any, but I'll certainly give that some further thought. Although, in my letter I did outline that it would take several years to remap and probably tens of millions of pounds, so all of that has to be weighed up, particularly in the context of uncertainty over our future relationship with Europe as well.

Wel, fel y gwyddoch, un o'r opsiynau rydym yn ymgynghori arnynt hyn o bryd fyddai taliadau twnnel a thaliadau wedi'u hailddosbarthu ac yn y blaen. Byddaf yn ystyried eich cyfraniad. Fodd bynnag, ceir opsiynau yn y deddfau presennol fel y maent o ran y pethau y gallem eu gwneud ynghylch taliadau rhanbarthol, ond maent yn bethau na fyddai'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun Cymru, megis taliadau yn ôl ffiniau gweinyddol, er enghraifft. Gwyddoch yr effaith y byddai hynny'n ei chael ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, er enghraifft. Felly, nid oes gennym opsiwn ar hyn o bryd o'r opsiynau rhanbarthol presennol sydd ar gael i ni, ond byddaf yn sicr yn ystyried hynny ymhellach. Er hynny, yn fy llythyr fe amlinellais y byddai'n cymryd sawl blwyddyn i ailfapio a degau o filiynau o bunnoedd yn ôl pob tebyg, felly rhaid pwyso a mesur hyn oll, yn enwedig yng nghyd-destun yr ansicrwydd ynglŷn â'n perthynas gydag Ewrop yn y dyfodol hefyd.

14:12 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you agree that the basic payment scheme and the rural development plan are only in place because of our membership of the European Union and that without a 'yes' vote in the forthcoming referendum our rural communities and industries will see a massive drop in financial support, so threatening their future viability?

A fyddech yn cytuno mai'r unig reswm y mae cynllun y taliad sylfaenol a'r cynllun datblygu gwledig yn eu lle o gwbl yw oherwydd ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a heb bleidlais 'ie' yn y refferendwm sydd i ddod, bydd gostyngiad enfawr yn lefel y cymorth ariannol i'n cymunedau a'n diwydiannau gwledig a fydd yn bygwth eu hyfywedd yn y dyfodol?

14:13 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. The EU provides around £214 million a year for the basic payment scheme. So, there was a pillar 1 payment straight to farmers, and around 16,000 farm businesses benefit from that. Far too many of our farm businesses are heavily dependent on these payments, however, so they have to become more profitable and financially secure to have a long-term future. Our new strategic framework approach, developed jointly with the industry, seeks to help them do just that. The RDP, as I said earlier in questions, will be a key mechanism in order to help us to do that. In terms of the RDP, the EU is investing more than £355 million, and that sits alongside the £400 million that the Welsh Government is investing in our rural businesses, communities and environment through the programme. So, it really is hard to overstate how important our membership of the EU is for food and farming businesses in Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'r UE yn darparu tua £214 miliwn y flwyddyn ar gyfer cynllun y taliad sylfaenol. Felly, roedd yna daliad colofn 1 yn syth i ffermwyr, ac mae tua 16,000 o fusnesau fferm yn elwa o hynny. Mae gormod o lawer o'n busnesau fferm yn ddibynnol iawn ar y taliadau hyn, fodd bynnag, felly mae'n rhaid iddynt ddod yn fwy proffidiol ac yn fwy diogel yn ariannol i sicrhau eu dyfodol hirdymor. Nod ein fframwaith strategol newydd, a ddatblygwyd ar y cyd â'r diwydiant, yw eu helpu i wneud yn union hynny. Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig, fel y dywedais yn gynharach yn ystod y cwestiynau, yn fecanwaith allweddol er mwyn ein helpu i wneud hynny. O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, mae'r UE yn buddsoddi dros £355 miliwn, a hynny ochr yn ochr â'r £400 miliwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei fuddsoddi yn ein busnesau, ein cymunedau a'n hamgylchedd gwledig drwy'r rhaglen. Felly, mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i fusnesau bwyd a ffermio yng Nghymru.

14:14 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, how confident are you, with the close of the consultation, obviously the department giving full consideration to those consultation responses, and, in particular, then you bringing forward your announcement, that the department will be on target to deliver the payments irrespective, obviously, of the scheme that you might choose to prefer in December, as it is vital that, if there are to be any glitches in the system, as much advance kwwarning as possible is given to the industry, given the reliance of the industry, for better or for worse, on these payments to keep many rural businesses in existence?

Weinidog, ar ddiwedd yr ymgynghoriad, ac yn amlwg ar ôl i'r adran roi ystyriaeth lawn i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn benodol wedyn, pan fyddwch yn cyflwyno eich cyhoeddiad, pa mor hyderus ydych chi y bydd yr adran ar y trywydd iawn i ddarparu'r taliadau waeth pa gynllun y byddwch yn ei ddewis ym mis Rhagfyr, gan ei bod yn hanfodol fod cymaint o rybudd ymlaen llaw ag sy'n bosibl yn cael ei roi i'r diwydiant os oes unrhyw ddiffygion yn y system, o ystyried dibyniaeth y diwydiant, er gwell neu er gwaeth, ar y taliadau hyn i gadw llawer o fusnesau gwledig yn fyw?

14:14 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Farmers have continually told me that cash flow is extremely important for their businesses, and that's one of the reasons why I decided to stay with the 15 May deadline for applications to be submitted. You will know, from the statement that I've issued, that that was particularly successful this year, so I'd like to thank both the Welsh Government staff but also the industry for working alongside us to make sure that that happened, because a huge effort went into that. We're still working to make payments as early as possible within the window, and sticking to that 15 May deadline helped us do that.

Mae ffermwyr wedi dweud wrthyf dro ar ôl tro bod llif arian yn hynod o bwysig i'w busnesau, a dyna un o'r rhesymau pam y penderfynais gadw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar 15 Mai. Fe fyddwch yn gwybod, o'r datganiad rwyf wedi'i gyhoeddi, bod hynny wedi bod yn arbennig o lwyddiannus eleni, felly hoffwn ddiolch i staff Llywodraeth Cymru, ond hefyd i'r diwydiant am weithio gyda ni i sicrhau bod hynny'n digwydd, oherwydd gwnaed ymdrech enfawr ar hynny. Rydym yn dal i weithio i wneud taliadau cyn gynted ag y bo modd o fewn y cyfnod talu, ac mae glynu at ddyddiad cau 15 Mai wedi bod yn gymorth i ni wneud hynny.

14:15 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the Government will want to listen very carefully to responses to the consultation, but will the Deputy Minister agree with me that one thing the Government must not do is to veer from a format that may well have been unfair to moorland farmers in Wales to an almost diametrically opposite position, which would be equally unjust to farmers in lower-land areas, such as those in my constituency of Ynys Môn?

Yn amlwg, bydd y Llywodraeth yn awyddus i wrando'n ofalus iawn ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ond a wnaiff y Dirprwy Weinidog gytuno â mi mai un peth sy'n rhaid i'r Llywodraeth beidio â'i wneud yw newid o fformat sydd efallai wedi bod yn annheg i ffermwyr rhostir yng Nghymru i sefyllfa bron yn hollol groes, a fyddai'r un mor anghyfiawn i ffermwyr mewn ardaloedd ar dir is, fel y rhai yn fy etholaeth i yn Ynys Môn?

14:15 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't want to pre-empt the outcome of the consultation. As you say, it's important that we consider all responses to that. What I will say, and I've said it before, is that we will seek to use the rural development programme to focus the money where it's needed, in the light of what decisions are made following consideration of the consultation responses.

Nid wyf am achub y blaen ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Fel y dywedwch, mae'n bwysig i ni ystyried pob ymateb i hynny. Yr hyn a ddywedaf, ac rwyf wedi dweud hyn o'r blaen, yw y byddwn yn ceisio defnyddio'r rhaglen datblygu gwledig i ganolbwyntio'r arian ar ble mae ei angen, yng ngoleuni'r penderfyniadau a wneir ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

14:16

## 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

## 2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is from Jeff Cuthbert.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw cwestiwn 1 gan Jeff Cuthbert.

### Tai Cymdeithasol

### Social Housing

14:16 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i dai cymdeithasol yng Nghaerffili? OAQ(4)0337(CTP)*

*1. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for social housing in Caerphilly? OAQ(4)0337(CTP)*

14:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you. The social housing grant programme, housing finance grant and the major repairs allowance provide significant investment to support social housing in Caerphilly. This combination of funding is enabling Caerphilly County Borough Council to improve the existing stock and provide much-needed new social housing.

Diolch yn fawr. Mae'r rhaglen grant tai cymdeithasol, y grant cyllid tai a'r lwfans atgyweiriadau mawr yn darparu buddsoddiad sylweddol i gefnogi tai cymdeithasol yng Nghaerffili. Mae'r cyfuniad hwn o gyllid yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i wella'r stoc bresennol a darparu'r tai cymdeithasol newydd y mae gwir angen amdanynt.

14:16 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that response, Minister. Despite the negative policies of the UK Government, there is good work being done in Wales to help address the shortage of social housing. Earlier this month, Minister, you visited a social housing development at Bedwas in my constituency, where Caerphilly-based United Welsh have built 29 new affordable homes, two of which have been allocated for armed forces veterans, a move that is very much welcomed. Would you therefore agree with me, Minister, that this demonstrates the good work that we are doing here using funding from our social housing grant programme, amongst other sources, helping to alleviate the shortage of affordable and social housing, while, in this case, also providing much-needed accommodation for veterans, and this is in stark contrast to England, where the Tory Government is now using right to buy to deplete the affordable housing stock further?

Diolch yn fawr am eich ateb, Weinidog. Er gwaethaf polisïau negyddol Llywodraeth y DU, mae gwaith da'n cael ei wneud yng Nghymru i helpu i fynd i'r afael â phrinder tai cymdeithasol. Yn gynharach y mis hwn, Weinidog, fe ymweloch â datblygiad tai cymdeithasol yn Bedwas yn fy etholaeth i, lle mae United Welsh, sydd wedi'u lleoli yng Nghaerffili, wedi adeiladu 29 o gartrefi fforddiadwy newydd, gyda dau ohonynt wedi eu neilltuo ar gyfer cyn-filwyr o'r lluoedd arfog, gweithred a groesawir yn fawr. A fyddech yn cytuno â mi felly, Weinidog, fod hyn yn dangos y gwaith da rydym yn ei wneud yma gan ddefnyddio cyllid o'n rhaglen grant tai cymdeithasol, ymhlith ffynonellau eraill, yn helpu i leddfu'r prinder o dai fforddiadwy a thai cymdeithasol, ac yn yr achos hwn hefyd, yn darparu llety mawr ei angen ar gyfer cyn-filwyr, ac mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â Lloegr, lle y mae'r Llywodraeth Dorïaidd bellach yn defnyddio'r hawl i brynu i deneuo'r stoc dai fforddiadwy ymhellach?

14:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I absolutely agree with Jeff Cuthbert. I was very pleased to visit the complex you spoke about in Bedwas. I'm nery pleased we're also able to support our veterans in this way, and I actually met a partner of somebody who had served in the armed forces, and met them in their new home. I think we are doing all we can here in Wales to alleviate the housing challenges we face. We're certainly taking a very different approach to the UK Conservative Government. It doesn't mean we're complacent, though. I know there's still a lot of work to do. We're always looking for new ways of increasing housing supply. I recognise how important that is, and I think that you're absolutely right, we must protect the existing affordable housing stock that we have in Wales.

Byddwn. Cytunaf yn llwyr â Jeff Cuthbert. Roeddwn yn falch iawn o ymweld â'r cyfadeilad y siaradoch amdano ym Medwas. Rwy'n falch iawn ein bod hefyd yn gallu cefnogi ein cyn-filwyr yn y ffordd hon, ac fe gyfarfûm â phartner i rywun a oedd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, a'u cyfarfod yn eu cartref newydd. Credaf ein bod yn gwneud popeth yn ein gallu yma yng Nghymru i liniaru'r heriau sy'n ein hwynebu o ran tai. Rydym yn sicr yn mabwysiadu ymagwedd wahanol iawn i Lywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig. Ond nid yw hynny'n golygu ein bod yn hunanfodlon. Gwn fod llawer o waith i'w wneud o hyd. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gynyddu'r cyflenwad tai. Rwy'n sylweddoli pa mor bwysig yw hynny, a chredaf eich bod yn llygad eich lle, mae'n rhaid i ni warchod y stoc dai fforddiadwy sydd gennym yn barod yng Nghymru.

You'll be aware I've recently announced immediate action to reduce the right-to-buy discount from a maximum of £16,000 to £8,000 this summer, and I'm also asking officials to prepare and develop new primary legislation to end the right to buy and the right to acquire. We've also made £40 million available specifically to target investment in providing housing for individuals and families adversely affected by the very spiteful bedroom tax.

Fe wyddoch fy mod wedi cyhoeddi camau brys yn ddiweddar i leihau'r gostyngiad hawl i brynu o uchafswm o £16,000 i £8,000 yr haf hwn, ac rwyf hefyd yn gofyn i swyddogion baratoi a datblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd i roi diwedd ar yr hawl i brynu a'r hawl i gaffael. Rydym hefyd wedi rhyddhau £40 miliwn yn benodol ar gyfer targedu buddsoddiad mewn darparu tai ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd wedi eu heffeithio'n niweidiol gan dreth ystafell wely hynod o faleisus.

14:18 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last November the St James area of Caerphilly was identified as the most deprived area in Wales in the Welsh Government's Welsh index of multiple deprivation. Caerphilly council has identified many council houses in St James for improvement, as part of the Welsh housing quality standard programme. What further support can the Welsh Government provide to improve the quality of council housing in St James to tackle some of the problems highlighted in the index, please?

Weinidog, fis Tachwedd diwethaf nodwyd mai ardal Sant Iago yng Nghaerffili oedd yr ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru ym mynegai amddifadedd lluosog Llywodraeth Cymru. Mae Cyngor Caerffili wedi clustnodi llawer o dai cyngor yn ardal Sant Iago ar gyfer eu gwella, fel rhan o raglen safon ansawdd tai Cymru. Pa gymorth pellach y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i wella ansawdd y tai cyngor yn ardal Sant Iago er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau a amlygwyd yn y mynegai, os gwelwch yn dda?

14:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. Yes, I recently visited several wards in Caerphilly in relation to the improvement work they're doing to raise the homes to the Welsh housing quality standard, and it was very good to see the work that Caerphilly council is doing on the ground to meet those standards; you'll be aware of the target that all housing in Wales reaches those standards by 2020, and I'm very confident that will happen. Also, what was very, very good on one of the visits was that I met a young man from one of our most deprived communities—one of the wards you referred to—who's gained essential skills and training through WHQS contracts, so it's very good to see those schemes—it was Jobs Growth Wales—so it was very good to see all those Welsh Government schemes coming together.

Diolch yn fawr. Do, bûm yn ymweld â nifer o wardiau yng Nghaerffili yn ddiweddar mewn perthynas â'r gwaith gwella y maent yn ei wneud i godi safon y cartrefi i safon ansawdd tai Cymru, ac roedd yn braf iawn gweld y gwaith y mae cyngor Caerffili yn ei wneud ar lawr gwlad i gyrraedd y safonau hynny; fe fyddwch yn ymwybodol o'r targed i sicrhau bod holl dai Cymru yn cyrraedd y safonau hynny erbyn 2020, ac rwy'n hyderus iawn y bydd hynny'n digwydd. Hefyd, peth da iawn ar un o'r ymweliadau oedd cyfarfod â dyn ifanc o un o'n cymunedau mwyaf difreintiedig—un o'r wardiau y cyfeirioch chi atynt—sydd wedi ennill sgiliau a hyfforddiant hanfodol drwy gontractau Safon Ansawdd Tai Cymru, felly mae'n braf iawn gweld y cynlluniau hynny—Twf Swyddi Cymru oedd hwn—roedd hi'n braf iawn gweld yr holl gynlluniau Llywodraeth Cymru yn dod at ei gilydd.

Senedd.tv
Fideo Video

14:19 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that Caerphilly's local development plan is under review yet again, and the council is inundated with hundreds of sites for new housing estates in the southern part of the constituency, and Caerphilly town in particular. That town is now almost at gridlock at peak times. What support can you give to encourage builders, both social and, indeed, private, to build in the mid and northern parts of the Caerphilly constituency, please?

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod cynllun datblygu lleol Caerffili yn cael ei adolygu unwaith eto, ac mae'r cyngor yn boddi o dan y cannoedd o safleoedd ar gyfer stadau tai newydd yn ardal ddeheuol yr etholaeth, a thref Caerffili yn benodol. Mae bron â bod yn dagfa lwyr yn y dref honno yn awr ar adegau brig. Pa gymorth y gallwch ei roi i annog adeiladwyr cymdeithasol, a phreifat yn wir, i adeiladu yn ardaloedd canol a gogledd etholaeth Caerffili, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
Fideo Video

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I work very closely with house builders, and, obviously, that's a conversation that I will have with the local authority as well, alongside the Minister for Natural Resources, who is obviously responsible for that policy.

Rwy'n gweithio'n agos iawn gydag adeiladwyr tai, ac yn amlwg, mae honno'n sgwrs y byddaf yn ei chael â'r awdurdod lleol hefyd, gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, sy'n amlwg yn gyfrifol am y polisi hwnnw.

Senedd.tv
Fideo Video

### Adfywio'r Stryd Fawr

### Regenerating High Streets

14:20 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i adfywio'r stryd fawr? OAQ(4)0339(CTP)*

*2. Will the Minister outline what action the Welsh Government is taking to regenerate high streets? OAQ(4)0339(CTP)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. We're regenerating our high streets through our flagship 'Vibrant and Viable Places' programme. We're also supporting business improvement districts and town centre partnerships across Wales. A high street campaign will take place again this September, which raises the profile of our high streets and encourages additional footfall.

Diolch yn fawr. Rydym yn adfywio ein stryd fawr drwy ein rhaglen flaenllaw, 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Rydym hefyd yn cefnogi ardaloedd gwella busnes a phartneriaethau canol y dref ledled Cymru. Bydd ymgyrch y stryd fawr yn digwydd eto ym mis Medi eleni, i godi proffil ein stryd fawr ac annog rhagor o ymwelwyr.

Senedd.tv
Fideo Video

14:21 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. It is not only a wide range of retail outlets that help attract business to our high streets, but also a range of other essential services, including banks and building societies. In recent weeks, we've seen announcements by NatWest of seven branch closures across north Wales to take place in September. What discussions have you had with representatives of NatWest to ensure that communities in north Wales are not left without a counter service from one of our main high street banks?

Diolch yn fawr, Weinidog. Nid amrywiaeth eang o siopau manwerthu yn unig sy'n helpu i ddenu busnes i'r stryd fawr, ond ystod o wasanaethau hanfodol eraill hefyd, gan gynnwys banciau a chymdeithasau adeiladu. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld cyhoeddiadau gan NatWest y bydd saith o ganghennau'n cau yng ngogledd Cymru ym mis Medi. Pa drafodaethau a gawsoch gyda chynrychiolwyr NatWest i sicrhau nad yw cymunedau yng ngogledd Cymru yn colli gwasanaeth cownter o un o brif fanciau ein stryd fawr?

Senedd.tv
Fideo Video

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I absolutely agree that our town centres need to look to diversify. It's not just about retail, but it wouldn't be my position to have those discussions with banks and building societies.

Cytunaf yn llwyr fod angen i ganol ein trefi geisio arallgyfeirio. Nid yw'n ymwneud â manwerthu'n unig, ond nid fy lle i fyddai cynnal y trafodaethau hynny gyda banciau a chymdeithasau adeiladu.

Senedd.tv
Fideo Video

14:21 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Minister, would you agree that it's very important that people support local businesses, where profits made are likely to be spent in that local area, rather than supporting national chains? Will you undertake to spread best practice from one local authority area to another in terms of buy-local schemes, and also to build the profile of these schemes with a public awareness campaign?

Weinidog, a fyddech yn cytuno ei bod yn bwysig iawn i bobl gefnogi busnesau lleol, lle y mae elw a wneir yn debygol o gael ei wario yn yr ardal leol, yn hytrach na chefnogi cadwyni cenedlaethol? A wnewch chi ymrwymo i ledaenu'r arferion gorau o un ardal awdurdod lleol i'r llall o ran y cynlluniau prynu lleol, a hefyd i ddatblygu proffil y cynlluniau hyn drwy ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd?

Senedd.tv
Fideo Video

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Thank you. I know we have corresponded on this issue previously. I'm very happy to share best practice, and certainly, when I launched the high street campaign for this September, and alongside that the high street heroes awards launch in Pontypridd, it was very good to see that they developed a town centre app that could be used, which promotes and supports the concept of buying locally. I did it from an independent cafe that had been in the town for many years. I met somebody who had gone there for tea and cakes with her grandmother and has now taken her grandchildren, so it was very good to see that cafe in Pontypridd. Certainly, Colwyn Bay also, as part of its town centre partnership, has a very piece of best practice that's reinventing the Colwyn Bay high street as a twenty-first century town. They're planning events and raising profiles through marketing and public relations.

Diolch yn fawr. Gwn ein bod wedi gohebu ar y mater hwn o'r blaen. Rwy'n hapus iawn i rannu'r arferion gorau, ac yn sicr, pan lansiais ymgyrch y stryd fawr ar gyfer mis Medi eleni, a lansiad gwobrau arwyr y stryd fawr ym Mhontypridd ochr yn ochr â hynny, roedd yn braf iawn gweld eu bod wedi datblygu ap canol y dref y gellid ei ddefnyddio sy'n hyrwyddo a chefnogi'r cysyniad o brynu'n lleol. Fe'i gwnes o gaffi annibynnol a oedd wedi bod yn y dref ers blynyddoedd lawer. Cyfarfûm â rhywun a oedd wedi bod yn mynd yno am de a chacennau gyda'i mam-gu ac erbyn hyn yn mynd yno gyda'i hwyrion hi, felly roedd yn braf iawn gweld y caffi hwnnw ym Mhontypridd. Yn sicr, mae gan Fae Colwyn hefyd, fel rhan o'i bartneriaeth canol y dref, enghraifft dda o arfer gorau sy'n ailddyfeisio stryd fawr Bae Colwyn fel tref ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Maent yn cynllunio digwyddiadau a chodi proffil drwy farchnata a chysylltiadau cyhoeddus.

Senedd.tv
Fideo Video

14:23 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Weinidog, mae gennyf ddiddordeb gwybod sut rydych chi'n ennyn strydoedd i fod yn unigryw yng nghyd-destun y ffaith, er enghraifft, yng Nghastell-nedd, mae taliadau ar gyfer parcio yn uchel iawn, ac felly mae hynny'n gwthio pobl i beidio â dod mewn i'r dref, a hefyd nid yw'r cyngor lleol yn gwrando ar fasnachwyr lleol sydd yn dweud nad yw 'pop-up shops' yn eu helpu nhw yna oherwydd nad ydyn nhw'n talu trethi, ac wedyn mae'n cymryd y taliadau oddi wrth y siopau bach lleol. Beth ydych chi'n ei wneud i drio helpu'r bobl hynny sydd yn cychwyn busnesau bach yn ein hardaloedd cymunedol i fod yn llwyddiannus, gyda'r tensiynau yma sydd yn bodoli yn barod?

Minister, I'd be interested to know how you actually encourage streets to be unique in the context of the fact that, for example, in Neath, charges for parking are very high, and, therefore, that actually discourages people from coming to the town, and also the local council doesn't listen to local traders who say that pop-up shops don't help them because they don't pay rates and then it takes money from established local shops. So, what are you doing to try to help those people who are establishing small business in our communities to be successful, given these tensions that already exist?

Senedd.tv
Fideo Video

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I think the Member raises a very important point, particularly around car park charging. I visited Ammanford over the Easter recess, where the car parking charge was 50p for four hours, and they were showing the increased footfall that went alongside that. So, I think it's about having those discussions with our towns right across Wales to try and encourage that sort of diversity.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn nodi pwynt pwysig iawn, yn enwedig o ran codi tâl am barcio. Ymwelais â Rhydaman dros doriad y Pasg, lle roedd y ffi am barcio car yn 50c am bedair awr, ac roeddent yn dangos y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a ddôi yn sgil hynny. Felly, credaf fod hyn yn ymwneud â chael y trafodaethau hynny gyda'n trefi ledled Cymru i geisio annog y math hwn o amrywiaeth.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from party spokespeople. First this afternoon we have the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv Fideo Video

14:24 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwy'n credu y gwnewch chi ganfod fod y tal am barcio am bedair awr yn Rhydaman yn £1 ac nid yn 50c, gan fy mod i'n parcio yna'n gyson. Ond a gaf i droi at y cwestiynau i chi?

Minister, I believe that you will find that the charge for parking in Ammanford for 24 hours is £1 rather than 50p, because I park there regularly. But may I turn to some questions for you?

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r cynllun trwyddedu landlordiaid yn dod i fodolaeth cyn bo hir. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am ei weithredu e. Rŷm ni eisoes yn gweld, oherwydd gwendid y ddeddfwriaeth bresennol, bod yna landlordiaid gwael yn dod i mewn i'r farchnad, a bod rhai ohonyn nhw, mewn gwirionedd, yn gweithredu'n droseddol, ac mae'r awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd goruchwylio'r drefn bresennol. A ydych chi'n hyderus y byddan nhw'n gallu goruchwylio'r drefn newydd yma?

The landlords licensing scheme will come into being before long. Local authorities will be responsible for its implementation. We've already seen, because of the weakness of the current legislation, that bad landlords are coming into the market, and that some of them are actually criminal in their actions, and local authorities are finding it difficult to supervise the current system. Are you confident that they will be able to supervise this new system?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Yes, just to clarify, Presiding Officer, I said 50p for four hours, not 24 hours.

Ie, er eglurder, Lywydd, dywedais 50c am bedair awr, nid 24 awr.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

No, it's £1 for four hours, I can assure you. [Laughter.]

Na, £1 am bedair awr sy'n gywir, gallaf eich sicrhau. [Chwerthin.]

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Oh, £1 for four hours—I thought you'd said 24 hours.

O, £1 am bedair awr—roeddwn yn meddwl eich bod wedi dweud 24 awr.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

One pound for 24 hours would be a very good deal.

Byddai punt am 24 awr yn fargen dda iawn.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

In relation to the code of practice, I am aware of some concerns that have been raised with the committee on which the Member sits, and I will be meeting with Members later on to discuss those specific concerns. In ensuring that we have the code of practice, it's very important that it's correct, so I'm very keen to listen to concerns that have been raised by stakeholders and by organisations to make sure that we get it absolutely right.

O ran y cod ymarfer, rwy'n ymwybodol o rai pryderon sydd wedi'u dwyn i sylw'r pwyllgor y mae'r Aelod yn aelod ohono, a byddaf yn cyfarfod gyda'r Aelodau yn ddiweddarach i drafod y pryderon penodol hynny. Wrth sicrhau bod gennym y cod ymarfer hwnnw, mae'n bwysig iawn ei fod yn gywir, felly rwy'n awyddus iawn i wrando ar bryderon a fynegir gan randdeiliaid a sefydliadau i sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n hollol gywir.

Senedd.tv Fideo Video

14:25 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A ydych chi'n bwriadu sicrhau bod gan awdurdodau lleol fwy o adnoddau yn ariannol er mwyn gweithredu'r drefn newydd yma, neu a ydych yn rhannu fy mhryderon i, heb yr adnoddau ychwanegol hynny, y bydd y drefn newydd yma'n methu?

Do you intend to ensure that local authorities have more financial resources in order to implement this new system, or do you share my concerns that without those additional resources, this new system will fail?

14:25 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is, obviously, a concern, but the Member will be very aware of our current financial situation. However, again, that is something that we will have to discuss, because we don't want to set anything up to fail. So, it's really important that we see what resources are needed and what we can do to help.

Mae hynny'n bryder, yn amlwg, ond bydd yr Aelod yn ymwybodol iawn o'n sefyllfa ariannol bresennol. Fodd bynnag, unwaith eto, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ei drafod, oherwydd nid ydym am sefydlu unrhyw beth er mwyn iddo fethu. Felly, mae'n hynod bwysig ein bod yn gweld pa adnoddau sydd eu hangen a'r hyn y gallwn ei wneud i helpu.

14:26 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y gobaith yw, wrth gwrs, Weinidog, y bydd yna arian yn dod yn ôl i feddiant awdurdodau lleol o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd yma a'r cynllun newydd yma. A ydych chi'n mynd i glustnodi'r arian hynny ar gyfer sicrhau bod yna fwy o dai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu?

The hope, of course, Minister, is that funding will come back into the local authorities' coffers as a result of this new legislation and this new scheme. Are you going to earmark that funding in order to ensure that more social housing is built?

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly, local authorities want to build more council houses, and I think one way of doing it would be to look at the funding that's coming in; if it's possible to ring-fence it or hypothecate it, then, yes, I think that would be a way forward. It's still early days, but I'm very happy to have those conversations.

Yn sicr, mae awdurdodau lleol yn awyddus i adeiladu mwy o dai cyngor, ac rwy'n credu mai un ffordd o wneud hynny fyddai edrych ar y cyllid sy'n dod i mewn; os yw'n bosib ei neilltuo neu ei glustnodi, yna ydw, rwy'n meddwl y byddai honno'n ffordd ymlaen. Megis dechrau yr ydym o hyd, ond rwy'n hapus iawn i gael y sgyrsiau hynny.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Mark Isherwood.

Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mark Isherwood.

14:26 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fuel poverty is a social justice issue requiring person-centred support within your tackling poverty action plan, which, clearly, you have overall responsibility for in the Welsh Government. How do you respond to the call in the latest National Energy Action 'UK Fuel Poverty Monitor 2014-2015', published earlier this month, when they say that

Mae tlodi tanwydd yn fater o gyfiawnder cymdeithasol sy'n galw am gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi y mae gennych chi gyfrifoldeb cyffredinol drosto yn Llywodraeth Cymru. Sut rydych yn ymateb i'r alwad ym monitor tlodi tanwydd diweddar y DU ar gyfer 2014-2015 gan National Energy Action, a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn, pan ddywedant

'The Minister for Communities and Tackling Poverty within the Welsh Government should therefore work with other relevant departments in Wales to establish the extent to which local authorities in Wales are fulfilling their current duties in relation to housing standards and take appropriate action'?

'The Minister for Communities and Tackling Poverty within the Welsh Government should therefore work with other relevant departments in Wales to establish the extent to which local authorities in Wales are fulfilling their current duties in relation to housing standards and take appropriate action'?

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, fuel poverty sits within the portfolio of my colleague the Minister for Natural Resources, but we work very closely, as I do with all my ministerial colleagues, in relation to tackling poverty. I'm very happy to work with whatever organisation to ensure that we address the matter to the best of our abilities.

Yn amlwg, mae tlodi tanwydd yn rhan o bortffolio fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, ond rydym yn gweithio'n agos iawn, fel y gwnaf gyda fy holl gyd-Weinidogion, ar drechu tlodi. Rwy'n hapus iawn i weithio gydag unrhyw sefydliad i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r mater hyd eithaf ein gallu.

14:27 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. As you know, in evidence to committee, as I've raised with you before, the Bevan Foundation and the Joseph Rowntree Foundation support the view of the cross-party group on fuel poverty that this should also be central to the tackling poverty action plan. I know that you recognise that issues such as fuel, alongside food, are key aspects within tackling poverty. The monitor also says

Diolch yn fawr. Fel y gwyddoch, mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, fel y soniais wrthych o'r blaen, mae Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree yn cefnogi barn y grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd y dylai hyn hefyd fod yn ganolog i'r cynllun gweithredu ar drechu tlodi. Gwn eich bod yn cydnabod bod materion fel tanwydd, ochr yn ochr â bwyd, yn agweddau allweddol ar drechu tlodi. Mae'r monitor hefyd yn dweud

'The Welsh Government is responsible for transposing the new NICE guideline on "Excess winter deaths and morbidity and the health risks associated with cold homes" to Wales. The Welsh Government should signal its support for the guidelines within the Government's forthcoming energy efficiency strategy for Wales'.

'The Welsh Government is responsible for transposing the new NICE guideline on "Excess winter deaths and morbidity and the health risks associated with cold homes" to Wales. The Welsh Government should signal its support for the guidelines within the Government's forthcoming energy efficiency strategy for Wales'.

Therefore, will you work with your colleague to the left, the Minister for Natural Resources, and the health Minister to address that recommendation?

Felly, a wnewch chi weithio gyda'ch cyd-Aelod ar y chwith, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a'r Gweinidog Iechyd i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwnnw?

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'm very happy to work with both of those Ministers. Just to say, I will be publishing the tackling poverty action plan on 1 July. I'm very happy to recognise the poverties that are now coming forward, such as food poverty, as you suggest.

Gwnaf, rwy'n hapus iawn i weithio gyda'r ddau Weinidog. A gaf fi ddweud, byddaf yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi ar 1 Gorffennaf? Rwy'n hapus iawn i gydnabod yr agweddau ar dlodi sydd bellach yn cael eu cyflwyno, megis tlodi bwyd, fel yr awgrymwch.

14:28 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Again, I'm going to refer, in my final question, to the monitor, published this month. They praise the Welsh Government for maintaining the Arbed and Nest schemes, which I know fall outside your portfolio, but then they say that

Diolch yn fawr. Unwaith eto, rwy'n mynd i gyfeirio, yn fy nghwestiwn olaf at y monitor a gyhoeddwyd y mis hwn. Maent yn canmol Llywodraeth Cymru am gynnal cynlluniau Arbed a Nyth, a gwn eu bod y tu allan i'ch portffolio, ond maent yn dweud hyn:

'The offer of a "whole house approach"...has...not fully materialised in the majority of households and the future of these current schemes is uncertain'.

'The offer of a "whole house approach"...has...not fully materialised in the majority of households and the future of these current schemes is uncertain '.

Many of the aspects would fall within your portfolio, in terms of housing and social justice. They say

Byddai llawer o'r agweddau yn dod o fewn eich portffolio, o ran tai a chyfiawnder cymdeithasol. Maent yn dweud hyn:

'The Welsh Government is unlikely to meet its remaining statutory duty to eradicate fuel poverty by 2018 without immediate clarification on these points. It must act upon these areas in the coming months'.

'The Welsh Government is unlikely to meet its remaining statutory duty to eradicate fuel poverty by 2018 without immediate clarification on these points. It must act upon these areas in the coming months'.

Again, as the Minister responsible for tackling poverty for the Welsh Government, and the overarching role involving all Government departments, will you take this forward also?

Unwaith eto, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am drechu tlodi ar ran Llywodraeth Cymru, a'r rôl drosfwaol sy'n cynnwys holl adrannau'r Llywodraeth, a fyddwch yn symud hyn yn ei flaen hefyd?

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Colleagues will be aware—I've mentioned it several times—that I've now changed the structure of the tackling poverty implementation board, where we have one Minister who comes along and we discuss the policies within their portfolio. I will be inviting the Minister for Natural Resources to come to the next but one, where we can discuss the issues that you've raised around Arbed and Nest.

Byddaf. Bydd fy nghyd-Aelodau'n ymwybodol—rwyf wedi tynnu sylw at hyn sawl gwaith—fy mod bellach wedi newid strwythur y bwrdd gweithredu ar drechu tlodi, lle y daw un Gweinidog atom, a byddwn yn trafod polisïau eu portffolio. Byddaf yn gwahodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ddod i'r nesaf ond un, lle y gallwn drafod y materion rydych wedi eu crybwyll ynglŷn ag Arbed a Nyth.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.

Llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, in the last question session we had with you, you told me that you meet with chairs of credit unions on a regular basis, and in a recent letter to me you also say that your officials have regular meetings with credit union managers. Given that level of engagement, can you tell me whether the credit union liaison group, and the ministerial advisory group set up by your predecessor, is now defunct?

Weinidog, yn eich sesiwn gwestiynau ddiwethaf, fe ddywedoch wrthyf eich bod yn cyfarfod â chadeiryddion undebau credyd yn rheolaidd, ac mewn llythyr diweddar ataf, rydych hefyd yn dweud bod eich swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwyr undebau credyd. O ystyried y lefel honno o ymgysylltiad, a allwch ddweud wrthyf a yw grŵp cyswllt yr undebau credyd, a grŵp cynghori'r Gweinidog a sefydlwyd gan eich rhagflaenydd, bellach wedi darfod?

14:30 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, they are. We now have the credit union managers group, which I think is working very well. It's an all-Wales group, irrespective of trade body affiliation. It met last week, just prior to our credit union conference in Wrexham.

Mae hynny'n wir. Erbyn hyn mae gennym grŵp rheolwyr yr undebau credyd, ac rwy'n meddwl ei fod yn gweithio'n dda iawn. Mae'n grŵp ar gyfer Cymru gyfan, beth bynnag yw'r cysylltiadau â chyrff masnach. Cyfarfu yr wythnos diwethaf, ychydig cyn ein cynhadledd undebau credyd yn Wrecsam.

14:30 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. Certainly, I understand that, meeting with managers, you're able to discuss operational matters. My concern is how you tackle the strategic direction of the sector when you're dealing with managers, and not with board members of credit unions, and particularly not engaging with the various representative bodies of the credit unions. Can I ask you what is the strategic direction you're trying to take credit unions in, and what level of engagement have you had with the relevant members of credit unions in terms of taking that agenda forward?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn sicr, rwy'n deall y gallwch drafod materion gweithredol wrth gyfarfod â rheolwyr. Fy mhryder i yw sut rydych yn mynd i'r afael â chyfeiriad strategol y sector pan fyddwch yn delio â rheolwyr ac nid gydag aelodau byrddau'r undebau credyd, ac yn arbennig heb ymgysylltu â gwahanol gyrff cynrychioliadol yr undebau credyd. A gaf fi ofyn i chi i ba gyfeiriad strategol rydych yn ceisio mynd â'r undebau credyd, a pha lefel o ymgysylltiad a gawsoch gydag aelodau perthnasol yr undebau credyd o ran bwrw ymlaen â'r agenda honno?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've said several times since I've been in post that I'm very keen for credit unions to raise their profile. It's very important we get that strategy right. At the conference last week, I think it did highlight the need to look at further strategic collaboration across the sector in order that we can put the movement in a much stronger position. I think we need to be looking at any further mechanisms for engagement that need to be established for that purpose, so I've asked my officials to engage in that piece of work.

Rwyf wedi dweud sawl gwaith ers i mi fod yn y swydd fy mod yn awyddus iawn i undebau credyd godi eu proffil. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael y strategaeth honno'n gywir. Rwy'n meddwl bod y gynhadledd yr wythnos diwethaf wedi tynnu sylw at yr angen i edrych ar gydweithredu strategol pellach ar draws y sector er mwyn i ni allu rhoi'r mudiad mewn sefyllfa lawer cryfach. Rwy'n credu bod angen i ni edrych ar unrhyw fecanweithiau pellach ar gyfer ymgysylltu sydd angen eu sefydlu at y diben hwnnw, felly rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gymryd rhan yn y gwaith hwnnw.

14:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

So I take it from that, Minister, that you are looking at forming some sort of strategic group in addition to what you're doing. You'll know, as well as I do, that Welsh credit unions need to expand their active membership to include more persons from tiers 1 and 2 and increase the size of the average loan in order to generate more income. Can I ask whether that is a priority of the strategic direction you're taking, or are you looking at other issues in terms of credit unions and in terms of taking this agenda forward?

Felly rwy'n cymryd o hynny, Weinidog, eich bod yn edrych ar ffurfio rhyw fath o grŵp strategol yn ychwanegol at yr hyn rydych yn ei wneud. Byddwch yn gwybod cystal â minnau fod angen i undebau credyd yng Nghymru ehangu eu haelodaeth weithredol i gynnwys mwy o bobl o haenau 1 a 2 a chynyddu maint y benthyciad cyfartalog er mwyn cynhyrchu mwy o incwm. A gaf fi ofyn a yw hynny'n flaenoriaeth i'r cyfeiriad strategol rydych yn anelu tuag ato, neu a ydych yn edrych ar faterion eraill o ran undebau credyd ac o ran symud yr agenda hon yn ei blaen?

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The engagement of the private sector is absolutely a priority, and again, last week at the conference, we invited the private sector to come in, trying to get more of them involved with the payroll deduction scheme. I'm very pleased that Airbus, in the constituency of Carl Sargeant, has engaged with that and they're actively taking that forward, but it would be good to see many more private sector organisations involved and that's absolutely a priority for me.

Mae ymrwymiad y sector preifat yn bendant yn flaenoriaeth, ac unwaith eto, yr wythnos diwethaf yn y gynhadledd, gwahoddwyd y sector preifat i mewn, er mwyn ceisio cael mwy ohonynt yn rhan o'r cynllun didynnu o'r gyflogres. Rwy'n falch iawn fod Airbus, yn etholaeth Carl Sargeant, wedi dod yn rhan o hynny ac maent yn bwrw ymlaen â'r cynllun yn weithredol, ond byddai'n dda gweld llawer mwy o sefydliadau yn y sector preifat yn dod yn rhan o'r cynllun ac mae honno'n bendant yn flaenoriaeth i mi.

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to questions on the paper and question 3 is from Russell George.

Symudwn yn ôl yn awr at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Russell George.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

### The Vibrant and Viable Places framework

14:32 **Russell George** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid? OAQ(4)0341(CTP)*

*3. Will the Minister make a statement on the Vibrant and Viable Places framework? OAQ(4)0341(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Vibrant and Viable Places framework has several components all focusing on town centres. The three-year funding package has been allocated to 11 main VVP areas, together with seven VVP tackling poverty areas, all delivering a diverse range of interventions to suit local needs.

Mae sawl elfen i'r fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, a phob un yn canolbwyntio ar ganol trefi. Dyrannwyd y pecyn ariannu tair blynedd i 11 prif ardal Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, ynghyd â saith ardal Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer trechu tlodi, a phob un yn cyflwyno ystod amrywiol o ymyriadau sy'n addas ar gyfer anghenion lleol.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, I understand that not a single bid from Powys was successful as part of the Vibrant and Viable Places framework. What funding avenues are available to rural communities that weren't successful?

Weinidog, rwy'n deall na fu unrhyw gais o Bowys yn llwyddiannus fel rhan o'r fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Pa lwybrau ariannu sydd ar gael i gymunedau gwledig na fu'n llwyddiannus?

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

You're quite right there; none of them were successful, but we did then allocate £1.25 million to Powys in this financial year as recyclable loan funding to support bringing empty sites and buildings back into use within the town centre. I know that the local authority, of which you're of course a member, is managing this scheme locally.

Rydych chi'n hollol iawn; ni fu'r un ohonynt yn llwyddiannus, ond wedyn, fe ddyrannon ni £1.25 miliwn i Bowys yn y flwyddyn ariannol hon ar ffurf cyllid benthyciadau ailgylchadwy i gefnogi'r broses o ddod â safleoedd ac adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd yng nghanol y dref. Gwn fod yr awdurdod lleol rydych chi'n aelod ohono, wrth gwrs, yn rheoli'r cynllun yn lleol.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n siŵr y gwnaiff y Gweinidog ailymrwymo i'r egwyddor o geisio sicrhau bod pobl leol yn cael rhoi mewnbwn i'r mathau o gynlluniau a allai ddod allan o'r rhaglen, fel mae hi'n berthnasol i Gaergybi, ac sydd, heb os, yn cynnig potensial am fanteision mawr i Gaergybi. Ond, o dderbyn ein bod ni'n cefnogi'r egwyddor hwnnw, sut mae gwneud yn siŵr bod pobl nid yn unig yn cael cymryd rhan mewn rhoi mewnbwn i syniadau, ond eu bod nhw yn gwneud, ac yn cael eu hannog i wneud hynny, fel bod pobl yng Nghaergybi yn teimlo perchnogaeth o'r cynllun yma?

I'm sure the Minister will recommit to the principle of endeavouring to ensure that local people do have an input into the kinds of schemes that can emerge from the programme, as it is relevant to Holyhead, and that, no doubt, offers great potential for benefits in Holyhead. But, in accepting that we support that principle, how do we ensure that people not only are able to input their ideas, but that they do so and are encouraged to do so, so that the people of Holyhead feel ownership of this programme?

14:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That's a matter for the local authority, to engage with their local population. I know some local authorities have engaged to see what people want in their town centre, and certainly whether they want to diversify in a way. I know that there are certain local authorities that have done that, but, really, that is an issue for the local authorities. But I think it's very important that they do know what the local needs are.

Mae ymgysylltu â'r boblogaeth leol yn fater i'r awdurdod lleol. Rwy'n gwybod bod rhai awdurdodau lleol wedi rhoi camau ar waith i weld beth y mae pobl ei eisiau yng nghanol eu tref, ac yn sicr a ydynt am arallgyfeirio mewn ffordd. Rwy'n gwybod bod rhai awdurdodau lleol wedi gwneud hynny, ond mewn gwirionedd, mae'n fater i'r awdurdodau lleol. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn iddynt wybod beth yw'r anghenion lleol.

## Cefnogi'r Sector Gwirfoddol

## Supporting the Voluntary Sector

14:34 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn y Cabinet ar gefnogi'r sector gwirfoddol yng Nghymru? OAQ(4)0340(CTP)*

*4. Will the Minister outline discussions she has held with Cabinet colleagues on supporting the voluntary sector in Wales? OAQ(4)0340(CTP)*

14:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Welsh Government values the third sector and continues to provide strong support for voluntary organisations across Wales. We are working with all sectors to deliver a better Wales, and I'm confident the third sector will step up and deliver as part of our overall approach of developing a programme for action, across all ministerial portfolios.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r trydydd sector ac yn parhau i roi cefnogaeth gref i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru. Rydym yn gweithio gyda phob sector i sicrhau Cymru well, ac rwy'n hyderus y bydd y trydydd sector yn cyflawni fel rhan o'n dull cyffredinol o ddatblygu rhaglen ar gyfer gweithredu ar draws pob portffolio gweinidogol.

14:35 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to the Minister for her reply, and I'm sure, like me, she's looking forward to a good summer, when our tourist industry will flourish once again. During the last year, Welsh Royal National Lifeboat Institution lifeboats responded to 1,261 incidents, and rescued 1,244 people. The RNLI not only support our tourism industries, they are often called upon to assist in instances of urban flooding and merchant shipping. I appreciate there are many other voluntary organisations throughout Wales that provide an equally necessary public service. Minister, will you and your ministerial colleagues join me in acknowledging the work the RNLI does within the United Kingdom, and particularly in Wales, to promote this voluntary service?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am ei ateb, ac rwy'n siŵr, fel finnau, ei bod hi'n edrych ymlaen at haf da, pan fydd ein diwydiant twristiaeth yn ffynnu unwaith eto. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymatebodd badau achub Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub Cymru i 1,261 o ddigwyddiadau, ac achub 1,244 o bobl. Mae'r RNLI nid yn unig yn cefnogi ein diwydiannau twristiaeth, cânt eu galw'n aml i gynorthwyo mewn achosion o lifogydd trefol a gyda llongau masnach. Rwy'n derbyn bod llawer o fudiadau gwirfoddol eraill ledled Cymru sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus yr un mor angenrheidiol. Weinidog, a wnewch chi a'ch cyd-Weinidogion ategu fy nghydnabyddiaeth i'r gwaith y mae'r RNLI yn ei wneud yn y Deyrnas Unedig, ac yn enwedig yng Nghymru, i hyrwyddo'r gwasanaeth gwirfoddol hwn?

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. I'm sure I speak on behalf of the whole of the Welsh Government in praising the work the RNLI do all around our coast.

Gwnaf, yn bendant. Rwy'n sicr fy mod yn siarad dros bawb yn Llywodraeth Cymru wrth ganmol y gwaith y mae'r RNLI yn ei wneud yr holl ffordd o amgylch ein harfordir.

14:36 **Gwyn R. Price** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we can all have been witness to the fantastic voluntary and community organisations performing in our constituencies. Taking over facilities, and running local services, is no mean feat. In addition to dedication, groups will undoubtedly require access to support through each stage of the process. Minister, what advice and assistance will you be able to give the voluntary and community organisations in Islwyn, which are considering taking over community assets?

Rwy'n meddwl y gall pawb ohonom dystio i'r sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gwych sy'n cyflawni yn ein hetholaethau. Nid yw cymryd meddiant o gyfleusterau a rhedeg gwasanaethau lleol yn gamp hawdd. Yn ogystal ag ymroddiad, yn ddi-os bydd grwpiau angen cefnogaeth ar bob cam o'r broses. Weinidog, pa gyngor a chymorth a allwch ei roi i'r sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn Islwyn sy'n ystyried cymryd meddiant o asedau cymunedol?

14:36 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Gwyn Price. I think you raise a very important point. It is absolutely vital that communities are supported if they then want to take over the running of a small-scale organisation or a building. I think it's very important that that support and advice is there for them, particularly our more deprived communities, which might not have the skills within their community to take that piece of work forward. I am funding a small-scale support service in Gwent, for this financial year, through the Gwent Association of Voluntary Organisations, to provide expert advice for community organisations that are considering taking over community facilities. It is based on the previous good work of GAVO in Blaenau Gwent. So, I've provided funding for this and I will be looking very carefully at the effectiveness of that pilot, as we go forward. But I think, at the same time, it's really important not to raise people's expectations about the level of Government funding that we have, particularly when you think about the significant cuts we're having to our budget from the UK Government.

Diolch i chi, Gwyn Price. Rwy'n meddwl eich bod yn codi pwynt pwysig iawn. Mae'n gwbl hanfodol fod cymunedau yn cael eu cefnogi os ydynt am ysgwyddo'r gwaith o redeg sefydliad bach neu adeilad. Credaf ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael ar eu cyfer, yn enwedig ein cymunedau mwy difreintiedig, nad ydynt efallai'n meddu ar y sgiliau yn eu cymunedau i symud y gwaith yn ei flaen. Rwy'n ariannu gwasanaeth cymorth ar raddfa fach yng Ngwent am y flwyddyn ariannol hon drwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, er mwyn darparu cyngor arbenigol i sefydliadau cymunedol sy'n ystyried cymryd meddiant ar gyfleusterau cymunedol. Mae'n seiliedig ar y gwaith da blaenorol gan GAVO ym Mlaenau Gwent. Felly, rwyf wedi darparu cyllid ar gyfer hyn a byddaf yn edrych yn ofalus iawn ar effeithiolrwydd y cynllun peilot wrth i ni symud ymlaen. Ond ar yr un pryd, rwy'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn peidio â chodi disgwyliadau pobl am lefel y cyllid Llywodraeth sydd gennym, yn enwedig pan fyddwch yn meddwl am y toriadau sylweddol i'n cyllideb gan Lywodraeth y DU.

14:37 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think we all share your confidence in the third sector's ability to step up and deliver, as you mentioned in your initial answer, when working jointly with the public sector in Wales. But, Minister, is it acceptable that third sector organisations that run partnership projects with public sector bodies in Wales effectively find themselves running some of those projects at a loss, because of the imposition of a 7 per cent cap on overhead rates?

Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn rhannu eich hyder yng ngallu'r trydydd sector i gyflawni wrth weithio ar y cyd gyda'r sector cyhoeddus yng Nghymru, fel y dywedoch yn eich ateb cychwynnol. Ond Weinidog, a yw'n dderbyniol fod sefydliadau trydydd sector sy'n cyflwyno prosiectau partneriaeth â chyrff sector cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod rhedeg rhai o'r prosiectau hynny ar golled i bob pwrpas oherwydd y cap o 7 y cant a osodwyd ar gyfraddau gorbenion?

14:37 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, you know, it's very difficult. You'll appreciate the level of funding we have. I think the case that you're referring to is in the portfolio of my colleague the Minister for Natural Resources, on which I just heard him answer to you before. But I think, as a Government, we do everything we can to support the third sector. They need our support. However, we need their support too, because we know we cannot achieve everything on our own.

Wel, wyddoch chi, mae'n anodd iawn. Fe fyddwch yn gwerthfawrogi lefel y cyllid sydd gennym. Rwy'n meddwl bod yr achos y cyfeiriwch ato yn perthyn i bortffolio fy nghyd-Aelod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a chlywais ef yn eich ateb yn ei gylch o'r blaen. Ond fel Llywodraeth, rwy'n credu ein bod yn gwneud popeth a allwn i gefnogi'r trydydd sector. Mae arnynt angen ein cefnogaeth. Fodd bynnag, rydym ni angen eu cefnogaeth hwythau hefyd oherwydd gwyddom na allwn gyflawni popeth ar ein pen ein hunain.

### Tai mewn Ardaloedd Gwledig

### Housing in Rural Areas

14:38 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0342(CTP)*

*5. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for housing in rural areas? OAQ(4)0342(CTP)*

14:38 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My priority for housing in rural areas is to increase the supply of homes across all tenures to support sustainable rural communities. We have introduced Help to Buy—Wales to support homeownership, and I have approved continued funding of rural housing enabler projects to support the delivery of affordable housing.

Fy mlaenoriaeth ar gyfer tai mewn ardaloedd gwledig yw cynyddu'r cyflenwad o gartrefi ar draws pob math o ddaliadaeth i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy. Rydym wedi cyflwyno Cymorth i Brynu-Cymru i gefnogi perchentyaeth, ac rwyf wedi cymeradwyo cyllid parhaus i'r prosiectau swyddogion galluogi tai gwledig i gefnogi'r gwaith o ddarparu tai fforddiadwy.

14:38 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, ers y newidiadau i bolisi cynllunio nodyn cyngor technegol 6 yn 2010, mae hi'n bosib i awdurdodau lleol roi caniatâd ar gyfer ail dai ar ffermydd. Ond yr hyn sydd yn parhau yn broblem yw ei bod hi yn dal yn anodd i gael cwmnïau morgais i ariannu tai o'r math yna o dan gytundeb 106. Tybed a fyddech chi'n fodlon, pan ydych chi'n cwrdd â chwmnïau morgais nesaf, i godi â nhw y pwysigrwydd i gymunedau gwledig o gael yr 'access' yna i forgeisi ar gyfer tai ar ffermydd, a thai yng nghefn gwlad yn gyffredinol, o dan bolisi TAN 6.

Minister, since changes to the technical advice note 6 planning policy in 2010, it is possible for local authorities to give consent for second homes on farm, but what continues to be a problem is that it's still difficult to get mortgage companies to fund such buildings under a section 106 agreement. I wonder if you'd be willing, when you next meet with the mortgage providers, to raise with them the importance to rural communities of having that access to mortgages for homes on farms, and homes in rural areas more generally, under the TAN 6 policy.

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'll be very happy to do that. I only met with them last week, but, when I next meet them, I will certainly do that.

Byddwn yn hapus iawn i wneud hynny. Yr wythnos diwethaf yn unig y cyfarfûm â hwy ond y tro nesaf y byddaf yn eu cyfarfod, byddaf yn sicr yn gwneud hynny.

14:39 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wales's social housing stock has reduced by 45 per cent since right to buy. More than 70 per cent of respondents to a recent consultation on protecting Wales's social housing stock supported the Welsh Government in taking action on it. Minister, do you agree with me that protecting social housing stocks in Wales from right to buy is both the right way forward, and is also supported by local authorities and housing associations?

Mae stoc tai cymdeithasol Cymru wedi lleihau 45 y cant ers hawl i brynu. Roedd mwy na 70 y cant o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad diweddar ar ddiogelu stoc tai cymdeithasol Cymru yn cefnogi camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn hynny o beth. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi mai gwarchod stociau tai cymdeithasol yng Nghymru rhag hawl i brynu yw'r ffordd iawn ymlaen, a bod hynny'n cael cefnogaeth hefyd gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai?

14:39 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I certainly do. For all the reasons set out in my White Paper, we absolutely remain committed to protecting our social housing from further reduction. You're quite right: we've lost 45 per cent of our social housing in Wales since the policy came in, in 1981. The consultation that we carried out indicated that 76 per cent of respondents, including local authorities and housing associations, supported the reduction of the maximum discount and also ending right to buy. Certainly, local authorities have told me that they want to build more council houses, but they didn't want to do it if they knew that, two years down the line, those houses could be sold under right to buy.

Ydw, yn sicr. Am yr holl resymau a nodwyd yn fy Mhapur Gwyn, rydym yn dal i fod wedi ymrwymo'n llwyr i amddiffyn ein tai cymdeithasol rhag lleihad pellach. Rydych chi'n hollol iawn: rydym wedi colli 45 y cant o'n tai cymdeithasol yng Nghymru ers i'r polisi gael ei gyflwyno yn 1981. Mae'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym yn dangos bod 76 y cant o ymatebwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, yn cefnogi gostwng lefel y disgownt uchaf a rhoi diwedd hefyd ar hawl i brynu. Yn sicr, mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthyf eu bod yn awyddus i adeiladu mwy o dai cyngor, ond nid oeddent am wneud hynny pe baent yn gwybod y gellid gwerthu'r tai hynny o dan yr hawl i brynu ddwy flynedd yn ddiweddarach.

14:40 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The 2008 Joseph Rowntree report on rural housing in Wales found that the limited supply of housing and the difficulty of getting on the property ladder was

Canfu adroddiad Joseph Rowntree 2008 ar dai gwledig yng Nghymru fod y cyflenwad cyfyngedig o dai a'r anhawster o gael troed ar yr ysgol eiddo:

'threatening the social and cultural sustainability of many of its rural communities in Wales.'

'yng Nghymru wledig yn bygwth cynaliadwyedd cymdeithasol a diwylliannol nifer o'i chymunedau.'

However, the Welsh Government's 2014 evaluation of rural housing enablers in Wales found that rural housing enablers had helped to deliver just 186 homes since 2004 with just 214 more in the pipeline. How, therefore, have you responded and what action have you taken, subsequent to that 2014 evaluation for you, to the report's findings that, although the role of rural housing enablers is still seen as essential to delivering affordable rural housing and that engaging communities in meeting housing needs remains the golden thread, there's been a change in activity away from raising community awareness of rural housing need and measuring it?

Fodd bynnag, canfu gwerthusiad Llywodraeth Cymru yn 2014 o swyddogion galluogi tai gwledig yng Nghymru mai 186 o gartrefi yn unig oedd swyddogion galluogi tai gwledig wedi helpu i'w cyflwyno ers 2004 gyda 214 arall yn unig yn yr arfaeth. Sut felly rydych chi wedi ymateb a pha gamau rydych wedi'u cymryd wedi'r gwerthusiad ar eich cyfer yn 2014, ynglŷn â chanfyddiadau'r adroddiad, er bod rôl swyddogion galluogi tai gwledig yn dal i gael ei gweld fel un hanfodol i ddarparu tai gwledig fforddiadwy ac mai cynnwys cymunedau yn y gwaith o ddiwallu anghenion tai yw'r allwedd o hyd, fod newid wedi bod yn y gweithgarwch gyda llai o bwyslais ar godi ymwybyddiaeth y gymuned o'r angen am dai gwledig a'i fesur?

14:41 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

When I announced further funding for the rural housing enablers at a rural housing conference—I think it was in Cefn Lea conference centre in Newtown—it was very well received because I think the evaluation that you referred to actually demonstrated that the projects have successfully supported affordable housing delivery of over 200, I thought, new affordable homes in rural Wales. I think that having that partnership working is really important, particularly in rural areas, where the market can be a bit slower than in urban areas.

Pan fyddaf yn cyhoeddi cyllid pellach ar gyfer swyddogion galluogi tai gwledig mewn cynhadledd tai gwledig—credaf mai yng nghanolfan gynadledda Cefn Lea yn y Drenewydd y'i cynhaliwyd—cafodd dderbyniad da iawn gan fy mod yn meddwl bod y gwerthusiad y cyfeirioch chi ato wedi dangos mewn gwirionedd fod y prosiectau wedi llwyddo i gefnogi'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy gyda thros 200, rwy'n meddwl, o dai fforddiadwy newydd yng nghefn gwlad Cymru. Rwy'n meddwl bod gweithio mewn partneriaeth yn bwysig iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle y gall y farchnad fod ychydig yn arafach nag mewn ardaloedd trefol.

14:41 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, I have raised with you before the issue of the availability of accessible homes and I understand that the issue is particularly difficult in rural Wales because the identification of sites to build bespoke homes for people with very significant disabilities is a real challenge. I understand that the waiting list in the Vale of Glamorgan has now gone up from 15 to 18 since I last spoke of it, and that no new sites have been identified yet for the homes that they have promised to build. Could I ask you if you would write to local authorities in Wales and ask them what plans they have to identify sites for properly accessible homes?

Weinidog, rwyf wedi sôn wrthych o'r blaen am fater argaeledd tai hygyrch a deallaf fod y mater yn arbennig o anodd yn y Gymru wledig am fod nodi safleoedd adeiladu tai pwrpasol ar gyfer pobl ag anableddau sylweddol yn her go iawn. Deallaf fod y rhestr aros ym Mro Morgannwg bellach wedi codi o 15 i 18 ers i mi siarad amdano ddiwethaf, ac nad oes unrhyw safleoedd newydd wedi cael eu nodi eto ar gyfer y cartrefi y maent wedi addo eu hadeiladu. A gaf fi ofyn i chi a wnewch chi ysgrifennu at awdurdodau lleol yng Nghymru a gofyn iddynt pa gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer nodi safleoedd ar gyfer cartrefi hygyrch iawn?

14:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I'll be very happy to do that and then I will write to the Member.

Gwnaf, byddaf yn hapus iawn i wneud hynny a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

### Y Cynllun Dechrau'n Deg

### The Flying Start Scheme

14:42 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o'r cynllun Dechrau'n Deg yn Nhaf Elái? OAQ(4)0334(CTP)*

*6. Will the Minister make a statement on the provision of the Flying Start scheme in Taff Ely? OAQ(4)0334(CTP)*

14:42 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Rhondda Cynon Taf as a whole will benefit from over £6.8 million of funding to support the Flying Start programme in 2015-16, delivering Flying Start early years support to an estimated 3,271 children and families. This includes the refurbishment of the Rhydyfelin integrated children's centre in the Taff Ely area.

Bydd Rhondda Cynon Taf yn gyffredinol yn elwa ar dros £6.8 miliwn o gyllid i gefnogi'r rhaglen Dechrau'n Deg yn 2015-16, gan ddarparu cymorth blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg i amcangyfrif o 3,271 o blant a theuluoedd. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu canolfan blant integredig Rhydyfelin yn ardal Taf Elái.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Minister, Flying Start is incredibly valuable in areas of social deprivation—some of which are within my constituency. It makes a massive contribution to alleviating poverty, but one of the problems is, of course, the actual boundaries for the Flying Start areas that exist. So, you may have one community that is as equally affected as another, one of which is in a Flying Start area and the other isn't. What scope exists for perhaps reviewing or alleviating this particular problem in constituencies such as mine?

Weinidog, mae Dechrau'n Deg yn hynod o werthfawr mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol—ac mae rhai ohonynt yn fy etholaeth i. Mae'n gwneud cyfraniad enfawr at liniaru tlodi, ond un o'r problemau, wrth gwrs, yw ffiniau'r ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n bodoli. Felly, gallai fod gennych un gymuned sy'n cael ei heffeithio i'r un graddau ag un arall, gydag un ohonynt mewn ardal Dechrau'n Deg a'r llall heb fod mewn ardal Dechrau'n Deg. Pa le sydd yna efallai i adolygu neu liniaru'r broblem benodol hon mewn etholaethau fel fy un i?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We are supporting as many families as possible through Flying Start and, although the programme is targeted geographically, we have ensured that the targeted areas are those where there is most need. It is targeted through our use of income benefit data, provided by the Department for Work and Pensions and HM Revenue and Customs. That then provides local authorities with information on the geographical areas with the highest proportion of children under four years of age who are living in income benefit households. I do accept that that is the right way—it's right that it should be geographical. But because it is geographical, I think it's very important to recognise that local authorities do have a small amount of flexibility in relation to the outreach funding as part of their Flying Start grant. It is only a small part—I think it is 2.5 per cent of the revenue—but they do have that flexibility. We are now reaching 25 per cent of children in Wales in the age range with Flying Start. So, whilst I accept that it is geographical, I think that is the right approach at the current time.

Rydym yn cefnogi cynifer o deuluoedd â phosibl drwy Dechrau'n Deg ac er bod y rhaglen yn cael ei thargedu'n ddaearyddol, rydym wedi sicrhau mai'r ardaloedd a dargedir yw'r rhai lle y mae fwyaf o'u hangen. Mae wedi ei dargedu drwy ein defnydd o ddata budd-daliadau incwm, a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM. Mae hynny wedyn yn darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am ardaloedd daearyddol sydd â'r gyfran uchaf o blant dan bedair oed sy'n byw mewn cartrefi budd-daliadau incwm. Rwy'n derbyn mai dyna'r ffordd gywir—mae'n iawn iddo fod yn gynllun daearyddol. Ond am ei fod yn ddaearyddol, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn cydnabod bod gan awdurdodau lleol rywfaint bach o hyblygrwydd gyda'r cyllid allgymorth fel rhan o'u grant Dechrau'n Deg. Rhan fach yn unig yw hi—rwy'n credu ei fod yn 2.5 y cant o'r refeniw—ond mae ganddynt yr hyblygrwydd hwnnw. Rydym bellach yn cyrraedd 25 y cant o blant Cymru yn yr ystod oedran gyda Dechrau'n Deg. Felly, er fy mod yn derbyn ei fod yn gynllun daearyddol, rwy'n credu mai dyna'r dull cywir o weithredu ar hyn o bryd.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, in relation to the analysis of the performance of the Flying Start scheme, there's been huge variation across the areas that have Flying Start. For example, in Powys, 91 per cent of two-year-olds were exceeding the milestones that were put in place to measure success, whereas in Cardiff, for example, it was only 39 per cent. What monitoring is undertaken to make sure that the real benefit of Flying Start, where it is available, is enjoyed by the participants in the schemes and that there is greater uniformity across the areas where it's being delivered?

Weinidog, o ran y dadansoddiad o berfformiad cynllun Dechrau'n Deg, cafwyd amrywio enfawr ar draws yr ardaloedd sydd â Dechrau'n Deg. Er enghraifft, ym Mhowys, roedd 91 y cant o rai dwy oed yn rhagori ar y cerrig milltir a ddefnyddiwyd i fesur llwyddiant, ond yng Nghaerdydd, er enghraifft, 39 y cant yn unig oedd yn gwneud hynny. Pa fonitro sy'n cael ei wneud i wneud yn siŵr bod budd gwirioneddol Dechrau'n Deg, lle y mae ar gael, yn mynd i gyfranogwyr y cynlluniau a bod mwy o unffurfiaeth ar draws yr ardaloedd lle y mae'n cael ei ddarparu?

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is significant monitoring undertaken, which my officials, again, monitor very carefully, and the evaluation does suggest that the outcomes for families who are living in Flying Start areas may now be on a par with outcomes for families living in less disadvantaged areas. We know that, for those who are benefiting from the service of Flying Start, it makes a huge difference to the lives of those families, and I'm sure that you've visited settings in your own region and have seen that work.

Mae gwaith monitro sylweddol yn cael ei wneud, ac mae fy swyddogion, unwaith eto, yn monitro'n ofalus iawn, a'r gwerthusiad yn awgrymu efallai fod y canlyniadau i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cystal â chanlyniadau i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig bellach. I'r rhai sy'n cael budd o wasanaeth Dechrau'n Deg, gwyddom ei fod y gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau'r teuluoedd hynny, ac rwy'n siŵr eich bod wedi ymweld â lleoliadau yn eich rhanbarth eich hun ac wedi gweld y gwaith hwnnw.

14:45 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as my colleague, the Member for Pontypridd, highlighted, the children of Taff Ely actually benefit greatly from Flying Start, particularly the early years development stages. However, there is a problem, perhaps, when a provider of the service decides to terminate a contract, such as happened in my constituency in Croeserw and Glyncorrwg. Now, children across Wales want to benefit from this scheme, so what can the Welsh Government do to ensure that, if this happens in an area, such as in Taff Ely, you can put in place assistance and schemes so that the children don't lose out and don't have to be forced to go elsewhere to try to get some benefit and development that actually progresses their future lives?

Weinidog, fel y mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Bontypridd, wedi sôn, mae plant Taf Elái yn elwa'n fawr o Dechrau'n Deg mewn gwirionedd, yn enwedig yng nghamau datblygu'r blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, efallai fod problem pan fydd darparwr y gwasanaeth yn penderfynu terfynu contract, fel y digwyddodd yn fy etholaeth yng Nghroeserw a Glyncorrwg. Nawr, mae plant ledled Cymru yn awyddus i elwa ar y cynllun hwn, felly beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau, os yw hyn yn digwydd mewn ardal, megis Taf Elái, y gallwch roi cymorth a chynlluniau ar waith fel nad yw'r plant ar eu colled ac na fydd rhaid iddynt fynd i rywle arall i gael budd a datblygiad sy'n eu galluogi i gamu ymlaen yn eu bywydau yn y dyfodol?

14:46 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You raise a very important point and, again, I know we've corresponded on this issue, but I'd like to assure you neither the Welsh Government nor Neath Port Talbot intend to withdraw the Flying Start programme. They are looking at the way services will remain unaffected, and I will be writing to the Member in relation to that.

Rydych yn codi pwynt pwysig iawn ac unwaith eto, rwy'n gwybod ein bod wedi gohebu ar y mater hwn, ond hoffwn eich sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru na Chastell-nedd Port Talbot yn bwriadu tynnu rhaglen Dechrau'n Deg yn ôl. Maent yn edrych ar y ffordd y gall gwasanaethau barhau heb eu heffeithio, a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod mewn perthynas â hynny.

**Prosiectau Adfywio**

**Regeneration Projects**

14:46 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn mewn perthynas â phrosiectau adfywio yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0345(CTP)*

*7. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for the remainder of the Assembly term in relation to regeneration projects in west Wales? OAQ(4)0345(CTP)*

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. We are supporting proposals for business improvement districts to be established in Aberystwyth and Llanelli and funding town centre partnerships in Ammanford, Carmarthen, Fishguard and Goodwick. Llanelli is also one of our tackling poverty areas and is being awarded £1 million to deliver a mixed-use development in the town centre.

Diolch. Rydym yn cefnogi cynigion ar gyfer sefydlu ardaloedd gwella busnes yn Aberystwyth a Llanelli ac ariannu partneriaethau canol y dref yn Rhydaman, Caerfyrddin, Abergwaun ac Wdig. Mae Llanelli hefyd yn un o'n hardaloedd trechu tlodi ac mae'n cael £1 filiwn ar gyfer darparu datblygiad defnydd cymysg yng nghanol y dref.

14:47 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Pa baratoadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ar gyfer y refferendwm ar aros o fewn yr Undeb Ewropeaidd neu adael, er mwyn ystyried y posibilrwydd—ac rwy'n gobeithio na ddaw hi i hynny—ein bod ni'n colli'r nawdd Ewropeaidd ac nad oes unrhyw sicrwydd ynglŷn ag unrhyw fuddsoddiad o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i orllewin Cymru? Mae'r sefyllfa economaidd presennol yn deillio o'r ffaith bod yna ddiffyg buddsoddiad wedi bod. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi ar gyfer y sefyllfa honno ac i sicrhau parhad y prosiectau yma?

What preparations is the Welsh Government making for the referendum on remaining within the European Union or withdrawing, in considering the possibility—and I hope that this doesn't come to pass—that we lose European funding and that there is no certainty in terms of any investment from the United Kingdom Government for west Wales? The current economic situation stems from the fact that there's been a lack of investment. What is the Welsh Government doing to prepare for such a situation and to ensure the continuation of these projects?

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

This is an issue that my colleague the Minister for Finance and Government Business is taking forward on behalf of the Welsh Government. We will be having, obviously, individual meetings and bilaterals with the Minister to discuss this, but, like you, I hope it's something that doesn't happen.

Mae hwn yn fater y mae fy nghyd-Aelod, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, yn bwrw ymlaen ag ef ar ran Llywodraeth Cymru. Yn amlwg, byddwn yn cael cyfarfodydd unigol a dwyochrog â'r Gweinidog i drafod hyn, ond fel chithau, rwy'n gobeithio nad yw hynny'n mynd i ddigwydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, you'll be aware that Milford Haven Port Authority are looking to develop Milford Haven docks in my constituency, to transform the area and hopefully stimulate further investment across the entire town of Milford Haven. Given the importance of this regeneration scheme and the Haven's importance to the economy of west Wales, what discussions have you had with stakeholders regarding this scheme, and what support can the Welsh Government offer to this particular project to ensure that Milford Haven reaches its full potential?

Weinidog, fe fyddwch yn gwybod bod Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau yn ystyried datblygu dociau Aberdaugleddau yn fy etholaeth, i drawsnewid yr ardal a gobeithio ysgogi buddsoddiad pellach ar draws y dref gyfan yn Aberdaugleddau. O ystyried pwysigrwydd y cynllun adfywio hwn a phwysigrwydd yr Hafan i economi gorllewin Cymru, pa drafodaethau a gawsoch gyda rhanddeiliaid ynghylch y cynllun hwn, a pha gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i'r prosiect er mwyn sicrhau bod Aberdaugleddau yn cyrraedd ei photensial llawn?

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I haven't had any specific discussions, although I'm sure my colleague the Minister for Economy, Science and Transport has. But, if they would like to contact me, I'd be very happy to have those discussions.

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol, er fy mod i'n siŵr fod fy nghyd-Aelod, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cael trafodaethau o'r fath. Ond os hoffent gysylltu â mi, byddwn yn hapus iawn i gael y trafodaethau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

## Prinder Gofal Plant mewn Ardaloedd Gwledig

## The Shortage of Childcare in Rural Areas

14:48 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

*8. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r prinder gofal plant mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0336(CTP)*

*8. What is the Welsh Government doing to tackle the shortage of childcare in rural areas? OAQ(4)0336(CTP)*

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Improving access to high-quality, affordable childcare across the whole of Wales remains an absolute priority for the Welsh Government. Through our investment in programmes such as Flying Start, we are establishing childcare in rural areas. I'm very encouraged by innovative responses to local needs by local authorities, such as mobile crèches.

Mae gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel ledled Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth lwyr i Lywodraeth Cymru. Drwy ein buddsoddiad mewn rhaglenni fel Dechrau'n Deg, rydym yn sefydlu gofal plant mewn ardaloedd gwledig. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan ymatebion arloesol i anghenion lleol gan awdurdodau lleol, megis meithrinfeydd symudol.

Senedd.tv Fideo Video

14:49 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am yr ateb. Efallai fod y Gweinidog yn ymwybodol bod Plaid Cymru, yr wythnos diwethaf, wedi lansio adroddiad a gomisiynwyd gan Jocelyn Davies oddi wrth Chwarae Teg a oedd yn edrych ar rai o'r rhwystrau o ran menywod yn dychwelyd i'r gwaith neu fod yn rhan o'r gweithlu. Ymysg canfyddiadau'r adroddiad yna oedd y diffyg darpariaeth yn benodol ar gyfer ardaloedd cefn gwlad, a hefyd y gost, ac mae cost gofal plant, fel mae'r Gweinidog yn gwybod, yn uwch yng Nghymru a Phrydain nag ydyw yng ngweddill gwledydd yr OECD—ddwywaith, o leiaf, y gost ar gyfartaledd. Mae gen i ddiddordeb clywed am bethau megis meithrinfa ar glud, ond pa gamau eraill fedrwn ni eu cymryd gyda'r trydydd sector—y sector gwirfoddol—i ehangu y llefydd sydd ar gael i fenywod yng nghefn gwlad?

I thank the Minister for that response. The Minister may be aware that, last week, Plaid Cymru launched a report, commissioned by Jocelyn Davies and produced by Chwarae Teg, which looked at some of the barriers for women returning to work or being part of the workforce. One of the report's findings was the shortage of provision particularly in rural areas, and the cost of childcare, which, as the Minister knows, is higher in Wales and Britain than it is in the rest of the OECD countries—at least twice the cost on average. I'm interested in hearing about things such as mobile crèches, but what other steps can we take with the third sector—the voluntary sector—to enhance the childcare available to women in rural areas?

14:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I am aware of the report, and clearly childcare is a barrier for women entering or re-entering the workplace. As a Government, we don't directly fund the provision of childcare other than specific grants such as the out-of-school childcare grant; we give the funding to local authorities and it's up to local authorities to do the childcare sufficiency assessments for their local area. But, I recently met with many of the stakeholders that provide childcare, and certainly rural childcare provision is one area, and also flexibility for people who work shifts, particularly again in rural areas. So, this is ongoing work, but it is up to local authorities to ensure their CSAs are up to date and that they then address the local needs.

Ie, rwy'n ymwybodol o'r adroddiad, ac mae'n amlwg fod gofal plant yn rhwystr i fenywod rhag dechrau yn y gweithle neu ddychwelyd yno. Fel Llywodraeth, nid ydym yn ariannu'r ddarpariaeth gofal plant yn uniongyrchol ar wahân i grantiau penodol megis y grant gofal plant y tu allan i'r ysgol; rydym yn rhoi arian i awdurdodau lleol a mater i'r awdurdodau yw cyflawni asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant ar gyfer eu hardal leol. Ond yn ddiweddar, cyfarfûm â llawer o'r rhanddeiliaid sy'n darparu gofal plant, ac yn sicr mae darpariaeth gofal plant gwledig yn un maes, a hefyd hyblygrwydd i bobl sy'n gweithio sifftiau, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig unwaith eto. Felly, mae hwn yn waith parhaus, ond mater i'r awdurdodau lleol yw sicrhau bod eu hasesiadau o ddigonolrwydd gofal plant yn gyfredol a'u bod wedyn yn mynd i'r afael ag anghenion lleol.

14:51 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Canolfan Maerdy in Tairgwaith in my constituency provides access to excellent childcare in a rural area. They have, however, had to overcome substantial financial challenges to successfully establish the service and keep their charges as low as possible. Small community organisations, of course, can struggle to become self-sustaining; they do not, for example, enjoy the benefits of bulk purchasing accessible to larger companies and chains. Minister, what can the Welsh Government do to help organisations such as Canolfan Maerdy become financially sustainable?

Weinidog, mae Canolfan Maerdy yn Nhai'rgwaith yn fy etholaeth yn darparu mynediad at ofal plant rhagorol mewn ardal wledig. Fodd bynnag, maent wedi gorfod goresgyn heriau ariannol sylweddol i sefydlu'r gwasanaeth yn llwyddiannus a chadw eu costau mor isel â phosibl. Gall sefydliadau cymunedol bychain ei chael hi'n anodd bod yn hunangynhaliol wrth gwrs; nid ydynt, er enghraifft, yn gallu elwa ar fanteision swmp-brynu fel cwmnïau mwy o faint a chadwyni. Weinidog, beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu sefydliadau fel Canolfan Maerdy i fod yn gynaliadwy'n ariannol?

14:51 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. One thing we are doing currently in Canolfan Maerdy is buying nine spaces for Flying Start children in that setting. I think you raise a very important point about being self-sustaining, and those are discussions that I've had with childcare providers about the issues and barriers that they face in providing that sustainable service. I do understand the financial challenges faced in running a childcare service and, to support them, we've provided £5 million of grant funding over two years to local authorities to provide quality, affordable childcare before and after the school day, for instance. So, it could be that these settings are able to tap into that funding also.

Diolch yn fawr. Un peth rydym yn ei wneud ar hyn o bryd yng Nghanolfan Maerdy yw prynu naw o lefydd ar gyfer plant Dechrau'n Deg yn y lleoliad hwnnw. Rwy'n credu eich bod yn crybwyll pwynt pwysig iawn ynglŷn â bod yn hunangynhaliol, ac mae'r rheini'n drafodaethau rwyf wedi eu cael gyda darparwyr gofal plant ynglŷn â'r materion a'r rhwystrau sy'n eu hwynebu wrth ddarparu'r gwasanaeth cynaliadwy hwnnw. Rwy'n deall yr heriau ariannol a wynebir wrth redeg gwasanaeth gofal plant, ac i'w cefnogi rydym wedi darparu £5 miliwn o arian grant dros ddwy flynedd i awdurdodau lleol ddarparu gofal plant fforddiadwy o ansawdd cyn ac ar ôl y diwrnod ysgol, er enghraifft. Felly, mae'n bosibl y gall y lleoliadau hyn fanteisio ar y cyllid hefyd.

14:52 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Minister, the Afan valley is semi-rural in as much as its economy looks towards tourism and forestry, and the location of some of those communities are very different from the main towns in my region. You've heard of the concerns surrounding the loss, and there will be a loss—hopefully, it's a temporary loss—of the Flying Start childcare provision in Glyncorrwg and Croeserw. The problem seems to stem from a breakdown in contractual arrangements between the local authority and the provider, and it relates primarily to the affordability of quality service, something Llyr Gruffydd mentioned earlier. How much discretion do local authorities have with the Flying Start funding formula and local contract arrangements, and what oversight does Welsh Government have of Flying Start contracts between local authorities and providers?

Weinidog, mae cwm Afan yn lled-wledig yn yr ystyr bod ei economi'n dibynnu ar dwristiaeth a choedwigaeth, ac mae lleoliad rhai o'r cymunedau hyn yn wahanol iawn i'r prif drefi yn fy rhanbarth. Rydych wedi clywed am y pryderon ynghylch colli—dros dro gobeithio—darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg yng Nglyncorrwg a Chroeserw. Ymddengys bod y broblem yn deillio o fethiant trefniadau cytundebol rhwng yr awdurdod lleol a'r darparwr, ac mae'n ymwneud yn bennaf â fforddiadwyedd gwasanaeth o ansawdd, rhywbeth a grybwyllodd Llyr Gruffydd yn gynharach. Faint o ddisgresiwn sydd gan awdurdodau lleol gyda fformiwla ariannu Dechrau'n Deg a threfniadau contract lleol, a pha oruchwyliaeth sydd gan Lywodraeth Cymru dros gontractau Dechrau'n Deg rhwng awdurdodau lleol a darparwyr?

Senedd.tv
Fideo Video

14:53 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We do have a great deal of oversight; officials work very closely with local authorities to ensure the provision is appropriate. I did reassure David Rees that they're doing all they can in Neath Port Talbot to ensure there isn't a gap. They're exploring a range of different options to make sure that they can deliver that alternative and accessible Flying Start childcare from 1 September.

Mae gennym lawer iawn o oruchwyliaeth; mae swyddogion yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol. Llwyddais i dawelu meddwl David Rees eu bod yn gwneud popeth yn eu gallu yng Nghastell-nedd Port Talbot i sicrhau nad oes bwlch. Maent yn archwilio ystod o opsiynau gwahanol i wneud yn siŵr eu bod yn gallu darparu gofal plant Dechrau Deg amgen a hygyrch o 1 Medi.

Senedd.tv
Fideo Video

14:53 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwy'n cydnabod y gwaith y mae Dechrau'n Deg yn ei wneud, ond, mewn ardaloedd gwledig, mae yna lawer iawn mwy yn dibynnu ar y sector preifat, ac mae'r costau'n uwch mewn ardaloedd gwledig o achos hynny. Mae adroddiadau hefyd yn dangos bod llawer iawn o'r teuluoedd yma yn dibynnu ar gredyd treth gwaith. Yn dilyn y datganiad yr wythnos diwethaf bod Llywodraeth Prydain yn ystyried cwtogi yn sylweddol ar y credyd gwaith yna, a oes yna unrhyw asesiad wedi cael ei wneud gan y Llywodraeth ynghylch pryderon bod hyn yn mynd i achosi llawer iawn mwy o ddifrod yn y cymunedau gwledig yma?

Minister, I recognise the work that Flying Start does, but, within rural areas, a great deal depends on the private sector, and the costs are higher within rural areas as a result of that. Reports also demonstrate that many of these families are reliant on working tax credits. Following the statement last week that the British Government is considering significant cuts to those credits, has any assessment been made by the Government of the concerns that this will cause far more damage within our rural communities?

Senedd.tv
Fideo Video

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

That work is ongoing by officials at the current time.

Senedd.tv
Fideo Video

### Adfywio Tir Diffaith

### The Regeneration of Derelict Land

14:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch adfywio tir diffaith? OAQ(4)0332(CTP)*

*9. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's policy regarding the regeneration of derelict land? OAQ(4)0332(CTP)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

We recognise the importance of utilising derelict land to deliver good-quality housing across Wales. The schemes currently underway are being supported through the Welsh Government's land release programme, Vibrant and Viable Places, town centre loans and centrally retained capital schemes.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio tir diffaith i ddarparu tai o ansawdd da ledled Cymru. Mae'r cynlluniau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi drwy raglen ryddhau tir Llywodraeth Cymru, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, benthyciadau canol y dref a chynlluniau cyfalaf a gedwir yn ganolog.

Senedd.tv
Fideo Video

14:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, Minister, particularly what you said about the land release programme. You'll be as relieved, I know, as I was at campaigners' efforts to get rid of the Porthcawl silt pile—the waste dumped at the entrance to the town after dredging the harbour—was finally successful. However, Bridgend County Borough Council's longer term plans for regenerating this and an adjacent site have themselves been a source of controversy and frustration to residents for many years. What Welsh Government guideline exists to advise councils in negotiations regarding the regeneration of privately owned, or partly privately owned, land? And, in view of that ongoing exasperation with my constituents, have you satisfied yourself that that guidance is being followed in this case? Thank you.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog, yn enwedig yr hyn a ddywedoch am y rhaglen rhyddhau tir. Fe fyddwch mor falch â minnau, fe wn, fod ymdrechion ymgyrchwyr i gael gwared ar domen waddod Porthcawl—y gwastraff a adawyd wrth y fynedfa i'r dref ar ôl carthu'r harbwr—yn llwyddiannus yn y diwedd. Fodd bynnag, mae cynlluniau tymor hwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i adfywio'r fan a safle cyfagos wedi bod yn achos dadl a rhwystredigaeth ynddynt eu hunain i drigolion ers blynyddoedd lawer. Pa ganllaw sydd gan Lywodraeth Cymru i gynghori cynghorau mewn trafodaethau ynghylch adfywio tir sy'n eiddo preifat, neu dir rhannol breifat? Ac o ystyried rhwystredigaeth barhaus fy etholwyr, a ydych yn fodlon fod y canllawiau yn cael eu dilyn yn yr achos hwn? Diolch yn fawr.

14:55 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm not aware of the specific incident you mention, but if you'd like to write to me about that, I'd be very happy to look at it. But, I think the land release programme does play a very important role in utilising land, so I would have to reassure myself that that guidance is being followed.

Nid wyf yn ymwybodol o'r digwyddiad penodol rydych yn sôn amdano, ond os hoffech ysgrifennu ataf am hynny, byddwn yn hapus iawn i edrych arno. Ond rwy'n meddwl bod y rhaglen ryddhau tir yn chwarae rhan bwysig iawn o ran defnyddio tir, felly byddai'n rhaid i mi sicrhau fy hun fod y canllawiau yn cael eu dilyn.

### Allgáu Digidol

### Digital Exclusion

14:55 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw pobl yng Ngogledd Cymru yn cael eu hallgáu'n ddigidol? OAQ(4)0338(CTP)*

*10. Will the Minister outline what actions the Welsh Government is taking to ensure that residents in North Wales are not digitally excluded? OAQ(4)0338(CTP)*

14:56 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. Welsh Government's digital inclusion programme, Digital Communities Wales, commenced on 1 April. It is tackling digital exclusion by working in partnership with the organisations across north Wales best placed to reach the most digitally excluded groups in society. It is building on the success of the previous initiative, Communities 2.0.

Diolch yn fawr. Dechreuodd rhaglen cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, ar 1 Ebrill. Mae'n mynd i'r afael ag allgau digidol drwy weithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau ar draws gogledd Cymru sydd yn y sefyllfa orau i gyrraedd y grwpiau sydd wedi'u heithrio fwyaf yn ddigidol yn y gymdeithas. Mae'n adeiladu ar lwyddiant y fenter flaenorol, Cymunedau 2.0.

14:56 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Many communities in north Wales still have extremely poor digital connectivity, making everyday tasks that many of us take for granted very difficult to complete and very stressful in the workplace. A constituent of mine had recently had difficulty in dealing with the local job centre via computer, which many people are now encouraged to do. Due to poor broadband connectivity, they experienced tremendous problems in completing forms and applications. This is an essential service for many in my area. What is your Government doing to improve digital connectivity in north Wales so that large sections of our community are not put at disadvantage?

Diolch yn fawr, Weinidog. Mae cysylltedd digidol llawer o gymunedau yn y Gogledd yn dal i fod yn eithriadol o wael, gan wneud y tasgau bob dydd y mae llawer ohonom yn eu cymryd yn ganiataol yn anodd iawn eu cwblhau ac yn peri llawer o straen yn y gweithle. Yn ddiweddar, cafodd un o fy etholwyr anhawster wrth ymdrin â'r ganolfan waith leol drwy gyfrifiadur, fel y mae llawer o bobl bellach yn cael eu hannog i wneud. Oherwydd cysylltedd band eang gwael, maent yn cael problemau aruthrol wrth lenwi ffurflenni a cheisiadau. Dyma wasanaeth hanfodol i lawer yn fy ardal. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i wella cysylltedd digidol yng ngogledd Cymru fel nad yw rhannau mawr o'n cymuned yn cael eu rhoi dan anfantais?

14:57

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, this is a matter for the Minister for Economy, Science and Transport. I will ask the Minister to write to you.

Wel, mae hwn yn fater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch.

14:57

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae llawer iawn i'w ganmol am waith BT yn uwchraddio cysylltiadau band llydan, ond a gaf i dynnu sylw'r Gweinidog at un sefyllfa yn fy etholaeth i, ym mhentref Nasareth, lle mae'r post wedi cau ond mae yna bost symudol yn dod yno'n wythnosol? Yn anffodus, oherwydd cysylltiadau band llydan diffygiol, nid yw'n bosib gwneud unrhyw waith gyda'r fan symudol—oherwydd diffyg cysylltiadau—ac nid oes unrhyw berswâd, hyd ag y gallaf i ei weld, ar Swyddfa'r Post nag ar BT yn llwyddo i ddatrys y sefyllfa. Buaswn i'n gwerthfawrogi petai'r Gweinidog yn edrych ar y sefyllfa, achos, mewn gwirionedd, rydych chi'n amddifadu ardal wledig gymharol ddifreintiedig o wasanaeth sylfaenol.

There's a great deal to be praised in the work of BT in upgrading broadband connections, but can I draw the Minister's attention to one case in my constituency, in the village of Nasareth, where the post office has closed but where there is now a mobile post office available on a weekly basis? Unfortunately, due to poor broadband connections, it's impossible to carry out any work on that mobile van—it's the lack of connectivity—and, as far as I can see, attempts to persuade the Post Office and BT to resolve the situation have failed. I would be grateful if the Minister would look at the situation because, in fact, you are depriving a relatively deprived rural area of a basic service.

14:58

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, again, this would be an issue for the Minister for Economy, Science and Transport. You'll be aware of the funding that has been invested in north Wales in Superfast Cymru, but I will ask the Minister to write directly to the Member.

Wel, unwaith eto, byddai hwn yn fater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r cyllid a fuddsoddwyd yng ngogledd Cymru yn Cyflymu Cymru, ond gofynnaf i'r Gweinidog ysgrifennu'n uniongyrchol at yr Aelod.

14:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:58

# 3. Datganiad: Dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru

# 3. Statement: the Future of Local Government in Wales

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move on to item 3, which is a statement by the Minister for Public Services on the future of local government in Wales, and I call on the Minister, Leighton Andrews.

Symudwn ymlaen yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru, a galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

14:58

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, this morning, I issued a written statement that set out the Government's initial views on the consultation responses to the 'Power to Local People' White Paper. I also announced the Welsh Government's preference for the future configuration of local government in Wales. Maps, with two options in respect of north Wales, were published alongside this.

Lywydd, y bore yma, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig sy'n nodi barn gychwynnol y Llywodraeth ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol'. Cyhoeddais hefyd ddewis Llywodraeth Cymru o ran cyfluniad llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru. Gyda hwn, cyhoeddwyd mapiau, gyda dau opsiwn ar gyfer y gogledd.

Earlier this year we held a consultation on our 'Reforming Local Government: Power to Local People' White Paper. There were over 700 consultation responses to the White Paper itself and over 3,000 responses to the opinion poll. In addition, 38 engagement events were held across Wales with local authorities and stakeholders, with over 600 individuals attending. All 22 local authorities responded, and 200 town and community councils did. That level of engagement demonstrates to me that people care deeply about local services and the future of local government. We need to harness the enthusiasm and engagement witnessed during the consultation as we move forward and work with communities in designing future services.

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'. Cafwyd dros 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ei hun a thros 3,000 o ymatebion i'r arolwg barn. Yn ogystal, cynhaliwyd 38 o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid, a fynychwyd gan dros 600 o bobl. Ymatebodd pob un o'r 22 awdurdod lleol, a 200 o gynghorau tref a chymuned. Mae'r lefel honno o ymgysylltiad yn dangos i mi fod pobl yn poeni'n fawr am wasanaethau lleol a dyfodol llywodraeth leol. Mae angen i ni harneisio'r brwdfrydedd a'r ymgysylltiad a welwyd yn ystod yr ymgynghoriad wrth i ni symud ymlaen a gweithio gyda chymunedau i lunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Our full analysis of responses to the consultation will inform the draft local government mergers and reform Bill, which we will publish for consultation in November this year. The intention would then be to introduce legislation into the Assembly following the Assembly elections in 2016.

Bydd ein dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio'r Bil uno a diwygio llywodraeth leol drafft, y byddwn yn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yn ei gylch ym mis Tachwedd eleni. Y bwriad wedyn fyddai cyflwyno deddfwriaeth gerbron y Cynulliad yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

The White Paper itself covered a wide range of themes. Our initial analysis of the consultation responses has shown agreement and consensus on a range of issues in the White Paper. For example, local government has argued for some time that a general power of competence is needed. We will therefore take forward the general power of competence as part of the mergers and reform Bill. There was also strong support for a public services staff commission. This work is being taken forward and our non-statutory commission will be in place this autumn with a full and challenging agenda from the outset.

Mae'r Papur Gwyn ei hun yn cynnwys amrywiaeth eang o themâu. Mae ein dadansoddiad cychwynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dangos cytundeb a chonsensws ar ystod o faterion yn y Papur Gwyn. Er enghraifft, mae llywodraeth leol wedi dadlau ers tro fod angen pŵer cymhwysedd cyffredinol. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol fel rhan o'r Bil uno a diwygio. Roedd cefnogaeth gref hefyd i gomisiwn staff gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu a bydd ein comisiwn anstatudol ar waith yn ystod yr hydref gydag agenda lawn a heriol o'r cychwyn cyntaf.

While there was much in the White Paper that local government and others supported, there were also clear views against some of the proposals, including limiting the length of continual service of an elected member to 25 years, and that of a leader or cabinet member to 10 years. Having listened to a range of views, including the arguments of younger councillors who've spoken passionately of their commitment to working for their communities throughout their lives, I've decided not to pursue this idea.

Er bod llawer yn y Papur Gwyn a gâi ei gefnogi gan lywodraeth leol ac eraill, cafwyd safbwyntiau clir hefyd yn erbyn rhai o'r argymhellion, gan gynnwys cyfyngu hyd gwasanaeth parhaus aelod etholedig i 25 mlynedd, a hyd gwasanaeth arweinydd neu aelod o gabinet i 10 mlynedd. Ar ôl gwrando ar amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys dadleuon cynghorwyr iau sydd wedi siarad yn angerddol am eu hymrwymiad i weithio dros eu cymunedau drwy gydol eu bywydau, rwyf wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd y syniad hwn.

There were also strong representations against the proposal to enable local government elections to be undertaken in phases. Many argued that this would lead to political instability in councils, with administrative and governance complications, and would also be an additional burden on electoral administration, adding further to an already crowded electoral calendar. I think these are legitimate concerns and, as a result, I don't intend to pursue this proposal.

Roedd yna hefyd sylwadau cryf yn erbyn y cynnig i'w gwneud hi'n bosibl cynnal etholiadau llywodraeth leol fesul cam. Dadleuodd llawer y byddai hyn yn arwain at ansefydlogrwydd gwleidyddol mewn cynghorau, gyda chymhlethdodau o ran gweinyddiaeth a llywodraethu, a byddai hefyd yn faich ychwanegol ar weinyddiaeth etholiadol, gan ychwanegu ymhellach at galendr etholiadol sydd eisoes yn orlawn. Rwy'n meddwl bod y rhain yn bryderon dilys ac o ganlyniad, nid wyf yn bwriadu mynd ar drywydd y cynnig hwn.

Finally, on the competency test for community councils, there was a feeling that the threshold of £200,000 was too high for some community councils, and I've therefore decided to omit this test from the provisions in the Bill.

Yn olaf, ar y prawf cymhwysedd ar gyfer cynghorau cymuned, roedd teimlad fod y trothwy o £200,000 yn rhy uchel i rai cynghorau cymuned, ac rwyf felly wedi penderfynu hepgor y prawf hwn o'r darpariaethau yn y Bil.

In terms of the number of elected members the newly merged authorities might have, I propose that the current cap of 75 elected members per authority is removed and a higher cap considered. I accept that, otherwise, larger councils could mean councillors representing an unreasonably large number of electors. I therefore intend to consult shortly on the directions I intend to make to the Local Democracy and Boundary Commission for Wales and look forward to welcoming views on what an appropriate cap for the number of councillors might be for the new authorities best to deliver effective representation and democratic governance.

O ran nifer yr aelodau etholedig y gallai'r awdurdodau sydd newydd uno eu cael, rwy'n cynnig bod y cap presennol o 75 o aelodau etholedig fesul awdurdod yn cael ei ddileu a'n bod yn ystyried cap uwch. Rwy'n derbyn hynny; fel arall, gallai cynghorau mwy o faint olygu bod cynghorwyr yn cynrychioli nifer afresymol o fawr o etholwyr. Felly, rwy'n bwriadu ymgynghori cyn hir ar y cyfarwyddiadau rwy'n bwriadu eu gwneud i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac yn edrych ymlaen at groesawu sylwadau ar beth fyddai'n gap mwyaf priodol ar nifer cynghorwyr yr awdurdodau newydd er mwyn iddynt ddarparu cynrychiolaeth a threfn lywodraethu ddemocrataidd effeithiol.

Turning to the Welsh Government's preference for the future configuration of local government in Wales, we have consistently stated that, while Williams option 1 was our preferred option, we remained open to considering alternatives. The case for fewer local authorities in Wales is compelling and widely accepted. We cannot afford to miss this opportunity to reform and reshape our councils to drive funding into improving front-line services. We will drive down the cost of politics and administration in local government. Last week's KPMG report illustrated the scope for savings. This announcement provides further clarity on the future configuration of local authorities in Wales. It sets out our preference for the future structure in south, mid and west Wales, while facilitating further discussion around north Wales. The case in north Wales is finely balanced between two or three local authorities. We therefore feel that there is a case for a further debate and would welcome views.

Gan droi at ddewis Llywodraeth Cymru o ran cyfluniad llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru, rydym wedi datgan yn gyson, er mai Williams opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffafriem, ein bod yn parhau'n agored i ystyried dewisiadau eraill. Mae'r achos dros lai o awdurdodau lleol yng Nghymru yn rymus ac yn cael ei dderbyn yn eang. Ni allwn fforddio colli'r cyfle i ddiwygio ac i ail-lunio ein cynghorau er mwyn gyrru cyllid i wella gwasanaethau rheng flaen. Byddwn yn lleihau cost gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol. Dangosodd adroddiad KPMG yr wythnos diwethaf lle y gellid sicrhau arbedion. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi mwy o eglurder ar gyfluniad awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n nodi'r hyn a ffafriwn o ran y strwythur yn ne, canolbarth a gorllewin Cymru yn y dyfodol, gan hwyluso trafodaeth bellach ynghylch gogledd Cymru. Mae'r achos yn y gogledd wedi'i gydbwyso'n ofalus rhwng dau neu dri awdurdod lleol. Felly, rydym yn teimlo bod yna achos dros gael trafodaeth bellach a byddem yn croesawu barn ar hyn.

I want to emphasise this is not a final decision. It is the next phase in our public debate. Following that, we will publish and consult on our draft mergers and reform Bill in the autumn. This will include further formal consultation on our proposals for local authority mergers and include a regulatory impact assessment.

Rwyf am bwysleisio nad yw hwn yn benderfyniad terfynol. Hwn yw'r cam nesaf yn ein dadl gyhoeddus. Yn dilyn hynny, byddwn yn cyhoeddi ac yn ymgynghori ar ein Bil uno a diwygio drafft yn yr hydref. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol pellach ar ein cynigion ar gyfer uno awdurdodau lleol ac asesiad effaith rheoleiddiol.

15:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a long list of speakers, so I'm going to ask you very nicely to keep your preamble very short and stick to the questions, because I'd like to get through everyone if we have the time. Janet Finch-Saunders.

Mae gennyf restr hir o siaradwyr, felly rwy'n mynd i ofyn i chi'n garedig i gadw eich rhagymadrodd yn fyr iawn a chadw at y cwestiynau, oherwydd hoffwn fynd drwy bawb os oes gennym amser. Janet Finch-Saunders.

15:04

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm not really sure I should say I 'welcome' the statement, but it is actually quite useful now to know exactly what the Welsh Labour Government's plans are for local government. In terms of the second statement that you've delivered—talking about 700 consultation responses, 38 engagement events, and 3,000 responses—you go on to make a point about the level of engagement:

Diolch i chi, Lywydd. Nid wyf yn siŵr iawn y dylwn ddweud fy mod yn 'croesawu' y datganiad, ond mewn gwirionedd mae'n eithaf defnyddiol gwybod yn union bellach beth yw cynlluniau Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer llywodraeth leol. O ran yr ail ddatganiad a gyflwynwyd gennych—yn sôn am 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 38 o ddigwyddiadau ymgysylltu, a 3,000 o ymatebion—rydych yn mynd ymlaen i wneud pwynt am lefel yr ymgysylltiad:

'That level of engagement demonstrates to me that people care deeply about local services and the future of local government.'

'Mae'r lefel honno o ymgysylltiad yn dangos i mi fod pobl yn poeni'n fawr am wasanaethau lleol a dyfodol llywodraeth leol.'

And, yes, we are talking about the very same local services that you are wishing now to centralise like never before.

Ac ydym, rydym yn sôn am yr union wasanaethau lleol rydych yn dymuno eu canoli'n awr fel na wnaed erioed o'r blaen.

Your full analysis of responses to the consultation will inform the draft local government mergers and reform Bill, and you mention that you'll publish the consultation in November. I think it would be useful for us as an Assembly so that we can scrutinise every single aspect of this if you could publish the responses to that consultation now. I note from the Library that it's not available as of today.

Bydd eich dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio'r Bil uno a diwygio llywodraeth leol drafft, ac rydych yn sôn y byddwch yn cyhoeddi'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd. Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol i ni fel Cynulliad, er mwyn i ni allu craffu ar bob agwedd ar hyn, pe gallech gyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw yn awr. Nodaf o'r Llyfrgell nad yw ar gael o heddiw ymlaen.

Moving on, I'm very glad that you have actually, so far, listened as regards the White Paper—talking about continual service of an elected member to 25 years, that you're now going to have second thoughts on that—and also about strong representations against the proposal to enable local government elections to be undertaken in phases. It is really good that you do appear to be listening to some members of the community. However, I do have concerns that, in any form of local government reorganisation, I would've thought that you should have some idea—and I have asked you in written Assembly questions—as to what your Government's preferred elector-to-elected member ratio is. Of course, in England, the majority there is around 3,500 electors per elected member. Judging from your statement, there seems to be a distinct lack of clarity. I am not alone in this Chamber, and certainly outside, in thinking that this has been a very shambolic process from the start. The finish, of course, will be decided upon following the next Assembly elections because, currently, you simply don't have the political consensus or mandate to deliver such a radical change.

Gan symud ymlaen, rwy'n falch iawn eich bod wedi gwrando hyd yn hyn o ran y Papur Gwyn—a siarad am wasanaeth parhaus aelod etholedig hyd at 25 mlynedd, eich bod yn awr yn mynd i ailfeddwl ynglŷn â hynny—a hefyd am sylwadau cryf yn erbyn y cynnig i'w gwneud hi'n bosibl cynnal etholiadau llywodraeth leol fesul cam. Mae'n wirioneddol dda eich bod i'ch gweld yn gwrando ar rai aelodau o'r gymuned. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon, am y byddwn wedi meddwl y dylai fod gennych ryw syniad mewn unrhyw fath o ad-drefnu llywodraeth leol—ac rwyf wedi gofyn i chi mewn cwestiynau Cynulliad ysgrifenedig—ynglŷn â pha gymhareb a ffafrir gan eich Llywodraeth o ran nifer etholwyr i bob aelod etholedig. Wrth gwrs, yn Lloegr, mae'r rhan fwyaf ohonynt yno oddeutu 3,500 o etholwyr i bob aelod etholedig. A barnu o'ch datganiad, mae'n ymddangos bod yna ddiffyg eglurder amlwg. Nid wyf ar fy mhen fy hun yn y Siambr hon, ac yn sicr oddi allan iddi, yn meddwl bod hon wedi bod yn broses anniben iawn o'r dechrau. Penderfynir ar y ffurf derfynol, wrth gwrs, ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad, oherwydd, ar hyn o bryd, yn syml iawn, nid oes gennych y consensws na'r mandad gwleidyddol i gyflwyno newid mor radical.

The news today and the interesting maps that you've produced will send shock waves across all those who work at every level and at the very heart of our democratically elected councils, those who tirelessly give of their best each and every day whilst having endured, under your Labour leadership, years of a failed job evaluation process, years of a failed collaboration exercise, and, now, what we predict to be an accident waiting to happen—a failed reorganisation process.

Bydd newyddion heddiw a'r mapiau diddorol rydych wedi eu cynhyrchu yn peri dychryn i bawb sy'n gweithio ar bob lefel ac yng nghalon ein cynghorau a etholir yn ddemocrataidd, sy'n rhoi o'u gorau'n ddiflino bob dydd er eu bod, dan eich arweinyddiaeth Lafur chi, wedi dioddef blynyddoedd o broses werthuso swyddi aflwyddiannus, blynyddoedd o ymarfer cydweithio aflwyddiannus, a bellach, yr hyn y rhagwelwn ei bod yn ddamwain yn aros i ddigwydd—proses ad-drefnu aflwyddiannus.

Will the Minister now please tell this Chamber where on earth you're going to get the money from to fund such folly? We know that the failed voluntary merger bid between Conwy and Denbighshire, for instance, with estimated costs of reorganisation, was in the region of £14 million alone, and yet, when Conwy County Borough Council entered with their expression of interest, in all good faith, and asked for £300,000 the bid was simply rejected.

A wnaiff y Gweinidog ddweud wrth y Siambr hon yn awr ble ar y ddaear rydych chi'n mynd i gael yr arian i gyllido ffolineb o'r fath? Gwyddom fod y cais aflwyddiannus i uno'n wirfoddol rhwng Conwy a Sir Ddinbych, er enghraifft, gyda chostau ad-drefnu amcangyfrifedig, oddeutu £14 miliwn ar ei ben ei hun, ac eto, pan gyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu datganiad o ddiddordeb, gyda phob ewyllys da, a gofyn am £300,000 cafodd y cais ei wrthod.

We know from taking evidence in committee that the Local Democracy and Boundary Commission for Wales is going to struggle going out to consultation within our communities. I don't know whether Members are aware that there are even now thoughts from the boundary commission of not actually going out to consultation. How on earth is this transparent and open democracy? How on earth are they expected to do it within the predicted timescales? As I've also mentioned, we don't know what your elected member-to-electorate ratio is.

Gwyddom o gymryd tystiolaeth yn y pwyllgor fod Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn mynd i'w chael hi'n anodd cynnal ymgynghoriad yn ein cymunedau. Nid wyf yn gwybod a yw'r Aelodau'n ymwybodol fod y comisiwn ffiniau bellach hyd yn oed yn ystyried peidio â chynnal ymgynghoriad. Sut ar y ddaear y mae hyn yn ddemocratiaeth dryloyw ac agored? Sut ar y ddaear y mae disgwyl iddynt ei wneud o fewn yr amserlenni a ragwelir? Fel y crybwyllais hefyd, nid ydym yn gwybod beth yw eich cymhareb o ran nifer etholwyr i bob aelod etholedig.

This lame excuse for reform will see us jump back in time to a structure long confined to the history books. Let's just hope that you are not given a political mandate next May that would see you responsible for the decimation and centralisation of our local government services here in Wales.

Bydd yr esgus cloff hwn o ddiwygio yn peri i ni neidio'n ôl mewn amser i strwythur sydd wedi'i hen gyfyngu i'r llyfrau hanes. Gadewch i ni ond gobeithio na chewch fandad gwleidyddol fis Mai nesaf a fyddai'n eich gwneud yn gyfrifol am ddifa a chanoli ein gwasanaethau llywodraeth leol yma yng Nghymru.

15:09

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm very glad that the Conservatives' spokesperson did recognise in the course of her remarks that I had listened to the consultation and that we have made a number of changes to our proposals as a result of the consultation. Let me start by saying that, of course, we will publish the responses to the consultation. She can be assured of that. Our White Paper that we published in February was very much about decentralisation. It's about making the suggestions of granting the general power of competence to local authorities and giving them the powers and responsibilities that they deserve and that they have requested. So, it's not about centralisation.

Rwy'n falch iawn fod llefarydd y Ceidwadwyr wedi cydnabod yn ystod ei sylwadau fy mod wedi gwrando ar yr ymgynghoriad a'n bod wedi gwneud nifer o newidiadau i'n hargymhellion o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud wrth gwrs y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Gall fod yn sicr o hynny. Roedd ein Papur Gwyn a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror yn ymwneud yn fawr iawn â datganoli. Mae'n ymwneud â gwneud awgrymiadau ynghylch rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol a rhoi'r pwerau a'r cyfrifoldebau y maent yn eu haeddu ac y maent wedi gofyn amdanynt. Felly, nid yw'n ymwneud â chanoli.

In respect of the issue that she raises of the ratio of electors to elected members, I said in my statement that we would want to consult further on that. I think that we will do that in the context of making the judgment about what should be an appropriate cap on the number of councillors in an authority.

O ran y mater a gododd ynghylch y gymhareb o etholwyr i aelodau etholedig, dywedais yn fy natganiad y byddem eisiau ymgynghori ymhellach ar hynny. Rwy'n meddwl y byddwn yn gwneud hynny yng nghyd-destun ffurfio barn ynghylch yr hyn a ddylai fod yn gap priodol ar nifer y cynghorwyr mewn awdurdod.

She asked about finances, and I suggest that she reads the report that I published on Friday from KPMG, which illustrated how savings of £151 million in administration in local government in Wales could be achieved if local authorities approached the best in practice in the UK. I'm pleased to see that two authorities—Conway and Rhondda Cynon Taff—were picked out for having very low administrative costs, but others, clearly, are spending well in excess of them. So, there are significant savings to be found.

Gofynnodd am y trefniadau ariannol, ac awgrymaf ei bod yn darllen yr adroddiad a gyhoeddais ddydd Gwener gan KPMG, a oedd yn dangos sut y gellid sicrhau arbedion o £151 miliwn mewn gweinyddiaeth llywodraeth leol yng Nghymru os yw awdurdodau lleol yn dod yn agos at sicrhau'r arferion gorau yn y DU. Rwy'n falch o weld bod dau awdurdod—Conwy a Rhondda Cynon Taf—wedi eu nodi fel rhai sydd â chostau gweinyddol isel iawn, ond mae eraill, yn amlwg, yn gwario llawer iawn mwy na'r rhain. Felly, mae yna arbedion sylweddol i'w cael.

Llywydd, this has been a transparent process. The Williams commission was appointed in April 2013. It reported in January 2014. There was then an opportunity for the public and for local authorities and others to make their views clear to the Government before a White Paper was published in July 2014. Only half of local authorities in Wales responded to that White Paper when there was a consultation on that. We have had a subsequent consultation on the White Paper I published in February, and I'm delighted that every local authority in Wales decided to respond to that consultation. This process has been transparent throughout.

Lywydd, mae hon wedi bod yn broses dryloyw. Penodwyd comisiwn Williams ym mis Ebrill 2013. Cyflwynodd ei adroddiad yn Ionawr 2014. Roedd yna gyfle i'r cyhoedd wedyn, a'r awdurdodau lleol ac eraill i leisio barn glir i'r Llywodraeth cyn cyhoeddi Papur Gwyn ym mis Gorffennaf 2014. Hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru a ymatebodd i'r Papur Gwyn pan gafwyd ymgynghoriad arno. Rydym wedi cael ymgynghoriad dilynol ar y Papur Gwyn a gyhoeddais ym mis Chwefror, ac rwyf wrth fy modd fod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi penderfynu ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. Mae'r broses hon wedi bod yn dryloyw ar ei hyd.

15:11

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, a gaf i groesawu yn fawr iawn y datganiad hir ddisgwyliedig yma? Fe gyhoeddwyd adroddiad comisiwn Williams ar ddechrau 2014, ac fe ddywedodd Paul Williams yn glir iawn bryd hynny os oedd y Llywodraeth i weithredu yr argymhellion, y dylen nhw wneud hynny erbyn y Pasg. Fe wnaeth y Prif Weinidog ymrwymo i wneud hynny, ac wedyn i'w wneud e erbyn yr haf. Ddeunaw mis yn ddiweddarach, rŷm ni o'r diwedd wedi cael ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw.

Minister, may I warmly welcome this long-awaited statement? The Williams commission report was published at the beginning of 2014, and Paul Williams stated very clearly at that time that if the Government were to implement the recommendations, they should do so by Easter. The First Minister committed to doing that, and then to do it by the ensuing summer. Eighteen months later, we, at last, have had the Welsh Government's response to that report.

Rwy'n croesawu'n fawr iawn y ffaith eich bod chi'n dweud bod y datganiad heddiw yn sail i drafodaeth. A gaf i ddweud ar ran Plaid Cymru ein bod ni yn hapus iawn i drafod gyda chi, er ein bod ni, wrth gwrs, wedi cyhoeddi ein hargymhellion ni, sydd yn wahanol i'ch argymhellion chi, ond gan gydnabod y ffaith nad ydy cynnal y system bresennol yn gynaliadwy i'r dyfodol?

I warmly welcome the fact that you say that today's statement forms a basis for discussion. May I say, on behalf of Plaid Cymru, that we are happy to discuss with you, although we, of course, have published our recommendations, which differ from your recommendations, but we recognise the fact that maintaining the status quo is not sustainable for the future?

Rwy'n gobeithio nawr y bydd y Llywodraeth yn edrych ar y sefyllfa yma yng nghyd-destun darparu gwasanaethau, a gwasanaethau o'r ansawdd uchaf, yn y ffordd mwyaf effeithiol i bobl Cymru, yn hytrach nag edrych ar y niferoedd a thynnu llinellau ar fapiau. Mae'r ffaith eich bod chi wedi dweud bod yna drafodaeth i ddilyn a bod yna ymgynghoriad llawn i ddilyn, yn golygu y bydd rhaid i bleidiau nawr osod yn glir iawn yn eu maniffesto ar gyfer yr etholiad nesaf beth yw eu hargymhellion nhw. Wedi'r etholiad hwnnw, bydd yna gyfle wedyn am drafodaeth drawsbleidiol i weld a ellir creu rhyw  fath o gydsyniad ynglŷn â'r dyfodol yn y fan yma.

I hope now that the Government will look at this situation in the context of the provision of services, and services of the highest quality, in the most effective way for the people of Wales, rather than looking at numbers and drawing lines on maps. The fact that you have said that there is to be a discussion and a full consultation to follow does mean that parties will now have to clearly set out in their manifestos for the next election what their recommendations are. After the election, there will be an opportunity for cross-party discussions to see whether we can create some kind of consensus on the future in this place.

A gaf i gyfeirio yn gyflym iawn at yr adroddiad ariannol rŷch chi'n sôn amdano, adroddiad KPMG? Wrth gwrs, nid yw'r adroddiad hwnnw'n sôn am gyfuno awdurdodau o gwbl, ac mae e'n dweud bod modd cael yr effeithlonrwydd yma a'r toriadau yma ar wariant heb unrhyw gyfuno. Beth ŷch chi'n mynd i'w wneud, Weinidog, i sicrhau bod awdurdodau yng Nghymru yn cyflwyno y math yma o fesurau ar fyrder er mwyn sicrhau nad ŷm ni'n gweld dyblygu, ac nad ŷm ni'n gweld ychwaith wariant gormodol?

May I refer very briefly to the financial report that you mentioned, the KPMG report? Of course, that report doesn't mention the merger of authorities at all, and it states that it would be possible to make these efficiency savings and the cuts to expenditure without any merger. What are you going to do, Minister, to ensure that local authorities in Wales do implement these kinds of measures urgently in order to ensure that we don't see duplication, and don't see excessive expenditure, either?

Gan ein bod ni bellach mewn sefyllfa, Weinidog, lle mae yna gyfle am drafodaeth, a ydych chi nawr yn barod i ystyried yr angen i gynnwys o fewn eich trafodaethau chi ynglŷn â darparu gwasanaethau yng Nghymru y gwasanaeth iechyd? Mae unrhyw drafodaeth ar ddarparu gwasanaethau yng Nghymru heb gynnwys y gwasanaeth iechyd yn drafodaeth annigonol, oherwydd y mae'r gwasanaeth iechyd—ac wrth gwrs y cysylltiad rhwng y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol—yn hanfodol ar gyfer y drafodaeth yma. Gan ein bod ni nawr yn sôn am ddeddfwriaeth yr ochr draw i etholiad y flwyddyn nesaf, a wnewch chi roi'r ymrwymiad hwnnw i ni y prynhawn yma y cawn ni'r drafodaeth gyflawn honno? Os ŷm ni yn mynd i gael y drafodaeth gyflawn honno, Weinidog, rŷm ni fel plaid yn barod iawn i drafod gyda chi, neu unrhyw bleidiau eraill yn y fan hyn, ynglŷn â dyfodol y gwasanaethau yma, oherwydd rŷm ni yn derbyn bod y sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy. Rwy'n falch iawn eich bod chi hefyd wedi rhoi heibio syniadau a oedd yn mynd i greu problemau ynglŷn â hyd tymor cynghorwyr a gohirio etholiadau. Mân-bethau yw'r rheini. Mae'n bwysig ein bod ni yn cael trafodaeth gynhwysfawr, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, ynglŷn â'r modd y mae pobl Cymru yn mynd i dderbyn eu gwasanaethau yn y dyfodol.

As we are now in a position, Minister, where there is an opportunity for a discussion, are you now willing to consider the need to include within your negotiations on the delivery of services in Wales the health service?  Any discussion on the provision of services in Wales that doesn't include the health service would be an inadequate discussion, because the health service—and of course the link between the health service and social services—is crucially important as part of this debate. As we are now talking about legislation beyond next year's election, will you give that commitment to us this afternoon that we can have that comprehensive debate? If we are to have that comprehensive debate, Minister, then we as a party are more than willing to discuss with you, or any other parties in this place, the future of these services, because we do accept that the status quo is unsustainable. I am very pleased that you too have put aside ideas that were going to create problems in terms of the term length for councillors and deferring elections. Those are minor issues. It's important that we have a comprehensive debate, including the health service, in terms of the way that the people of Wales will receive their services in future.

15:15 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, Llywydd, can I welcome the Plaid Cymru spokesperson's recognition that the status quo is not sustainable, and his general welcome for the statement that I've made today? He will recall, of course, that the First Minister, both in 2014 and in 2015, offered the opportunity for other parties to enter into discussions with the Government about the future map. We've taken those forward in good faith, and some parties have responded in good faith; some other parties have not wanted to be part of that discussion, of course. The Member is absolutely right to say that, at the end of the day, this is about the provision of high-quality services for the people of Wales, and that is the driving factor, of course, within the proposals that we have brought forward. He asked specifically about the KPMG report and how we intend to take that forward. I think that the KPMG report makes several very telling propositions clear to local government about ways in which they can improve performance, and they have taken part in a series of regional discussions with senior representatives of local authorities to look in detail at the propositions that they have built up within the report. It is my intention to take that report forward with representatives of local government, and will be part of my conversations with them. I'm sure that we can start some of those conversations tomorrow at the WLGA conference, but no doubt we will return to them over time. But I would certainly want now to see an implementation programme being developed with local government to take those proposals forward.

Wel, Lywydd, a gaf fi groesawu cydnabyddiaeth llefarydd Plaid Cymru nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy, a'i groeso cyffredinol i'r datganiad a wneuthum heddiw? Bydd yn cofio, wrth gwrs, fod y Prif Weinidog, yn 2014 ac yn 2015, wedi cynnig y cyfle i bleidiau eraill gychwyn trafodaethau gyda'r Llywodraeth am y map yn y dyfodol. Rydym wedi bwrw ymlaen â'r rheini gydag ewyllys da, ac mae rhai pleidiau wedi ymateb gydag ewyllys da; nid yw rhai o'r pleidiau eraill wedi eisiau bod yn rhan o'r drafodaeth, wrth gwrs. Mae'r Aelod yn gwbl gywir i ddweud bod hyn yn ymwneud, yn y pen draw, â darparu gwasanaethau o safon uchel i bobl Cymru, a dyna'r ffactor ysgogol yn y cynigion rydym wedi'u cyflwyno wrth gwrs. Gofynnodd yn benodol am adroddiad KPMG a sut rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â hynny. Credaf fod adroddiad KPMG yn gwneud sawl argymhelliad dadlennol iawn yn glir i lywodraeth leol am ffyrdd y gallant wella perfformiad, ac maent wedi cymryd rhan mewn cyfres o drafodaethau rhanbarthol gydag uwch-gynrychiolwyr awdurdodau lleol i edrych yn fanwl ar y cynigion a ddatblygwyd ganddynt yn yr adroddiad. Mae'n fwriad gennyf symud yr adroddiad hwnnw yn ei flaen gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol, a bydd yn rhan o fy sgyrsiau gyda hwy. Rwy'n siŵr y gallwn ddechrau rhai o'r sgyrsiau hynny yfory yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond mae'n sicr y byddwn yn dychwelyd atynt dros amser. Ond yn awr byddwn yn bendant am weld rhaglen weithredu'n cael ei datblygu gyda llywodraeth leol i symud y cynigion hyn yn eu blaenau.

The Member is obviously right to say that, as we move forward now, it will be for political parties to put their proposals before the electorate next year. His party has come out with some proposals. We will no doubt be discussing those later this afternoon, and I've heard senior representatives of his party in local government today making their views clear on some of the things that I have said. I will leave it for others to judge the consistency of what has been said within his party and indeed within other parties.

Mae'r Aelod yn amlwg yn gywir i ddweud, wrth i ni symud ymlaen yn awr, mai mater i bleidiau gwleidyddol yw cyflwyno eu cynigion gerbron yr etholwyr y flwyddyn nesaf. Mae ei blaid wedi cyflwyno rhai cynigion. Byddwn heb os yn trafod y rheini yn nes ymlaen y prynhawn yma, ac rwyf wedi clywed uwch-gynrychiolwyr ei blaid mewn llywodraeth leol heddiw yn lleisio'u barn yn glir ar rai o'r pethau rwyf wedi'u dweud. Fe'i gadawaf i eraill farnu cysondeb yr hyn a ddywedwyd o fewn ei blaid ac yn wir o fewn y pleidiau eraill.

In respect—[Interruption.]. In respect of the relationship with the health service, my colleague, obviously, the Minister for Health and Social Services, is taking forward the implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, and, clearly, there are many issues there that arise between health boards and social services authorities in terms of delivery. We will be looking at those. But, as the Member himself said, it is for political parties in this Chamber to put their propositions forward next year. Those propositions may include discussions around the health service in relation to social services, but I suspect we will have to wait for the manifestos to find that out.

O ran—[Torri ar draws.]. O ran y berthynas gyda'r gwasanaeth iechyd, mae fy nghyd-Aelod, yn amlwg, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bwrw ymlaen â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac wrth gwrs, mae llawer o faterion yn codi mewn perthynas â hynny rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau. Byddwn yn edrych ar hynny. Ond fel y dywedodd yr Aelod ei hun, mater i'r pleidiau gwleidyddol yn y Siambr hon yw cyflwyno eu cynigion y flwyddyn nesaf. Gall y cynigion hynny gynnwys trafodaethau ynghylch y gwasanaeth iechyd mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol, ond rwy'n amau y bydd yn rhaid i ni aros am y maniffestos i ddarganfod hynny.

15:18 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, can I very much welcome the general power of competence, something that local authorities have asked for for decades? I think that that will be a great step forward. These proposals are very similar to the eight county councils pre-1995. The major differences are caused by the cross-county boundary changes that took place in the 1995 reorganisation. This is what the county councils and county councillors such as Gwenda Thomas and myself were asking for back in 1993 and 1994. I am happy with the creation of West Glamorgan—a county council, as I said, both Gwenda Thomas and I served on pre-reorganisation.

Yn gyntaf oll, a gaf fi groesawu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn fawr iawn? Mae'n rhywbeth y mae awdurdodau lleol wedi gofyn amdano ers degawdau. Rwy'n meddwl y bydd hwnnw'n gam mawr ymlaen. Mae'r cynigion hyn yn debyg iawn i'r wyth cyngor sir cyn 1995. Deillia'r prif wahaniaethau o'r newidiadau i ffiniau traws-sirol a ddigwyddodd adeg yr ad-drefnu yn 1995. Dyma beth oedd cynghorau sir a chynghorwyr sir fel Gwenda Thomas a minnau yn gofyn amdano yn ôl yn 1993 a 1994. Rwy'n hapus gyda chreu Gorllewin Morgannwg—fel y dywedais, cyngor sir y bu Gwenda Thomas a minnau yn gwasanaethu arno cyn yr ad-drefnu.

The challenge for any local government reorganisation is to create a body large enough to provide key services effectively, but small enough to be considered by residents to be local, rather than creating sub-regional bodies.

Yr her i unrhyw broses ad-drefnu llywodraeth leol yw creu corff digon mawr i ddarparu gwasanaethau allweddol yn effeithiol, ond un sy'n ddigon bach i'r trigolion allu ei ystyried yn lleol yn hytrach na chreu cyrff is-ranbarthol.

I've got six questions for the Minister. [Laughter.] I could have taken it to 10, but I stuck on six. If population size is all important, why is Powys left unchanged? Fire and rescue was run by the county councils, and is run by county councils in England. Will it be returned to county council control? Council tax varies, sometimes significantly, between the proposed merging authorities. How is that to be resolved? Will there be a proposal, on the new councils, to set a duty for the new councils to set up area committees? Will councils be merged or closed and then new councils set up? I believe that will lead to external contracts being treated differently, depending on the methodology used. And, finally, I'd produced my own suggestions, based on the pre-1995 smaller district council structure. Did the Minister consider that option?

Mae gen i chwe chwestiwn i'r Gweinidog. [Chwerthin.] Gallwn fod wedi gofyn 10, ond glynais at chwech. Os yw maint y boblogaeth yn hollbwysig, pam gadael Powys heb ei newid? Câi tân ac achub eu trefnu gan y cynghorau sir, ac maent yn cael eu trefnu gan y cynghorau sir yn Lloegr. A fyddant yn cael eu dychwelyd i reolaeth y cyngor sir? Mae'r dreth gyngor yn amrywio, weithiau'n sylweddol, rhwng awdurdodau yr argymhellir eu bod yn uno. Sut y caiff hynny ei ddatrys? A fydd cynnig, ar y cynghorau newydd, i osod dyletswydd ar y cynghorau newydd i sefydlu pwyllgorau ardal? A fydd cynghorau'n cael eu huno neu eu cau a chynghorau newydd yn cael eu sefydlu wedyn? Rwy'n credu y byddai hynny'n arwain at gontractau allanol yn cael eu trin yn wahanol, yn dibynnu ar y fethodoleg a ddefnyddir. Ac yn olaf, roeddwn i wedi cynhyrchu fy awgrymiadau fy hun, yn seiliedig ar y strwythur cynghorau dosbarth llai o faint cyn 1995. A ystyriodd y Gweinidog yr opsiwn hwnnw?

15:20 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I welcome the contribution of my colleague the Member for Swansea East? I look forward to him and my colleague the Member for Neath regaling me at length, in due course, on the history of the battle to protect West Glamorgan in the 1990s. In respect of the first issue of population size, I looked at all kinds of options in respect of the map and in respect of particular counties within it. I looked at a number of options in relation to Powys, some of which might have found favour with him and less favour with others, and I came to the view, at the end of the day, that, having considered all of those options, it was very difficult to come up with a proposition in respect of the area currently called Powys that was anything other than the area currently called Powys.

A gaf fi groesawu cyfraniad fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe? Edrychaf ymlaen at ei gael ef a fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Gastell-nedd, yn fy niddori maes o law gyda hanes y frwydr i amddiffyn Gorllewin Morgannwg yn y 1990au. O ran y mater cyntaf ynghylch maint y boblogaeth, edrychais ar bob math o opsiynau o ran y map ac mewn perthynas â siroedd penodol o'i fewn. Edrychais ar nifer o opsiynau mewn perthynas â Phowys, a gallai rhai ohonynt fod yn fwy deniadol iddo ond yn llai deniadol i eraill, a deuthum i'r casgliad, yn y pen draw, ar ôl ystyried yr holl opsiynau, ei bod yn anodd iawn meddwl am gynnig ar gyfer yr ardal a elwir yn Powys ar hyn o bryd a oedd yn wahanol i'r ardal a elwir yn Powys ar hyn o bryd.

In respect of fire and rescue authorities, I'm not sure that I would want to move from a situation where we currently have three fire and rescue authorities in Wales to one where we had eight or nine fire and rescue authorities in Wales. There are clearly proposals under way in England at the moment to draw the governance of fire and rescue more closely with the governance of policing. Clearly, we will want to watch those proposals, but, certainly, it would not be our intention to follow the English route in that regard, even were policing devolved, but we will return to this matter, I'm sure, after 2016.

O ran awdurdodau tân ac achub, nid wyf yn siŵr y byddwn yn dymuno symud o sefyllfa lle y mae gennym dri awdurdod tân ac achub yng Nghymru i un lle y byddai gennym wyth neu naw awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Mae'n amlwg fod cynigion ar y gweill yn Lloegr ar hyn o bryd i ddod â'r gwaith o lywodraethu tân ac achub yn agosach at lywodraethu plismona. Yn amlwg, byddwn yn awyddus i wylio'r cynigion hynny, ond yn sicr, ni fyddai'n fwriad gennym i ddilyn trywydd Lloegr yn hynny o beth hyd yn oed pe bai plismona yn cael ei ddatganoli, ond byddwn yn dychwelyd at y mater, rwy'n siŵr, ar ôl 2016.

In respect of the variability of council tax, I hope he'll forgive me, but we have discussed this issue at length in the context of the current paving Bill and I don't really think that I've got anything additional to add to what I've said either in this Chamber or in that committee.

O ran amrywiadau yn y dreth gyngor, rwy'n gobeithio y bydd yn maddau i mi, ond rydym wedi trafod y mater hwn yn fanwl yng nghyd-destun y Bil ymbaratoi presennol ac nid wyf yn meddwl mewn gwirionedd fod gen i unrhyw beth arall i'w ychwanegu at yr hyn rwyf wedi'i ddweud naill ai yn y Siambr hon neu yn y pwyllgor hwnnw.

In respect of area committees, I think that one of the opportunities for local government under the new proposed structure that we've outlined is that it will be for every principal authority to determine how they themselves operate within their local communities. That might mean, for example, in some areas, that area boards might be an appropriate way forward. In others, it might mean that strengthening the role of town or community councils might be the way forward. I don't think that is for the Minister in Cardiff bay to determine; I genuinely believe that that should be a matter for the principal local authorities.

O ran pwyllgorau ardal, rwy'n meddwl mai un o'r cyfleoedd i lywodraeth leol o dan y strwythur newydd arfaethedig a amlinellwyd gennym yw mai mater i bob prif awdurdod yw penderfynu sut y maent hwy eu hunain yn gweithredu o fewn eu cymunedau lleol. Gallai hynny olygu, er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, y gallai byrddau ardal fod yn ffordd briodol ymlaen. Mewn eraill, gallai olygu efallai mai cryfhau rôl cynghorau tref neu gymuned yw'r ffordd ymlaen. Nid wyf yn credu mai mater i Weinidog ym mae Caerdydd ei bennu yw hynny; rwy'n wirioneddol gredu y dylai hynny fod yn fater i'r prif awdurdodau lleol.

In respect of the issue of councils merging, being closed and all of those questions, I think, again, we can discuss that in the context of the paving Bill.

O ran cynghorau'n uno, yn cael eu cau a phob un o'r cwestiynau hynny, rwy'n credu, unwaith eto, y gallwn drafod hynny yng nghyd-destun y Bil ymbaratoi.

I was aware, obviously, of the proposal my friend the Member for Swansea East came forward with in respect of the pre-1995 structure. I have to say that my approach to this has been largely based on looking at what was done by the Williams commission and then reaching conclusions that I felt were more appropriate to a modern day Welsh context.

Yn amlwg, roeddwn yn ymwybodol o fwriad y cynnig a gyflwynodd fy nghyfaill, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, mewn perthynas â'r strwythur cyn 1995. Rhaid i mi ddweud bod fy agwedd at hyn wedi bod yn seiliedig i raddau helaeth ar edrych ar yr hyn a wnaed gan gomisiwn Williams cyn dod i gasgliadau y teimlwn eu bod yn fwy priodol i'r cyd-destun Cymreig cyfoes.

15:23

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In the spirit of the next item on the agenda, I'm going to declare an interest first as a member of a local authority in Wales.

Yn ysbryd yr eitem nesaf ar yr agenda, rwy'n mynd i ddatgan buddiant yn gyntaf fel aelod o awdurdod lleol yng Nghymru.

Minister, my views on this are well known, so I'm not going to reiterate them here or repeat questions; I'm just going to concentrate on questions. If I could start with the KPMG report, which you refer to in your statement, my understanding is that a lot of the data in that report are two years old, and that some of the benchmarking that was undertaken in that report was with English councils that didn't have any responsibility for education and social care. So, the question, really, around that report is: how robust do you consider it to be in terms of the savings that it is suggested can be made, and what level of job losses would be associated with implementing those proposals, if they were to be realised in full? I heard your answer earlier on in terms of how you propose to take it forward, but I think that it would be useful to know an answer to that particular question.

Weinidog, mae fy safbwyntiau ar hyn yn gyfarwydd iawn, felly nid wyf am eu hailadrodd yma nac ailadrodd cwestiynau; rwy'n mynd i ganolbwyntio ar gwestiynau'n unig. Os caf ddechrau gydag adroddiad KPMG, y cyfeiriwch ato yn eich datganiad, fy nealltwriaeth i yw bod llawer o'r data yn yr adroddiad hwnnw yn ddwy flwydd oed, a bod peth o'r meincnodi yn yr adroddiad wedi'i wneud gyda chynghorau yn Lloegr nad oedd ganddynt gyfrifoldeb dros addysg a gofal cymdeithasol. Felly, y cwestiwn o ran yr adroddiad hwnnw mewn gwirionedd yw hwn: pa mor gadarn ydyw yn eich barn chi o ran yr arbedion yr awgrymir y gellid eu gwneud, a pha lefel o golli swyddi a fyddai'n gysylltiedig â gweithredu'r argymhellion hynny pe baent yn cael eu gwireddu'n llawn? Clywais eich ateb yn gynharach ar sut rydych yn bwriadu ei symud ymlaen, ond rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn.

My second question: in relation to the Williams commission report, Williams went very, very strongly in terms of coterminousity and saying that none of these new council boundaries should cross local health board boundaries. That is a principle that you've abandoned in the map that you've brought before us today, and, in fact, the voluntary merger that was put on the table between Bridgend and the Vale of Glamorgan was rejected on those grounds—or at least that was one of the grounds on which that merger was rejected. So, can I ask you what has changed in relation to this particular proposal, whereby you have now moved away from the principle set out in the Williams report and on the basis of which you have previously rejected a voluntary merger?

Fy ail gwestiwn: mewn perthynas ag adroddiad comisiwn Williams, roedd Williams yn gryf iawn o blaid cydffinioldeb ac yn dweud na ddylai'r un o ffiniau'r cynghorau newydd groesi ffiniau byrddau iechyd lleol. Mae honno'n egwyddor rydych wedi eu diystyru yn y map a gyflwynwch yma heddiw, ac yn wir, cafodd y cynnig i uno gwirfoddol a gyflwynwyd rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg ei wrthod ar y sail honno—neu o leiaf, dyna oedd un sail dros wrthod y cynnig hwnnw i uno. Felly, a gaf fi ofyn i chi beth sydd wedi newid mewn perthynas â'r cynnig penodol hwn, lle rydych bellach wedi symud oddi wrth yr egwyddor a nodwyd yn adroddiad Williams ac y gwrthodwyd y cynnig i uno'n wirfoddol gennych yn flaenorol ar y sail honno?

Thirdly, what is the proposed cost involved in delivering this map? Have you actually carried out a cost analysis of this reorganisation of local government?

Yn drydydd, beth yw cost arfaethedig cyflwyno'r map? A ydych chi wedi cynnal dadansoddiad o gost ad-drefnu llywodraeth leol yn y ffordd hon?

Fourthly, what consultation and what process will now be brought into play in terms of taking this forward? I understand you will be bringing forward a paving Bill. Will there be further consultation on the map before that paving Bill is published? Is there a possibility that the map might change before that paving Bill is published as a result of that consultation?

Yn bedwerydd, pa ymgynghori a pha broses a ddefnyddir yn awr ar gyfer bwrw ymlaen â hyn? Rwy'n deall y byddwch yn cyflwyno Bil ymbaratoi. A fydd yna ymgynghori pellach ar y map cyn i'r Bil ymbaratoi gael ei gyhoeddi? A oes posibilrwydd y gallai'r map newid cyn cyhoeddi'r Bil ymbaratoi o ganlyniad i'r ymgynghoriad?

Finally, Presiding Officer, in relation to council tax, I heard your answer to Mike Hedges. My back-of-the-envelope calculations, admittedly, say that, if Swansea and Neath Port Talbot merged, for example, council tax payers in Swansea could face up to a 10 per cent increase in their council tax before anything has even been committed in terms of expenditure. Can you give a commitment to look at the disparity of council tax in these new merged authorities if this were to go ahead, and to find a way of mitigating those sorts of increases for people who will face substantial bills as a result of these proposals?

Yn olaf, Lywydd, o ran y dreth gyngor, clywais eich ateb i Mike Hedges. Mae fy nghyfrifiadau cefn amlen, rhaid cyfaddef, yn dweud, os yw Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn uno, er enghraifft, y gallai pobl sy'n talu'r dreth gyngor yn Abertawe wynebu cynnydd o hyd at 10 y cant yn eu treth gyngor cyn i unrhyw beth gael ei ymrwymo hyd yn oed o ran gwariant. A allwch roi ymrwymiad i edrych ar y gwahaniaeth yn y dreth gyngor yn yr awdurdodau unedig newydd hyn pe bai hyn yn mynd rhagddo, a chanfod ffordd o liniaru'r mathau hyn o godiadau i bobl a fydd yn wynebu biliau sylweddol o ganlyniad i'r cynigion hyn?

15:26 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Llywydd, if I can start with the questions asked about the KPMG report, the bulk of the KPMG report was modelled on the most recent accounts, which were 2013-14 at the time. They have obviously gone back and looked at what has been put in in respect of outturns for 2014-15 and discussed those with the relevant authorities and looked at budgets for 2015-16 as well. So, I'm confident that what they have looked at is as robust as it can be. There will always be people who say, 'Oh well, you could be more up to date'—he knows how these things are taken forward and discussed.

Lywydd, os caf ddechrau gyda'r cwestiynau a ofynnwyd am adroddiad KPMG, modelwyd y rhan fwyaf o adroddiad KPMG ar y cyfrifon diweddaraf, sef 2013-14 ar y pryd. Mae'n amlwg eu bod wedi mynd yn ôl ac edrych ar yr hyn a roddwyd i mewn o ran alldro ar gyfer 2014-15 ac wedi trafod y rheini â'r awdurdodau perthnasol, ac wedi edrych ar gyllidebau ar gyfer 2015-16 hefyd. Felly, rwy'n hyderus y bydd yr hyn y maent wedi edrych arno mor gadarn ag y gall fod. Bydd yna bobl bob amser sy'n dweud, 'O wel, fe allech fod yn fwy cyfredol'—mae'n gwybod sut y mae'r pethau hyn yn cael eu datblygu a'u trafod.

He makes a fair point about education, and there is no question that it becomes increasingly difficult to make comparisons about the education spend in Wales with the education spend in England, as indeed the Office for National Statistics said a couple of years ago during the time that I was the education Minister. I think KPMG has done a good job of breaking out those commonly shared areas of responsibility, and they've made the appropriate allowances, I think, in respect of education.

Mae'n gwneud pwynt teg am addysg, ac nid oes amheuaeth ei bod yn mynd yn fwyfwy anodd cymharu rhwng gwariant addysg yng Nghymru a gwariant ar addysg yn Lloegr, fel yn wir y dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ychydig o flynyddoedd yn ôl pan oeddwn yn Weinidog addysg. Rwy'n meddwl bod KPMG wedi gwneud gwaith da o dorri allan o'r meysydd cyfrifoldeb a rennir yn gyffredin, ac maent wedi rhoi ystyriaeth briodol i addysg yn fy marn i.

In respect of job losses, well, the reality, of course, is that that would depend on how local authorities chose to use the savings that result from what KPMG is suggesting. KPMG is essentially suggesting a significant range of savings could be made in respect of administrative spending. Of course, local authorities would then be free to use that money for spending on front-line services. I think the reality is that we all know that there are job losses within local government at the present time, driven by the cuts in the Welsh budget imposed by the former coalition Government and the additional cuts that are now being announced by the Conservative Government.

O ran colli swyddi, wel, y realiti, wrth gwrs, yw y byddai hynny'n dibynnu ar sut y byddai awdurdodau lleol yn dewis defnyddio'r arbedion sy'n deillio o'r hyn y mae KPMG yn ei awgrymu. Yn ei hanfod, mae KPMG yn awgrymu y gellid gwneud amrywiaeth sylweddol o arbedion mewn perthynas â gwariant gweinyddol. Wrth gwrs, byddai awdurdodau lleol wedyn yn rhydd i ddefnyddio'r arian hwnnw i'w wario ar wasanaethau rheng flaen. Rwy'n meddwl mai'r gwir amdani yw ein bod i gyd yn gwybod bod yna golli swyddi mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, wedi'i yrru gan y toriadau yng nghyllideb Cymru gan y Llywodraeth glymblaid flaenorol a'r toriadau ychwanegol sydd bellach yn cael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth Geidwadol.

It's a fair point that he's raised the issue of coterminousity with health. I'm in some ways surprised that he's the first person to have done so this afternoon. I looked very carefully at this. The only departure, really, I think I've made in respect of that is in respect of the Swansea-Neath Port Talbot and Bridgend-Merthyr-RCT configuration. That, I think, posed very genuinely difficult questions. It is argued by many that Bridgend, for example, for economic purposes tends to look east; for educational purposes, it's worked with the south Wales central consortium, and so on. What I was seeking to do, ultimately, was to create a sustainable structure for local government. In that specific instance, that resulted in my cutting across the presumption in Williams around coterminousity with health. Clearly, I have had discussions on that with my Cabinet colleagues, including the health Minister, and I am comfortable, and I think Cabinet is comfortable, with the proposition that I have put forward.

Mae'r pwynt a grybwyllodd ynglŷn â chydffinioldeb ag iechyd yn un teg. Rwy'n synnu mewn rhai ffyrdd mai ef yw'r person cyntaf i wneud hynny y prynhawn yma. Edrychais yn ofalus iawn ar hyn. Yr unig wyro a wneuthum mewn gwirionedd, rwy'n meddwl, oedd mewn perthynas â chyfluniad Abertawe-Castell-nedd Port Talbot a chyfluniad Pen-y-bont ar Ogwr-Merthyr-Rhondda Cynon Taf. Roedd hynny, rwy'n meddwl, yn codi cwestiynau gwirioneddol anodd. Dadleuir gan lawer bod Pen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, at ddibenion economaidd, yn tueddu i edrych tua'r dwyrain; at ddibenion addysgol, mae wedi gweithio gyda chonsortiwm canol de Cymru, ac yn y blaen. Yr hyn y ceisiwn ei wneud, yn y pen draw, oedd creu strwythur cynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol. Yn yr achos penodol hwnnw, arweiniodd at wneud i mi dorri ar draws rhagdybiaeth Williams o gydffinioldeb ag iechyd. Yn amlwg, rwyf wedi cael trafodaethau ar hynny gyda fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet, gan gynnwys y Gweinidog Iechyd, ac rwy'n gyfforddus, ac rwy'n meddwl bod y Cabinet yn gyfforddus, â'r cynnig rwyf wedi'i gyflwyno.

In respect of the costs of the map that we're outlining today, I think there will be costings to be worked through. There have been a variety of costings developed by local government and others. He will be aware of the analysis done by the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy for the Welsh Local Government Association and their estimates of costings—we've discussed that in committee. He'll be aware now of our own KPMG work, which is about savings that can be achieved pre-merger. But I think there is further work to be done on that now that we have a preferred Welsh Government map, if you like.

O ran costau'r map rydym yn ei amlinellu heddiw, rwy'n credu y bydd yna gostau i weithio drwyddynt. Datblygwyd amryw o ddulliau costio gan lywodraeth leol ac eraill. Bydd yn ymwybodol o'r dadansoddiad a wnaed gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'u hamcangyfrifon o gostau—rydym wedi trafod hynny yn y pwyllgor. Bydd yn ymwybodol erbyn hyn o'n gwaith KPMG ein hunain, sy'n ymwneud ag arbedion y gellir eu cyflawni cyn yr uno. Ond rwy'n credu bod mwy o waith i'w wneud ar hynny gan fod gennym bellach fap dewisol Llywodraeth Cymru, os mynnwch.

In terms of consultation, I would expect there now to be informal consultation, if you like. We've published a map; people will react to that and we will get that reaction back. We will then go forward with a formal consultation on the basis of the draft merger Bill, and obviously, we can take the maps into consideration on a formal basis alongside that consultation.

O ran ymgynghori, byddwn yn disgwyl ymgynghori anffurfiol yn awr, os mynnwch. Rydym wedi cyhoeddi map; bydd pobl yn ymateb i hynny, a byddwn yn cael yr adwaith hwnnw'n ôl. Byddwn wedyn yn bwrw ymlaen gydag ymgynghoriad ffurfiol ar y sail y Bil uno drafft, ac yn amlwg, gallwn ystyried y mapiau ar sail ffurfiol ochr yn ochr â'r ymgynghoriad.

In respect of council tax, well, he will know from discussions that we've had in committee that it's possible to maintain separate council tax rates within a particular local authority under current legislation. We've had that discussion and I think we can continue that discussion in committee in respect of the paving Bill.

O ran y dreth gyngor, wel, bydd yn gwybod o'r trafodaethau rydym wedi'u cael yn y pwyllgor ei bod yn bosibl cynnal cyfraddau treth gyngor ar wahân o fewn awdurdod lleol penodol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Rydym wedi cael y drafodaeth honno ac rwy'n meddwl y gallwn barhau â'r drafodaeth honno yn y pwyllgor mewn perthynas â'r Bil ymbaratoi.

15:30

## William Graham [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

As a former county and inner city councillor, certainly I would say, by contrast, that the county council, and others would agree, would become very remote and unresponsive, and the Government's proposals now do little for local democracy. I would urge the Minister to be as transparent as he possibly can be in whatever consultations now take place, because he will know that reorganisation of this kind has an enormous and potentially very serious and detrimental effect on both morale and recruitment for those local authorities involved. I ask him specifically today to comment on city status, much treasured by about three authorities in Wales, and the future role of community councils.

Fel cyn-gynghorydd sirol a dinesig, yn sicr byddwn yn dweud fel arall, a byddai eraill yn cytuno, y byddai'r cyngor sir yn mynd yn anhygyrch ac yn anymatebol iawn, ac nid yw cynigion y Llywodraeth yn awr yn gwneud fawr ddim i ddemocratiaeth leol. Byddwn yn annog y Gweinidog i fod mor dryloyw ag y gall fod ym mha bynnag ymgynghoriadau a gaiff eu cynnal yn awr, gan y bydd yn gwybod bod ad-drefnu o'r math hwn yn cael effaith enfawr, a difrifol a niweidiol iawn o bosibl, ar forâl ac ar recriwtio i'r awdurdodau lleol sy'n rhan o hyn. Gofynnaf iddo yn benodol heddiw i wneud sylwadau ar statws dinas, sy'n cael ei drysori'n fawr gan oddeutu tri awdurdod yng Nghymru, a rôl cynghorau cymuned yn y dyfodol.

15:31

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Can I start by saying that I understand precisely what the Member means, but as I said in answer to an earlier question, I really think it is for the principal local authorities, as constituted under our proposals, to consider how they themselves, within their own local authority territories, develop structures that are able to give voice to communities within those authorities, whether that be through area-board structures, or whether it be through an enhanced role for town and community councils. That will be open to them to do so, and certainly I would expect them to look on that as an opportunity, let me say. Clearly, we will continue to be transparent; we've been transparent throughout this process. There has been intense public debate, and particularly debate within local authorities around these proposals.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod yn deall yn union yr hyn y mae'r Aelod ei olygu, ond fel y dywedais mewn ateb i gwestiwn cynharach, rwy'n meddwl o ddifrif mai mater ar gyfer y prif awdurdodau lleol, fel y'u cyfansoddwyd o dan ein cynigion, yw ystyried sut y maent hwy eu hunain, o fewn tiriogaeth eu hawdurdodau lleol eu hunain, yn datblygu strwythurau sy'n gallu rhoi llais i gymunedau o fewn yr awdurdodau hynny, boed drwy strwythurau bwrdd ardal, neu drwy fwy o rôl i gynghorau tref a chymuned? Byddai hynny'n agored iddynt ei wneud, a gadewch i mi ddweud y byddwn yn sicr yn disgwyl iddynt edrych arno fel cyfle. Yn amlwg, byddwn yn parhau i fod yn dryloyw; rydym wedi bod yn dryloyw drwy gydol y broses hon. Cafwyd trafodaeth gyhoeddus ddwys, a dadl yn yr awdurdodau lleol yn arbennig ynghylch y cynigion hyn.

I completely accept what he says about city status and the pride that exists in particular cities around that. But cities have hinterlands and cities are not islands alone. Cities operate in the context of surrounding communities and it's important, actually, that they work in a practical way with those surrounding communities to enhance economic prosperity for all.

Rwy'n derbyn yn llwyr yr hyn y mae'n ei ddweud am statws dinas a'r balchder sy'n bodoli mewn dinasoedd penodol ynglŷn â hynny. Ond mae gan ddinasoedd gefnwlad ac nid yw dinasoedd yn ynysoedd. Mae dinasoedd yn gweithredu yng nghyd-destun cymunedau cyfagos ac mae'n bwysig, mewn gwirionedd, eu bod yn gweithio mewn ffordd ymarferol gyda'r cymunedau cyfagos hyn i wella ffyniant economaidd i bawb.

15:32

## Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Nid oes amheuaeth, yn fy marn i, mai newid ffiniau yn 1994/5 oedd y camgymeriad mwyaf yn hanes diweddar gwleidyddiaeth Cymru. Ond un cwestiwn syml sydd gen i: gan ystyried y ddau fap rydych wedi'u cyhoeddi, beth yn union yw'r ystyriaethau sydd wedi'ch arwain chi at gynnig dau fodel yn y gogledd? Hynny yw, beth yw'r dadleuon o blaid y model dwy sir ac wedyn y dadleuon o blaid y model tair sir yn y gogledd?

There's no doubt, in my opinion, that changing in 1994/5 was the biggest mistake in the recent history of Welsh politics. But I have one simple question: given the two maps that you've published, what exactly are the considerations that have led you to offering two models in north Wales? That is, what are the arguments in favour of the two-county model and, then, the arguments in favour of the three-county model in north Wales?

15:33

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think there's clearly been a very intense debate in north Wales, as in other parts of Wales, around the future configuration of local government. Indeed, today, I've heard the leader of Gwynedd Council saying that he thinks that the best proposition for north Wales would be two counties: one focused on the north-west, and one focused on the north-east. I've heard the leader of Denbighshire making the case for three counties in north Wales. So, there are clearly strongly held views there.

Rwy'n meddwl bod dadlau dwys iawn wedi bod yn y gogledd, mae'n amlwg, fel mewn rhannau eraill o Gymru, ynghylch cyfluniad llywodraeth leol yn y dyfodol. Yn wir, heddiw, clywais arweinydd Cyngor Gwynedd yn dweud ei fod yn credu mai'r cynnig gorau ar gyfer y gogledd fyddai dwy sir: un yn canolbwyntio ar y gogledd-orllewin, ac un yn canolbwyntio ar y gogledd-ddwyrain. Clywais arweinydd Sir Ddinbych yn cyflwyno'r achos dros dair sir yng ngogledd Cymru. Felly, mae'n amlwg fod yno safbwyntiau cryf yno.

It seems to me that we have got to look at a range of factors. We also need to establish whether a consensus is achievable. I think that there are strong economic arguments, to my mind, for two authorities—north-east and north-west. There are linguistic arguments, clearly, around what is developed for north-west Wales in particular; I think those need to be borne in mind. But I see this as an opportunity for north Wales now for there to be a proper public debate around whether north Wales would prefer a binary model or a model of three local authorities, and that is a debate I look forward to engaging with and to hearing more about.

Mae'n ymddangos i mi fod yn rhaid i ni edrych ar ystod o ffactorau. Mae angen i ni benderfynu hefyd a yw'n bosibl cyrraedd consensws. Rwy'n meddwl bod dadleuon economaidd cryf, yn fy marn i, dros ddau awdurdod—gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin. Mae dadleuon ieithyddol, yn amlwg, o amgylch yr hyn a ddatblygir ar gyfer gogledd-orllewin Cymru yn benodol; rwy'n meddwl bod angen cadw'r rheini mewn cof. Ond rwy'n gweld hwn fel cyfle i ogledd Cymru yn awr gael dadl gyhoeddus go iawn ynglŷn ag a fyddai'n well gan ogledd Cymru fodel dau awdurdod neu fodel tri awdurdod lleol, a dyna'r ddadl rwy'n edrych ymlaen at ei chael a chlywed mwy amdani.

15:34

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'll join Mike Hedges in his reminiscence and say that when I saw the proposed map for local government reorganisation, my first thought was that I should dust off my paperwork from the campaign to save West Glamorgan, and simply change the past tense to the future. In West Glamorgan, we had administrative arrangements that worked well, and, in my opinion, should have been preserved. And, in all seriousness, I think there's a lesson to be learned there.

Ymunaf â Mike Hedges wrth hel atgofion a dweud, pan welais y map arfaethedig ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol, y peth cyntaf a aeth drwy fy meddwl oedd y dylwn dynnu'r llwch oddi ar fy ngwaith papur o'r ymgyrch i achub Gorllewin Morgannwg, a newid yr amser gorffennol yn amser dyfodol. Yng Ngorllewin Morgannwg, roedd gennym drefniadau gweinyddol a weithiai'n dda, ac yn fy marn i, dylid bod wedi eu cadw. Ac o ddifrif, rwy'n meddwl bod yna wers i'w dysgu yno.

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014—and I note that you've already mentioned social services, Minister, this afternoon—has already legislated for collaboration, on the basis of the health board footprints. Many services, such as child and adult protection committees, reablement services and integrated family support teams, are now already operational on these footprints. All of these have been established through strong partnership agreements, and, if I may say, the exemplary leadership shown by the Welsh Local Government Association, and the Association of Directors of Social Services.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014—a nodaf eich bod eisoes wedi crybwyll gwasanaethau cymdeithasol y prynhawn yma, Weinidog—wedi deddfu eisoes ar gyfer cydweithio ar sail olion traed y bwrdd iechyd. Mae llawer o wasanaethau, megis pwyllgorau amddiffyn plant ac oedolion, gwasanaethau ail-alluogi a thimau integredig cymorth i deuluoedd, yn gweithredu'n barod yn ôl yr olion traed hyn. Sefydlwyd y rhain i gyd drwy gytundebau partneriaeth cryf, ac os caf ddweud, drwy'r arweinyddiaeth ragorol a ddangoswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Minister, do you agree with me that, in taking forward local government reorganisation, we must avoid destabilising arrangements that are working well and, instead, build on the genuine partnership that already exists—and I refer to what Rhodri Glyn Thomas said—between the Welsh Government, local government, the NHS and the third and independent sectors?

Weinidog, a ydych yn cytuno â mi, wrth fwrw ymlaen gydag ad-drefnu llywodraeth leol, fod yn rhaid i ni osgoi ansefydlogi trefniadau sy'n gweithio'n dda ac yn lle hynny, adeiladu ar y bartneriaeth go iawn sydd eisoes yn bodoli—ac rwy'n cyfeirio at yr hyn a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas—rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector a'r sector annibynnol?

15:36

## Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I thank my colleague the Member for Neath for her contribution, and her reminiscence? It seems to me that, like the Member for Arfon, she viewed what happened in the 1990s as a colossal mistake.

Hoffwn ddiolch i fy nghydweithiwr yr Aelod dros Gastell-nedd am ei chyfraniad, ac am hel atgofion? Fel yr Aelod dros Arfon, mae'n ymddangos i mi ei bod yn gweld yr hyn a ddigwyddodd yn y 1990au fel camgymeriad anferthol.

I'm very clear in my own mind that, where things are working well, we certainly do not want to disrupt them, and I think she makes a powerful case there, in respect of the partnership working that is going on with respect to social services. But, as we look forward I think we need to bear in mind that we have a number of different footprints that are operational in Wales at the current time. We have a different footprint, for example, for educational consortia. We have the work that now needs to be implemented as a result of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, in respect of the creation of public service boards.

Rwy'n glir iawn yn fy meddwl fy hun, lle y mae pethau'n gweithio'n dda, yn sicr nid ydym am darfu arnynt, ac rwy'n meddwl ei bod yn cyflwyno achos grymus o ran y gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r gwasanaethau cymdeithasol. Ond wrth i ni edrych ymlaen rwy'n credu bod angen i ni gadw mewn cof fod gennym nifer o wahanol olion traed sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae gennym ôl troed gwahanol, er enghraifft, ar gyfer consortia addysgol. Mae gennym y gwaith sydd angen ei weithredu yn awr o ganlyniad i Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mewn perthynas â chreu byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

So, we have got to spend some time, I think, reconciling these, and planning for the future. But, certainly, she is right to say that, since the new authorities, of course, will not themselves be likely to be operational until 2020, we do not want to risk the good work that is going on at the present time, within existing authorities.

Felly, rhaid i ni dreulio peth amser, rwy'n meddwl, yn cysoni'r rhain, a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Ond yn sicr, mae hi'n gywir i ddweud nad ydym am beryglu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn yr awdurdodau presennol, gan na fydd yr awdurdodau newydd eu hunain yn debygol o fod yn weithredol tan 2020 wrth gwrs.

15:37

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First of all, Minister, can I welcome what you said about future opportunities to shape this agenda, because, obviously, there's quite a process still to be undergone, and I think that will be welcomed by all, because this is such a major matter for Wales, given that local authorities are key deliverers of all of those services that matter so much to people? So, I very much welcome that future process that will provide those opportunities.

Yn gyntaf oll, Weinidog, a gaf fi groesawu'r hyn a ddywedoch am gyfleoedd yn y dyfodol i lunio'r agenda hon, oherwydd mae'n amlwg fod yna gryn dipyn o broses i'w dilyn eto, ac rwy'n credu y bydd yn cael ei chroesawu gan bawb am fod hwn yn fater mor bwysig i Gymru, o ystyried bod awdurdodau lleol yn allweddol ar gyfer darparu pob un o'r gwasanaethau sydd mor bwysig i bobl? Felly, rwy'n croesawu'r broses sy'n mynd i ddarparu'r cyfleoedd hynny yn y dyfodol yn fawr iawn.

In terms of the balance between localism and a more centralised approach, Minister, I think, under the old county council model, obviously we had the county councils delivering services that were best delivered on quite a large scale, but we also had the local authorities underneath the county councils delivering the services that were considered best delivered on a more localised level. I hear what you say about area committees, and community town councils, but I think there will be quite an important, ongoing debate to be had about getting that balance right, between localism and services that are better delivered over a larger population. And I wonder if you could, perhaps, say a little bit more about that.

O ran y cydbwysedd rhwng lleoleiddio a dull mwy canolog, Weinidog, rwy'n credu, o dan yr hen fodel cyngor sir, yn amlwg roedd gennym y cynghorau sir yn darparu gwasanaethau a gâi eu darparu orau ar raddfa eithaf mawr, ond roedd gennym hefyd yr awdurdodau lleol o dan y cynghorau sir yn darparu'r gwasanaethau yr ystyrid eu bod yn cael eu darparu orau ar lefel fwy lleol. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch am bwyllgorau ardal, a chynghorau tref a chymuned, ond rwy'n meddwl y bydd dadl bwysig, barhaus i'w chael ynghylch sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng lleoleiddio a gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n well dros boblogaeth fwy. A thybed a allwch chi ddweud ychydig mwy am hynny efallai.

Just two other matters, Minister. In terms of Gwent, I wonder if you could say a little more about why you've arrived at the conclusion that you have in terms of that Gwent-wide solution, and what main alternatives were considered, and what factors were involved there. And, finally, obviously, front-line staff are going to be very, very concerned about these proposals, Minister, because, obviously, people's own jobs and futures—and those of their families and communities—are at stake. So, all of this will be very, very unsettling for a large number of front-line staff in our local authorities in Wales. I wonder what reassurance you can provide in terms of the future for those people, their families, and communities.

Dau fater arall yn unig, Weinidog. O ran Gwent, tybed a allech ddweud ychydig mwy ynglŷn â pham eich bod wedi dod i'r casgliad a wnaethoch o ran ateb ar gyfer Gwent gyfan, a pha brif opsiynau eraill a ystyriwyd, a'r ffactorau a oedd yn rhan o hynny. Ac yn olaf, yn amlwg, mae staff rheng flaen yn mynd i fod yn bryderus iawn ynghylch y cynigion hyn, Weinidog, oherwydd, yn amlwg, mae swyddi a dyfodol pobl—a rhai eu teuluoedd a'u cymunedau—yn y fantol. Felly, bydd hyn i gyd yn gythryblus iawn i nifer fawr o staff rheng flaen yn ein hawdurdodau lleol yng Nghymru. Tybed pa sicrwydd y gallwch ei roi o ran y dyfodol i'r bobl hyn, eu teuluoedd, a'u cymunedau.

15:39

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I thank the Member for Newport East? He's right that there are opportunities to further shape this agenda, and we will, as I said, have a further consultation in respect of the draft mergers and reform Bill to be published in the autumn. There will be an opportunity informally for people to give us representations on the map before that, of course. Throughout this process, there has been considerable opportunity for consultation and discussion, not all of which, let me say, has been taken up by the local government community, as I indicated in respect of last year's White Paper, when only half of local authorities responded.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod dros Ddwyrain Casnewydd? Mae'n iawn fod cyfleoedd i lunio'r agenda hon ymhellach, ac fel y dywedais, byddwn yn cael ymgynghoriad pellach o ran y Bil uno a diwygio drafft sydd i'w gyhoeddi yn yr hydref. Bydd cyfle anffurfiol i bobl roi sylwadau i ni ar y map cyn hynny, wrth gwrs. Drwy gydol y broses hon, cafwyd cyfle sylweddol i ymgynghori a thrafod, ac ni fanteisiodd y gymuned lywodraeth leol ar bob cyfle, os caf ddweud, fel y nodais mewn perthynas â Phapur Gwyn y llynedd, pan na chafwyd ymateb gan hanner yr awdurdodau lleol.

He's right, of course, to stress the tension between localism and strong central delivery of services within a principal local authority area, but I don't think it is for the Minister here in Cardiff bay to dictate the process that's adopted locally or the system that's adopted locally. An area-broad approach may suit some areas. I know that it's been suggested to me, for example, that that may work better in urban areas. There is a role, I think, for town and community councils in other areas and how those are taken forward. We've said in the White Paper quite a lot about the future for town and community councils. We welcome those things.

Mae'n iawn, wrth gwrs, i bwysleisio'r tensiwn rhwng lleoleiddio a darpariaeth ganolog gref o wasanaethau mewn prif ardal awdurdod lleol, ond nid wyf yn credu mai mater i'r Gweinidog yma ym mae Caerdydd yw pennu'r broses sy'n cael ei mabwysiadu'n lleol na'r system sy'n cael ei mabwysiadu'n lleol. Gall dull ardal weddu i rai ardaloedd. Gwn ei fod wedi ei awgrymu wrthyf, er enghraifft, y gallai hynny weithio'n well mewn ardaloedd trefol. Mae yna rôl, rwy'n meddwl, i gynghorau tref a chymuned mewn ardaloedd eraill a sut y gellir datblygu'r rhain. Rydym wedi dweud cryn dipyn yn y Papur Gwyn am y dyfodol i gynghorau tref a chymuned. Rydym yn croesawu'r pethau hynny.

In respect of Gwent, a number of propositions have come forward. My colleague the Member for Blaenau Gwent, for example, made a suggestion of a north Gwent authority, including Blaenau Gwent, Torfaen and Monmouthshire, which I considered very seriously. I thought it was an interesting proposition. But the difficulty that would have given us is that it would have logically led to the creation of a combined Newport and Caerphilly authority and I wasn't convinced that that was a sustainable authority or, indeed, an optimally configured authority, shall I say?

O ran Gwent, mae nifer o gynigion wedi cael eu cyflwyno. Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Flaenau Gwent, er enghraifft, wedi awgrymu awdurdod gogledd Gwent, gan gynnwys Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy, ac ystyriais hynny'n ofalus iawn. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn gynnig diddorol. Ond yr anhawster y byddai wedi ei greu i ni yw y byddai wedi ei arwain yn rhesymegol at uno awdurdodau Casnewydd a Chaerffili ac nid oeddwn yn argyhoeddedig fod hwnnw'n awdurdod cynaliadwy neu'n wir, yr awdurdod gorau posibl y gellid ei gyflunio, os caf ddweud.

Gwent has the advantage, I think, of coterminousity with the Aneurin Bevan Local Health Board and with the police service, of course, at the present time. So, I think there are compelling arguments there.

Mae gan Went fantais, rwy'n meddwl, o ran ei bod yn cyd-ffinio â Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a gyda gwasanaeth yr heddlu, wrth gwrs, ar hyn o bryd. Felly, rwy'n credu bod dadleuon cryf yno.

In respect of what he says about front-line staff, I absolutely agree with him and that is the reason I commissioned the KPMG report to see what moneys could be freed from administrative savings that could be devoted to the front line. Let me say that throughout this process, I've had strong support from the trade unions representing front-line workers in our public services who want to see progress made on this agenda.

O ran yr hyn y mae'n ei ddweud am y staff rheng flaen, rwy'n llwyr gytuno ag ef a dyna'r rheswm y comisiynais adroddiad KPMG i weld pa arian y gellid ei ryddhau o arbedion gweinyddol y gellid eu neilltuo ar gyfer y rheng flaen. Gadewch i mi ddweud fy mod, drwy gydol y broses hon, wedi cael cefnogaeth gref gan yr undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr rheng flaen yn ein gwasanaethau cyhoeddus sydd am weld cynnydd yn cael ei wneud ar yr agenda hon.

15:42

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Like others this afternoon, I'd like to welcome the statement that you've made this morning. I also want to welcome the determination that you've shown to reform local government. I think many of us have been supportive of the reform agenda for some time. I think many of us welcome the fact that it's been taken forward so vigorously. I'm particularly grateful for comments that you made earlier on the general power of competence. Many of us have sought to see this process as a means of strengthening local government and not a means of weakening local government, which is where too much of the debate has been. I'd be grateful if you could outline to us this afternoon how you see the general power of competence being used to strengthen and to empower local government.

Fel eraill y prynhawn yma, hoffwn groesawu'r datganiad a wnaethoch y bore yma. Rwyf hefyd am groesawu'r penderfyniad rydych wedi ei ddangos i ddiwygio llywodraeth leol. Rwy'n meddwl bod llawer ohonom wedi bod yn gefnogol i'r agenda ddiwygio ers peth amser. Rwy'n meddwl bod llawer ohonom yn croesawu'r ffaith ei fod wedi cael ei ddatblygu mor egnïol. Rwy'n arbennig o ddiolchgar am sylwadau a wnaethoch yn gynharach ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae llawer ohonom wedi ceisio gweld y broses hon fel modd o gryfhau llywodraeth leol ac nid yn fodd o wanhau llywodraeth leol, a dyna lle y mae gormod o'r ddadl wedi bod. Fe fyddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu i ni y prynhawn yma sut rydych yn gweld y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cael ei ddefnyddio i gryfhau a grymuso llywodraeth leol.

I also welcome the points that you've made in answer to questions in the debate this afternoon on the issue of further consultation on the map. In many ways, the map has crystallised much of the debate that we've seen in recent months and, in fact, recent years. Many of us have very real concerns about what was published this morning—many of us, who represent communities that are some of the most vulnerable and fragile communities in this country, which face the biggest challenges in terms of economic growth and in terms of social challenges and poverty. We are very, very concerned—many of us who represent those communities—that we are seeing, particularly in south-east Wales, the creation of a local authority that won't have that focus on and in those communities. I hope that when we go through the consultation process over the coming months, we will look at these issues of economy, of poverty and of growth, and not simply take the view of an accountant, who will look at what works well on a map, but doesn't work well for people and their communities.

Rwyf hefyd yn croesawu'r pwyntiau a wnaethoch wrth ateb cwestiynau yn y ddadl y prynhawn yma ar fater ymgynghori pellach ar y map. Mewn sawl ffordd, mae'r map wedi crisialu llawer o'r ddadl a glywsom yn y misoedd diwethaf ac yn wir, dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gan lawer ohonom bryderon gwirioneddol ynghylch yr hyn a gyhoeddwyd y bore yma—mae llawer ohonom yn cynrychioli cymunedau sy'n rhai o'r cymunedau mwyaf agored i niwed a bregus yn y wlad hon, ac sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran twf economaidd ac o ran heriau cymdeithasol a thlodi. Rydym yn bryderus iawn—llawer ohonom sy'n cynrychioli'r cymunedau hynny—yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru, ein bod yn gweld awdurdod lleol yn cael ei greu na fydd yn cynnwys ffocws o'r fath ar y cymunedau hynny ac ynddynt. Pan fyddwn yn mynd drwy'r broses ymgynghori dros y misoedd nesaf, rwy'n gobeithio y byddwn yn edrych ar y materion hyn sy'n ymwneud â'r economi, tlodi a thwf, ac nid mynd ati'n syml i fabwysiadu safbwynt cyfrifydd, a fydd yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda ar fap ond nad yw'n gweithio'n dda i bobl a'u cymunedau.

15:44

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I start by saying to my colleague the Member for Blaenau Gwent that the general power of competence is something that I'm very keen to discuss further with representatives of local government? They will have their own views on for what purpose they wish to have that power and in what way it should be constituted. I think there is an opportunity there for us to have a further discussion.

A gaf fi ddechrau drwy ddweud wrth fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Flaenau Gwent, fod y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn fater rwy'n awyddus iawn i'w drafod ymhellach gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol? Bydd ganddynt eu barn eu hunain ar eu diben dros gael y pŵer hwnnw ac ym mha ffordd y dylid ei gyfansoddi. Rwy'n meddwl bod cyfle yma i ni gael trafodaeth bellach.

In respect of the map, I understand precisely what he says about the position of communities that are vulnerable and fragile and that may be deprived in economic and social terms. But, one of the factors that I had to weigh up when looking at a number of the propositions that were brought to me, including the one that he brought forward, was the whole issue of sustainability. One of the weaknesses, of course, of the proposition that he brought forward, and he will understand this, is that Blaenau Gwent, Torfaen and Monmouthshire have all been in special measures in education. I'm not convinced, myself. They've been in special measures, let me say, under the current situation; it wasn't as a result of a pending merger or anything else that created that situation. So, we've had to intervene in those areas for different reasons.

O ran y map, rwy'n deall yn iawn yr hyn y mae'n ei ddweud am sefyllfa cymunedau sy'n agored i niwed ac yn fregus ac a allai fod wedi eu hamddifadu o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Ond un o'r ffactorau roedd yn rhaid i mi eu pwyso a'u mesur wrth edrych ar nifer o'r cynigion a ddaeth i law, gan gynnwys yr un a gyflwynodd ef, oedd holl fater cynaliadwyedd. Un o wendidau'r cynnig a gyflwynodd, wrth gwrs, a bydd yn deall hyn, yw bod Blaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy i gyd wedi eu rhoi dan weithdrefn mesurau arbennig mewn addysg. Nid wyf yn argyhoeddedig fy hun. Maent wedi bod o dan weithdrefn mesurau arbennig, gadewch i mi ddweud, o dan y sefyllfa bresennol; nid canlyniad i fwriad i uno neu unrhyw beth arall a greodd y sefyllfa honno. Felly rydym wedi gorfod ymyrryd yn y meysydd hynny am resymau gwahanol.

So, I do think that sustainability is about the quality of public services and the capacity to deliver strong public services, and I have not been persuaded, as I've said to him, that that model could work. I think we've seen, in Wales in recent years, some of the problems of the mid-1990s structure, in that it has created a number of very small authorities, many of which lack capacity and have had to be given additional support from the Welsh Government, whether in education or social services, or, in some cases, in respect of corporate performance overall.

Felly rwy'n credu bod cynaliadwyedd yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau cyhoeddus a'r capasiti i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cryf, ac nid wyf wedi fy mherswadio, fel y dywedais wrtho, y gallai'r model hwn weithio. Yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, rwy'n credu ein bod wedi gweld rhai o broblemau strwythurol canol y 1990au, gan ei fod wedi creu nifer o awdurdodau bach iawn, a llawer ohonynt heb gapasiti ac wedi gorfod cael cymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, boed mewn addysg neu wasanaethau cymdeithasol, neu mewn rhai achosion, mewn perthynas â pherfformiad corfforaethol yn gyffredinol.

15:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Finally, Rhun ap Iorwerth.

Yn olaf, Rhun ap Iorwerth.

15:46 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Rydym, wrth gwrs, yn gallu bod yn blwyfol yng Nghymru, ond a ydy'r Gweinidog yn cytuno efo fi fod angen gwahaniaethu'n glir iawn rhwng plwyfoldeb a'r ymdeimlad gwirioneddol o fod angen gwir ddemocratiaeth leol, a'r angen yna i greu cyswllt gwirioneddol rhwng poblogaeth a'r awdurdod sy'n eu cynrychioli nhw? Mae Ynys Môn, fel mae'n digwydd, wedi bodoli fel uned ers, rwy'n meddwl, y drydedd ganrif ar ddeg. A ydy'r Gweinidog, felly, yn gweld y byddai cael gwared ar ddemocratiaeth Ynys Môn am y tro cyntaf ers cenedlaethau yn ergyd ddemocrataidd fawr i bobl yn Ynys Môn?

Thank you very much, Presiding Officer. We can of course be parochial in Wales, but does the Minister agree with me that we need clear differentiation between being parochial and the very real feeling that we need proper local democracy, and that need to create a very real link between people and the authority representing them? Ynys Môn, as it happens, has existed as a unit since the thirteenth century, I think. Does the Minister therefore accept that getting rid of democracy in Ynys Môn for the first time in generations would be a blow to the democracy of Ynys Môn and the people of Ynys Môn?

15:47 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Well, nobody is proposing to do away with democracy in Ynys Môn, but can I remind him that, as an independent authority, the Welsh Government had to intervene to protect public services in Ynys Môn, in education and in terms of the corporate structure of Ynys Môn? We actually had to intervene to redraw boundaries in Ynys Môn. So, I'm not sure that the history of Ynys Môn's independence as a local government entity is one of success, and I think we should be candid about that in this Chamber, and he knows that. I know it predates his time in this Chamber, but he knows the history, and it is not an elegant history, let me say to him.

Wel, nid oes neb yn bwriadu cael gwared ar ddemocratiaeth yn Ynys Môn, ond a gaf fi ei atgoffa, fel awdurdod annibynnol, y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymyrryd er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus yn Ynys Môn, mewn addysg ac o ran strwythur corfforaethol Ynys Môn? Bu'n rhaid i ni ymyrryd i ail-lunio ffiniau yn Ynys Môn. Felly, nid wyf yn siŵr fod hanes annibyniaeth Ynys Môn fel endid llywodraeth leol yn un o lwyddiant, ac rwy'n meddwl y dylem fod yn onest am hynny yn y Siambr hon, ac mae'n gwybod hynny. Gwn fod hynny'n dyddio o gyfnod cyn ei amser yn y Siambr hon, ond mae'n gwybod yr hanes a gadewch i mi ddweud wrtho nad yw'n hanes hardd.

As I said earlier, in answer to other questions, it seems to me that, within the new principal local authorities that we are proposing should be created, there is immense scope for those principal local authorities to create new structures that provide a powerful local voice—they could be town and community councils, they could be area boards, or there could be an island council in respect of Ynys Môn. All of those things are there and are open to the new principal local authorities to consider, but I will not accept for one moment that the people of Ynys Môn should suffer inadequate public services for the sake of independence as an authority.

Fel y dywedais yn gynharach wrth ateb cwestiynau eraill, o fewn y prif awdurdodau lleol newydd rydym yn cynnig y dylid eu creu, mae'n ymddangos i mi fod lle mawr i'r prif awdurdodau lleol hynny greu strwythurau newydd sy'n darparu llais lleol cryf—gallent fod yn gynghorau tref a chymuned, gallent fod yn fyrddau ardal, neu gellid creu cyngor yr ynys mewn perthynas ag Ynys Môn. Mae pob un o'r pethau hynny yno ac maent yn agored i'r prif awdurdodau lleol newydd eu hystyried, ond nid wyf yn derbyn am funud y dylai pobl Ynys Môn ddioddef gwasanaethau cyhoeddus annigonol er mwyn eu hannibyniaeth fel awdurdod.

15:48

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:48

## 4. Cynnig i Ddiwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## 4. Motion to Amend Standing Orders 2, 13 and 17 in relation to the Registration and Declaration of Members' Interests and Standing Orders 17 and 22 in relation to the Membership of the Standards of Conduct Committee

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move on to item 4, which is a motion to amend Standing Orders 2, 13 and 17 in relation to the registration and declaration of Members' interests, and Standing Orders 17 and 22 in relation to the membership of the Standards of Conduct Committee. I call on Aled Roberts to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 4, sy'n cynnig diwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â chofrestru a datgan buddiannau Aelodau, a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5786 Rosemary Butler

Motion NDM5786 Rosemary Butler

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015; a

1. Considers the Report of the Business Committee 'Amending Standing Orders: Standing Orders 2, 13 and 17 in relation to the Registration and Declaration of Members' Interests and Standing Orders 17 and 22 in relation to the Membership of the Standards of Conduct Committee' laid in the Table Office on 3 June 2015; and

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i:

2. Approves the proposal to:

a) adolygu Rheolau Sefydlog 17 a 22 fel y nodir yn Atodiad D i adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar unwaith; ac i

a) revise Standing Orders 17 and 22 as set out in Annex D of the Business Committee's report, with immediate effect; and

b) adolygu Rheolau Sefydlog 2, 13 ac 17 fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar 1 Medi 2015.

b) revise Standing Orders 2, 13 and 17 as set out in Annex B of the Business Committee's report, with effect on 1 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:49

### Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ffurfiol.

Formally.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

It's been formally moved. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, it's agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Mae wedi ei gynnig yn ffurfiol. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig yn cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

15:49

# 5. Cynnig i Gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill a Mabwysiadu'r Cod Ymddygiad Diwygiedig

# 5. Motion to Approve the Guidance for Assembly Members on the Registration, Declaration and Recording of Financial and Other Interests and Adopt the Revised Code of Conduct

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move on to item 5, which is a motion to approve the guidance for Assembly Members on the registration, declaration and recording of financial and other interests and to adopt the revised code of conduct. I call on Mick Antoniw, Chair of the Standards of Conduct Committee, to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef cynnig i gymeradwyo'r canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill ac i fabwysiadu'r cod ymddygiad diwygiedig. Galwaf ar Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5784 Mick Antoniw

Motion NDM5784 Mick Antoniw

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.2(ii) a 22.2 (iii):

To propose that the National Assembly for Wales, acting under Standing Orders 22.2(ii) and 22.2(iii):

1. Yn cymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015;

2. Yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015; ac

3. Yn cytuno y bydd y rhain yn dod i rym ar 1 Medi 2015.

1. Approves the Guidance for Assembly Members on the Registration, Declaration and Recording of Financial and Other Interests, which was laid in the Table Office on 3 June 2015;

2. Adopts the revised Code of Conduct for Assembly Members, which was laid in the Table Office on 3 June 2015; and

3. Agrees that these will come into force on 1 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:49

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. The motion I'm asking the Assembly to agree today is the culmination of the work undertaken by the National Assembly for Wales Commissioner for Standards and the Standards of Conduct Committee.

Diolch i chi, Lywydd. Mae'r cynnig rwy'n gofyn i'r Cynulliad ei dderbyn heddiw yn benllanw gwaith a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ran y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

In 2013, the committee agreed that the standards commissioner should undertake a piece of work on the Standing Orders, code of conduct and associated guidance dealing with Members' interests, and the commissioner undertook a consultation with Assembly Members, the Presiding Officer, Assembly Commission staff and the Electoral Commission before producing a report. We, as a committee, considered this report and completed a report of our own in October 2014.

Yn 2013, cytunodd y pwyllgor y dylai'r comisiynydd safonau ymgymryd â gwaith ar y Rheolau Sefydlog, y cod ymddygiad a chanllawiau cysylltiedig sy'n ymdrin â buddiannau'r Aelodau, a chynhaliodd y comisiynydd ymgynghoriad ag Aelodau'r Cynulliad, y Llywydd, staff Comisiwn y Cynulliad a'r Comisiwn Etholiadol cyn cynhyrchu adroddiad. Fel pwyllgor, aethom ati i ystyried yr adroddiad hwn a chwblhau ein hadroddiad ein hunain yn Hydref 2014.

In the light of the changes to the relevant Standing Orders, the purpose of this motion is to approve both the revised guidance for Members on the registration, declaration and recording of financial and other interests, and consequential revisions to the code of conduct for Assembly Members as a result of the Standing Order changes. Taken as a whole, the proposed changes are intended to provide greater clarity, certainty and transparency to Assembly Members and members of the public with regard to the rules on Members' interests, both relating to making oral declarations in Assembly proceedings and in registering interests in the register of Members' interests.

Yng ngoleuni'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog perthnasol, pwrpas y cynnig hwn yw cymeradwyo'r canllawiau diwygiedig i'r Aelodau ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill, a diwygiadau canlyniadol i'r cod ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad o ganlyniad i'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog. Gyda'i gilydd, bwriad y newidiadau arfaethedig yw darparu mwy o eglurder, sicrwydd a thryloywder i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r rheolau ar fuddiannau'r Aelodau, o ran gwneud datganiadau llafar yn nhrafodion y Cynulliad ac wrth gofrestru buddiannau yn y gofrestr o fuddiannau Aelodau.

In terms of oral declarations, Members will be aware that declarations are currently required only in very specific circumstances under Standing Orders 2.6 and 2.7, with failure to declare where Members should have done so potentially carrying a criminal sanction. The commissioner and committee felt these current requirements to be too narrow and have recommended that the circumstances where such declarations are required should be broadened. In particular, the commissioner and committee recommended changing the test of relevance in Standing Order 2.7 to encompass direct financial advantages greater than that which may accrue to the electorate generally as a test, rather than financial advantages that would be greater than that which might accrue to persons affected by the decision generally, as is currently the case.

O ran datganiadau llafar, bydd yr Aelodau yn ymwybodol nad oes angen datganiadau ar hyn o bryd ac eithrio mewn amgylchiadau penodol iawn o dan Reolau Sefydlog 2.6 a 2.7, a gallai methiant i ddatgan lle y dylai Aelodau fod wedi gwneud hynny arwain at gosb droseddol. Teimlai'r comisiynydd a'r pwyllgor fod y gofynion cyfredol hyn yn rhy gul ac maent wedi argymell y dylid ehangu'r amgylchiadau lle y mae gwneud datganiadau o'r fath yn ofynnol. Yn benodol, mae'r comisiynydd a'r pwyllgor yn argymell newid y prawf perthnasedd yn Rheol Sefydlog 2.7 i gynnwys manteision ariannol uniongyrchol mwy na'r hyn a allai ddod i ran yr etholaeth yn gyffredinol fel prawf, yn hytrach na manteision ariannol a fyddai'n fwy na'r hyn a allai ddod i ran y bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniad yn gyffredinol, fel ar hyn o bryd.

Members will wish to note, however, these declarations of registrable interests under these Standing Orders will remain subject to criminal sanctions and, in accordance with Standing Order 2.9, any Member who has made such a declaration must not vote on any proposal relating to that matter. Also, the test will continue to be linked to the registrable interests listed in paragraph 5 in the annex to Standing Order 2.

Bydd yr Aelodau eisiau nodi, fodd bynnag, y bydd y datganiadau hyn o fuddiannau cofrestradwy o dan y Rheolau Sefydlog yn parhau i fod yn destun cosbau troseddol ac yn unol â Rheol Sefydlog 2.9, ni ddylai unrhyw Aelod sydd wedi gwneud datganiad o'r fath bleidleisio ar unrhyw gynnig sy'n ymwneud â'r mater hwnnw. Hefyd, bydd y prawf yn parhau i fod yn gysylltiedig â buddiannau cofrestradwy a restrir ym mharagraff 5 yr atodiad i Reol Sefydlog 2.

In addition to these requirements, the commissioner and committee have suggested the introduction of a new non-criminal Standing Order requirement for Members to make oral declarations in Assembly proceedings of any relevant interest the Member or a family member has, or is expecting to have, in any matter arising in those proceedings. 'Any relevant interest' in this instance is if an interest might reasonably be thought by others to influence the Member's contribution to a debate or discussion. The new provision would be in addition to the existing requirements of Standing Orders 2.6 and 2.7.

Yn ogystal â'r gofynion hyn, mae'r comisiynydd a'r pwyllgor wedi awgrymu y dylid cyflwyno gofyniad Rheol Sefydlog anhroseddol newydd i Aelodau wneud datganiadau llafar yn nhrafodion y Cynulliad o unrhyw fuddiant perthnasol y mae'r Aelod neu aelod o'r teulu wedi, neu'n disgwyl ei gael, mewn unrhyw fater sy'n codi yn y trafodion hynny. Ceir 'unrhyw fuddiant perthnasol' yn yr achos hwn os gallai eraill ystyried yn rhesymol bod buddiant yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod i ddadl neu drafodaeth. Byddai'r ddarpariaeth newydd yn ychwanegol at ofynion presennol Rheolau Sefydlog 2.6 a 2.7.

I'll now turn to just a few of the proposed changes to the rules on registering interests, which include a new requirement for Members to register the source of any public funds that are directly received by the Member, or a Member's partner, such as any public grants or subsidies; clarification that the requirement to register shareholdings now includes registering share options and any involvement in blind trusts; and an enhanced definition of 'membership' and 'chairmanship' of bodies in receipt of Welsh Government or Assembly Commission funds.

Trof yn awr at ychydig o'r newidiadau arfaethedig i'r rheolau ar gofrestru buddiannau, sy'n cynnwys gofyniad newydd i Aelodau gofrestru ffynhonnell unrhyw arian cyhoeddus a dderbynnir yn uniongyrchol gan yr Aelod, neu bartner Aelod, megis unrhyw grantiau neu gymorthdaliadau cyhoeddus; eglurhad fod y gofyniad i gofrestru cyfranddaliadau bellach yn cynnwys cofrestru opsiynau cyfranddaliadau ac unrhyw ran mewn ymddiriedolaethau dall; a diffiniad estynedig o 'aelodaeth' a 'chadeiryddiaeth' cyrff sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad.

I'd like to thank the commissioner for standards, Gerard Elias, for his considerable work in informing the work of the committee and ensuring that our rules are up to date and fit for purpose, which is one of the responsibilities of the Standards of Conduct Committee. In addition to my thanks to Gerard Elias, I would like to thank everyone who contributed to this piece of work over the last two years. I believe that these proposed changes to the rules on Members' interests will ensure that there is increased transparency and clarity for us as Members, but also for the people of Wales.

Hoffwn ddiolch i'r comisiynydd safonau, Gerard Elias, am ei waith sylweddol yn llywio gwaith y pwyllgor a sicrhau bod ein rheolau yn gyfredol ac yn addas i'r pwrpas, sy'n un o gyfrifoldebau'r Safonau Ymddygiad Pwyllgor. Yn ychwanegol at fy niolch i Gerard Elias, hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Credaf y bydd y newidiadau arfaethedig hyn i'r rheolau ar fuddiannau Aelodau yn sicrhau bod yna fwy o dryloywder ac eglurder i ni fel Aelodau, a hefyd i bobl Cymru.

15:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. Anyone? No. Therefore, the proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore, it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Unrhyw un? Nac oes. Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad. Felly, mae'n cael ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

# 6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gofal Dementia

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.*

# 6. Welsh Conservatives Debate: Dementia Care

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Elin Jones.*

15:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 6, which is the first of the Welsh Conservatives' debates this afternoon, on dementia care, and I call on Mark Isherwood to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 6, sef dadl gyntaf y Ceidwadwyr Cymreig y prynhawn yma, ar ofal dementia, a galwaf ar Mark Isherwood i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5785 Paul Davies

Motion NDM5785 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod dros 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia ac y rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu 31 y cant erbyn 2021.

2. Yn cydnabod mesurau a weithredwyd gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn gofal dementia a'i wella.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i feysydd o arfer gorau o ran gofal dementia o bob rhan o'r DU a thu hwnt er mwyn gwella cyfraddau diagnosis dementia a mynediad at wybodaeth a chefnogaeth briodol.

1. Notes that there are over 45,000 people in Wales living with dementia and that by 2021 this is projected to increase by 31 per cent.

2. Acknowledges measures implemented by the UK Government to invest in and improve dementia care.

3. Calls on the Welsh Government to investigate areas of best practice in dementia care from across the UK and further afield to improve dementia diagnosis rates and access to appropriate information and support.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:54

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Approximately 45,000 people live with dementia in Wales today. Around 95 per cent are aged 65 and over, and this is set to rise by 31 per cent by 2021. Only 42 per cent of people receive a formal diagnosis of dementia in Wales. By 2030, the population aged 85 or over is expected to double. As a result, we're likely to see a significant increase in the number of people with dementia, currently the leading cause of death in women and the third leading cause of death in men. As Age Cymru states, given the recent scandal involving the Tawel Fan ward at Ysbyty Glan Clwyd and other examples where older people with dementia have been neglected or worse, they believe that dignity, respect and safeguarding should be at the top of the list of priorities for the Welsh Government and health and social services in Wales.

Mae tua 45,000 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghymru heddiw. Mae tua 95 y cant ohonynt yn 65 oed a throsodd, ac mae hyn yn debygol o godi 31 y cant erbyn 2021. Dim ond 42 y cant o bobl sy'n cael diagnosis ffurfiol o ddementia yng Nghymru. Erbyn 2030, mae disgwyl i'r boblogaeth 85 oed a throsodd ddyblu. O ganlyniad, rydym yn debygol o weld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl â dementia, sef y prif achos marwolaeth mewn menywod a'r trydydd achos marwolaeth mwyaf mewn dynion ar hyn o bryd. Fel y mae Age Cymru yn ei ddatgan, o ystyried y sgandal diweddar yn ymwneud â ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ac enghreifftiau eraill lle y mae pobl hŷn â dementia wedi cael eu hesgeuluso neu waeth na hynny, maent yn credu y dylai urddas, parch a diogelwch fod ar frig rhestr blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Our motion for this debate acknowledges measures implemented by the UK Government to invest in improved dementia care, and calls on the Welsh Government to investigate areas of best practice in dementia care from across the UK and further afield to improve dementia diagnosis rates and access to appropriate information and support.

Mae ein cynnig ar gyfer y ddadl hon yn cydnabod mesurau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn gofal dementia gwell, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i feysydd arfer gorau mewn gofal dementia o bob rhan o'r DU a thu hwnt er mwyn gwella cyfraddau diagnosis dementia a mynediad priodol at wybodaeth a chymorth.

At this year's annual RESEC Cymru, or Research in Specialist and Elderly Care Cymru, conference in north Wales, Dr Howells, an old age consultant psychiatrist at Cardiff and Vale University Local Health Board, noted that David Cameron's dementia initiative was taking a lead globally, and posed the rhetorical question, 'Is the Welsh Government doing enough?' In March 2012, David Cameron launched the Prime Minister's challenge on dementia, based on three areas: improving health and care, dementia-friendly communities and increasing dementia research. He described dementia as the quiet crisis and one of the greatest challenges of our time. In February 2015, he announced his intentions to continue his commitment to dementia with the Prime Minister's challenge on dementia 2020. He also announced over £300 million of UK Government dementia research funding over five years.

Yng nghynhadledd flynyddol RESEC Cymru yng ngogledd Cymru eleni, nododd Dr Howells, seiciatrydd ymgynghorol yr henoed ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, fod menter dementia David Cameron yn dangos arweiniad yn fyd-eang, a gofynnodd y cwestiwn rhethregol, 'A yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon?' Ym mis Mawrth 2012, lansiodd David Cameron her dementia y Prif Weinidog, yn seiliedig ar dri maes: gwella iechyd a gofal, cymunedau dementia-gyfeillgar a chynyddu ymchwil dementia. Disgrifiodd ddementia fel argyfwng tawel ac un o heriau mwyaf ein dyddiau ni. Ym mis Chwefror 2015, cyhoeddodd ei fwriad i barhau â'i ymrwymiadau i ddementia drwy her dementia y Prif Weinidog 2020. Hefyd, cyhoeddodd dros £300 miliwn o gyllid ymchwil dementia gan Lywodraeth y DU dros bum mlynedd.

The announcements of additional funding made by the Welsh health Minister in April and June 2015 to prioritise dementia in the year ahead, supporting diagnosis rates, public awareness and support, were widely welcomed. Commenting on this, Age Cymru added, however, that they believe that more must be done to support older people with dementia. Professor Bob Woods of Dementia Services Development Centre Wales at Bangor University stated that, without more detailed information regarding how the funding will be spent, it is difficult to comment on how effective these injections of cash will prove to be, but a strong recommendation should be that both the spending and its effects should be carefully monitored. The nature of dementia and the scale of the numbers of people involved, he said, both those with the condition and those providing care—families, friends and paid carers—means that no single measure will be enough.

Mae'r cyhoeddiadau am gyllid ychwanegol a wnaed gan Weinidog Iechyd Cymru ym mis Ebrill a mis Mehefin 2015 er mwyn blaenoriaethu dementia yn y flwyddyn sydd i ddod, a chynnal cyfraddau diagnosis, ymwybyddiaeth y cyhoedd a chymorth wedi cael croeso eang. Wrth sôn am hyn, ychwanegodd Age Cymru, fodd bynnag, eu bod yn credu bod rhaid gwneud mwy i gefnogi pobl hŷn â dementia. Dywedodd yr Athro Bob Woods o Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia Cymru ym Mhrifysgol Bangor ei bod hi'n anodd gwneud sylwadau ar ba mor effeithiol y bydd chwistrelliad o'r fath o arian parod heb wybodaeth fanylach ynglŷn â sut y bydd yr arian yn cael ei wario, ond un argymhelliad cryf yw y dylid monitro'r gwariant a'i effeithiau yn ofalus. Mae natur dementia a'r niferoedd o bobl sy'n rhan o hyn, meddai, y rhai sydd â'r cyflwr a'r rhai sy'n darparu gofal—teuluoedd, ffrindiau a gofalwyr cyflogedig—yn golygu y bydd angen mwy nag un dull o fesur.

As part of the Prime Minister's challenge on dementia, the UK Government committed to improving diagnosis rates in England to 66 per cent. At the time of the launch of the challenge in 2012, diagnosis rates were below 50 per cent in England. Currently, they're around 63 per cent, but in Wales, as we heard, they're still down at 42 per cent.

Fel rhan o her dementia y Prif Weinidog, ymrwymodd Llywodraeth y DU i wella cyfraddau diagnosis yn Lloegr i 66 y cant. Ar adeg lansio'r her yn 2012, roedd cyfraddau diagnosis yn is na 50 y cant yn Lloegr. Ar hyn o bryd, maent oddeutu 63 y cant, ond yng Nghymru, fel y clywsom, maent yn dal i lawr ar 42 y cant.

An audit published by Public Health Wales last year found that nearly one third of clinics in Wales are currently failing to meet the standards set by the Memory Services National Accreditation Programme that people should wait no more than four to six weeks between the receipt of referral and their first appointment. It also found that few clinics in Wales have sufficient capacity to cope with the numbers of new patients who would need careful assessment in a memory clinic or a similar service if diagnosis rates were to improve.

Canfu archwiliad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru y llynedd fod bron i draean o glinigau Cymru ar hyn o bryd yn methu â chyrraedd y safonau a bennwyd gan Raglen Genedlaethol Achredu Gwasanaethau Cof na ddylai pobl aros mwy na phedair i chwe wythnos rhwng cael eu hatgyfeirio a'u hapwyntiad cyntaf. Canfu hefyd mai ychydig o glinigau yng Nghymru sydd â digon o gapasiti i ymdopi â nifer y cleifion newydd a fyddai angen asesiad gofalus mewn clinig cof neu wasanaeth tebyg os yw cyfraddau diagnosis i wella.

Diagnosing early dementia is a skilled task, often requiring repeated assessments for confirmation. The national memory clinic audit suggested that additional resources for memory clinics would be required to manage this increased workload. Post-diagnostic support is inconsistent. However, there's currently no guidance on the minimum provision of support, and it's unclear whether this responsibility lies with health or social care services. There are a number of evidence-based interventions that can be commenced soon after diagnosis. The Alzheimer's Society's dementia advisers provide person-centred information about dementia and signpost to other support and services. In north Wales, the Dementia RED scheme—Dementia Respect, Empathy, Dignity—increases availability of information and signposting in primary care practices. The service provider is the Alzheimer's Society who are training and supporting volunteers to be information providers. In Scotland, this has been addressed by a guarantee of 12 months of post-diagnostic support.

Mae gwneud diagnosis o ddementia cynnar yn dasg sy'n galw am lawer o sgiliau, ac sy'n aml yn galw am sawl asesiad cyn gallu ei gadarnhau. Awgrymodd archwiliad o'r clinigau cof cenedlaethol y byddai angen adnoddau ychwanegol ar y clinigau cof i reoli'r cynnydd hwn yn y llwyth gwaith. Mae lefelau cymorth yn dilyn diagnosis yn anghyson. Fodd bynnag, nid oes arweiniad ar ddarparu isafswm o gymorth ar hyn o bryd, ac mae'n aneglur ai cyfrifoldeb y gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yw hyn. Mae yna nifer o ymyriadau ar sail tystiolaeth y gellir eu cychwyn yn fuan ar ôl diagnosis. Mae cynghorwyr dementia Cymdeithas Alzheimer's yn darparu gwybodaeth am ddementia sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cyfeirio at gymorth a gwasanaethau eraill. Yn y gogledd, mae cynllun Dementia RED—Parch, Empathi, Urddas—yn sicrhau bod mwy o wybodaeth a chyfeirio ar gael mewn practisau gofal sylfaenol. Y darparwr gwasanaeth yw Cymdeithas Alzheimer's sy'n hyfforddi a chynorthwyo gwirfoddolwyr i fod yn ddarparwyr gwybodaeth. Yn yr Alban, aed i'r afael â hyn drwy warantu 12 mis o gymorth yn dilyn diagnosis.

A quarter of hospital beds and up to 70 per cent of places in care homes are occupied by people with dementia, and over 60 per cent of people receiving home care services have some form of dementia. This means that every person working in health and social care will support a person with dementia at some point in their career. Health Education England has a programme of dementia awareness training among the whole NHS workforce that aims to ensure all NHS staff in England receive tier 1 dementia training by 2018. But there's currently no equivalent training programme in social care, and, in Wales, there are concerns that the eligibility criteria in the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 could significantly disadvantage people with dementia.

Pobl â dementia sy'n llenwi chwarter y gwelyau ysbyty a hyd at 70 y cant o leoedd mewn cartrefi gofal, ac mae dros 60 y cant o'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref â rhyw fath o ddementia. Mae hyn yn golygu y bydd pob person sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cynorthwyo person â dementia ar ryw bwynt yn eu gyrfa. Mae gan Health Education England raglen o hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia i weithlu cyfan y GIG gyda'r nod o sicrhau bod holl staff y GIG yn Lloegr yn cael hyfforddiant dementia haen 1 erbyn 2018. Ond ar hyn o bryd, ni cheir rhaglen hyfforddiant gyfatebol mewn gofal cymdeithasol, ac yng Nghymru, ceir pryderon y gallai'r meini prawf cymhwyster yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 beri anfantais sylweddol i bobl â dementia.

Two thirds of people with dementia live in the community. Approximately 60 per cent of people receiving home care have some form of dementia. Integrated health and social care can help a person with dementia from diagnosis through to end-of-life care. There are various integrated care models in England, including the better care fund. Home care and daytime activities are especially important for many. The difficulties of short visits and personnel changes are well known. So, what plans are there to enhance the provision of care in the person's home?

Mae dwy ran o dair o bobl â dementia yn byw yn y gymuned. Mae tua 60 y cant o'r bobl sy'n cael gofal cartref yn dioddef o ryw fath o ddementia. Gall iechyd a gofal cymdeithasol integredig helpu person â dementia o adeg gwneud y diagnosis hyd at ofal diwedd oes. Ceir gwahanol fodelau gofal integredig yn Lloegr, gan gynnwys y gronfa gofal gwell. Mae gofal cartref a gweithgareddau dydd yn arbennig o bwysig i lawer. Mae'r anawsterau sy'n deillio o ymweliadau byr a newid personél yn gyfarwydd. Felly, pa gynlluniau sydd ar y gweill i wella'r modd y caiff gofal ei ddarparu yng nghartref yr unigolyn?

Regular feedback surveys of relatives' views and experiences of hospital care should be made a requirement rather than a recommendation. Reducing the use of anti-psychotic medication has been a key driver in dementia care services across the UK, relevant in hospital settings, care homes and the community. But simply removing the medication is not enough.

Dylai arolygon adborth rheolaidd o safbwyntiau perthnasau a phrofiadau o ofal ysbyty gael eu gwneud yn ofyniad yn hytrach nag argymhelliad. Mae lleihau'r defnydd o feddyginiaeth gwrth-seicotig wedi bod yn ysgogiad allweddol yn y gwasanaethau gofal dementia ar draws y DU, ac yn berthnasol mewn ysbytai, cartrefi gofal a'r gymuned. Ond nid yw cael gwared ar y feddyginiaeth ynddi'i hun yn ddigon.

There are examples of highly skilled NHS challenging behaviour teams in England. Such a model could be expanded across Wales, providing support to both family carers and the care home sector. There is increasing evidence that in-patient and arts-based activities may be especially helpful for people at all stages of dementia. Many of the environments in which people with dementia receive care are far from dementia-friendly. In north Wales, the Inspiring Action project has shown that small amounts of funding can lead to significant improvements.

Ceir enghreifftiau o dimau ymddygiad heriol GIG medrus iawn yn Lloegr. Gellid ehangu model o'r fath ar draws Cymru, gan ddarparu cymorth i ofalwyr teuluol a'r sector cartrefi gofal. Ceir tystiolaeth gynyddol fod gweithgareddau i gleifion mewnol sy'n seiliedig ar y celfyddydau yn arbennig o ddefnyddiol i bobl ar bob cam o ddementia. Mae llawer o'r amgylcheddau lle y mae pobl â dementia yn cael gofal yn bell o fod yn ddementia-gyfeillgar. Yng ngogledd Cymru, mae prosiect Ysbrydoli Gweithredu wedi dangos y gall ychydig bach o arian arwain at welliannau sylweddol.

As the symptoms of dementia progress, many people need the support of a care home. In 2014, a third of people with dementia were living in care homes, and 70 per cent of care home residents had some form of dementia. As Age Cymru state, in order for quality care to be provided with dignity, it is essential that care workers receive appropriate training. In a Welsh poll conducted by ICM in February 2015, 63 per cent of respondents stated that domiciliary care workers should receive training on dementia.

Wrth i symptomau dementia gynyddu, mae llawer o bobl angen cefnogaeth cartref gofal. Yn 2014, mae traean o bobl â dementia yn byw mewn cartrefi gofal, ac mae gan 70 y cant o breswylwyr cartrefi gofal ryw ffurf ar ddementia. Fel y mae Age Cymru yn ei ddatgan, er mwyn darparu gofal o ansawdd gydag urddas, mae'n hanfodol bod gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant priodol. Mewn arolwg a gynhaliwyd gan ICM yng Nghymru ym mis Chwefror 2015, nododd 63 y cant o'r ymatebwyr y dylai gweithwyr gofal cartref gael hyfforddiant ar ddementia.

Age Cymru are concerned about the national dementia vision and strategy, now that the national dementia vision has been subsumed into 'Together for Mental Health'. As a consequence, they state, it would appear that dementia has been treated as less of a priority in Wales than in other parts of the UK and that:

Mae Age Cymru yn pryderu am y weledigaeth a'r strategaeth ddementia genedlaethol ers i'r weledigaeth ddementia cenedlaethol gael ei chynnwys yn 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. O ganlyniad, maent yn dweud ei bod hi'n ymddangos bod dementia wedi cael ei drin fel llai o flaenoriaeth yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU, ac:

'At this stage, the National Dementia Vision for Wales is an aspiration only'.

'At this stage, the National Dementia Vision for Wales is an aspiration only '.

A joint Marie Curie and Alzheimer's Society report identifies that the national dementia vision includes no reference to the end-of-life care needs of people with dementia, and that 'Together for Mental Health' makes only a general commitment. They conclude that the final stages of the disease remain

Mae adroddiad ar y cyd gan Marie Curie a Chymdeithas Alzheimer's yn nodi nad yw'r weledigaeth ddementia genedlaethol yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at anghenion gofal diwedd oes pobl â dementia, ac mai ymrwymiad cyffredinol yn unig a geir yn 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Dônt i'r casgliad fod camau olaf y clefyd yn parhau i fod

'the forgotten aspect of what has been referred to as a "silent epidemic".'

'the forgotten aspect of what has been referred to as a "silent epidemic"..'

They identify three core barriers preventing many people with dementia from accessing and receiving high-quality care at the end of their lives: identification and planning, inequality of access, and the quality of care experienced by people with dementia. We need a new strategy that addresses the end-of-life needs for people with dementia, embracing the resource and expertise available in our hospices, and acknowledging the good practice in Hywel Dda Local Health Board, where Marie Curie dementia nurses work with healthcare professionals to improve quality of life and care for people with advanced dementia as they reach the end of life.

Maent yn nodi tri rhwystr craidd sy'n atal llawer o bobl â dementia rhag cael mynediad a gofal o ansawdd uchel ar ddiwedd eu hoes: nodi a chynllunio, anghydraddoldeb o ran mynediad, ac ansawdd y gofal i bobl â dementia. Mae arnom angen strategaeth newydd sy'n mynd i'r afael ag anghenion diwedd oes pobl â dementia, gan groesawu'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael yn ein hosbisau, a chydnabod yr arfer da ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, lle y mae nyrsys dementia Marie Curie yn gweithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wella ansawdd bywyd a gofal i bobl â dementia datblygedig wrth iddynt gyrraedd diwedd eu hoes.

Like many Members, including the Minister, I'm a Dementia Friend, but that is not enough. Throughout Wales, the independent sector provides the great majority of care. As the chair of Care Forum Wales has stated:

Fel llawer o Aelodau, gan gynnwys y Gweinidog, rwy'n Ffrind Dementia, ond nid yw hynny'n ddigon. Ledled Cymru, y sector annibynnol sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gofal. Fel y mae cadeirydd Fforwm Gofal Cymru wedi datgan:

'People in Wales are not working in partnership in the way that the Joseph Rowntree Foundation has shown in other parts of the UK makes a real difference'

'People in Wales are not working in partnership in the way that the Joseph Rowntree Foundation has shown in other parts of the UK makes a real difference'

and it's vital that we 'change the DNA in Wales' to fundamentally change the way we work collaboratively.

ac mae'n hanfodol ein bod yn newid y DNA yng Nghymru i newid yn sylfaenol y ffordd rydym yn gweithio ar y cyd.

We've talked many years about this: now let's listen and make it happen.

Rydym wedi siarad ers blynyddoedd lawer am hyn: yn awr gadewch i ni wrando a gwneud iddo ddigwydd.

16:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected three amendments to the motion. I call on the Minister for Health and Social Services to move formally amendment 1, which is tabled in the name of Jane Hutt.

Rwyf wedi dethol tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig gwelliant 1 yn ffurfiol, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Jane Hutt.

*Gwelliant 1—Jane Hutt*

*Amendment 1—Jane Hutt*

*Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Add as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod y cyllid newydd o ychydig dros £5.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau dementia yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.*

*Acknowledges the new Welsh Government funding of just over £5.5 million for dementia services improvement in Wales, announced in recent weeks.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:04

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Formally, Chair.

Yn ffurfiol, Gadeirydd.

16:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ystâd y GIG mor gyfeillgar â phosibl i bobl sydd â dementia ac i'w gwneud yn ofynnol bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant gorfodol mewn ymwybyddiaeth dementia a gofal dementia.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the NHS estate is as dementia-friendly as possible and to require mandatory training in dementia awareness and dementia care for all healthcare professionals.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

16:05

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. Could I begin by thanking the Conservatives for tabling the debate this afternoon? I formally move the amendment on the order paper in the name of Aled Roberts on behalf of the Welsh Liberal Democrat group. Presiding Officer, there are three aspects I should like to address in my contribution this afternoon.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma? Cynigiaf y gwelliant ar y papur trefn yn ffurfiol yn enw Aled Roberts ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Lywydd, mae tair elfen yr hoffwn fynd i'r afael â hwy yn fy nghyfraniad y prynhawn yma.

Mark Isherwood has already talked about the problems around diagnosis, and I'm sure many other speakers this afternoon will do the same. There is much more that needs to be done to ensure that people have access to the services that are required to form a diagnosis, but having your illness recognised is just the start of what is often a very long and painful journey for individuals and families, and we need to ensure that there are appropriate services at all levels to address their needs.

Mae Mark Isherwood eisoes wedi siarad am y problemau ynghylch diagnosis, ac rwy'n siŵr y bydd llawer o siaradwyr eraill yn gwneud yr un peth y prynhawn yma. Mae llawer mwy y mae angen ei wneud i sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen i ffurfio diagnosis, ond nid yw cael eich salwch wedi ei gydnabod ond yn ddechrau ar yr hyn sy'n aml yn daith hir a phoenus iawn i unigolion a theuluoedd, ac mae angen i ni sicrhau bod gwasanaethau priodol ar bob lefel i fynd i'r afael â'u hanghenion.

For many people with a diagnosis, they will continue to live with their family members within their own community, and that is where we need to, in the first instance, target our support. Those family members want to look after their relatives for as long as it is possible for them to do so, but, to be able to carry out those caring responsibilities, they often need support. Sometimes, it is not a lot of support that they need, but they do need to know that there is someone there to whom they can turn, and that there are opportunities to have breaks that would allow them to recharge their batteries or get on with some of the basic essentials of living, knowing that their relative is being looked after. Now, I note that the Government has committed to the recruitment of 32 primary care support workers to be able to provide that community-based support for families, and I'd be grateful if the Minister perhaps, in his response to the debate, could talk about how those roles are making a difference on the ground and where those 32 people are currently working.

I lawer o bobl â diagnosis, byddant yn parhau i fyw gydag aelodau o'u teuluoedd yn eu cymuned eu hunain, a dyna lle y mae angen i ni dargedu ein cefnogaeth yn y lle cyntaf. Mae'r aelodau teuluol yn awyddus i ofalu am eu perthnasau am gyhyd ag sy'n bosibl iddynt wneud hynny, ond er mwyn iddynt allu cyflawni'r cyfrifoldebau gofal hynny, maent yn aml angen cefnogaeth. Weithiau, nid oes angen llawer o gefnogaeth arnynt, ond mae angen iddynt wybod bod rhywun yno y gallant droi atynt, a bod cyfleoedd i gael seibiant a fyddai'n eu galluogi i adfer eu nerth neu fwrw ati â rhai o hanfodion byw sylfaenol, gan wybod bod eu perthynas yn cael gofal. Yn awr, rwy'n nodi bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i recriwtio 32 o weithwyr cymorth gofal sylfaenol i allu darparu'r gefnogaeth honno yn y gymuned ar gyfer teuluoedd, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog siarad o bosibl, yn ei ymateb i'r ddadl, ynglŷn â sut y mae'r rolau hynny'n gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad, a lle y mae'r 32 o bobl hynny'n gweithio ar hyn o bryd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:07.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:07.*

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, we need local opportunities to provide support. In my own constituency, I'm very fortunate to have the Brecon dementia cafe, the Hay dementia café, and the Crossroads Saturday respite club in Knighton. But all of those schemes are run by volunteers or small local groups, and often their sustainability and their existence is constantly under threat: where is the next £150 going to come from to let them run next month? I really think we need to look at what we can do to support those organisations. Sometimes in the third sector—and I understand why commissioners do this—it is easy to deal with the big bodies, but actually there are local initiatives sitting below well-known national organisations who are actually really tapped into what's happening in communities, and they can respond.

Fel y dywedais, mae angen cyfleoedd lleol i ddarparu cefnogaeth. Yn fy etholaeth fy hun, rwy'n ffodus iawn o gael caffi dementia Aberhonddu, caffi dementia y Gelli, a chlwb seibiant ar y Sadwrn Crossroads yn Nhrefyclo. Ond mae pob un o'r cynlluniau hyn yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr neu grwpiau bach lleol, ac yn aml mae eu cynaliadwyedd a'u bodolaeth dan fygythiad cyson: o ble y daw'r £150 nesaf i adael iddynt barhau am y mis nesaf? Rwy'n meddwl o ddifrif fod angen i ni edrych ar beth y gallwn ei wneud i gefnogi'r sefydliadau hyn. Weithiau, yn y trydydd sector—ac rwy'n deall pam y mae comisiynwyr yn gwneud hyn—mae'n hawdd delio â'r cyrff mawr, ond mewn gwirionedd mae cynlluniau lleol o dan y sefydliadau cenedlaethol adnabyddus sydd â chysylltiad gwirionedd â'r hyn sy'n digwydd yn y cymunedau, ac maent yn gallu ymateb.

The perfect example of that is the Brecon dementia-friendly initiative, which has done tremendous work in achieving a dementia-friendly status for the town of Brecon, and I'm very proud of that. I'm also very proud of the leadership of Councillor Paul Ashton, who, having worked closely in the Brecon scenario, persuaded Powys County Council as a whole to adopt a motion in October of last year to work collectively to make the entire county a dementia-friendly community—because it's not just those individual support packages, it's a wider understanding across the community that can make living with dementia in your community an easier thing to do. And we're really embracing that. I was really pleased to see my 13-year-old daughter come home from high school on her skills day sporting her dementia-friendly badge because the schoolchildren had been taken through that initial course, and she'd learnt an awful lot about dementia and what she could do to assist people in her community.

Yr enghraifft berffaith o hyn yw menter dementia-gyfeillgar Aberhonddu, sydd wedi gwneud gwaith aruthrol o ran cyflawni statws dementia-gyfeillgar yn nhref Aberhonddu, ac rwy'n falch iawn o hynny. Rwy'n falch iawn o arweinyddiaeth y Cynghorydd Paul Ashton, sydd, ar ôl gweithio'n agos i'r achos yn Aberhonddu, wedi perswadio Cyngor Sir Powys yn ei gyfanrwydd i fabwysiadu cynnig fis Hydref y llynedd i gydweithio er mwyn gwneud y sir gyfan yn gymuned ddementia-gyfeillgar—am nad yw'n ymwneud yn unig â'r pecynnau cymorth unigol hynny, mae'n ymwneud â dealltwriaeth ehangach ar draws y gymuned a all wneud byw gyda dementia yn eich cymuned yn haws. Ac rydym yn wirioneddol groesawu hynny. Roeddwn yn falch iawn o weld fy merch 13 oed yn dod adref o'r ysgol uwchradd ar ei diwrnod sgiliau yn gwisgo'i bathodyn dementia-gyfeillgar oherwydd bod y plant ysgol wedi cael eu harwain drwy'r cwrs cychwynnol, ac roedd hi wedi dysgu llawer iawn am ddementia a'r hyn y gallai ei wneud i gynorthwyo pobl yn ei chymuned.

But, as we've heard, for many people, their journey moves on and it's no longer possible for them to live at home. I'm really concerned whether we will have sufficient beds of a specialist nature in the residential care sector to respond to what is a demographic wave that is coming towards us. Again, maybe the Minister will describe what steps he's taking in his Government to ensure there are adequate EMI facilities within residential care, with the appropriately-trained staff to be able to meet demand.

Ond fel y clywsom, i lawer o bobl, mae eu taith yn symud ymlaen ac nid yw bellach yn bosibl iddynt fyw gartref. Rwy'n bryderus iawn a fydd gennym ddigon o welyau o natur arbenigol yn y sector gofal preswyl i ymateb i'r don ddemograffig sy'n anelu amdanom. Unwaith eto, efallai y gwnaiff y Gweinidog ddisgrifio pa gamau y mae'n eu cymryd yn ei Lywodraeth i sicrhau bod digon o gyfleusterau i Henoed Bregus eu Meddwl mewn gofal preswyl, gyda staff wedi eu hyfforddi'n briodol i allu ateb y galw.

And then, finally, to hospital care. When I talk about hospital care, I don't just mean the specialist elderly mentally ill wards. Many people with dementia will end up in hospital as a result of a medical problem via A&E—perhaps it's a fracture of the hip, perhaps it's pneumonia, perhaps it's a urinary tract infection. They will find themselves disorientated in a busy, loud A&E department with staff who are trained to deal with A&E emergencies, not trained to deal with dementia. They then find themselves on general hospital medical wards, again with people trained to deal with general medical issues, not dementia, and we need to ensure, given the demographics of our population, that all staff are able to equip themselves with the skills they need to manage those patients.

Ac yn olaf, gofal ysbyty. Pan fyddaf yn siarad am ofal ysbyty, nid wyf yn golygu'r wardiau arbenigol i henoed bregus eu meddwl yn unig. Bydd llawer o bobl â dementia yn gorfod mynd i'r ysbyty o ganlyniad i broblem feddygol drwy adrannau damweiniau ac argyfwng—ar ôl torri clun efallai, neu oherwydd niwmonia, neu haint y llwybr wrinol. Byddant yn teimlo'n ddryslyd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys prysur a swnllyd gyda staff sydd wedi'u hyfforddi i ymdrin ag argyfyngau damweiniau ac achosion brys, a heb gael hyfforddiant i ymdrin â dementia. Yna, byddant yn mynd i wardiau meddygol mewn ysbytai cyffredinol, unwaith eto gyda phobl wedi'u hyfforddi i ymdrin â materion meddygol cyffredinol, nid dementia, ac mae angen i ni sicrhau, o ystyried demograffeg ein poblogaeth, fod yr holl staff yn gallu arfogi eu hunain â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i reoli'r cleifion hynny.

16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 3, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob aelod o staff yn y GIG yn cael hyfforddiant priodol mewn gofal i gleifion â dementia.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that all staff in the NHS receive appropriate training in care for patients with dementia.*

*Cynigiwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 moved.*

16:10 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, and thank you for the opportunity to debate this important subject. I move amendment 3 formally in the name of Elin Jones. Training, of course, is the key for professional staff to identify the early onset of dementia. Dirprwy Lywydd, there are slightly conflicting statistics on the numbers of people in Wales who suffer from dementia. I've heard numbers ranging from 37,000 to 45,000 but, even if you take the average, it still means that over 40,000 people in Wales have dementia, and the numbers will rise as the population gets older. Now, I know that the Welsh Government takes this issue very seriously, because it has published the national dementia vision for Wales, and this policy document is soon to be reviewed by the older people's commissioner. I can't wait. But we know, before that review is completed, that all is not well. The four priority areas set out by the Welsh Government are sensible enough: better joint working across health, social care and the third sector; improved early diagnosis; the need for advocacy and access to information; and improved training for those delivering care. Of these points, no mention is made in today's motion or any of the amendments of the need for better joint working or the importance of advocacy for sufferers and their carers. Where would we be without the carers? On this last point, Dirprwy Lywydd, I hope that support for carers will form a central part of Welsh Government policy because, in many ways, those close family members of loved ones suffering from dementia are those who suffer most.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch am y cyfle i drafod y pwnc pwysig hwn. Cynigiaf welliant 3 yn ffurfiol yn enw Elin Jones. Hyfforddiant, wrth gwrs, yw'r allwedd i staff proffesiynol allu adnabod dementia yn gynnar. Ddirprwy Lywydd, ceir ychydig o ystadegau anghyson ar niferoedd y bobl yng Nghymru sy'n dioddef o ddementia. Clywais niferoedd yn amrywio o 37,000 i 45,000, ond hyd yn oed os cymerwch y cyfartaledd, mae'n dal i olygu bod dros 40,000 o bobl yng Nghymru â dementia, a bydd y niferoedd yn codi wrth i'r boblogaeth heneiddio. Nawr, gwn fod Llywodraeth Cymru yn cymryd y mater hwn o ddifrif, oherwydd mae wedi cyhoeddi gweledigaeth genedlaethol Cymru ar ddementia, ac mae'r ddogfen bolisi ar fin cael ei hadolygu gan y comisiynydd pobl hŷn. Ni allaf aros. Ond rydym yn gwybod, cyn cwblhau'r adolygiad hwnnw, nad yw popeth yn iawn. Mae'r pedwar maes blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn synhwyrol ddigon: gwella cydweithio ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector; gwella diagnosis cynnar; yr angen am eiriolaeth a mynediad at wybodaeth; a hyfforddiant gwell ar gyfer y rhai sy'n darparu gofal. O'r pwyntiau hyn, ni sonnir yn y cynnig heddiw nac unrhyw un o'r gwelliannau am yr angen am gydweithio gwell neu bwysigrwydd eiriolaeth i ddioddefwyr a'u gofalwyr. Ble y byddem heb y gofalwyr? Ar y pwynt olaf, Ddirprwy Lywydd, rwy'n gobeithio y bydd cymorth i ofalwyr yn rhan ganolog o bolisi Llywodraeth Cymru, oherwydd, mewn sawl ffordd, aelodau agos o deuluoedd anwyliaid sy'n dioddef o ddementia yw'r rhai sy'n dioddef fwyaf.

I said that all is not well and I base this comment on the report from the Alzheimer's Society in Wales. They note, and I quote:

Dywedais nad yw popeth yn iawn ac rwy'n seilio'r sylw ar yr adroddiad gan Gymdeithas Alzheimer's yng Nghymru. Maent yn nodi, ac rwy'n dyfynnu:

'It is also unclear whether the responsibility for providing services should sit with the NHS or social care, or both.'

'Mae hefyd yn aneglur ai'r GIG neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.'

It's the very point I was making earlier about the pressing need for better joint working, and that's what we in Plaid Cymru refer to as, indeed, truly integrated care. The society also made the point that fewer than one in five people thought they received enough support from the Welsh Government and that one in three people were not involved in decisions about their care and support, a deficiency, I hope, that the Social Services and Well-being (Wales) Act will actually improve upon. But perhaps the most damning statement by the Alzheimer's Society is their comment that there is a lack of long-term commitment on dementia. Yes, Jane Hutt in her amendment refers to the £5.5 million for improving dementia services, and that's obviously to be welcomed—who wouldn't welcome that? But the point the society is making is that the national dementia vision for Wales has been difficult to implement because of a lack of monitoring and real investment. I would like to conclude by paying tribute to carers throughout Wales. Where would we be as a country without them? With an ever-increasing older population—and dementia doesn't always affect older people—this matter needs to be taken, and I've underlined this in my speech, more than seriously. Diolch yn fawr.

Dyma'r union bwynt roeddwn yn ei wneud yn gynharach am yr angen dybryd am gydweithio gwell, a dyna beth rydym ni ym Mhlaid Cymru yn cyfeirio ato fel gofal gwirioneddol integredig yn wir. Roedd y gymdeithas hefyd yn gwneud y pwynt mai llai nag un o bob pump o bobl a oedd yn credu eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac nad oedd un o bob tri o bobl yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth, diffyg y gobeithiaf y bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gwella arno. Ond efallai mai'r datganiad mwyaf damniol gan Gymdeithas Alzheimer's yw eu sylw fod yna ddiffyg ymrwymiad hirdymor ar ddementia. Ydy, mae Jane Hutt yn ei gwelliant yn cyfeirio at y £5.5 miliwn ar gyfer gwella gwasanaethau dementia, ac mae hynny'n amlwg i'w groesawu—pwy na fyddai'n croesawu hynny? Ond y pwynt y mae'r gymdeithas yn ei wneud yw bod gweledigaeth genedlaethol Cymru ar ddementia wedi bod yn anodd ei gweithredu oherwydd diffyg monitro a buddsoddiad go iawn. Hoffwn gloi drwy dalu teyrnged i ofalwyr ledled Cymru. Ble y byddem fel gwlad hebddynt? Gyda phoblogaeth hŷn sy'n cynyddu o hyd—ac nid pobl hŷn yn unig sy'n cael eu heffeithio gan ddementia—mae angen rhoi sylw mwyfwy difrifol i'r mater fel y pwysleisiais yn fy araith. Diolch yn fawr.

16:13

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Mae'r ddadl heddiw, wrth gwrs, yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu gwella cymorth i bobl sy'n byw â dementia ar draws Cymru. Rŷm ni'n gwybod ar hyn o bryd mae dros 1,200 o bobl yn byw â dementia ym Mhreseli Sir Benfro ac, er bod dwy ran o dair o bobl â dementia yn byw yn y gymuned, mae llai na hanner yn teimlo eu bod yn rhan ohono. Wrth gwrs, mae pobl â dementia yn cael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd, ac, yn anffodus, mae llawer yn teimlo'n gaeth o achos y cyflwr, ac nad ydynt yn ddigon hyderus i fynd allan ac ymgysylltu yn eu hardal leol. Felly, mae'n amlwg yn fater go iawn i lywodraethau ar bob lefel ac i gymunedau lleol o ran sut y gallent yn ymgysylltu yn well â rheini sy'n byw â dementia.

I am grateful for the opportunity to participate in this debate this afternoon. The debate today, of course, calls on the Welsh Government to help to improve support for people living with dementia across Wales. We know at present that there are over 1,200 people living with dementia in Preseli Pembrokeshire and, although two thirds of people with dementia live in the community, fewer than half feel part of that community. Of course, people with dementia are affected in different ways and, unfortunately, many feel restricted because of the condition, and they don't feel confident enough to go out and engage in their local community. So, clearly, it's a very real issue for government at all levels and local communities in terms of how they can engage more effectively with those living with dementia.

Mae gyda ni i gyd gyfrifoldeb i helpu creu cymunedau lle mae'r gwasanaethau presennol yn fwy cynhwysol i bobl â dementia. Yn fy etholaeth i, mae grŵp hanes lleol newydd yn sir Benfro wedi cwrdd am 10 wythnos yn Hwlffordd fel rhan o wasanaeth arloesol Cymdeithas Alzheimer's, sy'n annog pobl â dementia a'u gofalwyr i roi cynnig ar rywbeth newydd. Mae'n rhan o broject Rhowch Gynnig ar Rywbeth Newydd sy'n cael ei gyflwyno ar draws gorllewin Cymru ar ôl i Gymdeithas Alzheimer's dderbyn dros £700,000 gan y Gronfa Loteri Fawr. Hon yw'r fath o fenter mae'n rhaid i ni ei hyrwyddo ac annog ar draws Cymru. Mae'n hanfodol bod llywodraethau ar bob lefel yn gweithio'n well gyda'i gilydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddementia yn ein cymunedau trwy hybu ymwybyddiaeth yn ein siopau a busnesau, fel y gall pob aelod staff ddeall dementia yn well. Yn wir, os bydd staff y stryd fawr leol yn fwy ymwybodol o ddementia, byddai'n sicr o helpu cwsmeriaid sy'n byw gyda dementia i deimlo'n fwy hyderus pan fyddant yn siopa ac yn mynd o gwmpas eu busnes. Fel y dywedodd Mark Isherwood a Kirsty Williams, byddem ni i gyd yn gyfarwydd â Ffrindiau Dementia, sef menter Cymdeithas Alzheimer's sy'n helpu staff ac eraill i ddysgu am ddementia a'r camau y gallent eu cymryd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl sydd â'r cyflwr. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r fenter hon, ond efallai, mewn ymateb i'r ddadl heddiw, gall y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch pa ganlyniadau sydd wedi'u cyflawni ers i Lywodraeth Cymru addo ei chefnogaeth i'r ymgyrch i wneud ein strydoedd mawr yn fwy cyfeillgar i bobl sy'n dioddef o ddementia.

We all have a responsibility to help to create a community where services are more inclusive for people with dementia. In my constituency, a new local history group in Pembrokeshire has met for 10 weeks in Haverfordwest as part of an innovative service from the Alzheimer's Society, which encourages people with dementia and their carers to try something new. It is part of the Try Something New project that is being introduced across west Wales, after the Alzheimer's Society received £700,000 from the Big Lottery Fund. This is the kind of initiative that we must promote across Wales. It's crucial that governments at all levels work more effectively together to promote awareness of dementia within our communities by promoting awareness in shops and businesses, so that all staff members can better understand dementia. Indeed, if staff on your local high street were more aware of dementia, then it would certainly assist customers living with dementia to feel more confident when they do shop and go about their daily lives. As Mark Isherwood and Kirsty Williams have already said, we will all be aware of Dementia Friends, which is the Alzheimer's Society initiative that helps staff and others to learn about dementia and the steps that they can take to make a different to the lives of people who have the condition. I am pleased that the Welsh Government is supporting this initiative, but perhaps, in responding to the debate today, the Minister could give us an update on what outcomes have been achieved since the Welsh Government pledged its support to this campaign to make our high street more dementia friendly.

Does dim un ateb yn unig i fynd i'r afael â dementia, oherwydd mae pobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn ynysu cymdeithasol y rhai sy'n byw gyda dementia mewn ardaloedd gwledig. Rwy'n falch bod gweledigaeth dementia cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod heriau o ran darparu'r cymorth priodol i bobl sy'n byw gyda dementia yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r effaith ar gymunedau gwledig ac ar bobl sy'n siarad Cymraeg.

There's no single solution that will tackle the problems of dementia, because people living with dementia are affected in different ways. We must also take into account the increasing social isolation that happens to those living with dementia in rural areas. I'm pleased that the Welsh Government's national vision for dementia acknowledges the challenges in providing appropriate assistance to people living with dementia in Wales, including the need to get to grips with the impact on rural communities and among Welsh speakers.

Ond nid wy'n gweld unrhyw gamau penodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae yna ddigon o fanylion am faint yr heriau a sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd i gynyddu darpariaeth gwasanaethau; mae yna ddigon o fanylion am ddiagnosis, ond does dim cynllun gweithredu penodol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia mewn ardaloedd gwledig ac i bobl â dementia sy'n siarad Cymraeg.

But I don't see any specific steps being taken to tackle these challenges. There are plenty of details about the scale of the challenges and how the Government is going to enhance the provision of services; there are plenty of details on diagnosis, but there is no specific action plan to support people living with dementia in rural areas and for Welsh speakers with dementia.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i gwneud yn glir ei bod yn hollbwysig bod yn sensitif i anghenion y claf wrth ddarparu gofal dementia, ac nad yw iaith yn fater o ddewis yn yr achos hwn ond yn angen clinigol gwirioneddol a difrifol. Gwnaeth y comisiynydd y sylwadau hyn ddwy flynedd yn ôl, ac felly, fe fyddem yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog dynnu sylw, wrth ymateb i'r ddadl hon, at union yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ers hynny i gefnogi'n well siaradwyr Cymraeg â dementia. Mae'n hanfodol bod pobl â dementia yn cael mynediad at y gwasanaethau gofal sylfaenol priodol yn y Gymraeg neu'r Saesneg; rhaid darparu ar gyfer eu hanghenion iaith.

The Welsh Language Commissioner has made clear that it's crucially important to be sensitive to patient needs in providing dementia care, and that language isn't a matter of choice in this case but a very real and serious clinical need. The commissioner made these comments two years ago and, therefore, we would be grateful if the Minister, in responding to this debate, could highlight exactly what the Welsh Government has done since then to more effectively support Welsh speakers with dementia. It's crucially important that those with dementia have access to appropriate primary care services through the medium of Welsh or English; we must provide for their language needs.

Mae'n rhaid i ni nodi'r heriau sydd yn wynebu gofalwyr pobl â dementia, oherwydd gall yr heriau hyn gael effaith ddinistriol ar fywyd teuluol a pherthnasoedd personol. Fel y dywedodd Lindsay Whittle, i rai gofalwyr, mae byw gyda a chefnogi rhywun sydd â dementia yn arbennig o anodd ac y gall arwain at broblemau pryder ac iselder.

We must note the challenges facing the carers of people with dementia, because these challenges can have a devastating impact on family life and on personal relationships. As Lindsay Whittle said, for some carers, living with and supporting someone with dementia is particularly difficult and can lead to problems with anxiety and depression.

Rŷm ni newydd ddathlu Wythnos Gofalwyr gan gydnabod ymroddiad gofalwyr sy'n gwneud cyfraniad mor enfawr i deuluoedd a chymunedau ar draws Cymru. Mae'n siŵr y bydd Aelodau'n cofio'r adroddiad damniol Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn ôl yn 2013 a gyhoeddodd nad oedd mwy na hanner yr holl ofalwyr pobl â dementia wedi derbyn gwybodaeth am reoli meddyginiaethau na gwybodaeth am faterion cyfreithiol. Yn sgil yr adroddiad hwn, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi gofalwyr pobl â dementia, yn enwedig yn y cyfnodau cynnar pan fydd anwyliaid ddim ond newydd gael diagnosis o'r cyflwr. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

We have just celebrated Carers Week in recognition of the dedication of carers who make such a huge contribution to families and communities across Wales. I'm sure that Members will recall the damning report of the Carers Trust back in 2013, which stated that more than half of all carers of people with dementia hadn't received information about medicine management or about legal matters. In the light of that report, I do hope that the Welsh Government will provide us with an update on the work that's being done to support the carers of people with dementia, particularly in those early stages when loved ones have been newly diagnosed the condition. Thank you, Deputy Presiding Officer.

16:19 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Could I join others by recognising what I think we're all very familiar with, which is the ageing society that we're very lucky to have? Obviously, it's very good news that people are living longer and, indeed, very often, living healthier lives right up to the end of life. So, that's a very optimistic and, I think, realistic picture of the way society and demographics are moving at the moment, but obviously it does create challenges—a challenge for service delivery and a challenge for society as a whole.

A gaf fi ymuno ag eraill drwy gydnabod yr hyn rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gyfarwydd iawn â hi, sef y gymdeithas sy'n heneiddio rydym mor lwcus o'i chael? Yn amlwg, mae'n newyddion da iawn fod pobl yn byw'n hwy ac yn wir, yn aml iawn, yn byw bywydau iachach hyd at ddiwedd eu hoes. Felly, mae hynny'n optimistaidd iawn ac yn ddarlun realistig, rwy'n credu, o'r ffordd y mae cymdeithas a demograffeg yn symud ar hyn o bryd, ond yn amlwg, mae'n creu heriau—her o ran darparu gwasanaethau a her i gymdeithas yn gyffredinol.

In that respect, I'm very pleased to echo what others have said about dementia-friendly communities in cities, because in Newport, just a couple of weeks ago, we launched a dementia-friendly city scheme. There was very good representation from are going to provide the level of support local politicians and the local council at the launch, and a range of businesses, community groups, people with dementia and, of course, their carers. It was widely recognised that if we that's necessary, it will be that whole society, city-wide approach that's necessary, with a big effort to inform people as to what the issues are and what becoming a dementia-friendly city involves. So, there was a lot of literature around; there will be an ongoing effort to get the message across.

Yn hynny o beth, rwy'n falch iawn o adleisio'r hyn y mae eraill wedi'i ddweud am gymunedau dementia-gyfeillgar mewn dinasoedd, oherwydd yng Nghasnewydd, ychydig wythnosau yn ôl, lansiwyd cynllun dinas dementia-gyfeillgar. Roedd cynrychiolaeth dda iawn o wleidyddion lleol a'r cyngor lleol yn y lansiad ac ystod o fusnesau, grwpiau cymunedol, pobl â dementia ac wrth gwrs, eu gofalwyr. Cydnabuwyd yn eang, os ydym am ddarparu'r lefel o gymorth sy'n angenrheidiol, bydd angen dull o weithredu ar draws y gymdeithas gyfan ac ar draws dinasoedd, gydag ymdrech fawr i roi gwybod i bobl beth yw'r materion sy'n codi a'r hyn y mae bod yn ddinas dementia-gyfeillgar yn ei olygu. Felly, roedd llawer o lenyddiaeth o gwmpas; bydd yna ymdrech barhaus i gyfleu'r neges.

It was felt very strongly, as others have mentioned, that carers, of course, need a great deal of support, and if carers stopped caring for their family, their loved ones, with dementia, then the strain on public services would be so great that a collapse in service would be very likely. So, that needs to be recognised, and support for carers will be an absolutely integral part of that dementia-friendly city that we will be developing.

Teimlwyd yn gryf iawn, fel y mae eraill wedi sôn, fod gofalwyr, wrth gwrs, angen llawer iawn o gymorth, a phe bai gofalwyr yn rhoi'r gorau i ofalu am eu teuluoedd, eu hanwyliaid, sydd â dementia, yna byddai'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus mor fawr fel y byddai'r gwasanaeth yn debygol iawn o fethu'n llwyr. Felly, mae angen cydnabod hynny, a bydd cymorth i ofalwyr yn rhan gwbl annatod o'r ddinas dementia-gyfeillgar honno y byddwn yn ei datblygu.

It's also, of course, about early intervention; and it's about helping people to live in the community with their families and carers for longer than would otherwise be the case. That, of course, has very beneficial effects in terms of easing strain on the public purse, particularly at this time when resources are so scarce. So, people there did feel very strongly that that should be recognised. Even though it's about people supporting themselves and their loved ones, it's also about specific support being available from public services when required, recognising the importance in terms of quality of life, but also protecting public budgets if that support is in place.

Hefyd, wrth gwrs, mae'n ymwneud ag ymyrryd yn gynnar; ac mae'n ymwneud â helpu pobl i fyw yn y gymuned gyda'u teuluoedd a'u gofalwyr am fwy o amser nag a fyddai'n digwydd fel arall. Mae i hynny effeithiau buddiol iawn, wrth gwrs, o ran lleddfu straen ar y pwrs cyhoeddus, yn enwedig ar yr adeg hon pan fo adnoddau mor brin. Felly, roedd pobl yno'n teimlo'n gryf iawn y dylai hynny gael ei gydnabod. Er ei fod yn ymwneud â phobl sy'n cefnogi eu hunain a'u hanwyliaid, mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod cymorth penodol ar gael gan wasanaethau cyhoeddus pan fo angen, gan gydnabod y pwysigrwydd o ran ansawdd bywyd, ond gan amddiffyn cyllidebau cyhoeddus hefyd os yw'r cymorth hwnnw ar waith.

It was also felt very much that we really need to achieve goodwill from communities, goodwill from the public at large, and goodwill from businesses in the third sector if this dementia-friendly city and community approach is really going to succeed. Also, in terms of the Social Services and Well-being Act, what we're talking about, with these developments, is very much in accordance with that legislation, because it is about that early intervention and partnership working, it's service-user driven and it's absolutely about wellbeing. So, again, it's felt that that should be recognised by Welsh Government.

Teimlwyd hefyd fod gwir angen i ni sicrhau ewyllys da y cymunedau, ewyllys da y cyhoedd yn gyffredinol, ac ewyllys da busnesau yn y trydydd sector os yw'r dull hwn o weithredu fel dinas a chymuned ddementia-gyfeillgar yn mynd i lwyddo mewn gwirionedd. Hefyd, o ran y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae'r hyn rydym yn siarad amdano gyda'r datblygiadau hyn yn cyd-fynd yn fawr â'r ddeddfwriaeth honno, gan ei bod yn ymwneud ag ymyrraeth gynnar a gweithio mewn partneriaeth, wedi'i hysgogi gan y defnyddwyr ac yn ymwneud yn llwyr â lles. Felly, unwaith eto, teimlir y dylai hynny gael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru.

It will, of course, take a number of years to embed such an approach. It's not something that can be done overnight, but people at the launch felt very strongly that Welsh Government needs to champion this sort of development and this sort of initiative. I was very pleased to become a champion—as I know others have—for this initiative in terms of Newport, but what people also want to see is Welsh Government really championing this sort of approach right across Wales. I think it is quite new. I think there have been only a handful of such initiatives in Wales until very recent times, but we now have five areas in Gwent alone. So, I think, you know, people really do see the value of this approach, and partners are enthused. So, I hope that Welsh Government will continue to recognise that and be a champion to drive it forward and spread this good practice.

Wrth gwrs, fe gymer nifer o flynyddoedd i ymgorffori ymagwedd o'r fath. Nid yw'n rhywbeth y gellir ei wneud dros nos, ond teimlai pobl yn y lansiad yn gryf iawn fod angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo'r math hwn o ddatblygiad a'r math yma o fenter. Roeddwn yn falch iawn o hyrwyddo'r fenter hon—a gwn fod eraill hefyd—mewn perthynas â Chasnewydd, ond yr hyn y mae pobl hefyd am ei weld yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati i hyrwyddo'r math yma o ymagwedd ledled Cymru mewn gwirionedd. Rwy'n credu ei fod yn eithaf newydd. Rwy'n meddwl mai llond dwrn o fentrau o'r fath a fu yng Nghymru tan yn ddiweddar iawn, ond bellach mae gennym bum ardal yng Ngwent yn unig. Felly, rwy'n meddwl, wyddoch chi, fod pobl yn gweld gwerth y dull hwn o weithredu mewn gwirionedd, ac mae'r partneriaid yn frwd. Felly, rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydnabod hynny ac yn ei hyrwyddo er mwyn ysgogi a lledaenu'r arfer da.

16:23

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

While much of the focus of research and discussion is rightly on the challenge of finding cures for the different forms of dementia, we need to be realistic and acknowledge that the eradication of dementia is, at present, a medium to longer-term ambition rather than a short-term goal. Therefore, we need to place equal emphasis on the care that is provided to people with dementia and the support that is available to their families and carers.

Er bod llawer o ffocws yr ymchwil a'r drafodaeth yn ymwneud yn briodol â'r her o ddod o hyd i iachâd ar gyfer y gwahanol fathau o ddementia, mae angen i ni fod yn realistig a chydnabod bod dileu dementia ar hyn o bryd yn uchelgais ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hwy yn hytrach na nod tymor byr. Felly, mae angen rhoi pwyslais cyfartal ar y gofal a ddarperir i bobl â dementia a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w teuluoedd a'u gofalwyr.

The Alzheimer's Society claims the number of people left without support after being diagnosed with dementia is disgraceful. The charity said the Welsh Government has shown a commitment to improving things, but support varies widely across the country.

Mae'r Gymdeithas Alzheimer's yn honni bod nifer y bobl sy'n cael eu gadael heb gymorth ar ôl cael diagnosis o ddementia yn warthus. Dywedodd yr elusen fod Llywodraeth Cymru wedi dangos ymrwymiad i wella pethau, ond mae cymorth yn amrywio'n eang ar draws y wlad.

The Care and Social Services Inspectorate Wales commented that local authorities and health boards need to increase the integration of health and social care services, and that dementia services across Wales are not sustainable with changes needed to cope with anticipated future demand.

Dywedodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynyddu gwaith i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, nad yw gwasanaethau dementia ledled Cymru yn gynaliadwy, a bod angen newidiadau i ymdopi â'r galw a ragwelir yn y dyfodol.

The Alzheimer's Society called the recent report a 'wake-up call', which found that services to carers are varied and underdeveloped in some areas despite carers strategies being in place; that there are significant gaps in planning and provision of prevention and early intervention services; that commissioning of preventative services from the third sector is ad hoc; and that greater focus is needed on the quality of care and patients' quality of life when monitoring service contracts. What resonated throughout the report was that carers didn't know where to go to access help, and this was due to a lack of communication between the various bodies.

Galwodd y Gymdeithas Alzheimer's yr adroddiad diweddar yn rhybudd a ganfu fod gwasanaethau i ofalwyr yn amrywiol a heb eu datblygu'n llawn mewn rhai ardaloedd er bod strategaethau gofalwyr ar waith; fod bylchau sylweddol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar; fod comisiynu gwasanaethau ataliol gan y trydydd sector yn digwydd ad hoc; a bod angen mwy o ffocws ar ansawdd y gofal ac ansawdd bywyd cleifion wrth fonitro contractau gwasanaeth. Yr hyn sy'n atseinio drwy'r adroddiad oedd nad yw gofalwyr yn gwybod ble i fynd i gael help, a hynny o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu rhwng y gwahanol gyrff.

The United Kingdom Government has more than more than doubled the annual funding for dementia research to £66 million, and have invested a further £50 million into improving the facilities that hospitals and care homes have to cater for people with dementia. There's a growing evidence base that suggests that people with dementia are not being appropriately identified for end-of-life care, that they have less access to and receive poorer-quality care than people with other terminal illnesses. As with many Welsh Government policies, there is a distinct lack of clarity and a lot of bureaucracy. Professor Bayer has commented that dementia services in Wales were very patchy and commented that

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mwy na dyblu'r cyllid blynyddol ar gyfer ymchwil dementia i £66 miliwn, ac wedi buddsoddi £50 miliwn arall i wella'r cyfleusterau sydd gan ysbytai a chartrefi gofal i ddarparu ar gyfer pobl â dementia. Ceir sylfaen dystiolaeth gynyddol sy'n awgrymu nad yw pobl â dementia yn cael eu nodi'n briodol ar gyfer gofal diwedd oes, fod ganddynt lai o fynediad at ofal, a'u bod yn cael gofal o ansawdd gwaeth na phobl â salwch terfynol o fathau eraill. Fel gyda llawer o bolisïau Llywodraeth Cymru, ceir diffyg eglurder amlwg a llawer o fiwrocratiaeth. Mae'r Athro Bayer wedi nodi bod gwasanaethau dementia yng Nghymru yn anghyson iawn, a dywedodd hyn:

'There are endless taskforces and steering groups and visions, but perhaps turning that into action for the 45,000 people with dementia and their relatives in Wales is so far lagging a bit behind.'

'There are endless taskforces and steering groups and visions, but perhaps turning that into action for the 45,000 people with dementia and their relatives in Wales is so far lagging a bit behind.'

The Office for National Statistics figures for deaths in Wales in 2012 showed just one woman and no men whose deaths were categorised as caused by mental and behavioural disorders, the category in which deaths from vascular and unspecified dementia should be recorded, died in a hospice. This reflects the wider picture of hospice use, which is still predominantly used by people with cancer.

Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer marwolaethau yng Nghymru yn 2012 yn dangos mai un ddynes yn unig y categoreiddiwyd ei marwolaeth fel un a achoswyd gan anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol, y categori y dylid cofnodi marwolaethau o ddementia fasgwlaidd ac amhenodol ynddo, a fu farw mewn hosbis, ac nid oedd unrhyw ddynion o gwbl yn y categori hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r darlun ehangach o'r defnydd o hosbisau, sy'n dal i gael eu defnyddio'n bennaf gan bobl â chanser.

It is important we explore why hospice use is so low for people with a dementia diagnosis. Is it because hospices are unsuitable places for people with dementia, or are there other reasons to explain the low take-up of both hospice and palliative care? The modern hospice movement and the palliative care specialism grew out of caring for people with cancer. People with dementia have very different needs to those with cancer and caring for them requires very different skills. One key message we need to send out is that hospices can be open and available for people with dementia and that staff and volunteers have the training and skills needed to deliver services to people with dementia.

Mae'n bwysig ein bod yn archwilio pam y mae'r defnydd o hosbis mor isel ymhlith pobl sydd wedi cael diagnosis o ddementia. Ai am fod hosbisau yn llefydd anaddas i bobl â dementia, neu a oes rhesymau eraill sy'n esbonio'r nifer fach sy'n manteisio ar ofal hosbis a gofal lliniarol? Tyfodd y mudiad hosbis modern ac arbenigedd gofal lliniarol o ofalu am bobl â chanser. Mae gan bobl â dementia anghenion gwahanol iawn i'r rhai sydd â chanser ac mae gofalu amdanynt yn galw am sgiliau gwahanol iawn. Un neges allweddol sydd angen i ni ei chyfleu yw y gall hosbisau fod yn agored ac ar gael i bobl â dementia a bod gan staff a gwirfoddolwyr yr hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno gwasanaethau i bobl â dementia.

It appears as if people in Wales are often excluded from treatment or misdiagnosed, and clearly this must be addressed. When people are diagnosed there does not seem to be adequate support. As their condition deteriorates, people with dementia will have increasing health and social care requirements. They will need greater help with personal care as well as specific healthcare and hospital-based services related to their dementia.

Ymddengys bod pobl Cymru yn aml yn cael eu heithrio o driniaeth neu'n cael diagnosis anghywir, ac yn amlwg mae'n rhaid i hyn gael sylw. Pan fydd pobl yn cael diagnosis nid yw'n ymddangos bod cefnogaeth ddigonol ar eu cyfer. Wrth i'w cyflwr waethygu, bydd gan bobl â dementia anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cynyddol. Byddant angen mwy o help gyda gofal personol yn ogystal â gofal iechyd penodol a gwasanaethau ysbyty sy'n gysylltiedig â'u dementia.

While it is clear that people with later stage dementia will have considerable health needs, this does not appear to be accurately reflected in their access to continuing NHS healthcare. CHC is the system whereby the NHS absorbs the costs of caring for someone whose primary needs are for healthcare in a non-hospital setting. It is suggested that disproportionately low numbers of people with dementia are receiving CHC. A report by the Wales Audit Office noted differences in the decision support tool used in Wales and England, it may be more difficult for some people in Wales, notably those with dementia, to meet CHC eligibility criteria.

Er ei bod yn amlwg y bydd gan bobl â dementia mwy datblygedig anghenion iechyd sylweddol, nid yw'n ymddangos bod hyn yn cael ei adlewyrchu'n gywir yn eu mynediad at ofal iechyd parhaus y GIG. Gofal iechyd parhaus yw'r system lle y bydd y GIG yn amsugno costau gofalu am rywun sydd ag anghenion sylfaenol am ofal iechyd mewn lleoliad nad yw'n ysbyty. Awgrymir bod nifer anghymesur o isel o bobl â dementia yn cael gofal iechyd parhaus. Nododd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru wahaniaethau yn yr offeryn cynorthwyo penderfyniadau a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr. Gall fod yn anos i rai pobl yng Nghymru, yn enwedig rhai sydd â dementia, i fodloni meini prawf cymhwyster gofal iechyd parhaus.

Younger people with dementia may also experience disadvantage in terms of access to services. Most people with dementia are aged over 65, so this means services are targeted at older individuals and there could well be a risk of younger people with dementia being excluded.

Gall pobl iau â dementia hefyd wynebu anfantais o ran mynediad at wasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o bobl â dementia dros 65 oed, gan olygu bod gwasanaethau yn cael eu targedu at unigolion hŷn a gallai fod perygl o eithrio pobl iau â dementia.

Recently it has been warned that dementia is a time bomb for people in Wales, and the biggest crisis facing our society. Dementia really is a time bomb—as the baby-boomer generation reach old age, there is a logistical challenge we urgently need to address. We need to plan now to meet these huge challenges. Nursing homes and care providers need to work together now to create solutions, for it is quite likely that we'll all be affected in one way or another.

Yn ddiweddar cafwyd rhybudd bod dementia yn fom amser i bobl yng Nghymru, a'r argyfwng mwyaf sy'n wynebu ein cymdeithas. Mae dementia'n bendant yn fom amser—wrth i'r genhedlaeth a gynhyrchodd lawer iawn o fabanod gyrraedd henaint, ceir her logistaidd y mae angen i ni fynd i'r afael â hi ar fyrder. Mae angen i ni gynllunio yn awr i ateb yr heriau anferth hyn. Mae angen i gartrefi nyrsio a darparwyr gofal weithio gyda'i gilydd yn awr i greu atebion, gan ei bod yn debygol iawn yr effeithir arnom oll mewn un ffordd neu'r llall.

16:28 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it's good to see the level of consensus in all parts of the Chamber this afternoon. I think all of us who have been affected by issues around dementia, both in families and workers in our constituencies, are aware of what has just been referred to as a time bomb. But John Griffiths referred to the growth in dementia in perhaps more positive ways in terms of us as a society ageing and therefore creating demand, in the way that Kirsty Williams described as a demographic wave. Clearly, we recognise, in terms of our society, the change in needs of society and the change in ways in which we must respond to that. I think that we're all aware, wherever we may represent, that there is sometimes a patchy response to the growth in the demand in need of services and support for people with dementia. I know from my previous time in this place, representing Mid and West Wales, that there was a significant variation in the quality and availability of services in different places, and it needs to be, and it must be an objective of Government to ensure that, whilst we support and we seek to empower local health boards and local authorities to provide services that meet the needs of their communities in different ways and in their own ways, by their own choice, but we also do so in a way that guarantees a minimum level of service to people across the whole country.

Rwy'n credu ei bod yn dda gweld lefel y consensws ym mhob rhan o'r Siambr y prynhawn yma. Rwy'n meddwl bod pob un ohonom a effeithiwyd gan faterion yn ymwneud â dementia, ymhlith teuluoedd a gweithwyr yn ein hetholaethau, yn ymwybodol o'r hyn sydd newydd gael ei alw'n fom amser. Ond cyfeiriodd John Griffiths at y twf mewn dementia mewn ffyrdd sydd efallai'n fwy cadarnhaol o'n safbwynt ni fel cymdeithas sy'n heneiddio, ac felly'n creu galw fel ton ddemograffig, fel y disgrifiodd Kirsty Williams. Yn amlwg, o ran ein cymdeithas, rydym yn cydnabod y newid yn anghenion cymdeithas a'r newid yn y ffyrdd sy'n rhaid i ni ymateb i hynny. Lle bynnag rydym yn ei gynrychioli, credaf ein bod oll yn ymwybodol fod yr ymateb yn anghyson weithiau i dwf yn y galw am wasanaethau a chymorth i bobl â dementia. Gwn o fy amser blaenorol yn y lle hwn, yn cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru, fod yna amrywio sylweddol yn ansawdd ac argaeledd gwasanaethau mewn gwahanol leoedd. Rydym yn cefnogi ac yn ceisio grymuso byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion eu cymunedau mewn ffyrdd gwahanol ac yn eu ffyrdd eu hunain, yn ôl eu dewis eu hunain, ond mae angen i Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, anelu i sicrhau ein bod hefyd yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gwarantu'r lefel ofynnol o wasanaeth i bobl ar draws y wlad i gyd.

John Griffiths outlined very well how, in Newport, moves are taking place to create a dementia-friendly community. Kirsty Williams did the same in Brecon. I'm pleased to have been involved in doing similar work in Blaenau Gwent, where we've designated Tredegar as our first dementia-friendly community. We hope that other communities within the borough will follow very soon, but there is a considerable amount of support, not simply from service providers and service users, and people associated with those two groups of people, but within the community as a whole. One of the uplifting parts of this whole debate has been the way in which people have volunteered for training on dementia-friendly, and how to become dementia-friendly. I think the sheer weight of people who have accessed those services speaks volumes for how people are trying, in all sorts of different ways, to respond to what they're seeing around them in the community.

Amlinellodd John Griffiths yn dda iawn sut y mae camau ar waith yng Nghasnewydd i greu cymuned ddementia-gyfeillgar. Gwnaeth Kirsty Williams yr un peth yn Aberhonddu. Rwy'n falch o fod wedi bod yn rhan o waith tebyg ym Mlaenau Gwent, lle rydym wedi dynodi Tredegar fel ein cymuned ddementia-gyfeillgar gyntaf. Rydym yn gobeithio y bydd cymunedau eraill yn y fwrdeistref yn dilyn yn fuan iawn, ond mae cryn dipyn o gefnogaeth, ac nid yn unig gan ddarparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau, a'r bobl sy'n gysylltiedig â'r grwpiau hynny o bobl, ond yn y gymuned yn ei chyfanrwydd. Un o rannau mwyaf calonogol yr holl drafodaeth oedd y ffordd y mae pobl wedi gwirfoddoli i gael hyfforddiant i ddod yn ddementia-gyfeillgar, a sut i ddod yn ddementia-gyfeillgar. Rwy'n meddwl bod y nifer enfawr o bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau hynny'n siarad cyfrolau ynglŷn â'r modd y mae pobl yn ceisio ymateb i'r hyn a welant o'u cwmpas yn y gymuned, mewn pob math o ffyrdd gwahanol.

Can I say that I very much welcome the statements that have been made by the Government and by this Minister in recent months? I believe he made a statement earlier this year on how the Government is seeking to support services in this field, and will continue to do so in the future. I very much welcome the commitment that's been made, both in terms of the structure of these services, but also in terms of funding them as well. It's one thing to wish for services; it's another thing altogether to put the money in place to deliver those. I think many of us will welcome the statements that have been made by the Government, particularly to ensure that we have a better way of providing a diagnosis, and then, once the diagnosis is made, that services are able to follow.

A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'n fawr y datganiadau a wnaed gan y Llywodraeth a chan y Gweinidog dros y misoedd diwethaf? Rwy'n credu ei fod wedi gwneud datganiad yn gynharach eleni ynglŷn â sut y mae'r Llywodraeth yn ceisio cefnogi gwasanaethau yn y maes ac yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Croesawaf yr ymrwymiad a wnaed yn fawr iawn, o ran strwythur y gwasanaethau hyn, ond hefyd o ran eu cyllido. Un peth yw dymuno gwasanaethau; peth arall yn gyfan gwbl yw rhoi'r arian i gyflawni hynny. Rwy'n credu y bydd llawer ohonom yn croesawu'r datganiadau a wnaed gan y Llywodraeth, yn enwedig i sicrhau bod gennym ffordd well o ddarparu diagnosis, ac yna, ar ôl gwneud diagnosis, fod y gwasanaethau yn gallu dilyn.

Can I conclude this afternoon by saying this? We need to have a structured approach to providing support for people with dementia in a way that we've never needed to do so in the past. Certainly, we need to have the diagnosis in place, and we need to achieve the targets the Minister has set out, to do that, but then we need to be able to deliver wraparound support for those people. We need to be able to ensure that there is a real integration of service provision between social services and health boards. I hope that the Minister, in replying to this debate, will be able to indicate whether he believes that the newly statutory local service boards will be able to play a role in delivering this level of integration, but it is a real concern of mine that, whilst many of us will talk at length about the different structures and maps and the rest of it, about how services are provided, we sometimes forget the debates that we were having a decade ago, when it was Beecham who talked about citizen-centred services. We really need to keep a focus: rather than talking endlessly about lines on maps, we need to remember the individuals and the people and the families and the communities that these services are established to serve. That means the wraparound support from different agencies, but then real integration of social services and the health service.

A gaf fi gloi y prynhawn yma drwy ddweud hyn? Mae angen i ni gael dull strwythuredig o weithredu er mwyn darparu cefnogaeth i bobl â dementia mewn ffordd nad ydym erioed wedi bod angen ei wneud yn y gorffennol. Yn sicr, mae angen i ni gael y diagnosis yn ei le, ac mae angen i ni gyflawni'r targedau y mae'r Gweinidog wedi eu nodi i wneud hynny, ond wedyn mae angen i ni allu darparu cymorth cofleidiol i'r bobl hynny. Mae angen i ni allu sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio go iawn rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r byrddau iechyd. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn gallu nodi a yw'n credu y bydd y byrddau gwasanaethau lleol newydd statudol yn gallu chwarae rhan yn y broses o gyflwyno'r lefel hon o integreiddio, ond er y bydd llawer ohonom yn siarad yn faith am y gwahanol strwythurau a mapiau a'r gweddill i gyd, testun pryder gwirioneddol i mi o ran y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yw ein bod yn anghofio weithiau am y dadleuon a gawsom ddegawd yn ôl, pan oedd Beecham yn siarad am wasanaethau'n canolbwyntio ar y dinesydd. Mae gwir angen i ni gadw ffocws: yn hytrach na siarad yn ddiddiwedd am linellau ar fapiau, mae angen i ni gofio'r unigolion a'r bobl a'r teuluoedd a'r cymunedau y sefydlwyd y gwasanaethau hyn i'w gwasanaethu. Mae hynny'n golygu'r cymorth cofleidiol gan wahanol asiantaethau, ond wedyn integreiddiad gwirioneddol y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd.

The final point I'll make is this: the training that has been offered, and the understanding and awareness of dementia and its effect on people—

Y pwynt olaf a wnaf yw hwn: mae'r hyfforddiant a gynigiwyd, a'r ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddementia a'i effaith ar bobl—

16:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Quickly now, please.

Yn gyflym yn awr, os gwelwch yn dda.

16:33

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.]—is something that is to be welcomed. I hope that the Minister will be able to take the spirit of that and ensure that, throughout Wales, we have dementia-friendly communities and a dementia-friendly Government.

[Yn parhau.]—yn rhywbeth sydd i'w groesawu. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu cymryd ysbryd hynny a sicrhau, ledled Cymru, fod gennym gymunedau dementia-gyfeillgar a Llywodraeth dementia-gyfeillgar.

16:34 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Dementia is one of the greatest health challenges we face in this century. One in three people who live over 65 will develop dementia, and the main form of dementia is Alzheimer's disease. There are over 45,000 people living in Wales, and this figure is projected to increase by nearly one third by 2021. What a staggering figure that is, Minister. This terrible condition means families watching their loved ones slipping away until they no longer even recognise themselves. We must not treat dementia as a natural part of the ageing process. We have to raise awareness and help those living with dementia to live with dignity. For this to happen, early diagnosis is very crucial. Evidence suggests that, where people receive an early diagnosis and are helped to access information, support and care, they're often able to adapt well to living with dementia. We need our GPs to check more closely for signs of dementia, because, the earlier it is diagnosed, the earlier life can get better and much easier for those living with that condition. Once dementia has been diagnosed, it is important that sufferers receive support to enable them to remain in their own homes as long as possible. The Alzheimer's Society says that more than one in 10 people living with dementia will be forced to go into care homes earlier due to a lack of support. The Care and Social Services Inspectorate Wales has found that dementia services across Wales are not sustainable. They have called for changes to cope with future demand, Minister.

Mae dementia yn un o'r heriau iechyd mwyaf sy'n ein hwynebu yn y ganrif hon. Bydd un o bob tri o bobl sy'n byw dros 65 oed yn datblygu dementia, a'r brif ffurf ar ddementia yw clefyd Alzheimer's. Mae dros 45,000 o bobl â dementia yn byw yng Nghymru, a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn codi bron i draean erbyn 2021. Am ffigur syfrdanol yw hwn, Weinidog. Mae'r cyflwr ofnadwy hwn yn golygu bod teuluoedd yn gwylio eu hanwyliaid yn llithro i ffwrdd hyd nes na allant bellach adnabod eu hunain hyd yn oed. Rhaid i ni beidio â thrin dementia fel rhan naturiol o'r broses heneiddio. Mae'n rhaid i ni godi ymwybyddiaeth a helpu'r rhai sy'n byw gyda dementia i fyw gydag urddas. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae diagnosis cynnar yn hanfodol iawn. Lle y mae pobl yn cael diagnosis cynnar ac yn cael cymorth i gael gafael ar wybodaeth, cymorth a gofal, mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod yn aml yn gallu addasu'n dda i fyw gyda dementia. Mae angen i'n meddygon teulu edrych yn fwy gofalus am arwyddion o ddementia, oherwydd po gynharaf y gwneir diagnosis, y cynharaf y gall bywyd wella a dod yn llawer haws i'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr. Ar ôl gwneud diagnosis o ddementia, mae'n bwysig fod dioddefwyr yn cael cymorth i'w galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain am gyn hired ag y bo modd. Mae'r Gymdeithas Alzheimer's yn dweud y bydd mwy nag un o bob 10 o bobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu gorfodi i fynd i gartrefi gofal yn gynharach oherwydd diffyg cymorth. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi canfod nad yw gwasanaethau dementia ledled Cymru yn gynaliadwy. Maent wedi galw am newidiadau i ymdopi â'r galw yn y dyfodol, Weinidog.

Before I go into all of the statistics, I'll let my friend here know that my father-in-law, who died only last year with this terrible disease, was the first Muslim mayor in this country in 1982. He never had any sort of problem with the police or any authorities whatsoever; he was the most peaceful person you can think of. In my book, he was my mentor and he was a saint. In 2007 or 2008, when the doctor told him he was going towards dementia, we were actually shattered; the family hasn't really coped with it yet. The thing is, he needed full attention at the time when he was told, 'You have dementia'.

Cyn i mi fanylu ar bob un o'r ystadegau, gadawaf i fy ffrind yma wybod mai fy nhad-yng-nghyfraith, a fu farw y llynedd o'r clefyd dychrynllyd hwn, oedd y maer Mwslimaidd cyntaf yn y wlad hon yn 1982. Ni chafodd unrhyw fath o broblem erioed gyda'r heddlu nac unrhyw awdurdod o gwbl; ef oedd y person mwyaf heddychlon y gallwch feddwl amdano. O'm rhan i, ef oedd fy mentor ac roedd yn sant. Yn 2007 neu 2008, pan ddywedodd y meddyg wrtho ei fod yn symud tuag at ddementia, cawsom ein dryllio mewn gwirionedd; nid yw'r teulu wedi ymdopi â'r peth eto mewn gwirionedd. Y peth yw, roedd angen sylw llawn arno ar yr adeg pan gafodd wybod, 'Rydych chi'n dioddef o ddementia'.

The first sign was that he started losing his things; he was forgetting things. He was going from the bathroom to the kitchen, and he didn't know why he was going and what he was getting. These were the initial signs, and we were actually trying to cope with everything so as not to let his feelings be disturbed while he was forgetting, because the person who was going through it lived a great life and he suddenly started going downhill with his memory, which affected that person very, very badly. That actually affects the family, also—the family can't cope with it. They'd love to keep that person within the family, and he'd never shown any irritation, aggression or anything; he was still thinking it was his fault, but, really, it was his body not working with his mind. So, that condition actually affects family affairs so badly that that person starts losing the ability to live as normal a life as one can think of.

Yr arwydd cyntaf oedd ei fod wedi dechrau colli ei bethau; roedd yn anghofio pethau. Roedd yn mynd o'r ystafell ymolchi i'r gegin, ac nid oedd yn gwybod pam ei fod yn mynd ac am beth y chwiliai. Y rhain oedd yr arwyddion cychwynnol, ac roeddem yn ceisio ymdopi â phopeth er mwyn peidio â brifo ei deimladau tra roedd yn anghofio, am fod y person a oedd yn mynd drwy'r peth wedi byw bywyd gwych ac yn sydyn roedd ei gof yn dechrau dirywio, gan effeithio ar y person hwnnw'n wael iawn. Mae hynny mewn gwirionedd yn effeithio ar y teulu hefyd—ni all y teulu ymdopi â'r peth. Byddent wrth eu boddau'n cadw'r person yn y teulu, ac nid oedd erioed wedi dangos unrhyw biwisrwydd, ymddygiad ymosodol na dim; roedd yn dal i feddwl mai ei fai ef oedd hyn, ond mewn gwirionedd, ei gorff oedd ddim yn gweithio gyda'i feddwl. Felly, mae'r cyflwr mewn gwirionedd yn effeithio ar faterion teuluol mor wael fel bod y person yn dechrau colli'r gallu i fyw bywyd mor normal ag y gall rhywun feddwl.

Minister, that is the situation. I take my hat off to the health services in this country: health carers did come and see him virtually every day, and his doctor in the area was so good and looked after him well, but, sadly, he passed away last year. The support for the further development of dementia schemes in the community, and the extension of dementia training schemes, is actually mentioned by Age Cymru. They want people beyond a certain age to have care before they start losing some of their senses. So, staff who are confident in doing their job, and are able to do so to a good standard, are very essential in this field, Minister.

Weinidog, dyna'r sefyllfa. Rwy'n codi fy het i'r gwasanaethau iechyd yn y wlad hon: roedd gofalwyr iechyd yn dod i'w weld bron bob dydd, ac roedd ei feddyg yn yr ardal mor dda ac yn edrych ar ei ôl yn dda, ond yn anffodus, bu farw y llynedd. Mae'r gefnogaeth ar gyfer datblygu cynlluniau dementia yn y gymuned ymhellach, ac ymestyn cynlluniau hyfforddiant dementia, yn cael ei grybwyll gan Age Cymru. Maent am i bobl y tu hwnt i oedran penodol gael gofal cyn iddynt ddechrau colli rhai o'u synhwyrau. Felly, mae staff sy'n hyderus yn eu gwaith, ac sy'n gallu gwneud hynny'n dda, yn hanfodol iawn yn y maes hwn, Weinidog.

Deputy Presiding Officer, we are some way away from the cure for dementia. Finding a cure will take years of patient work. We have seen from the example of other diseases—

Ddirprwy Lywydd, mae cryn dipyn o ffordd gennym i fynd cyn y gellir iacháu dementia. Bydd dod o hyd i wellhad yn cymryd blynyddoedd o waith amyneddgar. Rydym wedi gweld o esiampl clefydau eraill—

16:39

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Finish with this now, please.

Gorffennwch gyda hyn yn awr, os gwelwch yn dda.

16:39

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.]—that extraordinary progress can be made here. I'm confident we will. Thank you.

[Yn parhau.]—y gellir gwneud cynnydd rhyfeddol yma. Rwy'n hyderus y gwnawn. Diolch yn fawr.

16:39

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As Mohammad Asghar just said, one in three of us over 65 will develop dementia, and it goes without saying, of course, that the treatment and care of this large proportion of the population is of the greatest importance.

Fel y mae Mohammad Asghar newydd ei ddweud, bydd un o bob tri ohonom dros 65 oed yn datblygu dementia, ac afraid dweud, wrth gwrs, fod triniaeth a gofal i'r gyfran fawr hon o'r boblogaeth o'r pwys mwyaf.

Education about this condition is also important, and the Alzheimer's Society offers a short course that hopes to end the stigma surrounding dementia. I and my staff recently took this course, and, in many ways, it was quite moving. It certainly gave me an increased awareness of the condition, and helped me to understand what living with the disease is really like and what can be done to improve people's lives in the community who have this disease. Every one of us took part in exercises aimed at helping us understand the effects of dementia on people's everyday lives, and we were pleased—very pleased—to become Dementia Friends ourselves. The education of people not in the healthcare sector is important, and the Alzheimer's Society are to be congratulated for their Dementia Friends course.

Mae addysg am y cyflwr hefyd yn bwysig, ac mae Cymdeithas Alzheimer's yn cynnig cwrs byr yn y gobaith o roi diwedd ar y stigma sy'n gysylltiedig â dementia. Bu fy staff a minnau ar y cwrs hwn yn ddiweddar ac mewn sawl ffordd, roedd yn eithaf emosiynol. Yn sicr ehangodd fy ymwybyddiaeth o'r cyflwr, a fy helpu i ddeall sut beth yw byw gyda'r clefyd mewn gwirionedd a beth y gellir ei wneud i wella bywydau pobl yn y gymuned sydd â'r clefyd hwn. Cymerodd pob un ohonom ran mewn ymarferion gyda'r nod o'n helpu i ddeall effeithiau dementia ar fywydau pobl o ddydd i ddydd, ac roeddem yn falch iawn—yn hynod o falch—o fod yn Ffrindiau Dementia ein hunain. Mae addysgu pobl y tu allan i'r sector gofal iechyd yn bwysig, ac mae Cymdeithas Alzheimer's i'w llongyfarch am eu cwrs Ffrindiau Dementia.

I note that amendments 2 and 3 call for mandatory training in dementia awareness and care for all healthcare professionals. My local health board, Abertawe Bro Morgannwg, provides an excellent example of best practice regarding this training. It is determined to train all its 16,000 staff in dementia awareness. Over the past six months—and I note what Kirsty Williams said about this—around 10,000 staff have already received dedicated dementia awareness training, and this will continue until all the workforce is trained. This includes not only clinical staff, but also back-office and support-service staff, and they have all been officially recognised as Dementia Friends by the Alzheimer's Society. Thus, they are more likely to recognise patients, their relatives and visitors with dementia, and are able to offer support. Wales already had about 9,800 Dementia Friends, so the addition of the ABMU staff has now doubled that number.

Nodaf fod gwelliannau 2 a 3 yn galw am hyfforddiant gorfodol mewn ymwybyddiaeth a gofal dementia i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae fy mwrdd iechyd lleol, Abertawe Bro Morgannwg, yn enghraifft ardderchog o arfer gorau o ran yr hyfforddiant hwn. Mae'n benderfynol o hyfforddi pob un o'i 16,000 aelod o staff mewn ymwybyddiaeth dementia. Dros y chwe mis diwethaf—a nodaf yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams ynglŷn â hyn—mae tua 10,000 o staff eisoes wedi cael hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth dementia, a bydd hyn yn parhau hyd nes y bydd yr holl weithlu wedi'i hyfforddi. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig staff clinigol, ond staff cefn swyddfa a staff cymorth gwasanaethau, ac maent i gyd wedi eu cydnabod yn swyddogol fel Ffrindiau Dementia gan Gymdeithas Alzheimer's. Felly, maent yn fwy tebygol o adnabod cleifion, eu perthnasau ac ymwelwyr â dementia, a gallu cynnig cefnogaeth. Eisoes roedd gan Gymru oddeutu 9,800 o Ffrindiau Dementia, felly mae ychwanegu staff PABM bellach wedi dyblu'r nifer.

Minister, this bare statistic illustrates how importantly my local health board is taking the treatment of its patients who suffer from dementia and how dedicated they are to improving their treatment. The health board itself has become the first in Wales to achieve the society's working-to-become-dementia-friendly status, with the aim of achieving full dementia-friendly status next year. Minister, in addition, ABMU is starting to introduce more easily understood signage and improve hospital environments to make them friendlier for people with dementia. This involves colour schemes, which makes it easier for people with dementia to navigate hospitals, and providing soft-closing bins to avoid loud noises, which can startle these patients. Flexible visiting was also introduced between 11 a.m. and 8 p.m., seven days a week, and visitors are also encouraged to help with meal times. These are small but important things that make a difference.

Weinidog, mae'r ystadegyn moel hwn yn dangos faint o bwys y mae fy mwrdd iechyd lleol yn ei roi ar driniaeth i gleifion sy'n dioddef o ddementia a pha mor ymrwymedig ydynt i wella eu triniaeth. Y bwrdd iechyd ei hun yw'r cyntaf yng Nghymru i ennill statws 'gweithio tuag at ddod yn ddementia-gyfeillgar' y Gymdeithas, gyda'r nod o gyflawni statws dementia-gyfeillgar llawn y flwyddyn nesaf. Weinidog, mae PABM hefyd yn dechrau cyflwyno arwyddion haws eu deall a gwella amgylcheddau ysbytai i'w gwneud yn fwy cyfeillgar i bobl â dementia. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau lliw, sy'n ei gwneud yn haws i bobl â dementia ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas ysbytai, ac yn darparu biniau sy'n cau'n ddistaw er mwyn osgoi synau uchel a all godi ofn ar y cleifion hyn. Cyflwynwyd oriau ymweld hyblyg rhwng 11a.m. ac 8:00p.m., saith diwrnod yr wythnos hefyd ac anogir ymwelwyr i helpu amser bwyd. Pethau bach yw'r rhain ond maent yn bwysig ac yn gwneud gwahaniaeth.

To conclude, I must also pay tribute to the collaboration between Grŵp Gwalia, ABMU and Neath Port Talbot County Borough Council, which has led to award-winning care in Llys y Seren. Here, we do see the effective integration of housing, health and social care. Also, the excellent work of Tonna Hospital in my constituency needs to be acknowledged. I am very encouraged that good practice and training is evident in my constituency and in Wales, and I have sought to highlight that here today.

I gloi, rhaid i mi hefyd dalu teyrnged i'r cydweithio rhwng Grŵp Gwalia, PABM a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sydd wedi arwain at ofal sy'n ennill gwobrau yn Llys y Seren. Yma, rydym yn gweld tai, iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol. Hefyd, mae angen cydnabod gwaith ardderchog Ysbyty Tonna yn fy etholaeth. Mae'n galonogol iawn fod arfer da a hyfforddiant yn amlwg yn fy etholaeth ac yng Nghymru, ac rwyf wedi ceisio tynnu sylw at hynny yma heddiw.

16:43

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

16:43

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Mae'r cynnig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw yn ymwneud ag un o heriau mawr ein hoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol—her i ni yng Nghymru, yn sicr, ond her ar draws y byd hefyd, yn y gwledydd hynny lle mae gwasanaethau wedi helpu pobl i fyw bywydau hir a lle, o ganlyniad i'r llwyddiant hwnnw, mae nifer gynyddol ohonom yn byw llawer yn hŷn.

The motion before the Assembly today is to do with one of the major challenges of our age in the field of health and social care—it's a challenge for us in Wales, certainly, but also a challenge across the world, in those countries where services have helped people to live long lives and where, as a result of that success, an increasing number of us live a lot longer.

Nid oes unrhyw beth yn y cynnig y prynhawn yma na all y Llywodraeth ei gefnogi. Rydym wedi awgrymu un diwygiad ychwanegol, gan ein bod yn credu y byddai'n cryfhau'r cynnig ymhellach ac yn rhoi cydnabyddiaeth go iawn i'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yma yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cefnogi'r diwygiadau a awgrymwyd gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol am resymau y byddaf yn eu hamlinellu yn nes ymlaen.

There is nothing in the motion this afternoon that the Government cannot support. We have suggested one additional amendment, because we believe that it would strengthen the motion further and give proper recognition to the actions that are being taken here in Wales. We would also support the amendments tabled by Plaid Cymru and the Liberal Democrats, for reasons that I will outline later on.

Rwy'n rhoi un rhybudd yn unig: os bydd popeth yn aros fel y mae heddiw, mae rhagolygon dilys yn bodoli sy'n awgrymu y bydd nifer yr unigolion sy'n dioddef o ddementia yn codi 31 y cant erbyn 2021. Ond, mae'n bwysig iawn i ni beidio â bod yn rhy haearnaidd a phendant wrth ystyried beth fydd yn digwydd i iechyd yn y dyfodol.

I give one warning only: if everything stays as it is now, there are bone fide forecasts that suggest that the number of individuals that suffer from dementia will rise 31 per cent by 2021. But, it's very important for us not to be too rigid and definite when considering what will happen to health in the future.

Dirprwy Lywydd, two decades ago, in the early 1990s, researchers concluded that, by 2011, 8.3 per cent of the population would have dementia. In fact, in that year, the actual figure stood at 6.5 per cent—24 per cent lower than had been predicted. 'The Lancet', in reporting the 2011 study, concluded that measures had been taken in public health that provided the most convincing explanation for this slower-than-predicted growth. In other words, there is nothing inevitable that the figures in today's motion will turn out exactly as predicted. Indeed, the Caerphilly cohort study, which we've discussed here regularly on the floor of the Assembly, demonstrates the extent to which the risk of developing dementia can be influenced by decisions that individuals take in their own lives.

Ddirprwy Lywydd, ddau ddegawd yn ôl, yn y 1990au cynnar, daeth ymchwilwyr i'r casgliad y byddai 8.3 y cant o'r boblogaeth â dementia erbyn 2011. Yn wir, yn y flwyddyn honno, y gwir ffigwr oedd 6.5 cant—24 y cant yn is nag a ragwelwyd. Wrth adrodd ar astudiaeth 2011, daeth 'The Lancet' i'r casgliad mai mesurau a roddwyd ar waith ym maes iechyd y cyhoedd a oedd yn cynnig yr esboniad mwyaf argyhoeddiadol dros y twf arafach nag a ragwelwyd. Mewn geiriau eraill, nid oes dim i ddweud yn anochel y bydd y ffigurau yn y cynnig heddiw yn union fel y rhagwelir. Yn wir, mae astudiaeth gohort Caerffili, a drafodwyd gennym ar sawl achlysur ar lawr y Cynulliad, yn dangos i ba raddau y gall y penderfyniadau y mae unigolion yn eu gwneud yn eu bywydau ddylanwadu ar y risg o ddatblygu dementia.

And that, Dirprwy Lywydd, is to say nothing of the possibility and the hope that new forms of therapy and breakthroughs in research might disrupt the trajectory of dementia as it appears to us today, not in the immediate short term, as William Graham noted earlier, but not simply on the far distant horizon either. More than many places, we here in Wales ought to be aware of these possibilities because of what goes on in our universities—Bangor and Cardiff—where work is genuinely at the forefront of global research into dementia. Much of that research has been possible, I'm happy to acknowledge, because of actions taken and advances secured at the UK level.

Ac nid yw hynny, Ddirprwy Lywydd, yn dweud dim am y posibilrwydd a'r gobaith y gallai ffurfiau newydd ar therapi a datblygiadau mewn ymchwil darfu ar ddatblygiad dementia fel y mae'n ymddangos i ni heddiw, nid yn y tymor byr iawn, fel y nododd William Graham yn gynharach, ond nid yn rhy bell ar y gorwel chwaith. Yn fwy nag mewn llawer man, dylem ni yma yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r posibiliadau hyn oherwydd yr hyn sy'n digwydd yn ein prifysgolion—Bangor a Chaerdydd—lle y gwneir gwaith gwirioneddol flaenllaw o ran ymchwil byd-eang i ddementia. Rwy'n hapus i gydnabod bod llawer o'r ymchwil wedi bod yn bosibl oherwydd y camau a gymerwyd a'r datblygiadau a sicrhawyd ar lefel y DU.

Following the G8 summit in December 2013, significant funding was announced for the UK, a substantial proportion of which came to Wales. Cardiff University is now leading the Medical Research Council's new UK dementias research platform. It received £16 million of that UK money to initiate new approaches in the detection, treatment and prevention of dementia. Bangor University received £4 million of the same research pot to support work to improve the life experiences of those who already experience dementia. Both are good examples of initiatives in which Wales benefits from UK-level action.

Yn dilyn uwchgynhadledd y G8 ym mis Rhagfyr 2013, cyhoeddwyd cyllid sylweddol ar gyfer y DU, a dôi cyfran sylweddol ohono i Gymru. Mae Prifysgol Caerdydd bellach yn arwain sylfaen ymchwil dementia newydd y Cyngor Ymchwil Meddygol yn y DU. Derbyniodd £16 miliwn o arian y DU i hybu dulliau newydd o ganfod, trin ac atal dementia. Derbyniodd Prifysgol Bangor £4 miliwn o'r un pot ymchwil i gefnogi gwaith i wella profiadau bywyd y rhai sydd eisoes yn dioddef o ddementia. Dyma ddwy enghraifft dda o fentrau lle y mae Cymru'n elwa o weithredu ar lefel y DU.

Dirprwy Lywydd, I wanted to say something about the Government's own amendment to the motion by setting out some of the detail of the £5.5 million investment in older persons' mental health care in Wales. It's long-term investment, as Lindsay Whittle asked. This is money that is going into the baselines of our services and will be there year after year from now on. Amongst the things the money will do will be to help establish psychiatric liaison teams at each district general hospital in Wales to support staff in providing timely mental health assessments and reduce length of stay and readmission rates.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n awyddus i ddweud rhywbeth am welliant y Llywodraeth ei hun i'r cynnig drwy nodi rhai o fanylion y buddsoddiad o £5.5 miliwn mewn gofal iechyd meddwl i bobl hŷn yng Nghymru. Mae'n fuddsoddiad hirdymor, fel y gofynnodd Lindsay Whittle. Mae hwn yn arian sy'n mynd i mewn i linellau sylfaen ein gwasanaethau a bydd yno flwyddyn ar ôl blwyddyn o hyn allan. Ymhlith y pethau y bydd yr arian yn ei wneud fydd helpu i sefydlu timau cyswllt seiciatrig ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru i gynorthwyo staff i ddarparu asesiadau iechyd meddwl amserol a lleihau hyd arhosiad a chyfraddau aildderbyn.

A gaf i jest ddweud gair o ddiolch i Paul Davies am beth ddywedodd ef am bobl sy'n siarad Cymraeg sy'n dioddef o ddementia pan fyddant yn dod mewn i'r ysbyty, ac nad yw pobl yn cydnabod y ffaith eu bod yn siarad Cymraeg ac nad ydynt cweit yn deall y problemau maen nhw'n eu hwynebu? Rwy'n ymwybodol iawn o'r angen i ni wneud mwy yn y maes yna i hyfforddi pobl sydd yn y gweithlu yn barod i gydnabod y problemau mae pobl yn eu hwynebu pan fyddan nhw'n siarad Cymraeg ac yn dioddef o ddementia hefyd.

Could I just say a word of thanks to Paul Davies for what he said about people who speak Welsh who suffer from dementia when they come into hospital, and people do not recognise the fact that they speak Welsh and don't quite understand the problems that they face? I'm very aware of the need for us to do more in this area to train people who are in the workforce already to recognise the problems that people face when they are Welsh speakers and suffer from dementia as well.

The same money will help us to create a new cadre of occupational therapy support workers in every older persons' mental health ward in Wales. Meaningful activities available on every ward are an essential component of care for people with dementia, and this new investment will secure it for the future. And we are, of course, as the motion suggests, happy to learn and adopt best practice from anywhere in the world. We're drawing on the experience that Scotland has developed, for example, in providing dementia support. We will adapt the work that they have developed there and calibrate it for Welsh circumstances. In particular, we will draw on Scottish experience in implementing the £800,000 fund that was announced in April to support dementia workers based in primary care.

Bydd yr un arian yn ein helpu i greu cnewyllyn newydd o weithwyr cymorth therapi galwedigaethol ym mhob ward iechyd meddwl i bobl hŷn yng Nghymru. Mae sicrhau bod gweithgareddau ystyrlon ar gael ar bob ward yn elfen hanfodol o ofal ar gyfer pobl â dementia, a bydd y buddsoddiad newydd yn eu sicrhau ar gyfer y dyfodol. Ac wrth gwrs, fel yr awgryma'r cynnig, rydym yn hapus i ddysgu a mabwysiadu arferion gorau o unrhyw le yn y byd. Rydym yn pwyso ar y profiad y mae'r Alban wedi'i ddatblygu, er enghraifft, wrth ddarparu cymorth dementia. Byddwn yn addasu'r gwaith y maent wedi ei ddatblygu yno ac yn ei raddnodi ar gyfer amgylchiadau Cymru. Yn benodol, byddwn yn pwyso ar brofiad yr Alban wrth weithredu'r gronfa £800,000 a gyhoeddwyd ym mis Ebrill i gefnogi gweithwyr dementia mewn gofal sylfaenol.

To answer some of the questions that Kirsty Williams raised, these are 32 new support workers. They will be based in primary care clusters in Wales; that's where they will work from. They will provide face-to-face support and information to patients and their families and their carers—another theme of this afternoon—for 12 months after diagnosis, or beyond that when the disease is further advanced and different challenges emerge. We know we need to do more to drive up diagnosis rates in Wales, and we're providing a new service, a national service—to mention a point that Alun Davies raised about consistency across Wales—a new national service to improve rates of dementia diagnosis in residential care homes in Wales. But, as other speakers have mentioned—and Mohammad Asghar, I think, illustrated very vividly—a diagnosis is important in itself, but it absolutely does not end there. The need to go on supporting people beyond diagnosis to live with dementia—and to know that you can live well with dementia, with proper support—is a very important part of what we are doing here.

I ateb rhai o'r cwestiynau a ofynnodd Kirsty Williams, 32 o weithwyr cymorth newydd yw'r rhain. Byddant yn cael eu lleoli mewn clystyrau gofal sylfaenol yng Nghymru; dyna lle y byddant yn gweithio ohono. Byddant yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth wyneb yn wyneb i gleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr—thema arall y prynhawn yma—am 12 mis ar ôl diagnosis, a thu hwnt i hynny pan fo'r clefyd wedi datblygu ymhellach a gwahanol heriau'n codi. Rydym yn gwybod bod angen i ni wneud mwy i wella cyfraddau diagnosis yng Nghymru, ac rydym yn darparu gwasanaeth newydd, gwasanaeth cenedlaethol—i sôn am bwynt a gododd Alun Davies ynghylch cysondeb ar draws Cymru—gwasanaeth cenedlaethol newydd i wella cyfraddau diagnosis dementia mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru. Ond fel y mae siaradwyr eraill wedi crybwyll—ac a ddarluniwyd yn fyw iawn gan Mohammad Asghar rwy'n credu—mae diagnosis yn bwysig ynddo'i hun, ond mae'n hollbwysig nad yw'n dod i ben gyda hynny. Mae'r angen i barhau i gefnogi pobl y tu hwnt i ddiagnosis i fyw gyda dementia—a gwybod y gallwch fyw yn dda gyda dementia, gyda chymorth priodol—yn rhan bwysig iawn o'r hyn rydym yn ei wneud yma.

In terms of making the NHS estate more dementia-friendly, we will also draw on Scottish experience, and the work of the University of Stirling in identifying the environmental factors that promote best care of people with dementia. As far as training is concerned, by the end of the financial year we expect that at least 50 per cent of directly-employed staff who have contact with patients will have received dementia awareness-raising or training to enable them to recognise and support individuals with dementia. I was very pleased to hear the things that Gwenda Thomas told us, showing what can be done when a local health board takes over this with the seriousness that it requires.

O ran gwneud ystâd y GIG yn fwy dementia-gyfeillgar, byddwn yn pwyso ar brofiad yr Alban, a gwaith Prifysgol Stirling yn nodi'r ffactorau amgylcheddol sy'n hyrwyddo gofal o'r ansawdd gorau i bobl â dementia. O ran hyfforddiant, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol rydym yn disgwyl y bydd o leiaf 50 y cant o staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol ac sy'n dod i gysylltiad â chleifion wedi cael arweiniad codi ymwybyddiaeth neu hyfforddiant ar ddementia i'w galluogi i adnabod a chefnogi unigolion gyda dementia. Roeddwn yn falch iawn o glywed y pethau a ddywedodd Gwenda Thomas wrthym, gan ddangos yr hyn y gellir ei wneud pan fydd bwrdd iechyd lleol yn ysgwyddo'r gwaith gyda'r difrifoldeb sy'n ofynnol.

Dirprwy Lywydd, to conclude, a number of Members across the Chamber have mentioned some of the fantastic work that is going on locally—Kirsty Williams in Brecon, John Griffiths in Newport, and Alun Davies mentioning Tredegar—as work goes on at that local level to help us with our ambition to create Wales as a truly dementia-friendly nation.

Ddirprwy Lywydd, i gloi, mae nifer o'r Aelodau ar draws y Siambr wedi sôn am rywfaint o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud yn lleol—Kirsty Williams yn Aberhonddu, John Griffiths yng Nghasnewydd, a soniodd Alun Davies am Dredegar—wrth i'r gwaith barhau ar y lefel leol er mwyn ein helpu gyda'n huchelgais i wneud Cymru yn genedl dementia-gyfeillgar go iawn.

The Government will support the motion today, with the addition of our amendment, because it strengthens societal and service response to dementia across all services and boundaries.

Bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig heddiw, gan ychwanegu ein gwelliant, gan ei fod yn cryfhau ymateb y gymdeithas a'r gwasanaeth i ddementia ar draws yr holl wasanaethau a ffiniau.

16:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And Nick Ramsay to reply to the debate.

A Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

16:52

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, and can I thank the Minister for his comments there? I'm pleased to hear the Government will be supporting the debate. We will also be supporting the amendments, so, hopefully, this debate has helped in moving the issue of dementia services in Wales forward.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, ac a gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau? Rwy'n falch o glywed y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r ddadl. Byddwn hefyd yn cefnogi'r gwelliannau, felly gobeithio bod y ddadl hon wedi bod o gymorth i symud mater gwasanaethau dementia yng Nghymru yn ei flaen.

This has been a good debate in a difficult area. As Mark Isherwood said in opening, this is a ticking time bomb. One in three people over the age of 65 will develop a form of dementia, and what is staggering is the number of people who, it seems, aren't being diagnosed and are not receiving early diagnosis—a point made by Lindsay Whittle.

Mae hon wedi bod yn ddadl dda mewn maes anodd. Fel y dywedodd Mark Isherwood wrth agor, mae'n fom amser sy'n tician. Bydd un o bob tri o bobl dros 65 oed yn datblygu ffurf ar ddementia, a'r hyn sy'n syfrdanol yw nifer y bobl nad ydynt i'w gweld yn cael diagnosis ac nad ydynt yn cael diagnosis cynnar—pwynt a wnaed gan Lindsay Whittle.

Integration is all-important here. The health and social services care system needs to work very closely together. We make this argument in many debates, but I think it is more relevant in this debate than it is in any of the others that we have. We have to get that right.

Mae integreiddio yn hollbwysig. Mae angen i'r system gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol weithio'n agos iawn gyda'i gilydd. Rydym yn cyflwyno'r ddadl hon mewn llawer o drafodaethau, ond rwy'n credu ei bod yn fwy perthnasol i'r ddadl hon nag unrhyw un o'r dadleuon eraill a gawn. Mae'n rhaid i ni gael hyn yn iawn.

I was pleased to hear the Minister mention Scotland. In Scotland, there was a commitment to 12 months post-diagnostic support. So, it's not just getting the diagnosis; it's making sure there's support afterwards. So, hopefully, that's moving in the right direction. In this case, I know that we often talk about there being a lack of money, but, actually, a small amount of funding in dementia care can make a significant difference. So, you can get a good amount of value for that small amount of money that you're putting in—so, a good reason to invest.

Roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn sôn am yr Alban. Yn yr Alban, cafwyd ymrwymiad i 12 mis o gymorth yn dilyn diagnosis. Felly, nid mater o gael diagnosis yn unig ydyw; mae'n ymwneud â sicrhau cefnogaeth wedi hynny. Felly, gobeithio bod hynny'n symud i'r cyfeiriad cywir. Yn yr achos hwn, rwy'n gwybod ein bod yn aml yn siarad am ddiffyg arian, ond mewn gwirionedd, gall swm bach o arian mewn gofal dementia wneud gwahaniaeth sylweddol. Felly, gallwch gael gwerth da am y swm bach o arian a rowch i mewn—felly, dyna reswm da dros fuddsoddi.

Kirsty Williams, you spoke about the importance of family support and, as you said rightly, families want to be there to provide primary support in the first instance. And it's not just families; it's friends as well. For 10 years, I helped to care for my own next-door neighbour, Muriel, who was suffering from Alzheimer's, and that often meant just sitting with her, watching tv, drinking copious amounts of tea—I remember that well. She was attended by carers, who did a fantastic job. I think we've got some excellent people working in this area within Wales and they deserve praise for their commitment over and above, actually, the call of duty. But I know that they appreciated the fact that I was there, I appreciated the fact that they would come in, the family appreciated that everyone was pulling together in the community in that way, and everyone was benefitting because of this integrated process. I also got a lot out of it. Older people with dementia still have good days when they are more cogent than others, and they've got the time to tell you their stories as well. I heard many stories about Muriel's time in the war, and how she inspected spitfire engines. If I had to dismantle a spitfire engine in this Chamber today, I could do it. If I'm unlucky after next May, I've got an alternative job waiting for me, although there aren't that many spitfires waiting around to be inspected at the moment.

Kirsty Williams, fe sonioch am bwysigrwydd cymorth i deuluoedd ac fel y dywedoch yn gywir, mae teuluoedd eisiau bod yno i roi cefnogaeth sylfaenol yn y lle cyntaf. Ac nid teuluoedd yn unig ond cyfeillion hefyd. Am 10 mlynedd, fe helpais i ofalu am fy nghymydog drws nesaf, Muriel, a oedd yn dioddef o glefyd Alzheimer's, ac roedd hynny'n aml yn golygu eistedd gyda hi, gwylio teledu, yfed te diddiwedd—rwy'n cofio hynny'n dda. Byddai gofalwyr yn dod i edrych amdani, a gwneud gwaith gwych. Rwy'n meddwl bod gennym bobl ragorol yn gweithio yn y maes yng Nghymru ac maent yn haeddu canmoliaeth am eu hymrwymiad y tu hwnt i'r hyn y galwai eu swydd amdano mewn gwirionedd. Ond rwy'n gwybod eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith fy mod i yno, roeddwn i'n gwerthfawrogi'r ffaith y byddent yn dod i mewn, roedd y teulu'n gwerthfawrogi bod pawb yn dod at ei gilydd yn y gymuned yn y ffordd honno, ac roedd pawb yn elwa oherwydd y broses integredig hon. Elwais innau'n fawr o'r profiad hefyd. Mae pobl hŷn â dementia yn dal i gael dyddiau da llai dryslyd na'i gilydd, ac mae ganddynt amser i ddweud eu hanesion wrthych. Clywais lawer o straeon am amser Muriel yn y rhyfel, a sut y byddai'n archwilio peiriannau Spitfire. Pe bai'n rhaid i mi ddatgymalu peiriant Spitfire yn y Siambr hon heddiw, gallwn wneud hynny. Os wyf yn anlwcus fis Mai nesaf, mae gen i swydd arall yn aros amdanaf, er nad oes llawer o Spitfires yn aros i gael eu harchwilio ar hyn o bryd.

Paul Davies reminded us of our responsibility to work together to better integrate people with dementia into the community, and it can be a lonely and a cruel disease. A dementia-friendly high street is an excellent idea, and one that we can, hopefully, push forward with the Welsh Government and the Assembly's focus on improving the street scene and improving town-centre regeneration—that's something else; we can combine those two together.

Cawsom ein hatgoffa gan Paul Davies am ein cyfrifoldeb i weithio gyda'n gilydd i integreiddio pobl â dementia yn well yn y gymuned, a gall fod yn glefyd unig a chreulon. Mae stryd fawr dementia-gyfeillgar yn syniad ardderchog, ac yn un y gallwn ei hybu, gobeithio, gyda Llywodraeth Cymru a ffocws y Cynulliad ar wella'r stryd fawr a gwella'r gwaith o adfywio canol y dref—dyna rywbeth arall; gallwn gyfuno'r ddau beth.

John Griffiths was right to talk about Welsh Government needing to champion good practice—that's a given, isn't it? There is good practice out there, we all know that, but, as ever, it's making sure that that good practice does filter through and that areas where the practice is weaker are brought up to standard. There is a huge deficit within the palliative care sector in terms of dementia. There isn't a reference to end-of-life care needs in the national dementia vision. Why not? It seems to me that that would be the first port of call.

Roedd John Griffiths yn iawn i sôn am yr angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo arfer da—mae hynny i'w gymryd yn ganiataol, onid yw? Mae arfer da i'w gael, rydym i gyd yn gwybod hynny, ond fel arfer, mae'n fater o wneud yn siŵr fod arferion da yn hidlo drwodd a bod ardaloedd lle y mae'r arfer yn wannach yn cael eu codi i'r safon. Mae diffyg enfawr yn y sector gofal lliniarol o ran dementia. Nid oes cyfeiriad at anghenion gofal diwedd oes yn y weledigaeth genedlaethol ar ddementia. Pam ddim? Ymddengys i mi mai dyna'r peth cyntaf y dylid ei wneud.

Alun Davies—Minister emeritus, of course—you evoked the spirit of Beecham. It's been a while since we've heard that name in this Chamber—out of vogue with the front bench at the moment, as is the Wales spatial plan and local government collaboration. It's always nice to hear a blast from the past and, yes, Beecham had some ideas. You mentioned wraparound care—yes, it is important that there is a patient-centred approach to this and that care, wherever it might come from, from all sectors, really does put that person at the centre of the process and that they are cared for at all different stages of their disease, because it's very different dealing with someone at the start of a dementia process to the end-of-life care that, sadly, it eventually reaches.

Alun Davies—Weinidog emeritws, wrth gwrs—roeddech chi'n dwyn ysbryd Beecham i gof. Mae cryn dipyn o amser ers i ni glywed yr enw hwnnw yn y Siambr hon—mae'n anffasiynol gyda'r fainc flaen ar hyn o bryd, fel y mae cynllun gofodol Cymru a chydweithredu o fewn llywodraeth leol. Mae bob amser yn braf clywed adlais o'r gorffennol ac yn wir, roedd gan Beecham rai syniadau. Fe sonioch am ofal cofleidiol—ydy, mae'n bwysig cael dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar y claf yn hyn o beth a bod gofal, o ble bynnag y daw, o bob sector, yn gosod y person yng nghanol y broses mewn gwirionedd a'u bod yn cael gofal ar bob cyfnod gwahanol o'u clefyd, gan fod ymdrin â rhywun ar ddechrau proses dementia yn wahanol iawn i ofal diwedd oes y mae'n ei gyrraedd yn y pen draw, yn anffodus.

So, yes, we're calling for a strategy in this debate so that we can move this process forward. We need greater support for families so that they themselves can provide greater support. I think we're all singing from the same hymn sheet in this: let's get the wheels in motion and improve dementia care in Wales.

Felly, ydym, rydym yn galw am strategaeth yn y ddadl hon er mwyn i ni allu symud y broses hon yn ei blaen. Mae arnom angen mwy o gefnogaeth i deuluoedd fel y gallant hwy eu hunain ddarparu mwy o gymorth. Rwy'n meddwl ein bod i gyd yn gytûn ar hyn: gadewch i ni gael yr olwynion i droi a gwella gofal dementia yng Nghymru.

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 7. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llywodraethu ac Arweinyddiaeth yn y GIG

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones. Os cynigir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol.*

# 7. Welsh Conservatives Debate: Governance and Leadership in the NHS

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendment 3 in the name of Elin Jones. If amendment 2 is moved, amendment 3 will be deselected.*

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Item 7 is the second Conservative debate—this one on governance and leadership in the NHS. I call on Darren Millar to move the motion.

Eitem 7 yw ail ddadl y Ceidwadwyr—a hon ar lywodraethu ac arweinyddiaeth yn y GIG. Galwaf ar Darren Millar i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5787 Paul Davies

Motion NDM5787 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraethu da ac arweinyddiaeth effeithiol yn y GIG yng Nghymru a'r angen am atebolrwydd i'r cyhoedd.

1. Notes the importance of good governance and effective leadership in the Welsh NHS and the need for accountability to the public.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sefydlu comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol fel ffordd o gyflawni hyn yn mhob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru.

2. Calls upon the Welsh Government to consider the establishment of directly elected health commissioners as a means of achieving this in each health board area in Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:57

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion in the name of my colleague Paul Davies on the order paper.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y cynnig yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies ar y papur trefn.

In recent years, communities across Wales have felt powerless to influence the decisions that have been made about health services in their areas. Public engagement and consultation exercises have paid little more than lip service to community views, and controversial plans to close and downgrade hospitals have been given the nod by health boards and then the green light by Labour health Ministers. In west Wales, we've seen services stripped from Withybush hospital and Prince Philip Hospital and community hospitals have closed their doors, causing thousands to take to the streets, sign petitions and make a pilgrimage to Cardiff bay to protest outside the Senedd.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cymunedau ledled Cymru wedi teimlo'n analluog i ddylanwadu ar y penderfyniadau a wnaed am y gwasanaethau iechyd yn eu hardaloedd. Nid yw ymarferion ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori wedi rhoi fawr o ystyriaeth go iawn i farn y gymuned, ac mae cynlluniau dadleuol i gau ac israddio ysbytai wedi cael eu pasio gan fyrddau iechyd a chael golau gwyrdd wedyn gan Weinidogion Iechyd Llafur. Yn y gorllewin, rydym wedi gweld gwasanaethau'n cael eu colli yn ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Tywysog Philip ac mae ysbytai cymunedol wedi cau eu drysau, gan achosi i filoedd ddod allan i gerdded y strydoedd, llofnodi deisebau a gwneud pererindod i fae Caerdydd i brotestio y tu allan i'r Senedd.

In south Wales, we've seen plans to force people to travel further for emergency life-saving treatment developed, causing anxiety and heartache for hard-working staff and local communities, who have marched the streets to voice their opposition. In north Wales, we've seen community hospitals close in places such as Flint, Prestatyn and Llangollen, minor injuries units axed in major population centres such as Colwyn Bay, and services removed from our district general hospitals. And, of course, earlier this year, thousands protested at plans to remove consultant-led maternity services from Glan Clwyd Hospital in Bodelwyddan and presented one of the largest petitions in the history of the National Assembly to the Petitions Committee—a petition that the health Minister described as, and I quote, 'a prop', when I brought it into this Chamber.

Yn ne Cymru, rydym wedi gweld cynlluniau'n cael eu datblygu i orfodi pobl i deithio ymhellach i gael triniaeth argyfwng sy'n achub bywydau, gan achosi pryder a gofid i staff gweithgar a chymunedau lleol a pheri iddynt orymdeithio ar hyd y strydoedd i leisio eu gwrthwynebiad. Yng ngogledd Cymru, rydym wedi gweld ysbytai cymunedol yn cau mewn mannau megis y Fflint, Prestatyn a Llangollen, unedau mân anafiadau'n cael eu colli mewn canolfannau poblogaeth mawr megis Bae Colwyn, a gwasanaethau'n cael eu diddymu yn ein hysbytai cyffredinol dosbarth. Ac wrth gwrs, yn gynharach eleni, gwelwyd miloedd yn protestio ynghylch cynlluniau i gael gwared ar wasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddyg ymgynghorol o Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan a chyflwyno un o'r deisebau mwyaf yn hanes y Cynulliad Cenedlaethol i'r Pwyllgor Deisebau—deiseb a ddisgrifiodd y Gweinidog Iechyd fel 'prop' pan ddeuthum â hi i mewn i'r Siambr hon.

The public engagement by health boards in developing their plans has ranged from non-existent and poorly advertised public meetings with limited capacity to more extensive engagement and more genuine attempts at engagement. But the outcome of this engagement has invariably been the same, in that, in spite of public feedback, health boards have marched on with their plans, making only few, limited changes here and there in failed attempts to placate the communities that have lost out. These decisions, and the outcry that they have caused, have exposed a scandalous democratic deficit that exists in the decision making in our national health service—a democratic deficit that has left communities across Wales angry and patients feeling disenfranchised.

Mae ymgysylltiad y byrddau iechyd â'r cyhoedd wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau wedi amrywio o beidio â chynnal cyfarfod o gwbl neu gyfarfodydd cyhoeddus wedi'u hysbysebu'n wael gyda chapasiti cyfyngedig, i ymgysylltiad mwy helaeth ac ymdrechion mwy dilys i ymgysylltu. Ond mae canlyniad yr ymgysylltiad wedi bod yr un peth yn ddieithriad, yn yr ystyr fod byrddau iechyd, er gwaethaf adborth gan y cyhoedd, wedi bwrw ymlaen â'u cynlluniau, gan wneud rhai newidiadau cyfyngedig yma ac acw yn unig mewn ymdrech aflwyddiannus i dawelu'r cymunedau sydd ar eu colled. Mae'r penderfyniadau hyn, a'r brotest y maent wedi ei hachosi, wedi amlygu'r diffyg democratiaeth gwarthus sy'n bodoli yn y broses o wneud penderfyniadau yn ein gwasanaeth iechyd gwladol—diffyg democratiaeth sydd wedi gadael cymunedau ar draws Cymru yn ddig a chleifion yn teimlo eu bod wedi'u difreinio.

It's no wonder that in the national survey for Wales, published just last week, we found that just 14 per cent of people agreed that they could influence decisions affecting local health services. It's not right and it has got to change. The Welsh NHS must become more accountable to those it serves and more responsive to the taxpayers who fund it, and that's why we're having this debate in the Senedd this afternoon. We want to see change that puts the voice of the patient back at the heart of decision making in the NHS and to bring an end to the system that allows Welsh Ministers to appoint decision makers onto local health boards—a system that risks appointments being made not on the basis of merit, skills or experience, but on the basis of links to political parties or those in a position to appoint.

Nid yw'n syndod ein bod wedi gweld yn arolwg cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, mai 14 y cant o bobl yn unig sy'n cytuno y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd lleol. Nid yw hyn yn iawn ac mae'n rhaid iddo newid. Mae'n rhaid i'r GIG yng Nghymru fod yn fwy atebol i'r rhai y mae'n eu gwasanaethu ac yn fwy ymatebol i drethdalwyr sy'n ei ariannu, a dyna pam ein bod yn cael y ddadl hon yn y Senedd y prynhawn yma. Rydym am weld newid sy'n rhoi llais y claf yn ôl wrth galon y broses o wneud penderfyniadau yn y GIG ac i roi diwedd ar y system sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru benodi pobl sy'n gwneud penderfyniadau ar fyrddau iechyd lleol—system sy'n creu risg o wneud penodiadau nid ar sail teilyngdod, sgiliau neu brofiad, ond ar sail cysylltiadau â phleidiau gwleidyddol neu rai sydd mewn sefyllfa i benodi.

The Minister may well shake his head, but I'm sure that Members will find it very interesting to note that research undertaken earlier this year suggested that 75 per cent of health board chairs and vice-chairs who declared a political affiliation were linked to the Minister's own party.

Hawdd y gall y Gweinidog ysgwyd ei ben, ond rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n ei chael yn ddiddorol iawn nodi bod y gwaith ymchwil a gyflawnwyd yn gynharach eleni yn awgrymu bod 75 y cant o gadeiryddion byrddau iechyd ac is-gadeiryddion a oedd wedi datgan ymlyniad gwleidyddol yn gysylltiedig â phlaid y Gweinidog ei hun.

Now, at the moment, we're in a situation where no matter how big the scandal or whatever the failure, appointed health board members seem to just get away with it. Take north Wales, for example. Back in 2013, following a damning report by the Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales on governance failings at the Betsi Cadwaladr University Local Health Board we saw the resignation of the chair and then the vice-chair of the board. Some months later, following a large pay-off, I might add, we saw the departure of its chief executive. But other senior executive and other board members stayed in place and faced no penalties whatsoever for their part in the board's failings. In fact, since then, those same individuals have been in charge of that board when other reports have been published with aspects of board leadership at their heart. We've seen reports on GP out-of-hours services, we've seen reports on institutional abuse at the Tawel Fan ward at Glan Clwyd Hospital in Bodelwyddan, and we've seen further updates to the Wales Audit Office and Healthcare Inspectorate Wales work that has identified shortcomings in progress in moving governance improvements forward. Every one of these reports has pointed to governance and leadership failings, yet not one executive and not one board member has resigned, other than the chair and the vice-chair, or been sacked. It is a disgrace and it's not only, unfortunately, taking place in north Wales.

Nawr, ar hyn o bryd, waeth pa mor fawr y sgandal neu beth bynnag y methiant, mae'n ymddangos ein bod mewn sefyllfa lle na chaiff aelodau penodedig ar fyrddau iechyd mo'u cosbi. Cymerwch ogledd Cymru, er enghraifft. Yn ôl yn 2013, yn dilyn adroddiad damniol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar fethiannau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr gwelsom ymddiswyddiad y cadeirydd ac is-gadeirydd y bwrdd. Rai misoedd yn ddiweddarach, yn dilyn taliad diswyddo mawr, dylwn ychwanegu, gwelsom ymadawiad ei brif weithredwr. Ond arhosodd uwch-swyddogion gweithredol eraill ac aelodau eraill o'r bwrdd yn eu lle heb wynebu unrhyw gosbau o gwbl am eu rhan ym methiannau'r bwrdd. Yn wir, ers hynny, yr unigolion hyn a fu'n gyfrifol am y bwrdd pan gyhoeddwyd adroddiadau eraill gydag agweddau ar arweinyddiaeth y bwrdd yn ganolog iddynt. Rydym wedi gweld adroddiadau ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau, rydym wedi gweld adroddiadau ar gam-drin sefydliadol ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, ac rydym wedi gweld diweddariadau pellach i waith Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sydd wedi nodi diffygion o ran y cynnydd a wnaed ar symud gwelliannau llywodraethu yn eu blaen. Mae pob un o'r adroddiadau hyn wedi tynnu sylw at fethiannau llywodraethu ac arweinyddiaeth, ac eto nid oes un swyddog gweithredol nac unrhyw aelod o'r bwrdd wedi ymddiswyddo, ar wahân i'r cadeirydd a'r is-gadeirydd, nac wedi cael eu diswyddo. Mae'n warth ac nid yng ngogledd Cymru'n unig y mae'n digwydd, yn anffodus.

Not one executive team member or board member lost their job in the wake of the 'Trusted to Care' report, which exposed scandalous mistreatment in the Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals. We all know in this Chamber that, if those responsible had to face an electorate, they would have been kicked out of their positions a long time ago. Yet instead, in spite of public demands for heads to roll, these people have simply stayed in their jobs and there's nothing that patients, hard-working staff or local communities can do about it.

NI chollodd yr un aelod o'r tîm gweithredol nac aelod o'r bwrdd eu swydd yn sgil adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' a ddatgelodd gamdriniaeth gywilyddus yn ysbyty Tywysoges Cymru ac ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Gwyddom i gyd yn y Siambr hon, pe bai'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol wynebu etholwyr, byddent wedi cael eu hel o'u swyddi ers amser maith. Eto i gyd yn lle hynny, er gwaethaf y galw cyhoeddus am ddiswyddiadau, mae'r bobl hyn wedi aros yn eu swyddi ac nid oes unrhyw beth y gall cleifion, staff gweithgar neu gymunedau lleol ei wneud am y peth.

Good governance and effective leadership in the Welsh NHS are essential, but so are clear lines of accountability to the public that the NHS serves. And that's why, today, we're calling upon the Welsh Government to explore the establishment of a system of directly elected health commissioners across Wales to replace the current arrangements. It's time to devolve decision making over health services from Cardiff bay into communities and to give power to the people, delivering real devolution and allowing local communities to decide who runs their local health services. It should be the public, Deputy Presiding Officer, and not politicians, who decide those responsible for running health services across Wales.

Mae llywodraethu da ac arweinyddiaeth effeithiol yn y GIG yng Nghymru yn hanfodol, ond mae llinellau atebolrwydd clir i'r cyhoedd a wasanaethir gan y GIG yr un mor hanfodol. A dyna pam rydym yn galw heddiw ar Lywodraeth Cymru i archwilio'r gwaith o sefydlu system o gomisiynwyr iechyd wedi'u hethol yn uniongyrchol ledled Cymru i gymryd lle'r trefniadau cyfredol. Mae'n bryd datganoli'r broses o wneud penderfyniadau dros wasanaethau iechyd o fae Caerdydd i'r cymunedau a rhoi grym i'r bobl, gan gyflwyno datganoli go iawn a chaniatáu cymunedau lleol i benderfynu pwy sy'n rhedeg eu gwasanaethau iechyd lleol. Ddirprwy Lywydd, y cyhoedd ac nid gwleidyddion a ddylai gael penderfynu pwy sy'n gyfrifol am redeg gwasanaethau iechyd ledled Cymru.

17:03 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:03 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will happily take an intervention.

Byddaf yn falch o dderbyn ymyriad.

17:03 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, if you have elected commissioners, do they not then become politicians who are effectively running the health service?

Felly, os oes gennych gomisiynwyr etholedig, onid ydynt wedyn yn dod yn wleidyddion sy'n rhedeg y gwasanaeth iechyd i bob pwrpas?

17:03 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, they do not. They would operate on the same model as the police and crime commissioner model, which allows —[Interruption.] People are shrugging their shoulders. We have two independent police and crime commissioners in Wales who are not affiliated with political parties. So, directly elected health commissioners—. I know why the Labour Party doesn't want to see this. They don't want to give up their hands on the greasy levers of control in the Welsh NHS, those hands that have done damage to the NHS year in, year out for every year that we've had Labour health Ministers. I know that you don't like democratic accountability but, I'm sorry, we do, and the public want to see it as well.

Nac ydynt. Byddent yn gweithredu ar yr un model â model y comisiynydd heddlu a throseddu, sy'n caniatáu—[Torri ar draws.] Mae pobl yn codi eu hysgwyddau. Mae gennym ddau gomisiynydd heddlu a throseddu annibynnol yng Nghymru nad ydynt yn gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol. Felly, byddai comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol—. Rwy'n gwybod pam nad yw'r Blaid Lafur yn awyddus i weld hyn. Nid ydynt am ildio'u dwylo ar liferi rheoli'r GIG yng Nghymru, dwylo sydd wedi gwneud niwed i'r GIG flwyddyn ar ôl blwyddyn am bob blwyddyn y bu gennym Weinidogion Iechyd Llafur. Gwn nad ydych yn hoffi atebolrwydd democrataidd, ond mae'n ddrwg gennyf, rydym ni'n ei hoffi, ac mae'r cyhoedd am ei weld hefyd.

So, directly elected health commissioners, with a mandate from the communities they serve, would replace the system of appointed board members and be able to reflect local priorities when bringing about the transformation our NHS needs to be fit for the twenty-first century. The public would vote them in and then also have the opportunity to vote them out. Health commissioners could be based on the police and crime commissioner model, as I've already said. We know that two of the PCCs in Wales are independent, and that PCCs, even where they are members of parties, are required to swear an oath of impartiality when they are elected to office to ensure that they can serve the public without political bias.

Felly, byddai comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol, gyda mandad gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn disodli'r system o aelodau bwrdd penodedig ac yn gallu adlewyrchu blaenoriaethau lleol wrth sicrhau'r newid sydd ei angen ar ein GIG i fod yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Byddai'r cyhoedd yn eu hethol a hefyd yn cael cyfle i bleidleisio i gael eu gwared. Gallai comisiynwyr iechyd fod yn seiliedig ar y model comisiynydd heddlu a throseddu, fel rwyf wedi dweud yn barod. Gwyddom fod dau o'r Comisiynwyr yng Nghymru yn annibynnol, a'i bod yn ofynnol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, hyd yn oed os ydynt yn aelodau o bleidiau, dyngu llw o ddidueddrwydd pan gânt eu hethol i'r swydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwasanaethu'r cyhoedd heb ragfarn wleidyddol.

If you're accusing Alun Michael and others of political bias in the way that they go about their work, that's you're problem—that is your problem. We simply know that at least if the public aren't happy with the way that the police service is run, they can sack Alun Michael and replace him with somebody else. That's the sort of system that we want to see in relation to our health service.

Os ydych yn cyhuddo Alun Michael ac eraill o ragfarn wleidyddol yn y modd y maent yn gwneud eu gwaith, eich problem chi yw hynny—eich problem chi. O leiaf os nad yw'r cyhoedd yn fodlon â'r ffordd y mae'r gwasanaeth heddlu yn cael ei redeg, gwyddom y gallant ddiswyddo Alun Michael a rhoi rhywun arall yn ei le. Dyna'r math o system rydym am ei gweld mewn perthynas â'n gwasanaeth iechyd.

Health commissioners could be required to attend local authority scrutiny committees; they could be required to appear before Assembly committees as well, to account for their performance. And duties could be imposed upon them to develop plans for health services in their areas that are co-produced—and I'll repeat that—co-produced with the public and other stakeholders, rather than simply imposed upon the public and other stakeholders in the way that we have been seeing over the past few years. We shouldn't be afraid of making the NHS more accountable to those it serves or giving the public a greater say in how it is run.

Gallai fod yn ofynnol i gomisiynwyr iechyd fynychu pwyllgorau craffu awdurdodau lleol; gallai fod yn ofynnol iddynt ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad, yn ogystal, i roi cyfrif am eu perfformiad. A gellid rhoi dyletswyddau iddynt ddatblygu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau iechyd yn eu hardaloedd sy'n cael eu cydgynhyrchu—ac rwy'n ailadrodd hynny—eu cydgynhyrchu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, yn hytrach na'u gorfodi ar y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y ffordd rydym wedi'i gweld dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ni ddylem ofni gwneud y GIG yn fwy atebol i'r rhai y mae'n eu gwasanaethu neu roi mwy o lais i'r cyhoedd yn y ffordd y mae'n cael ei redeg.

Deputy Presiding Officer, this is our vision for the democratic revolution we believe we need to see in the NHS to strengthen the patient voice and to restore public confidence in it. I commend the motion to the Assembly.

Ddirprwy Lywydd, dyma ein gweledigaeth ar gyfer y chwyldro democrataidd y credwn fod ei angen ar y GIG er mwyn cryfhau llais cleifion ac adfer hyder y cyhoedd ynddo. Cymeradwyaf y cynnig i'r Cynulliad.

17:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion. However, if amendment 2 is moved, amendment 3 will be de-selected. I call on Kirsty Williams to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Fodd bynnag, os yw gwelliant 2 yn cael ei gynnig, caiff gwelliant 3 ei ddad-dethol. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1— Aled Roberts*

*Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 2 and replace with:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynrychiolaeth a etholir yn ddemocrataidd ar fyrddau iechyd fel ffordd o gyflawni hyn.*

*Calls on the Welsh Government to consider democratically elected representation on health boards as a means of achieving this.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

17:06 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I formally move amendment 1. Before some bright spark during the debate says that there are already elected representatives on local health boards, can I apologise for the slight clumsiness of the wording of the amendment? I am perfectly aware that democratically elected councillors are nominated by their individual local authorities to sit on local health boards.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 1 yn ffurfiol. Cyn i rywun craffach na'i gilydd ddweud yn ystod y ddadl fod yna gynrychiolwyr etholedig eisoes ar fyrddau iechyd lleol, a gaf fi ymddiheuro am yr ychydig letchwithdod yng ngeiriad y gwelliant? Rwy'n berffaith ymwybodol fod cynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd yn cael eu henwebu gan eu hawdurdodau lleol unigol i fod yn aelodau o fyrddau iechyd lleol.

I think there is an interesting question to be discussed here about how we can ensure that local health boards engage properly with the populations they serve, and what can be done to ensure that local people feel more engaged with how their LHB operates. I appreciate that some Members of this Chamber have particularly bad experiences in how their individual local health boards have operated. I, perhaps, am more fortunate than most in the way in which Powys local health board has made very serious attempts to try and work collaboratively with local people to look at service change and to look at what services need to be delivered in communities and have worked and supported, for instance, local health focus groups that engage on a regular basis with communities to talk about what's happening in the health service, what local people want and how the local health board can respond to that.

Credaf fod cwestiwn diddorol i'w drafod yma ynglŷn â sut y gallwn sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn ymgysylltu'n briodol â'r poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, a beth y gellir ei wneud i sicrhau bod pobl leol yn teimlo mwy o ymgysylltiad â'r modd y mae eu BILl yn gweithredu. Sylweddolaf fod rhai Aelodau o'r Siambr hon wedi cael profiadau arbennig o wael o ran y modd y mae eu byrddau iechyd lleol unigol wedi bod yn gweithredu. Rwy'n fwy ffodus na'r rhan fwyaf efallai o ran y ffordd y mae bwrdd iechyd lleol Powys wedi gwneud ymdrechion difrifol iawn i geisio gweithio ar y cyd â phobl leol i edrych ar newid gwasanaethau ac i edrych ar ba wasanaethau sydd angen eu darparu mewn cymunedau ac wedi gweithio a chefnogi grwpiau ffocws lleol ar iechyd, er enghraifft, sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â chymunedau i siarad am yr hyn sy'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd, yr hyn y mae pobl leol ei eisiau a sut y gall y bwrdd iechyd lleol ymateb i hynny.

So, my experience is very different, because, undoubtedly, if one looks at the recent record of public engagement activities, they have left local people feeling angry, dispirited and ignored. I would remind the health Minister of the report that was carried out by the Wales Audit Office that talked about the lack of a really coherent national engagement strategy and policy on behalf of health organisations and how they were running. So, I certainly think there is scope for improvement.

Felly, mae fy mhrofiad yn wahanol iawn, oherwydd, yn ddi-os, o edrych ar y record ddiweddar o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, maent wedi gwneud i bobl leol deimlo'n ddig, yn ddigalon iawn ac wedi'u hanwybyddu. Hoffwn atgoffa'r Gweinidog Iechyd am yr adroddiad a gafodd ei lunio gan Swyddfa Archwilio Cymru a soniai am ddiffyg strategaeth ymgysylltu genedlaethol wirioneddol gydlynol a pholisi ar ran sefydliadau iechyd a sut y caent eu rhedeg. Felly, rwy'n sicr yn credu bod lle i wella.

In our amendment, what we're trying to refer to is the opportunity of looking at having directly elected members onto health boards; they could take place, for instance, alongside county council elections, and perhaps would give a clearer focus on what those people's roles were on the health board, rather than individual county councillors at the moment. I think it must be quite difficult to be a county councillor for a specific ward and then suddenly have total responsibility for representing a whole community.

Yn ein gwelliant, yr hyn rydym yn ceisio cyfeirio ato yw'r cyfle i edrych ar ethol aelodau yn uniongyrchol ar fyrddau iechyd; gallent ddigwydd, er enghraifft, ochr yn ochr ag etholiadau'r cyngor sir, ac efallai y byddai'n rhoi ffocws cliriach i rolau'r bobl ar y bwrdd iechyd, yn hytrach na chynghorwyr sir unigol ar hyn o bryd. Yn fy marn i, rhaid ei bod yn eithaf anodd bod yn gynghorydd sir dros ward benodol ac yna'n sydyn gael cyfrifoldeb llwyr dros gynrychioli cymuned gyfan.

But, I must say, I am very, very dubious about the idea of a health commissioner, especially when that's been confirmed by Darren Millar to be one based on the model of police and crime commissioners. The figures for the four offices of the police and crime commissioners in Wales show that the total office costs for 2015-16 were £3.2 million. This is an average of £805,000 per office. If those costs were to be replicated across the seven health boards in Wales in having their health commissioners, that would run to a cost of £5.6 million. Now, let's be clear about what £5.6 million buys you in the Welsh NHS.

Ond rhaid i mi ddweud, rwy'n amheus iawn am y syniad o gomisiynydd iechyd, yn enwedig pan fo Darren Millar yn cadarnhau ei fod yn un sy'n seiliedig ar fodel y comisiynwyr heddlu a throseddu. Mae'r ffigurau ar gyfer y pedair swyddfa comisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru yn dangos bod cyfanswm y costau swyddfa ar gyfer 2015-16 yn £3.2 miliwn. Dyna gyfartaledd o £805,000 am bob swydd. Pe bai'r costau hynny'n cael eu hailadrodd ar draws y saith bwrdd iechyd yng Nghymru ar gyfer cael comisiynwyr iechyd, byddai'n golygu costau o £5.6 miliwn. Yn awr, gadewch i ni fod yn glir ynghylch yr hyn y bydd £5.6 miliwn yn ei brynu i chi yn y GIG yng Nghymru.

*Darren Millar rose—*

*Darren Millar a gododd—*

17:10

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It buys you 220 band 5 nurses. I know what I would rather see. Darren.

Gallech brynu 220 o nyrsys band 5. Rwy'n gwybod beth fyddai'n well gennyf fi ei weld. Darren.

17:10

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful for you taking the intervention. Do you not accept that there's a cost at the moment to the running of our health boards in the existing arrangements whereby we have appointed members, and board meetings, and all of the arrangements that go with them? They don't just happen—those sorts of meetings. There's a cost to that, and, of course, there's an administrative cost, which you haven't taken into account.

Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Onid ydych yn derbyn bod yna gost ar hyn o bryd i redeg ein byrddau iechyd o fewn y trefniadau presennol lle y mae gennym aelodau penodedig, a chyfarfodydd bwrdd, a'r holl drefniadau sy'n mynd gyda'r rhain? Nid ydynt yn digwydd ohonynt eu hunain—y mathau hynny o gyfarfodydd. Maent yn costio, ac wrth gwrs, ceir cost weinyddol, nad ydych wedi ei hystyried.

17:10

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm aware of that, Darren, but you're the people who have come to this Chamber today to say you want health commissioners based on the premise of police commissioners. I'm just stating the facts of how much police commissioners are currently costing Wales. That is what I'm quoting. That's the equivalent of 220 nurses on band 5. Also, I would be interested to hear from the Conservatives, as they develop their case for these particular roles: do they expect these commissioners to replicate simply the geographical boards, for instance, Betsi or Hywel Dda, or do we want a commissioner, for instance, for Velindre, which, of course, is a very different organisation that sits? So, are we having all health boards led by commissioners, or are we having some of them? How, then, does that play out?

Rwy'n ymwybodol o hynny, Darren, ond chi yw'r bobl sydd wedi dod i'r Siambr hon heddiw i ddweud eich bod am gael comisiynwyr iechyd yn seiliedig ar gynsail y comisiynwyr heddlu. Nodi'r ffeithiau'n unig a wnaf o ran faint y mae comisiynwyr heddlu yn costio ar hyn o bryd i Gymru. Dyna rwy'n ei nodi. Mae'n cyfateb i 220 o nyrsys ar fand 5. Hefyd, byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed gan y Ceidwadwyr, wrth iddynt ddatblygu eu hachos dros y rolau penodol hyn: a ydynt yn disgwyl i'r comisiynwyr hyn ddilyn ffiniau'r byrddau daearyddol, er enghraifft, Betsi Cadwaladr neu Hywel Dda, neu a ydym eisiau comisiynydd, er enghraifft, ar gyfer Felindre, sydd wrth gwrs yn sefydliad gwahanol iawn? Felly, a ydym am weld yr holl fyrddau iechyd yn cael eu harwain gan gomisiynwyr, neu rai ohonynt yn unig? Sut y byddai hynny'n gweithio, felly?

The other issue is: quite rightly, Darren says that we need to be devolving power out for people to make decisions about their local health services. What we also know is that, in terms of healthcare going forward, local has its role to play but increasingly we're going to be seeing science and medical technology drive people into centres of excellence. What was local 10 years ago isn't local now. I'm just wondering how they view commissioners working those arrangements where local services cannot be delivered locally.

Y mater arall yw hyn: yn ddigon teg, mae Darren yn dweud bod angen i ni ddatganoli pŵer allan i bobl wneud penderfyniadau am eu gwasanaethau iechyd lleol. Yr hyn rydym hefyd yn ei wybod yw bod gan y lleol ei ran i'w chwarae o ran gofal iechyd yn y dyfodol ond yn gynyddol, rydym yn mynd i fod yn gweld gwyddoniaeth a thechnoleg feddygol yn gyrru pobl i ganolfannau rhagoriaeth. Nid yw'r hyn a oedd yn lleol 10 mlynedd yn ôl yn lleol bellach. Tybed sut y maent yn gweld comisiynwyr yn gweithio'r trefniadau hynny lle na ellir darparu gwasanaethau lleol yn lleol.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Health to move formally amendment 2 tabled in the name of Jane Hutt.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i gynnig gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt yn ffurfiol.

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Dileu pwynt 2.*

*Delete point 2.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

17:12 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Formally.

Yn ffurfiol.

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

As amendment 2 has been moved, amendment 3 is deselected. Janet Finch-Saunders.

Gan fod gwelliant 2 wedi'i gynnig, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol. Janet Finch-Saunders.

17:12 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'm pleased to contribute to this debate and to support the motion put forward by our group whip, Paul Davies, Assembly Member, following a very excellent presentation by Darren Millar, Assembly Member.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon ac i gefnogi'r cynnig a gyflwynwyd gan ein chwip grŵp, Paul Davies, Aelod Cynulliad, yn dilyn cyflwyniad rhagorol iawn gan Darren Millar, Aelod Cynulliad.

Today presents us with the opportunity to be very constructive in opposition by bringing forward some radical plans and policy that would seek to strengthen the health service here in Wales. Whilst also presenting us with the opportunity to accurately reflect on the health service as it is here in Wales after 15 years of devolution, led by the Welsh Labour Government. It does go without saying how grateful we are to those who have dedicated their lives to working within our health service, at whatever level and for over many years as they have witnessed significant change—change for the better in many ways, as we have all experienced the introduction of modern technologies, better diagnostic techniques, earlier intervention, and less obtrusive hospital procedures. Over these years, under the guise of care in the community and hospital reorganisation, they've made way for a new model of providing very specialist individual care, seeing the removal of beds, wards closed, hospital infections rise, people sent home alone at all times of the day or night, and treatment delivered very far away from home and from our loved ones. We have, rather sadly and much too frequently—and certainly of late—witnessed some extraordinary examples of poor leadership, bad management and serious governance issues.

Heddiw, cawn gyfle i fod yn adeiladol iawn fel gwrthblaid drwy gyflwyno cynlluniau a pholisi radical i geisio cryfhau'r gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru. Er ei fod hefyd yn rhoi cyfle i fyfyrio'n briodol ar y gwasanaeth iechyd fel y mae yma yng Nghymru ar ôl 15 mlynedd o ddatganoli, dan arweiniad Llywodraeth Lafur Cymru, afraid dweud pa mor ddiolchgar rydym i'r rhai sydd wedi rhoi eu bywydau i weithio yn ein gwasanaeth iechyd, ar ba lefel bynnag a thros flynyddoedd lawer gan eu bod wedi gweld newid sylweddol—newid er gwell mewn sawl ffordd, gan ein bod oll wedi profi'r modd y cyflwynwyd technolegau modern, technegau diagnostig gwell, ymyrryd yn gynharach, a gweithdrefnau ysbyty sy'n llai ymwthiol. Dros y blynyddoedd hyn, dan gochl gofal yn y gymuned ac ad-drefnu ysbytai, maent wedi paratoi'r ffordd ar gyfer model newydd o ddarparu gofal unigol arbenigol iawn, gan gael gwared ar welyau, cau wardiau, lefelau heintiau mewn ysbytai yn codi, a phobl yn cael eu gyrru adref ar eu pen eu hunain ar bob adeg o'r dydd neu'r nos, a thriniaeth yn cael ei darparu ymhell iawn o gartref ac oddi wrth ein hanwyliaid. Yn anffodus braidd ac yn llawer rhy aml—yn sicr yn ddiweddar—rydym wedi bod yn dyst i rai enghreifftiau anhygoel o arweinyddiaeth wael, rheolaeth sâl a phroblemau llywodraethu difrifol.

In 2014 we announced plans to give patients a greater voice in the Welsh NHS with elected health commissioners, removing any political patronage that allows Welsh Government Ministers to appoint their own preferred decision makers onto our health boards. These proposals came after findings from a survey of more than 3,000 health service users across Wales. It identified the need for a culture change and, in particular, highlighted a high number of NHS staff members who describe themselves working in a culture of fear, while whistleblowing could see the end of your career. And we learned, too, and it was endorsed again, by the horrific Tawel Fan report, that a non-listening culture permeates the Welsh NHS currently. This again was backed up by Ann Lloyd in her follow-up report into governance issues at Betsi Cadwaladr University Local Health Board. An independent review into two hospitals in south Wales in 2014 found horrific examples of poor care, seeing patients without medication, food or water for days. Whilst the board and the First Minister apologised, they stopped short of committing to a full inquiry, and I've already mentioned the serious breaches of abuse in Tawel Fan.

Yn 2014 cyhoeddwyd cynlluniau gennym i roi mwy o lais i gleifion yn y GIG yng Nghymru gyda chomisiynwyr iechyd etholedig, gan ddileu unrhyw nawdd gwleidyddol sy'n caniatáu i Weinidogion Llywodraeth Cymru benodi eu gwneuthurwyr penderfyniadau dewisol eu hunain ar ein byrddau iechyd. Daeth y cynigion hyn ar ôl canfyddiadau arolwg o fwy na 3,000 o ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd ar draws Cymru. Mae'n nodi'r angen am newid diwylliant ac yn arbennig, tynnodd sylw at nifer fawr o aelodau staff y GIG sy'n dweud eu bod yn gweithio mewn diwylliant o ofn, lle y byddai chwythu'r chwiban yn gallu arwain at ddiwedd eich gyrfa. Ac rydym wedi dysgu hefyd, a chafodd ei ategu eto gan yr adroddiad arswydus ar ward Tawel Fan, fod diwylliant o beidio â gwrando yn treiddio drwy'r GIG yng Nghymru ar hyn o bryd. Ategwyd hyn eto gan Ann Lloyd yn ei hadroddiad dilynol ar faterion llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gwelodd adolygiad annibynnol o ddau ysbyty yn ne Cymru yn 2014 enghreifftiau erchyll o ofal gwael, lle y gwelwyd cleifion yn mynd heb feddyginiaeth, bwyd neu ddŵr am ddyddiau. Er bod y bwrdd a'r Prif Weinidog wedi ymddiheuro, nid aethant mor bell ag ymrwymo i ymchwiliad llawn, ac rwyf eisoes wedi crybwyll y cam-drin difrifol ar ward Tawel Fan.

Elected health commissioners would put the patient's own voice at the heart of decision making, transferring this power away from central Government and into the hands of the patients and families themselves. These champions would be accountable to the individual needs of patients and the community. They would be best placed to stand up and take necessary decisions that wouldn't compromise the safety and care of those they serve. They would be directly elected, directly scrutinised and directly challenged by their electorate under each election, and they would have the ability to determine local priorities and would eliminate the current silo-working mentality that currently exists within some senior management groups and clinician-patient groups of our health boards.

Byddai comisiynwyr iechyd etholedig yn rhoi llais y claf ei hun wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, gan drosglwyddo'r pŵer hwn o'r Llywodraeth ganolog ac i ddwylo'r cleifion a'r teuluoedd eu hunain. Byddai'r hyrwyddwyr hyn yn atebol i anghenion unigol cleifion a'r gymuned. Byddent yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau angenrheidiol na fyddai'n peryglu diogelwch a gofal y rhai y maent yn eu gwasanaethu. Byddent yn cael eu hethol yn uniongyrchol, yn cael eu craffu'n uniongyrchol ac yn cael eu herio gan eu hetholwyr yn uniongyrchol ym mhob etholiad, a gallent bennu blaenoriaethau lleol a dileu'r meddylfryd seilo sy'n bodoli ar hyn o bryd ymhlith rhai grwpiau o uwch-reolwyr a grwpiau clinigwyr-cleifion ar ein byrddau iechyd.

I'll finish off with some findings from Ann Lloyd: nurses aren't always listened to, even from chief of nursing to the board itself; the frequently dangerously low nurse training and education budget is often the first to be cut, as a soft easy target; the financial situation is very serious this year, delaying the HMRC payments, delaying the NHS pensions agency, and £66.4 million, added to that £30.3 million for 2016-17, is creating a cost pressure of £96 million, and it goes on. A previous 2013 Deloitte report, highlighting that £107 million could be saved, was never actioned, yet there is a board of 11 independent members, and up to nine executive directors—the board being described as not adding any value to the organisation. This new management structure alone is costing £2.6 million, with projected additional costs to make £5 million. I rest my case by supporting our proposals for a directly elected health commissioner, and I move.

Fe orffennaf gyda rhai o ganfyddiadau Ann Lloyd: ni wrandewir ar nyrsys bob amser, hyd yn oed ar brif nyrs y bwrdd ei hun; y gyllideb hyfforddiant ac addysg sy'n beryglus o isel yn gyson yw'r gyntaf yn aml i gael ei thorri, fel targed hawdd a meddal; mae'r sefyllfa ariannol yn ddifrifol iawn eleni, gan beri oedi'r taliadau Cyllid a Thollau EM, oedi asiantaeth bensiynau'r GIG, ac mae £66.4 miliwn, gyda £30.3 miliwn yn ychwanegol at hynny ar gyfer 2016-17, yn creu pwysau costau o £96 miliwn, ac mae'n parhau. Ni chafodd adroddiad Deloitte blaenorol ar gyfer 2013, a dynnai sylw at y modd y gellid arbed £107 miliwn, mo'i weithredu, ac eto ceir bwrdd o 11 o aelodau annibynnol, a hyd at naw o gyfarwyddwyr gweithredol—a dywedir nad yw'r bwrdd yn ychwanegu unrhyw werth i'r sefydliad. Mae'r strwythur rheoli newydd hwn yn unig yn costio £2.6 miliwn, gyda chostau ychwanegol a ragwelir yn gwneud £5 miliwn. Rwy'n cloi fy nadl drwy gefnogi ein cynigion ar gyfer comisiynydd iechyd wedi'i ethol yn uniongyrchol, ac rwy'n cynnig.

17:17

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You don't move, but anyway. Jenny Rathbone.

Nid ydych yn cynnig, ond beth bynnag. Jenny Rathbone.

17:17 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A very disappointing start to what could have been a very serious debate. Having read it, I thought it was a serious debate. Instead, it's just grandstanding by the Conservatives. Again, Darren Millar well knows that chairs and chief executives already appear before Assembly committees and are regularly scrutinised for their performance. I very much take the important information that Kirsty Williams has put before us, and I absolutely agree with her that 220 nurses on band 5 are far more useful than elected health commissioners along the lines of police commissioners.

Dechrau siomedig iawn i'r hyn a allai fod wedi bod yn ddadl ddifrifol iawn. Ar ôl ei ddarllen, roeddwn yn meddwl ei bod yn ddadl ddifrifol. Yn lle hynny, nid yw'n ddim ond gorchest gan y Ceidwadwyr. Unwaith eto, mae Darren Millar yn gwybod yn iawn fod cadeiryddion a phrif weithredwyr eisoes yn ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad ac yn cael eu craffu'n rheolaidd am eu perfformiad. Rwy'n cymryd y wybodaeth bwysig y mae Kirsty Williams wedi ei chyflwyno i ni yn bendant, ac rwy'n cytuno'n llwyr â hi fod 220 o nyrsys ar fand 5 yn llawer mwy defnyddiol na chomisiynwyr iechyd wedi'u hethol mewn modd tebyg i'r comisiynwyr heddlu.

I'm fully aware that Powys has made efforts to include Powys councillors on its health board, and that is fully in line with the recommendations of the Williams commission, to bring, in Powys's case, health and the other services run by the council much close together. I think that's an excellent suggestion, particularly in Powys's case of extreme rurality. But, the argument posed by the Conservatives who've so far spoken really do nothing to address the challenges that the health services face in terms of the importance of good governance and effective leadership. I think it's populism of the worst sort, which simply doesn't address it. As long it's local, then it must be alright, regardless of the quality, and I think that is absolutely deplorable, really, in terms of the effective services that people need if they are ill, and it's not about being local, it's about having the very best care that they need.

Rwy'n gwbl ymwybodol fod Powys wedi gwneud ymdrechion i gynnwys cynghorwyr Powys ar ei fwrdd iechyd, ac mae hynny'n unol ag argymhellion comisiwn Williams, i ddod ag iechyd, yn achos Powys, a'r gwasanaethau eraill a redir gan y cyngor yn llawer agosach at ei gilydd. Credaf fod hwn yn awgrym ardderchog, yn enwedig oherwydd natur wledig eithafol Powys. Ond nid yw'r ddadl a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr sydd wedi siarad hyd yn hyn yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r gwasanaethau iechyd yn eu hwynebu o ran pwysigrwydd llywodraethu da ac arweinyddiaeth effeithiol. Rwy'n credu mai poblyddiaeth o'r math gwaethaf yw hyn, ac nid yw'n mynd i'r afael â'r mater. Cyhyd â'i fod yn lleol, yna mae'n rhaid ei fod yn iawn, waeth beth yw'r ansawdd, a chredaf fod hynny'n hollol druenus, yn wir, o ran y gwasanaethau effeithiol y mae pobl eu hangen os ydynt yn sâl, ac nid yw'n ymwneud â bod yn lleol, mae'n ymwneud â chael y gofal gorau sydd ei angen arnynt.

17:18 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

17:19 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, absolutely not, you've already spoken. What I wanted to focus on was some pretty serious issues around the time it takes to complete disciplinary procedures when it is thought that NHS professionals may not be competent or capable of fulfilling their duties. At the moment, it takes almost as long to get rid of them as it does an elected Member. The difference is that whilst constituents might not like what I do, I stick with the job until the electorate boots me out. That's not what happens when there's a problem with the performance of a doctor or a nurse. They are suspended on full pay, pending resolution of their case. I have no problem with that in principle—it safeguards other patients—but I do have concerns about the time and resources it takes to resolve concerns that are neither just nor sustainable.

Na wnaf wir, rydych eisoes wedi siarad. Yr hyn rwyf am ganolbwyntio arno oedd rhai materion eithaf difrifol yn ymwneud â'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau gweithdrefnau disgyblu pan gredir efallai nad yw gweithwyr proffesiynol y GIG yn gymwys neu'n gallu cyflawni eu dyletswyddau. Ar hyn o bryd, mae'n cymryd bron gyn hired i gael gwared arnynt ag ar Aelod etholedig. Y gwahaniaeth yw, er nad yw etholwyr efallai'n hoffi'r hyn a wnaf, rwy'n parhau i wneud y gwaith nes bod yr etholwyr yn cael gwared arnaf. Nid dyna sy'n digwydd os oes problem gyda pherfformiad meddyg neu nyrs. Maent yn cael eu hatal ar gyflog llawn, hyd nes y caiff eu hachos ei ddatrys. Nid oes gennyf broblem gyda hynny mewn egwyddor—mae'n diogelu cleifion eraill—ond mae gennyf bryderon ynghylch yr amser a'r adnoddau y mae'n ei gymryd i ddatrys pryderon nad ydynt yn gyfiawn nac yn gynaliadwy.

In today's 'Western Mail' you may have read a story of a surgeon who remains suspended nearly three years after the death of a patient. The initial investigation by the Royal College of Surgeons concluded that the surgeon concerned showed poor judgment, technical errors and poor operative skills. The death of the patient was avoidable. The General Medical Council has suspended the individual from carrying out a particular procedure known as hepato-pancreatic-biliary surgery, and Cardiff and Vale has suspended this man from all clinical duties until February 2016, but he remains on their books on full pay pending investigations. Three years is far too long.

Yn y 'Western Mail' heddiw efallai eich bod wedi darllen stori am lawfeddyg sy'n parhau i fod wedi ei atal dros dro bron i dair blynedd ar ôl marwolaeth claf. Daeth yr ymchwiliad cychwynnol gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon i'r casgliad bod y llawfeddyg dan sylw wedi dangos crebwyll gwael, camgymeriadau technegol a sgiliau llawdriniaeth gwael. Gellid bod wedi osgoi marwolaeth y claf. Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi atal yr unigolyn rhag cyflawni llawdriniaeth benodol a elwir yn llawdriniaeth hepato-pancreatig-y bustl, ac mae Caerdydd a'r Fro wedi atal y dyn rhag pob dyletswydd glinigol tan fis Chwefror 2016, ond mae'n parhau i fod ar eu llyfrau ar gyflog llawn wrth aros am ymchwiliadau. Mae tair blynedd yn rhy hir o lawer.

Unfortunately, he is not the only doctor suspended on full pay at Cardiff and Vale. A heart surgeon has also been suspended on full pay since April 2012, and press reports indicate that the allegation here is not patient safety, but bullying. Either way, my constituents continue to ask me why this case has yet to be resolved, and the meter is ticking as it costs over £150,000 a year to both keep that person on full pay as well as provide a locum cover for his duties.

Yn anffodus, nid ef yw'r unig feddyg sydd wedi ei atal dros dro ar gyflog llawn yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae llawfeddyg y galon hefyd wedi cael ei atal dros dro ar gyflog llawn ers mis Ebrill 2012 ac mae adroddiadau yn y wasg yn dangos nad diogelwch cleifion yw'r honiad yn yr achos hwn ond bwlio. Y naill ffordd neu'r llall, mae fy etholwyr yn dal i ofyn i mi pam nad yw'r achos hwn wedi ei ddatrys eto, ac mae'r mesurydd yn tician gan ei bod yn costio dros £150,000 y flwyddyn i gadw'r person ar gyflog llawn, yn ogystal â darparu locwm i gyflawni ei ddyletswyddau.

The problem, however, is not confined to Cardiff and Vale. The out-of-hours report on Betsi Cadwaladr refers to three district nurses suspended for three years before their case was resolved, costing the taxpayer over £0.25 million. It also talks about local out-of-hours managers refusing to work with the person with overall responsibility across the health board. Ann Lloyd's report on governance at Betsi Cadwaladr provides further cause for concern. She writes that the chair of the board is,

Fodd bynnag, nid yw'r broblem wedi ei chyfyngu i Gaerdydd a'r Fro. Mae'r adroddiad ar y gwasanaeth y tu allan i oriau yn Betsi Cadwaladr yn cyfeirio at 3 nyrs ardal a gafodd eu hatal o'u gwaith am dair blynedd cyn i'w hachos gael ei ddatrys, gan gostio dros £0.25 miliwn i'r trethdalwr. Mae hefyd yn sôn am reolwyr lleol y tu allan i oriau sy'n gwrthod gweithio gyda'r person sydd â chyfrifoldeb cyffredinol ar draws y bwrdd iechyd. Mae adroddiad Ann Lloyd ar lywodraethu yn Betsi Cadwaladr yn cynnig achos arall dros bryderu. Mae'n ysgrifennu bod cadeirydd y bwrdd yn,

'concerned about the lack of creativity within the organisation and,'

'concerned about the lack of creativity within the organisation and,'

I quote,

dyfynnaf,

'a rigid, overly bureaucratic and bullying culture'.

'a rigid, overly bureaucratic and bullying culture'.

Whilst the new nurse director and the new medical director are visibly getting on with tackling the backlog of complaints and implementing clinical protocols—

Er bod y cyfarwyddwr nyrsio newydd a'r cyfarwyddwr meddygol newydd yn amlwg yn bwrw ati i ymdrin â'r ôl-groniad o gwynion a gweithredu protocolau clinigol—

17:22

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

17:22

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—there is an absolute concern in my mind as to the time it takes to resolve disciplinary procedures across the board, and I wondered if the Government would give some indication of how that is being resolved.

[Yn parhau]—mae pryder gwirioneddol yn fy meddwl ynghylch yr amser y mae'n ei gymryd i ddatrys gweithdrefnau disgyblu ar draws y bwrdd, ac rwy'n meddwl tybed a fyddai'r Llywodraeth yn rhoi rhyw syniad o sut y mae hynny'n cael ei ddatrys.

17:22 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just have a quick point, really. Do you know how many chairmen there are, and how much salary they are getting? And towards you, madam: do you know how many people there retired, or had stress-related issues, and have come out as chief executives? They were paid six years' salary. Nobody knows about that.

Mae gennyf bwynt cyflym mewn gwirionedd. A ydych chi'n gwybod faint o gadeiryddion sydd yna, a faint o gyflog y maent yn ei gael? Ac i chi, madam: a ydych chi'n gwybod faint o bobl a ymddeolodd yno, neu sydd â phroblemau'n gysylltiedig â straen, ac sydd wedi dod allan fel prif weithredwyr? Talwyd cyflog chwe blynedd iddynt. Nid oes neb yn gwybod am hynny.

Now, thank you very much, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to participate in this important debate. To quote the chief executive of NHS Wales:

Nawr, diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. I ddyfynnu prif weithredwr GIG Cymru:

'All of us will be touched by the NHS at some point in our lives',

'Bydd pawb ohonom yn dod i gysylltiad â'r GIG rywbryd yn ystod ein hoes',

yet it is clear from the Welsh Government's own survey that the vast majority of the people in Wales feel unable to influence decisions made about their health service. That's why I support the Welsh Conservative proposal to introduce directly elected health commissioners. My colleagues have highlighted the deeply worrying failings at Betsi Cadwaladr, but I would like to focus my contribution on the failing of the health board covering my own region: ABMU.

ac eto mae'n amlwg o arolwg Llywodraeth Cymru ei hun fod y mwyafrif helaeth o bobl Cymru yn teimlo na allant ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir ynghylch eu gwasanaeth iechyd. Dyna pam rwy'n cefnogi cynnig y Ceidwadwyr Cymreig i gyflwyno comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol. Mae fy nghyd-Aelodau wedi tynnu sylw at y methiannau sy'n peri pryder mawr yn Betsi Cadwaladr, ond hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad ar fethiant y bwrdd iechyd yn fy rhanbarth i: PABM.

While NHS Wales had acted on the findings by Professor Andrews in the 'Trusted to Care' report, the fact that there was a lack of basic care on the wards of the Princess of Wales and Neath Port Talbot hospitals points to serious failings in clinical governance and a lack of leadership. The clear failings are not limited to elderly care. In a few isolated wards, dozens of families have contacted the police over poor care received at the Princess of Wales Hospital. Hundreds of people, the relatives and friends of the patients concerned about the care standards at Princess of Wales, protested outside the hospital, calling for change at the top. Thousands of concerned residents called for ABMU to abandon the south Wales programme, which would see the downgrading of hospitals across south Wales and the centralisation of many key services. The result: absolutely no change. Labour Ministers are keen to point out that the NHS belongs to everyone, but decisions made about our health service are made with little or no accountability to the people it serves.

Er bod GIG Cymru wedi gweithredu ar ganfyddiadau'r Athro Andrews yn yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal', mae'r ffaith fod diffyg gofal sylfaenol ar y wardiau ysbyty Tywysoges Cymru ac ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn awgrymu methiannau difrifol mewn llywodraethu clinigol a diffyg arweinyddiaeth. Nid yw'r methiannau clir yn gyfyngedig i ofal henoed. Mewn rhai wardiau unigol, mae dwsinau o deuluoedd wedi cysylltu â'r heddlu ynghylch gofal gwael a gafwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Bu cannoedd o bobl, perthnasau a chyfeillion y cleifion dan sylw sy'n poeni am y safonau gofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru, yn protestio y tu allan i'r ysbyty, yn galw am newid ar y brig. Galwodd miloedd o drigolion pryderus ar i PABM roi'r gorau i raglen de Cymru, a fyddai'n arwain at israddio ysbytai ledled de Cymru a chanoli llawer o wasanaethau allweddol. Y canlyniad: dim newid o gwbl. Mae Gweinidogion Llafur yn awyddus i nodi bod y GIG yn perthyn i bawb, ond mae penderfyniadau a wneir am ein gwasanaeth iechyd yn cael eu gwneud heb fawr ddim atebolrwydd, os o gwbl, i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

17:24 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:24 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Please have a seat. I will finish it.

Eisteddwch os gwelwch yn dda. Rwyf am ei orffen.

The introduction of directly elected health commissioners would introduce accountability and transparency that are, sadly, lacking in the NHS. Health commissioners would champion the needs of patients and ensure that decision makers and mangers are held accountable to the public. We're not talking about clinical decisions—we're talking about clinical governance and ensuring that doctors and nurses are able to deliver world-class healthcare. It's not right that managers responsible for failings in care face little or no sanctions. Clinicians who've failed in their duty of care are stripped of their ability to practise medicine, but managers can continue working regardless; for three years, they've been suspended and getting money—that is the failure and this is what we need a commissioner for. I anticipate that health commissioners—

Byddai cyflwyno comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol yn cyflwyno atebolrwydd a thryloywder sy'n ddiffygiol yn y GIG, yn anffodus. Byddai comisiynwyr iechyd yn hyrwyddo anghenion cleifion ac yn sicrhau bod gwneuthurwyr penderfyniadau a rheolwyr yn atebol i'r cyhoedd. Nid ydym yn sôn am benderfyniadau clinigol—rydym yn sôn am lywodraethu clinigol a sicrhau bod meddygon a nyrsys yn gallu darparu gofal iechyd o'r radd flaenaf. Nid yw'n iawn nad yw rheolwyr sy'n gyfrifol am fethiannau mewn gofal yn wynebu fawr ddim cosbau os o gwbl. Mae clinigwyr sydd wedi methu yn eu dyletswydd gofal yn cael eu gwahardd rhag ymarfer meddygaeth, ond gall rheolwyr barhau i weithio beth bynnag; am dair blynedd, maent wedi cael eu hatal ac yn cael arian—dyna yw'r methiant a dyna pam y mae angen comisiynydd. Rhagwelaf y bydd comisiynwyr iechyd—

17:25

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could you explain—

A wnewch chi esbonio—

17:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. The Member has not given way. You have no right to stand up and just shout at him.

Trefn. Nid yw'r Aelod wedi ildio. Nid oes gennych hawl i sefyll a gweiddi arno.

17:26

## Altaf Hussain Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I anticipate that health commissioners will be able to remove failing managers from post, as would happen in any other sector. We also need to put an end to the culture that exists within our NHS where those who have concerns feel unable to come forward for fear of it affecting their careers. Directly elected health commissioners would be an avenue for staff to raise concerns without fear of reprisal. Directly elected health commissioners would strengthen the complaints process, which has let down so many in the past, as you were pointing out. Directly elected health commissioners would ensure that the public—not the Welsh Government—are responsible for hiring and firing those tasked with running our NHS.

Rwy'n rhagweld y bydd comisiynwyr iechyd yn gallu cael gwared ar reolwyr sy'n methu o'u swyddi, fel y byddai'n digwydd mewn unrhyw sector arall. Mae angen i ni roi diwedd hefyd ar y diwylliant sy'n bodoli yn ein GIG lle y mae'r rhai sydd â phryderon yn teimlo na allant godi llais rhag ofn i hynny effeithio ar eu gyrfaoedd. Byddai comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol yn llwybr i staff leisio pryderon heb ofni dial. Byddai comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol yn cryfhau'r broses gwyno, sydd wedi siomi cynifer yn y gorffennol, fel roeddech yn ei nodi. Byddai comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol yn sicrhau mai'r cyhoedd—nid Llywodraeth Cymru—sy'n gyfrifol am gyflogi a diswyddo'r rhai sydd â'r dasg o redeg ein GIG.

To quote Andrew Goodall once more:

I ddyfynnu Andrew Goodall unwaith eto:

'Above all, we want to provide safe, compassionate... person-centred care'.

'Uwchlaw popeth, rydym ni i gyd am weld gofal diogel a thosturiol yn cael ei ddarparu... ac ansawdd gofal a diogelwch y claf yn ganolog'.

Therefore, our care system should be person centred, and the best way to achieve this is to support the Welsh Conservatives' proposal before you today. Thank you.

Felly, dylai ein system ofal gael ei chanolbwyntio ar yr unigolyn, a'r ffordd orau o gyflawni hyn yw cefnogi cynnig y Ceidwadwyr Cymreig ger eich bron heddiw. Diolch yn fawr.

17:27

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, we can all agree that there needs to be better leadership of the NHS in Wales. There have been major and systematic failures by this Government, and the appointed health boards, in their management of the NHS. We have also witnessed an extraordinary pass-the-parcel routine, with this Government refusing to accept responsibility for their actions that have impacted on health boards' abilities to manage effectively. However, some health boards are also not taking their share of responsibility for poor management decisions, and it has to stop.

Wel, gallwn i gyd gytuno bod angen gwell arweinyddiaeth yn y GIG yng Nghymru. Bu methiannau mawr a systematig gan y Llywodraeth hon, a'r byrddau iechyd penodedig, yn y modd y maent wedi bod yn rheoli'r GIG. Rydym hefyd wedi bod yn dyst i drefn ryfeddol o basio'r parsel, gyda'r Llywodraeth hon yn gwrthod derbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd sydd wedi effeithio ar allu byrddau iechyd i reoli'n effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai byrddau iechyd hefyd yn gwrthod cymryd eu cyfran o'r cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli gwael, ac mae'n rhaid i hyn stopio.

We're not convinced that the best way to improve accountability is through directly elected health commissioners. What powers would they have? What authority would their offices hold to direct decision making in their respective health boards? I was going to say, 'Or will this be another set-up similar to elected police commissioners?' but, of your own admission, yes, it is. Whilst I know that many police commissioners work very hard, the impact of the office on many force areas is hard to tell. Would having elected health commissioners further politicise the NHS in a way that would not be helpful for staff or for patients? We believe it would, for little practical gain. Point 2 of the debate from the Conservatives seems to be a way of doing just that—a tool to further politicise the NHS without much practical use.

Nid ydym yn argyhoeddedig mai'r ffordd orau i wella atebolrwydd yw drwy gomisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol. Pa bwerau a fyddai ganddynt? Pa awdurdod a fyddai gan eu swyddfeydd i wneud penderfyniadau uniongyrchol yn eu byrddau iechyd perthnasol? Roeddwn yn mynd i ddweud, 'Neu a fydd hon yn drefn arall debyg i gomisiynwyr heddlu etholedig?' ond yn ôl eich cyfaddefiad eich hun, bydd, fe fydd. Er fy mod yn gwybod bod llawer o gomisiynwyr heddlu yn gweithio'n galed iawn, mae'n anodd dweud beth yw effaith y swydd ar lawer o feysydd heddlu. A fyddai cael comisiynwyr iechyd a etholir yn gwleidyddoli'r GIG mewn ffordd na fyddai o gymorth i staff nac i gleifion? Rydym yn credu y byddai, heb fawr o fantais ymarferol. Mae pwynt 2 y ddadl gan y Ceidwadwyr i'w weld yn ffordd o wneud yn union hynny—offeryn i wleidyddoli'r GIG ymhellach heb fawr o ddefnydd ymarferol.

Whilst leadership is important, the Conservatives—you—must recognise that part of the enormous pressure that the NHS is experiencing is as a result of your Government cutting the Welsh block grant by nearly 10 per cent since 2010, and we can agree—

Er bod arweinyddiaeth yn bwysig, rhaid i'r Ceidwadwyr—chi—gydnabod bod rhan o'r pwysau enfawr y mae'r GIG yn ei wynebu yn deillio o'r ffaith fod eich Llywodraeth wedi torri bron i 10 y cant oddi ar grant bloc Cymru ers 2010, a gallwn gytuno—

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

No, I won't. You can have opportunities; you have already spoken in this debate.

Na, ni wnaf. Gallwch gael cyfleoedd; rydych eisoes wedi siarad yn y ddadl hon.

We can agree that there needs to be better leadership of the NHS, but that change should start here with change of Government.

Gallwn gytuno bod angen gwell arweinyddiaeth ar y GIG, ond dylai'r newid gychwyn yma gyda newid Llywodraeth.

17:29

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There's a clear disconnect in Wales between Government and the governed. Decisions are taken by local health boards, affecting local health services, with little regard for, or consultation with, the people they serve. This lack of engagement with local communities has engendered a feeling of powerlessness and lack of accountability. Decision making is seen as remote. What's worse is that there is a suspicion that health boards would prefer to cover up complaints rather than fully investigate them. We need to restore trust in our health boards and provide real accountability so that local people have a stronger voice in the provision of local health services. I believe this would be provided by having elected health commissioners. Elected health commissioners would usher in a new era of openness and transparency in the Welsh NHS, and it is on openness and transparency that I wish to speak this afternoon.

Mae yna ddatgysylltiad clir yng Nghymru rhwng y Llywodraeth a'r rhai sy'n cael eu llywodraethu. Caiff penderfyniadau eu gwneud gan fyrddau iechyd lleol, gan effeithio ar wasanaethau iechyd lleol, heb fawr o ystyriaeth o'r bobl y maent yn eu gwasanaethu a heb ymgynghori fawr ddim â hwy. Mae'r diffyg ymgysylltiad â chymunedau lleol wedi ennyn teimlad o ddiffyg grym a diffyg atebolrwydd. Ystyrir bod y broses o wneud penderfyniadau yn un anhygyrch. Yr hyn sy'n waeth yw bod yna amheuaeth y byddai'n well gan fyrddau iechyd guddio cwynion yn hytrach na'u hymchwilio'n llawn. Mae angen i ni adfer ymddiriedaeth yn ein byrddau iechyd a darparu atebolrwydd gwirioneddol er mwyn i bobl leol gael llais cryfach yn y modd y darperir gwasanaethau iechyd lleol. Rwy'n credu y byddai hyn yn cael ei sicrhau drwy gael comisiynwyr iechyd etholedig. Byddai comisiynwyr iechyd etholedig yn gychwyn ar gyfnod newydd o fod yn agored ac yn dryloyw yn y GIG yng Nghymru, ac am fod yn agored a thryloyw rwyf am siarad y prynhawn yma.

The Francis inquiry report was published in January 2013, and examined the causes of failures in care within Mid Staffordshire NHS Foundation Trust. It made 290 recommendations, including on—I quote—

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar ymchwiliad Francis ym mis Ionawr 2013, ac archwiliodd yr achosion dros y methiannau mewn gofal yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford. Gwnaeth 290 o argymhellion, gan gynnwys ar

'openness, transparency and candour throughout the [healthcare] system'.

'openness, transparency and candour throughout the [healthcare] system'.

In response, the UK Government said:

Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth y DU:

'The health and care system must move away from previous closed and defensive responses to mistakes. It must recognise the importance of being transparent about mistakes so that errors can be addressed and lessons learnt.'

'The health and care system must move away from previous closed and defensive responses to mistakes. It must recognise the importance of being transparent about mistakes so that errors can be addressed and lessons learnt. '

Deputy Presiding Officer, local people have a right to know information about how their local health board is performing. They must be assured that health boards will be open and honest about their weaknesses and that they will be addressed. The Welsh Government, in its response to the Francis inquiry, produced a report, 'Delivering Safe Care, Compassionate Care'. The reports states that patients will be put at the centre of NHS Wales. It goes on to say—the quote is—

Ddirprwy Lywydd, mae pobl leol â hawl i gael gwybodaeth ynglŷn â sut y mae eu bwrdd iechyd lleol yn perfformio. Rhaid iddynt fod yn sicr y bydd byrddau iechyd yn agored ac yn onest am eu gwendidau ac y byddant yn cael sylw. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru adroddiad mewn ymateb i ymchwiliad Francis, 'Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol'. Mae'r adroddiad yn datgan y bydd cleifion yn cael eu rhoi yn y canol yn y GIG yng Nghymru. Mae'n mynd ymlaen i ddweud

'Our NHS bodies must be listening organisations. This means listening to patients; listening to staff and listening to the 'system' and then acting on what is heard and seen.'

'Rhaid i gyrff ein GIG fod yn sefydliadau sy'n gwrando. Mae hyn yn golygu gwrando ar gleifion; gwrando ar staff a gwrando ar y 'system', ac yna gweithredu ynghylch yr hyn sy'n cael ei glywed a'i weld.'

Fine sentiments indeed, Deputy Presiding Officer. However, despite the constant warnings, reports and concerns, the Welsh Government is failing to act on them. This is in complete contrast to their own commitment to put patients at the centre of care.

Teimladau gwiw yn wir, Ddirprwy Lywydd. Fodd bynnag, er gwaethaf y rhybuddion cyson, yr adroddiadau a'r pryderon, mae Llywodraeth Cymru yn methu â gweithredu arnynt. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr i'w hymrwymiad eu hunain i wneud cleifion yn ganolog i ofal.

17:32

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

17:32

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Go on.

Ewch ymlaen.

17:32

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with you that the Labour Government is failing in its duty in relation to the health service, but would you not agree with me that, with 14 health trusts in England having been put into special measures under the Tories, that actually we cannot trust the Tories on health, either?

Rwy'n cytuno â chi fod y Llywodraeth Lafur yn methu yn ei dyletswydd o ran y gwasanaeth iechyd, ond oni fyddech yn cytuno, gyda 14 o ymddiriedolaethau iechyd yn Lloegr wedi cael eu rhoi dan weithdrefn mesurau arbennig o dan y Torïaid, na allwn ymddiried yn y Torïaid ar iechyd chwaith mewn gwirionedd?

17:32

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You just listen to me; your reply is coming later on. [Laughter.] No, his answer is coming.

Gwrandewch arnaf; fe ddaw eich ateb yn nes ymlaen. [Chwerthin.] Na, mae ei ateb yn dod.

However, despite constant warnings, reports and concerns, the Welsh Government is failing to act. This is in complete contrast to their own commitment to put patients at the centre of care. The Welsh Government says that

Fodd bynnag, er gwaethaf y rhybuddion, yr adroddiadau a'r pryderon cyson, mae Llywodraeth Cymru yn methu â gweithredu. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â'i hymrwymiad ei hun i wneud cleifion yn ganolog i ofal. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud

'No patient, carer or member of staff will be fearful of raising any concerns they have about any aspect of care or services'.

'Ni fydd unrhyw glaf, gofalwr neu aelod o staff yn ofnus ynghylch codi unrhyw bryderon sydd ganddynt am unrhyw agwedd ar ofal neu wasanaethau'.

But the British Medical Association says that its members report overwhelmingly feelings of disempowerment and isolation. They feel unable to pursue their concerns or to press effectively for change. Then the organisation operates in a state of denial.

Ond mae Cymdeithas Feddygol Prydain yn dweud bod ei haelodau'n sôn yn helaeth am deimladau o ddadrymuso ac arwahanrwydd. Maent yn teimlo na allant wyntyllu eu pryderon na phwyso'n effeithiol am newid. Felly mae'r sefydliad yn gweithredu drwy wadu'r sefyllfa.

I believe health commissioners could greatly benefit the complaints process in the Welsh NHS. They would provide independent, transparent information on the performance of their local health services. In the event of allegations of misconduct, commissioners could ensure complaints were dealt with quickly and efficiently. The public would be the ultimate judge of the success or failure of each commissioner, by having the ability to remove them from office, just like Police and Crime Commissioners in our police forces. Deputy Presiding Officer, I believe directly elected health commissioners would restore much-needed public confidence and accountability to the Welsh NHS. This is true devolution in action, and I support the motion.

Rwy'n credu y gallai comisiynwyr iechyd fod o fudd mawr i'r broses gwyno yn y GIG yng Nghymru. Byddent yn darparu gwybodaeth annibynnol a thryloyw ar berfformiad eu gwasanaethau iechyd lleol. Mewn perthynas â honiadau o gamymddwyn, gallai comisiynwyr sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithlon. Y cyhoedd fyddai'n barnu llwyddiant neu fethiant pob comisiynydd yn y pen draw, drwy gael y gallu i gael gwared arnynt o'u swyddi, yn union fel Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ein heddluoedd. Ddirprwy Lywydd, rwy'n credu y byddai comisiynwyr iechyd wedi'u hethol yn uniongyrchol yn adfer hyder y cyhoedd, rhywbeth sy'n fawr ei angen, ac yn adfer atebolrwydd i'r GIG yng Nghymru. Dyma ddatganoli ar waith go iawn, ac rwy'n cefnogi'r cynnig.

17:34

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say, Deputy Presiding Officer, when this motion came forward, I started off with the view that this was a poor idea, not one of the Tories' better ideas—not that there are many of those, but I was prepared to give it some credit at least for a debate? Can I say right at the beginning what I do find scandalous is the assertion that one of the motivations for doing this is that we have a whole host of people—decent people who are involved in the administration and running of the NHS—who are solely there, the insinuation being made to cast everyone in the same bank, because of some sort of party affiliation and that they are not there on merit? It was very, very clear, and to me that is the weapon of the coward, the weapon of the snide, and it is totally wrong. If you wish to name names of people who you say are there because of party-political positions, rather than merit—

A gaf fi ddweud, Ddirprwy Lywydd, pan gyflwynwyd y cynnig hwn, ar y cychwyn roeddwn o'r farn ei fod yn syniad gwael, a heb fod yn un o syniadau gwell y Torïaid—nid bod llawer o'r rheini, ond roeddwn yn barod i roi rhywfaint o gydnabyddiaeth i'r ddadl o leiaf? A gaf fi ddweud ar y dechrau un mai'r hyn rwy'n ei ystyried yn gywilyddus yw'r honiad mai un o'r cymhellion dros wneud hyn yw bod gennym lu o bobl—pobl weddus sy'n ymwneud â gweinyddu a rhedeg y GIG—sydd ond yno, yn ôl yr ensyniad sy'n rhoi pawb yn yr un cae, yn sgil rhyw fath o ymlyniad i blaid ac nad ydynt yno ar sail eu teilyngdod? Roedd hi'n amlwg iawn i mi mai arf y llwfrgi yw hwn, arf pobl sy'n llawn o wawd, ac mae'n hollol anghywir. Os ydych yn dymuno enwi pobl y dywedwch eu bod yno oherwydd safbwyntiau plaid wleidyddol, yn hytrach na theilyngdod—

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

17:35

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I'll take that.

Iawn, fe gymeraf hynny.

17:35

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful for your taking the intervention. What I actually said, if you listened carefully—and you can check the Record afterwards—is that the current system 'risks' people being appointed for the wrong reasons. I then made reference to the facts, which are that, of those who have disclosed political affiliations in the post of chair and vice-chair, 75 per cent are linked in some way to the Labour Party.

Diolch yn fawr iawn am dderbyn yr ymyriad. Yr hyn a ddywedais mewn gwirionedd, pe baech yn gwrando'n ofalus—a gallwch edrych ar y Cofnod wedyn—yw bod y system gyfredol yn creu 'risg' y caiff pobl eu penodi am y rhesymau anghywir. Cyfeiriais wedyn at y ffeithiau, sef bod 75 y cant o'r rhai sydd wedi datgelu cysylltiadau gwleidyddol mewn swyddi cadeiryddion ac is-gadeiryddion yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â'r Blaid Lafur.

17:36

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is another speech. You've made the point. Mick Antoniw.

Mae hon yn araith arall. Rydych wedi gwneud y pwynt. Mick Antoniw.

17:36

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You've made an assertion and I think it is totally outrageous. If there are names you wish to name, then you should name names.

Fe wnaethoch honiad, ac rwy'n credu ei fod yn gwbl warthus. Os oes pobl y dymunwch eu henwi, yna dylech eu henwi.

Can I just say one thing as well, though? I think the whole commissioner thing is actually a bonkers idea. I think it was worth exploring the issue of accountability, but I have to say my experience of dealing with Cwm Taf University Local Health Board, for example, is one where the NHS is the most scrutinised and accountable body I have ever come across. I have not been in this Chamber a single day when the details and the minutiae of the NHS in Wales are not under scrutiny. I have dealt with so I know myself of issues that have arisen with patients with individual issues. I take them up personally with the health board. We have the community health councils that do it. The MPs do it. The leaders of the health boards come here and they are scrutinised. Mark Drakeford is up on his feet just about every single debate that we have having to answer in detail —

A gaf fi ddweud un peth hefyd, er hynny? Rwy'n meddwl bod yr holl syniad o gomisiynydd yn un gwallgof mewn gwirionedd. Rwy'n meddwl ei bod yn werth edrych ar fater atebolrwydd, ond rhaid i mi ddweud bod fy mhrofiad o ddelio gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf, er enghraifft, yn dangos mai'r GIG yw'r corff sy'n cael ei graffu fwyaf a'r mwyaf atebol i mi ddod ar ei draws erioed. Nid oes un diwrnod wedi bod yn y Siambr hon pan na fydd manylion a manion y GIG yng Nghymru yn cael eu craffu. Rwyf wedi delio â hynny felly rwy'n gwybod fy hun am faterion sydd wedi codi gyda chleifion â phroblemau unigol. Rwyf yn eu dwyn i sylw'r bwrdd iechyd yn bersonol. Mae gennym y cynghorau iechyd cymuned sy'n gwneud hynny. Mae'r ASau yn ei wneud. Mae arweinwyr y byrddau iechyd yn dod yma ac maent yn cael eu craffu. Mae Mark Drakeford ar ei draed ymron pob dadl a gawn yn ateb yn fanwl—

*Suzy Davies a gododd—*

*Suzy Davies rose—*

17:37

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I'll take one.

Iawn, cymeraf un.

17:37

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can you tell me how many appointed members or chairs or vice-chairs have lost their jobs as a result of being scrutinised in this Chamber?

A allwch ddweud wrthyf faint o aelodau neu gadeiryddion neu is-gadeiryddion penodedig sydd wedi colli eu swyddi o ganlyniad i gael eu craffu yn y Siambr hon?

17:37

## Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No, I can't, because it's not the job of this body to actually sack people; it's the role of the local health board. Surely you'll understand employment law better than many here.

Na, ni allaf, gan nad gwaith y corff hwn mewn gwirionedd yw diswyddo pobl; rôl y bwrdd iechyd lleol yw hynny. 'Does bosibl nad ydych yn deall cyfraith cyflogaeth yn well na sawl un yma.

The key point is would the election of health commissioners, as people who are unlikely to be elected by more than 7.5 per cent of the voting population, be more accountable and more capable of actually scrutinising and balancing all the issues that arise with the health service? Is it worth spending £6 million, £7 million or £8 million of validly needed NHS money for that particular purpose? I actually don't think it is. So, I think your whole premise that there is a democratic deficit is actually not only misleading but extremely mischievous in the first place.

Y pwynt allweddol yw a fyddai ethol comisiynwyr iechyd, fel pobl sy'n annhebygol o gael eu hethol gan fwy na 7.5 y cant o'r boblogaeth sy'n pleidleisio, yn fwy atebol ac yn fwy abl mewn gwirionedd i graffu a chydbwyso'r holl faterion sy'n codi gyda'r gwasanaeth iechyd ? A yw'n werth gwario £6 miliwn, £7 miliwn neu £8 miliwn o arian sydd ei angen yn ddilys ar y GIG at y diben penodol hwn? Nid wyf yn meddwl ei fod. Felly, rwy'n meddwl bod eich rhagosodiad yn ei gyfanrwydd fod yna ddiffyg democrataidd mewn gwirionedd nid yn unig yn gamarweiniol ond yn eithriadol o niweidiol yn y lle cyntaf.

In Cwm Taf, when we had the reorganisation issue of the health boards, we had tens of thousands of people who turned up to meetings. Over 50,000—I think it was closer to 70,000—put in submissions to the consultations. Not only did we have dozens and dozens of meetings that were attended by hundreds and hundreds of people all around the health board area, but those meetings have been continuing to this very day. For me, that is engagement with the NHS. That is scrutiny of the NHS. That is accountability. And, yes, where I do agree with you is that it is ultimately down to leadership, but I'm afraid a leader elected with almost dictatorial powers by 5 per cent, 6 per cent, or 7 per cent of the population is, to me, not something that will add any contribution to the improvement of the national health service.

Yng Nghwm Taf, pan ad-drefnwyd y byrddau iechyd, roedd gennym ddegau o filoedd o bobl yn dod i gyfarfodydd. Cyflwynodd dros 50,000 o bobl—credaf ei fod yn agosach at 70,000—ymatebion i'r ymgynghoriadau. Nid yn unig ein bod wedi cael dwsinau a dwsinau o gyfarfodydd a fynychwyd gan gannoedd lawer o bobl o bob rhan o ardal y bwrdd iechyd, ond mae'r cyfarfodydd hynny wedi parhau hyd heddiw. I mi, mae hynny'n ymgysylltiad â'r GIG. Dyna graffu ar y GIG. Dyna atebolrwydd. Ac ydw, lle rwy'n cytuno â chi yw ei fod yn fater sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth yn y pen draw, ond mae arnaf ofn nad yw arweinydd a etholir gyda phwerau bron yn unbenaethol, gan 5 y cant, 6 y cant, neu 7 y cant o'r boblogaeth i mi yn rhywbeth a fydd yn ychwanegu unrhyw gyfraniad at wella'r gwasanaeth iechyd gwladol.

17:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it's important that we debate things in a pungent fashion, especially when motions come forward that are innovative and contested, but I do warn all Members about use of language. I have heard words like 'coward' and 'misleading'—not attached to people, which is why I have not intervened, but I don't like to hear them at all in a good, constructive debate. I call the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni drafod pethau mewn modd trylwyr, yn enwedig pan gaiff cynigion eu cyflwyno sy'n arloesol ac yn cael eu herio, ond rwy'n rhybuddio'r holl Aelodau am y defnydd o iaith. Rwyf wedi clywed geiriau fel 'llwfrgi' a 'chamarwain'—heb fod yn gysylltiedig â phobl, a dyna pam nad wyf wedi ymyrryd, ond nid wyf yn hoffi eu clywed o gwbl mewn dadl dda ac adeiladol. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething.

17:39 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to have the opportunity to respond to this debate, and I thank Members who are taking part in what is, if nothing less, an interesting debate. The Government will, of course, oppose the original motion, but we recognise it is clearly essential that all health organisations have effective governance and strong leadership. As Members will be aware, we will shortly publish a Green Paper on quality and governance. This should lead to, and inform, a public debate on these important matters. I hope that at least will be a constructive and informed debate.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i'r ddadl hon, a diolch i'r Aelodau sy'n cymryd rhan yn yr hyn sy'n ddadl ddiddorol os nad yw'n ddim arall. Bydd y Llywodraeth, wrth gwrs, yn gwrthwynebu'r cynnig gwreiddiol, ond rydym yn cydnabod ei bod yn amlwg yn hanfodol i'r holl sefydliadau iechyd gael trefn lywodraethu effeithiol ac arweinyddiaeth gref. Fel y gŵyr yr Aelodau, byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyrdd cyn bo hir ar ansawdd a llywodraethu. Dylai hyn arwain at, a llywio, dadl gyhoeddus ar y materion pwysig hyn. Rwy'n gobeithio y bydd honno o leiaf yn ddadl adeiladol a gwybodus.

'Governance', of course, is a difficult term to define. I think it means organisations are accountable to the citizen, service users and the wider communities they serve, and they take well-informed decisions in a transparent manner and lead people to achieve their objectives. In other words, they do the right things in the right way for the right people, and they uphold the value set for the Welsh public sector.

Mae 'llywodraethu', wrth gwrs, yn derm anodd ei ddiffinio. Rwy'n credu ei fod yn golygu bod sefydliadau'n atebol i'r dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cymunedau ehangach y maent yn eu gwasanaethu, ac maent yn gwneud penderfyniadau gwybodus mewn modd tryloyw ac yn arwain pobl i gyflawni eu hamcanion. Mewn geiriau eraill, maent yn gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn ar gyfer y bobl iawn, ac maent yn cynnal y gwerth a osodwyd ar y sector cyhoeddus yng Nghymru.

The Welsh Government has a strong set of policies to help organisations maintain good governance systems. There is, for example, a governance framework and manual, in addition to the performance of organisations being closely monitored through the outcomes framework, which is aligned to the agreed standards for healthcare in Wales.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfres gref o bolisïau i helpu sefydliadau i gynnal systemau llywodraethu da. Er enghraifft, ceir fframwaith llywodraethu a llawlyfr, yn ychwanegol â monitro gofalus ar berfformiad sefydliadau drwy'r fframwaith canlyniadau, sy'n cyd-fynd â'r safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

The governance system involves regular formal meeting between executives and officials to hold organisations to account, but this formal system is, of course, informed and backed up by the informal interaction between Welsh Government officials and NHS organisations, and that takes place on a daily basis. It is also, of course, informed by other informal sources of information and representation, and they of course include feedback and representation from Assembly Members.

Mae'r system lywodraethu yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd rhwng swyddogion gweithredol a swyddogion i ddwyn sefydliadau i gyfrif, ond mae'r system ffurfiol hon, wrth gwrs, yn cael ei llywio a'i chefnogi gan y rhyngweithio anffurfiol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG, ac mae hynny'n digwydd o ddydd i ddydd. Caiff ei lywio hefyd, wrth gwrs, gan ffynonellau anffurfiol eraill o wybodaeth a chynrychiolaeth, ac maent yn cynnwys adborth a chynrychiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad wrth gwrs.

The Welsh Government works closely with independent auditors and inspectors, and these arrangements are underpinned and formalised by the tripartite process of agreeing the escalation status for each organisation. That takes advice from the regulators, Healthcare Inspectorate Wales, and the Wales Audit Office, together with the chief executive of NHS Wales. Any decision on the escalation status of an NHS body should not be taken lightly, overnight or in relation to one single issue. This process, of course, builds on the work from the Public Accounts Committee that has been approved by this Assembly.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag archwilwyr ac arolygwyr annibynnol, ac mae'r trefniadau hyn yn cael eu tanategu a'u ffurfioli gan y broses deiran o gytuno ar y statws uwchgyfeirio ar gyfer pob sefydliad. Mae honno'n cael cyngor gan y rheoleiddwyr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â phrif weithredwr GIG Cymru. Ni ddylai unrhyw benderfyniad ar statws uwchgyfeirio corff GIG gael ei gymryd yn ysgafn, dros nos neu mewn perthynas ag un mater unigol. Mae'r broses hon, wrth gwrs, yn adeiladu ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad hwn.

Inevitably, there will be situations where the governance arrangements indicate issues that need to be tackled and escalation is appropriate. The most high-profile case, of course, is Betsi Cadwaladr health board. Clear expectations for improvement have been set for the organisation. Progress was monitored and tested through our governance arrangements, and the failure of the organisation to make sufficient progress with the required improvements formed a key part of the decision to escalate the organisation in November 2014, and then recently with the special measures decision.

Yn anochel, bydd yna sefyllfaoedd lle y mae'r trefniadau llywodraethu yn nodi materion y mae angen mynd i'r afael â hwy a bydd uwchgyfeirio'n briodol. Yr achos mwyaf amlwg, wrth gwrs, yw bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Gosodwyd disgwyliadau clir ar gyfer y sefydliad er mwyn gwella. Cafodd cynnydd ei fonitro a'i brofi drwy ein trefniadau llywodraethu, ac roedd methiant y corff i wneud cynnydd digonol gyda'r gwelliannau gofynnol yn rhan allweddol o'r penderfyniad i uwchgyfeirio'r sefydliad ym mis Tachwedd 2014, ac yna'n ddiweddar gyda'r penderfyniad ynghylch mesurau arbennig.

Now, that demonstrates the robustness of a governance system at a national level, where one organisation moved incredibly rapidly through all the levels of escalations, where it was appropriate to do so, and proper advice was given to Ministers to take that action. This system ensures that the Welsh Government takes into account and seeks wider assurance where necessary when governance is failing in one part of the NHS.

Nawr, mae hynny'n dangos pa mor gadarn yw'r system lywodraethu ar lefel genedlaethol, lle y symudodd un sefydliad yn hynod o gyflym drwy holl lefelau'r broses uwchgyfeirio, lle roedd yn briodol gwneud hynny, a rhoddwyd cyngor priodol i'r Gweinidogion roi'r camau hynny ar waith. Mae'r system hon yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ac yn ceisio sicrwydd ehangach lle bo angen pan fo llywodraethu'n methu mewn un rhan o'r GIG.

The King's Fund describes three lines of defence against care failure. The first is the staff, the second, the organisation, and the third, external agencies or reviews. The 'Trusted to Care' independent review commissioned by the health Minister last year was such a third-line intervention. The Abertawe Bro Morgannwg health board is now in the unique position of awaiting a further review. So, no-one could credibly claim a lack of attention by this Government to that organisation's challenges in this area. I agree with Mick Antoniw that healthcare organisations in Wales are probably the most closely scrutinised of any in the United Kingdom. We regularly debate them here in the Chamber and in a variety of committees. The political and media attention to any proposed service change is not mirrored to the same extent elsewhere.

Mae Cronfa'r Brenin yn disgrifio tair llinell o amddiffyniad yn erbyn methiant gofal. Y gyntaf yw'r staff, yr ail yw'r sefydliad, a'r drydedd yw asiantaethau allanol neu adolygiadau. Mae'r adolygiad annibynnol 'Ymddiried mewn Gofal' a gomisiynwyd gan y Gweinidog Iechyd y llynedd yn ymyrraeth trydedd linell o'r fath. Mae bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn awr yn y sefyllfa unigryw o aros am adolygiad pellach. Felly, ni allai neb hawlio'n gredadwy nad yw'r Llywodraeth hon yn rhoi digon o sylw i heriau'r sefydliad hwnnw yn y maes hwn. Rwy'n cytuno â Mick Antoniw mai sefydliadau gofal iechyd Cymru sy'n cael eu craffu'n fwyaf trylwyr o blith sefydliadau gofal iechyd y Deyrnas Unedig yn ôl pob tebyg. Rydym yn eu trafod yn rheolaidd yma yn y Siambr ac mewn amryw o bwyllgorau. Nid yw'r sylw gwleidyddol a'r sylw y mae'r cyfryngau yn ei roi i unrhyw newid arfaethedig yn y gwasanaethau yn cael adlewyrchu i'r un graddau mewn mannau eraill.

We recognise that public concern is a powerful force within health services, and we recognise our organisation must work hard to respond to the review by Keith Evans of how they learn from concerns that are raised. We view openness and responsiveness as being key attributes of an organisation with strong governance, and we recognise that progress does need to be made by a variety of NHS bodies in Wales.

Rydym yn cydnabod bod pryder y cyhoedd yn rym pwerus yn y gwasanaethau iechyd, ac rydym yn cydnabod bod rhaid i'n sefydliad weithio'n galed i ymateb i'r adolygiad gan Keith Evans o sut y maent yn dysgu o bryderon a godir. Rydym yn ystyried bod natur agored ac ymatebolrwydd yn nodweddion allweddol mewn sefydliad sy'n cael ei lywodraethu'n gadarn, ac rydym yn cydnabod bod angen i amryw o gyrff y GIG yng Nghymru wneud cynnydd.

The new healthcare standards, launched in April, set out what the public can expect. They provide a mechanism by which bodies can track the quality of care they provide, and describe it to the people that they serve. We've published a range of information on our local health and care website, renamed and relaunched yesterday, to enable the public to make comparisons, but we recognise there is always room for improvement. To drive further openness, the Welsh Government also requires organisations to publish an annual quality statement as an assessment of success, challenges and improvement priorities for the coming year. I would commend the first annual quality statement from NHS Wales, published yesterday by the chief executive of NHS Wales. It is an honest assessment of where we are, all that the NHS does well, and where improvement is still needed.

Mae'r safonau gofal iechyd newydd, a lansiwyd ym mis Ebrill, yn nodi beth y gall y cyhoedd ei ddisgwyl. Maent yn darparu mecanwaith er mwyn i gyrff olrhain ansawdd y gofal maent yn ei ddarparu, a'i ddisgrifio i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Rydym wedi cyhoeddi ystod o wybodaeth ar ein gwefan iechyd a gofal lleol, a gafodd ei hailenwi a'i ail-lansio ddoe, i alluogi'r cyhoedd i wneud cymariaethau, ond rydym yn cydnabod bod lle i wella bob amser. Er mwyn ysgogi'r natur agored hon ymhellach, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi datganiad ansawdd blynyddol fel asesiad o lwyddiant, heriau a blaenoriaethau gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Byddwn yn cymeradwyo'r datganiad ansawdd blynyddol cyntaf gan GIG Cymru, a gyhoeddwyd ddoe gan brif weithredwr GIG Cymru. Mae'n asesiad gonest o'r sefyllfa rydym ynddi, y cyfan y mae'r GIG yn ei wneud yn dda, a lle y mae angen gwella o hyd.

We recognise the importance of leadership, especially effective leadership at board level. Health Ministers, of course, hold appraisal meetings with health board chairs, who are charged to lead their boards and ensure high standards of performance. Chairs are appointed through objective public appointments processes. This is the same process used throughout the United Kingdom; it is compliant with the Nolan principles of public life and approved by the independent commissioner for public appointments. I do regret and I do deplore the comments made earlier in this debate suggesting that these are party-political appointments.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth, yn enwedig arweinyddiaeth effeithiol ar lefel y bwrdd. Wrth gwrs, mae Gweinidogion Iechyd yn cynnal cyfarfodydd gwerthuso gyda chadeiryddion byrddau iechyd, sy'n ysgwyddo'r gwaith o arwain eu byrddau a sicrhau safonau uchel o berfformiad. Penodir cadeiryddion drwy brosesau penodiadau cyhoeddus gwrthrychol. Dyma'r un broses ag a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig; mae'n cydymffurfio ag egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan ac wedi'i chymeradwyo gan y comisiynydd annibynnol ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Rwy'n gresynu at y sylwadau a wnaed yn gynharach yn y ddadl hon yn awgrymu bod y rhain yn benodiadau pleidiol.

*Kirsty Williams a gododd—*

*Kirsty Williams rose—*

17:45 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I will take the intervention.

Cymeraf yr ymyriad.

17:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, you will be aware that, when the Assembly was first created, because it was a corporate body, chair appointments were made by the Minister and, actually, the Chair of the committee. In fact, some of the most amusing things I ever took part in as an Assembly Member were appointing some of those chairs—or rejecting some of them, actually. Do you think, maybe, we could look again at the appropriateness of a senior Chair of a committee or a senior Assembly Member having a role in those processes again?

Ddirprwy Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol, pan grëwyd y Cynulliad yn gyntaf, oherwydd ei fod yn gorff corfforaethol, câi cadeiryddion eu penodi gan y Gweinidog, ac mewn gwirionedd, Cadeirydd y pwyllgor. Yn wir, rhai o'r pethau mwyaf difyr y bûm yn rhan ohonynt erioed fel Aelod o'r Cynulliad oedd penodi rhai o'r cadeiryddion hynny—neu wrthod rhai ohonynt, mewn gwirionedd. A ydych yn meddwl, efallai, y gallem edrych eto ar briodoldeb rhoi rôl i uwch-Gadeirydd pwyllgor neu uwch-Aelod Cynulliad yn y prosesau hynny eto?

17:46 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

There will be an opportunity for a wider debate on a range of these areas with the Green Paper when it's published.

Bydd cyfle i gael trafodaeth ehangach ar ystod o'r meysydd hyn gyda'r Papur Gwyrdd pan gaiff ei gyhoeddi.

17:46 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Can I ask you a question—[Inaudible.] It's a serious point.

A gaf fi ofyn cwestiwn i chi—[Anghlywadwy.] Mae'n bwynt difrifol.

17:46 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, I'm—. No. [Interruption.]

Na, rwyf—. Na. [Torri ar draws.]

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It's entirely up to you if you wish to give way again, Minister.

Chi sydd i benderfynu os ydych yn dymuno ildio eto, Weinidog.

17:46 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I also deplore the suggestion made in one of the comments made today that the Tawel Fan experience is somehow representative across NHS Wales. Part of what appals us about Tawel Fan—

Rwyf hefyd yn gresynu at yr awgrym a wnaed yn un o'r sylwadau a wnaed heddiw fod profiad Tawel Fan rywsut yn gynrychiadol ar draws GIG Cymru. Rhan o'r hyn sy'n ein brawychu am Tawel Fan—

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Please sit down. He's not giving way.

Eisteddwch os gwelwch yn dda. Nid yw'n ildio.

17:46 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—is how out of kilter it is with the quality of care provided across the NHS.

[Yn parhau.]—yw cymaint y mae'n tynnu'n groes i ansawdd y gofal a ddarperir ar draws y GIG.

Now, I have to say that I completely reject the idea—and the Government rejects the idea—that directly-elected commissioners would assist and improve the provision of health services across Wales. I don't think anyone apart from the Conservatives in the Chamber takes seriously the idea that police and crime commissioners have been a success, elected on tiny minorities of the electorate. They do not represent greater democratic accountability than we have in this Chamber and in a variety of Assembly committees.

Nawr, rhaid i mi ddweud fy mod yn gwrthod yn llwyr y syniad—ac mae'r Llywodraeth yn gwrthod y syniad—y byddai comisiynwyr a etholir yn uniongyrchol yn cynorthwyo ac yn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd ar draws Cymru. Nid wyf yn meddwl bod neb ar wahân i'r Ceidwadwyr yn y Siambr o ddifrif ynghylch y syniad fod y comisiynwyr heddlu a throseddu wedi bod yn llwyddiant, wedi'u hethol gan leiafrifoedd eithriadol o fach o'r etholaeth. Nid ydynt yn cynnig mwy o atebolrwydd democrataidd nag sydd gennym yn y Siambr hon ac mewn amryw o bwyllgorau Cynulliad.

I always take seriously the point that Kirsty Williams made earlier, that, of course, more care will be provided across local health board boundaries. It already is now. Having directly-elected commissioners responsible to and for only one part of that population will be a barrier to progress and collaboration, and will inevitably provide a greater level of political mischief in the running of the health service. That is the last thing the NHS in Wales needs.

Rwyf bob amser o ddifrif ynghylch y pwynt a wnaeth Kirsty Williams yn gynharach, sef y bydd mwy o ofal yn cael ei ddarparu ar draws ffiniau byrddau iechyd lleol wrth gwrs. Mae'n digwydd yn barod. Bydd cael comisiynwyr a etholir yn uniongyrchol yn atebol i, ac yn gyfrifol am un rhan o'r boblogaeth honno'n unig yn rhwystr i gynnydd a chydweithio, ac mae'n anochel y bydd yn darparu lefel uwch o ddihirwch gwleidyddol yn y gwaith o redeg y gwasanaeth iechyd. Dyna'r peth olaf y mae'r GIG yng Nghymru ei angen.

I can see I'm coming close to time, Deputy Presiding Officer. I will deal with the Lib Dem amendment, which we won't be supporting, but it has more merit. We, however, think that the right place to have a considered debate on this particular issue is through wider public consultation, which can and will take place in the Green Paper. We recognise the need for more consistent public engagement across health boards, and we recognise that some health boards do this particularly well—Cwm Taf and others in the south Wales programme made a really significant attempt to engage the public and the clinical community. Suggesting that this simply does not take place across the NHS is neither fair nor correct. We are fully committed to healthcare services that are led effectively, with strong governance and public accountability. There is no complacency on this issue in Government. We recognise the imperative for improvement and we will continue to take these matters seriously and look for further improvement, now and in the future.

Gallaf weld fy mod i'n dod yn agos i'r amser, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ymdrin â gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, na fyddwn yn ei gefnogi, ond mae iddo fwy o deilyngdod. Credwn fodd bynnag mai'r lle iawn i gael dadl ystyrlon ar y mater penodol hwn yw drwy ymgynghoriad cyhoeddus ehangach, a allai ac a fydd yn digwydd gyda'r Papur Gwyrdd. Rydym yn cydnabod yr angen am ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy cyson ar draws byrddau iechyd, ac rydym yn cydnabod bod rhai byrddau iechyd yn gwneud hyn yn arbennig o dda—gwnaeth Cwm Taf ac eraill yn rhaglen de Cymru ymdrech wirioneddol bwysig i gynnwys y cyhoedd a'r gymuned glinigol. Mae awgrymu nad yw hyn yn digwydd ar draws y GIG yn annheg ac yn anghywir. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wasanaethau gofal iechyd sy'n cael eu harwain yn effeithiol, gyda llywodraethu cryf ac atebolrwydd cyhoeddus. Nid oes unrhyw hunanfoddhad ar y mater yn y Llywodraeth. Rydym yn cydnabod y rheidrwydd i wella a byddwn yn parhau i fod o ddifrif ynglŷn â'r materion hyn ac yn edrych am welliant pellach, yn awr ac yn y dyfodol.

17:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And Suzy Davies to reply to the debate.

A Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

17:48 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, a diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan heddiw.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thanks to everyone who has taken part today.

I'm very glad that, even though he may not agree with our own solution, Lindsay Whittle agrees with us what some of the problems are that we have shown light on in this debate today. The need for good governance: I'm afraid, Deputy Minister, that those frameworks you mentioned don't necessarily seem to be working well, otherwise we wouldn't even be having this debate.

Hyd yn oed os nad oedd yn cytuno â'n hateb ni, rwy'n falch iawn fod Lindsay Whittle yn cytuno â ni ynglŷn â beth yw rhai o'r problemau a amlygwyd gennym yn y ddadl hon heddiw. Yr angen am lywodraethu da: rwy'n ofni, Ddirprwy Weinidog, nad yw'r fframweithiau roeddech yn sôn amdanynt i'w gweld yn gweithio'n dda o reidrwydd, neu ni fyddem yn cael y ddadl hon.

We need effective leadership in the Welsh NHS and, of course, there's the need for accountability to the public, which, of course, includes all those members of operational staff within the NHS. They are as worried about this as we are. We have heard the Welsh Conservatives' idea of introducing directly-elected health commissioners. I commend the Liberal Democrats for bringing forward an idea of their own—we may not necessarily back it, but at least it's in contrast to the amendment to this motion put by the Government, which is no change, no answer—a silence echoed by Plaid Cymru. I think it is a difficult position for them to maintain when, once again, the failings in governance and leadership were laid bare before this Assembly, by Darren Millar and Janet Finch-Saunders in particular.

Mae arnom angen arweiniad effeithiol yn y GIG yng Nghymru ac wrth gwrs, mae angen atebolrwydd i'r cyhoedd, sydd wrth gwrs yn cynnwys yr holl aelodau o staff gweithredol yn y GIG. Maent yr un mor bryderus am hyn â ninnau. Rydym wedi clywed syniad y Ceidwadwyr Cymreig o gyflwyno comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol. Cymeradwyaf y Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno eu syniad eu hunain—efallai na fyddwn o reidrwydd yn ei gefnogi, ond o leiaf mae'n gwrthgyferbynnu â'r gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig hwn gan y Llywodraeth, sef dim newid, dim ateb—distawrwydd sy'n cael ei adleisio gan Blaid Cymru. Rwy'n credu ei fod yn safbwynt anodd iddynt gadw ato pan fo'r methiannau llywodraethu ac arwain unwaith eto wedi eu gosod gerbron y Cynulliad hwn, gan Darren Millar a Janet Finch-Saunders yn arbennig.

Now, how many times do we have to hear all this before Government will act? Earlier today, we were scrutinising the public services Minister, who at least has taken action and done something, however controversial. Whereas in health, we hear a respected Deputy Minister simply turning over familiar ground today—everything is down to the local health board; it's their problem. And while we don't disagree that many of the matters that we've mentioned today are, indeed, matters for the local health board, when they don't deliver or can't deliver, we have to ask: where is the department for Pontius Pilate? When criminal proceedings against staff at the Princess of Wales Hospital—and Altaf Hussain mentioned this—weren't enough for the Minister to step in, when the neonatal crisis in Betsi Cadwaladr wasn't enough to step in, what did it take for the words 'accountability to the Minister', or indeed the public, to mean anything? Did we really have to wait for Tawel Fan?

Yn awr, sawl gwaith y mae'n rhaid i ni glywed hyn i gyd cyn i'r Llywodraeth weithredu? Yn gynharach heddiw, roeddem yn craffu ar y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus, sydd o leiaf wedi rhoi camau ar waith a gwneud rhywbeth, er mor ddadleuol. Ond ym maes iechyd, clywn Ddirprwy Weinidog mawr ei barch yn mynd dros dir cyfarwydd heddiw—mater i'r bwrdd iechyd lleol yw popeth; eu problem hwy yw hi. Ac er nad ydym yn anghytuno bod llawer o'r materion rydym wedi eu crybwyll heddiw yn faterion i'r bwrdd iechyd lleol yn wir, pan nad ydynt yn cyflawni neu pan na allant gyflawni, rhaid i ni ofyn: ble mae'r adran dros Pontius Peilat? Pan nad oedd achos troseddol yn erbyn staff yn Ysbyty Tywysoges Cymru—a chrybwyllodd Altaf Hussain hyn—yn ddigon i'r Gweinidog gamu i mewn, pan nad oedd yr argyfwng yn yr uned newyddenedigol yn Betsi Cadwaladr yn ddigon i wneud iddo gamu i mewn, beth a gymerai i'r geiriau 'atebolrwydd i'r Gweinidog', neu'n wir i'r cyhoedd, olygu unrhyw beth? A oedd yn rhaid i ni aros am ward Tawel Fan mewn gwirionedd?

True accountability would have been reflected in the kind of root-and-branch review of the Welsh national health service that Welsh Conservatives continue to call for. A review would not only shine light on failures in the system but also on the best practice, best practice that needs the kind of exposure and promotion to improve public confidence that Mohammad Asghar was talking about. True accountability, of course, is something that we wish to see between the Minister and the people of Wales, but I don't really think we've seen a situation where the Minister can turn to the people of Wales and say, 'Look, I really heard what matters to you. This is what I've done to make sure that I think you get the best NHS services possible to meet your priorities with the money we have'. I don't think we can be sure that the voice of the patient is currently at the heart of our NHS.

Byddai gwir atebolrwydd wedi cael ei adlewyrchu yn y math o adolygiad o'r bôn i'r brig o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i alw amdano. Byddai adolygiad nid yn unig yn amlygu methiannau yn y system, ond hefyd arfer gorau, arfer gorau sydd angen ei amlygu yn y fath fodd a'i hyrwyddo i wella hyder y cyhoedd fel y soniodd Mohammad Asghar amdano. Mae gwir atebolrwydd, wrth gwrs, yn rhywbeth rydym am ei weld rhwng y Gweinidog a phobl Cymru, ond nid wyf yn meddwl ein bod wedi gweld sefyllfa lle y gall y Gweinidog droi at bobl Cymru a dweud, 'Edrychwch, clywais yr hyn sy'n bwysig i chi. Dyma rwyf wedi ei wneud i sicrhau fy mod yn credu eich bod yn cael y gwasanaethau GIG gorau posibl i gwrdd â'ch blaenoriaethau gyda'r arian sydd gennym.' Nid wyf yn meddwl y gallwn fod yn sicr fod llais y claf ar hyn o bryd yn ganolog yn ein GIG.

Now, Welsh Conservatives have held your feet to the fire on the question of funding, of course, Minister, when we come to the NHS, but this debate also demands answers on openness and the culture and practice within the NHS. And, if you can't help, let's have somebody who will, who will ask the tricky questions, demand transparency and answers to questions that matter to our constituents. More than that, let's promote those priorities. I think we've heard quite a lot about consultation in the debate today, and Wales is awash with consultation, some of it very good, as Mick Antoniw mentioned, and some of it perhaps not quite so good, as both Darren and Kirsty Williams, in fact, mentioned. Communities feel disenfranchised—I think those were your words, Darren. How much easier it would be, how much more open and clear it would be, for everyone to know that they can just turn to an individual, knowing that their priorities will be captured and articulated to health boards accurately and, indeed, to Government itself—an individual in office that they can trust to do just that because that's what they've been elected to do, chosen by the people rather than chosen to serve on health boards as members and chairs—

Nawr, wrth gwrs Weinidog, mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cynnal y pwysau ar gwestiwn ariannu'r GIG, ond mae'r ddadl hon hefyd yn mynnu atebion ar fod yn agored a'r diwylliant ac arferion o fewn y GIG. Ac os na allwch helpu, gadewch i ni gael rhywun a fydd yn helpu, rhywun a fydd yn gofyn y cwestiynau anodd, yn galw am dryloywder ac atebion i gwestiynau sydd o bwys i'n hetholwyr. Yn fwy na hynny, gadewch i ni hyrwyddo'r blaenoriaethau hynny. Rwy'n credu ein bod wedi clywed cryn dipyn am ymgynghori yn y ddadl heddiw, ac mae Cymru yn morio mewn ymgynghori, peth ohono'n dda iawn, fel y crybwyllodd Mick Antoniw, a rhywfaint ohono heb fod mor dda efallai, fel y mae Darren a Kirsty Williams wedi'i grybwyll mewn gwirionedd. Mae cymunedau'n teimlo eu bod wedi'u difreinio—credaf mai dyna oedd eich geiriau, Darren. Faint haws y byddai, faint yn fwy agored a chlir y byddai i bawb gael gwybod y gallant droi at unigolyn, gan wybod y bydd eu blaenoriaethau'n cael eu clywed a'u mynegi wrth fyrddau iechyd yn gywir, ac yn wir wrth y Llywodraeth ei hun—unigolyn mewn swydd y gallant ymddiried ynddo i wneud yn union hynny am mai dyna'r hyn y cawsant eu hethol i'w wneud, wedi'i ddewis gan y bobl yn hytrach na'i ddewis i wasanaethu ar fyrddau iechyd fel aelodau a chadeiryddion—

17:52

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:52

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, okay.

Ie, iawn.

17:52

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do you not actually think that that is what most of the Assembly Members actually do with individual patients up and down their particular constituencies, direct with the health board, direct with the people right at the top of the health board?

Onid ydych mewn gwirionedd yn meddwl mai dyna'r hyn y mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud â chleifion unigol ar hyd a lled eu hetholaethau penodol mewn gwirionedd, yn uniongyrchol gyda'r bwrdd iechyd, yn uniongyrchol gyda'r bobl ar frig y bwrdd iechyd?

17:53

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't disagree with what you've said there because, obviously, I've been in the same position as you, but, actually, how often do we get population-level change as a result of our interventions?

Nid wyf yn anghytuno â'r hyn rydych yn ei ddweud oherwydd, yn amlwg, rwyf wedi bod yn yr un sefyllfa â chi, ond mewn gwirionedd, pa mor aml y gwelwn newid ar lefel y boblogaeth o ganlyniad i'n hymyriadau?

Now, the office of an independent commissioner, I think, is critical to public confidence—replacing the appointed health board members rather than seeing independent representatives struggling for a voice within boards that currently close ranks when times get tough. I mean, we're living in a situation at the moment where four of our seven health boards have overspent this year, and I'm thinking of my own health board, which isn't one of those boards, funnily enough, but the costs of running that health board in terms of their salaries on the board are not short of £0.25 million a year. So, there are serious questions about the value for money of our boards at the moment. I think commissioners are directly accountable to the public through direct elections. They are accountable to the public through scrutiny as we are, as elected representatives, and accountable to the public through scrutiny by elected local authorities on the model that Darren has put forward. Scrutiny by Assembly Members isn't resulting in the loss of those tall poppies, those appointed board members who have made mistakes and should be losing their jobs when things have gone so wrong, Jenny Rathbone.

Nawr, credaf fod swydd comisiynydd annibynnol, yn hanfodol i hyder y cyhoedd—i ddisodli aelodau penodedig y byrddau iechyd yn hytrach na gweld cynrychiolwyr annibynnol yn ei chael hi'n anodd cael llais ar fyrddau sydd ar hyn o bryd yn cau'r rhengoedd pan fo pethau'n mynd yn anodd. Hynny yw, rydym yn byw mewn sefyllfa ar hyn o bryd lle y mae pedwar o'n saith bwrdd iechyd wedi gorwario eleni, ac rwy'n meddwl am fy mwrdd iechyd fy hun, nad yw'n un o'r byrddau hynny yn rhyfedd ddigon, ond mae costau rhedeg y bwrdd iechyd o ran eu cyflogau ar y bwrdd yn £0.25 miliwn y flwyddyn. Felly, mae cwestiynau difrifol yn codi am werth am arian ein byrddau ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl bod comisiynwyr yn uniongyrchol atebol i'r cyhoedd drwy etholiadau uniongyrchol. Maent yn atebol i'r cyhoedd drwy graffu, fel rydym ninnau, fel cynrychiolwyr etholedig, ac yn atebol i'r cyhoedd drwy graffu gan awdurdodau lleol etholedig ar y model y mae Darren wedi ei gyflwyno. Nid yw craffu gan Aelodau'r Cynulliad yn arwain at golli'r 'pabi tal' hynny, aelodau penodedig ar fyrddau sydd wedi gwneud camgymeriadau ac a ddylai golli eu swyddi pan fydd pethau wedi mynd mor anghywir, Jenny Rathbone.

There will be nowhere for independent health commissioners to hide—not behind Government majorities, not within cosy Welsh establishment, but, more importantly, there will be no place for ineffective leadership to hide, for poor governance to hide, and nor will you be able to hide, Minister, from an independent people's health champion. Thank you.

Ni fydd unman i gomisiynwyr iechyd annibynnol guddio—ni allant guddio y tu ôl i fwyafrifoedd Llywodraeth, nac o fewn sefydliad Cymreig clyd, ond yn bwysicach, ni fydd lle i arweinyddiaeth aneffeithiol guddio, i lywodraethu gwael guddio, ac ni fyddwch chi'n gallu cuddio, Weinidog, rhag hyrwyddwr annibynnol dros iechyd pobl. Diolch yn fawr.

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I'll defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

# 8. Dadl Plaid Cymru: Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

# 8. Plaid Cymru Debate: Local Government and Public Services

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliant yn enw Paul Davies.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Paul Davies.*

17:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 8, the Plaid Cymru debate on local government and public services. I call on Leanne Wood to move the motion.

Symudwn yn awr at eitem 8, dadl Plaid Cymru ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus. Galwaf ar Leanne Wood i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5788 Elin Jones

Motion NDM5788 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru.

1. Notes the Welsh Government's intention to reform local government in Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn cwrdd ag anghenion dinasyddion Cymru.

2. Calls on the Welsh Government to ensure that public services in Wales are delivered efficiently and effectively and meets the needs of the citizens of Wales.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:54

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. I'm pleased to move this motion in the name of Elin Jones. Since the early part of 2014, the Labour Government has talked about the reform of local government and, today, we've had sight of the Minister's preferred map. Plaid Cymru has, this week, presented our own vision for public service delivery by the end of the next Assembly term.

Diolch. Rwy'n falch o gynnig y cynnig hwn yn enw Elin Jones. Ers yn gynnar yn 2014, mae'r Llywodraeth Lafur wedi siarad am ddiwygio llywodraeth leol a heddiw, rydym wedi bwrw golwg ar fap dewisol y Gweinidog. Yr wythnos hon, mae Plaid Cymru wedi cyflwyno ein gweledigaeth ein hunain ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus erbyn diwedd tymor nesaf y Cynulliad.

At the time of the publication of the report by the Commission on Public Service Governance and Delivery, Plaid Cymru agreed that the exact status quo was not an option. We did not write off the work of the Williams commission—in fact, we welcomed much of the contents of the report. But we did note very early on in the debate that we believed that the health service should have been included. Allowing for the integration of health and social care services is vital to Plaid Cymru.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, cytunodd Plaid Cymru nad oedd yr union status quo yn opsiwn. Nid oeddem yn diystyru gwaith comisiwn Williams—yn wir, rydym wedi croesawu llawer o gynnwys yr adroddiad. Ond nodwyd gennym yn gynnar iawn yn y ddadl ein bod yn credu y dylai'r gwasanaeth iechyd fod wedi cael ei gynnwys. Mae caniatáu ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i Blaid Cymru.

Now, we undertook to consult within our party and we've done so. I wrote to the First Minister on 4 March outlining Plaid Cymru's clear principles, bearing in mind and taking into account the significant costs and long-term consequences of reform. I've sent a copy of that letter for it to be available to Members in the Members' Library.

Nawr, rhoesom ymrwymiad i ymgynghori o fewn ein plaid ac rydym wedi gwneud hynny. Ysgrifennais at y Prif Weinidog ar 4 Mawrth yn amlinellu egwyddorion clir Plaid Cymru, gan gofio a chan ystyried y costau sylweddol a chanlyniadau hirdymor diwygio. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwnnw er mwyn iddo fod ar gael i'r Aelodau yn Llyfrgell yr Aelodau.

In line with those principles, I will now outline some of the detail behind our proposals. Neither maps nor numbers are priorities in themselves for the party of Wales. What's important to us is how our local services will be delivered and how they will be protected. The number or type of authorities follows directly from where the services can best be delivered. We believe that reform should not be rushed. If it's rushed, it will be botched. It must include steps to integrate health and social care.

Yn unol â'r egwyddorion hynny, rwyf am amlinellu yn awr rai o'r manylion sy'n sail i'n cynigion. Nid yw mapiau na rhifau yn flaenoriaethau ynddynt eu hunain i Blaid Cymru. Yr hyn sy'n bwysig i ni yw sut y bydd ein gwasanaethau lleol yn cael eu darparu a sut y cânt eu diogelu. Mae nifer neu fath o awdurdod yn dilyn yn uniongyrchol o ble sydd orau i ddarparu'r gwasanaethau. Credwn na ddylid rhuthro'r broses o ddiwygio. Os yw'n cael ei rhuthro, fe wneir camgymeriadau. Rhaid i'r broses gynnwys camau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol.

The party of Wales's preferred intention is to create several regional combined authorities. The number and configuration of regional combined authorities will be determined after public consultation, but Plaid Cymru would envisage there being between five and seven. Existing regional structures would be aligned, formalised and made democratically accountable. No local authority will be able to opt out of this process; all will become a constituent of a regional combined authority.

Y bwriad a ffafrir gan Blaid Cymru yw creu nifer o awdurdodau cyfunol rhanbarthol. Pennir nifer a chyfluniad yr awdurdodau cyfunol rhanbarthol ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, ond byddai Plaid Cymru yn rhagweld y byddai rhwng pump a saith ohonynt. Byddai strwythurau rhanbarthol presennol yn cael eu halinio, eu ffurfioli a'u gwneud yn atebol yn ddemocrataidd. Ni fydd unrhyw awdurdod lleol yn gallu optio allan o'r broses hon; byddent oll yn dod yn rhan gyfansoddol o awdurdod cyfunol rhanbarthol.

Regional combined authorities are not quangos, as I've heard suggested. They are not an additional tier. They do not require any extra councillors or senior officers. As part of a move to multi-member wards, for example, through implementing the single transferrable vote, there is scope for a reduction in the number of councillors. Rationalising the number of senior officials and executives is something that can and should be done over time, whilst making sure that services are not adversely affected.

Nid cwangos yw awdurdodau cyfunol rhanbarthol, fel y clywais yn cael ei awgrymu. Nid ydynt yn haen ychwanegol. Nid ydynt yn gofyn am unrhyw gynghorwyr nac uwch-swyddogion ychwanegol. Fel rhan o symudiad i gael wardiau wedi'u cynrychioli gan nifer o aelodau, er enghraifft, drwy weithredu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy, mae lle i sicrhau gostyngiad yn nifer y cynghorwyr. Mae rhesymoli nifer yr uwch-swyddogion a swyddogion gweithredol yn rhywbeth y gellir ac y dylid ei wneud dros gyfnod o amser, gan sicrhau nad yw gwasanaethau'n cael eu niweidio.

A Plaid Cymru Government would consult, through a White Paper, on how we would ensure the best possible scrutiny and democratic accountability for the new regional combined authorities. Both Labour and the Conservative parties, possibly alongside the Liberal Democrats as well, have supported the development of combined authorities in parts of England for economic and transport purposes and also, in some cases, for housing as well. So, this is not something that's been invented from scratch.

Byddai Llywodraeth Plaid Cymru yn ymgynghori, drwy Bapur Gwyn, ynglŷn â sut y byddem yn sicrhau'r gwaith craffu gorau posibl ac atebolrwydd democrataidd yr awdurdodau cyfun rhanbarthol newydd. Mae'r Blaid Lafur a'r Ceidwadwyr, gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol o bosibl hefyd, wedi cefnogi datblygiad awdurdodau cyfunol mewn rhannau o Loegr at ddibenion economaidd a thrafnidiaeth, a thai hefyd mewn rhai achosion. Felly, nid yw'n rhywbeth sydd wedi cael ei ddyfeisio o ddim.

There may be differences of opinion within England on whether health and education should be delivered at the combined authority level, but at least this is something that is being actively discussed. For Wales, this scale makes sense. A pooling of budgets at this level would build on and improve what is already happening in this country.

Mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau barn yn Lloegr ynglŷn ag a ddylid darparu iechyd ac addysg ar lefel yr awdurdod cyfunol, ond o leiaf mae'n rhywbeth sy'n cael ei drafod yn weithredol. Ar gyfer Cymru, mae'r raddfa hon yn gwneud synnwyr. Byddai cyfuno cyllidebau ar y lefel hon yn adeiladu ar, ac yn gwella'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn y wlad hon.

I want to briefly turn now to the community level of government. Plaid Cymru believes in decentralisation. The centralising pull in this debate deserves to be countered with greater local involvement. Community and town councils have been seen for far too long as an add-on, not an integral part of our national governance.

Rwyf am droi'n fyr yn awr at y lefel gymunedol o lywodraeth. Cred Plaid Cymru mewn datganoli. Mae'r dynfa i ganoli yn y ddadl hon yn haeddu cael ei gwrthwynebu gan fwy o gyfranogiad lleol. Mae cynghorau tref a chymuned wedi cael eu gweld ers yn llawer rhy hir fel ychwanegiad, nid fel rhan annatod o'n dull llywodraethu cenedlaethol.

The Government made some proposals around helping some community councils to deliver more for their communities where competency and capacity could be proven, and I've welcomed this work. But Plaid Cymru wants to see the clustering and strengthening of community councils, so that there's consistent coverage across the country and so that these bodies can actually deliver those services that are needed at a community level. They should also be empowered to contribute to job creation by being given a clear role and focus on economic regeneration.

Gwnaeth y Llywodraeth rai cynigion ynghylch helpu rhai cynghorau cymuned i gyflawni mwy ar ran eu cymunedau lle y gellid profi cymhwysedd a chapasiti, ac rwyf wedi croesawu'r gwaith hwn. Ond mae Plaid Cymru eisiau gweld cynghorau cymuned yn cael eu clystyru a'u cryfhau, fel bod darpariaeth gyson ar draws y wlad ac fel y gall y cyrff hyn mewn gwirionedd ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar lefel y gymuned. Dylent hefyd gael eu grymuso i gyfrannu at greu swyddi drwy gael swyddogaeth a ffocws clir ar adfywio economaidd.

I now turn to the amendments. Plaid Cymru will be supporting amendment 1 in favour of STV, and we will also support amendment 2. We agree that reform should lead to improvements in terms of transparency and democratic accountability.

Trof yn awr at y gwelliannau. Bydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant 1 o blaid pleidlais sengl drosglwyddadwy, a byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 2. Rydym yn cytuno y dylai diwygio arwain at welliannau o ran tryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

Today, Plaid Cymru has set out its agenda. We have outlined what reform would look like under a Plaid Cymru Government. Now, it's up to the people to decide where they want to take this next. They will have their say next May. The Government has put forward its proposals, and these are ours. Plaid Cymru is of the view that these proposals will help to deliver services more efficiently and more effectively; they will help safeguard vital services within the public sector and, crucially, will help build, strengthen and empower our nation.

Heddiw, mae Plaid Cymru wedi nodi ei hagenda. Rydym wedi amlinellu sut beth fyddai diwygio dan Lywodraeth Plaid Cymru. Nawr, mater i'r bobl yw penderfynu ble y maent am fynd â hyn nesaf. Byddant yn lleisio'u barn fis Mai nesaf. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno ei chynigion, a dyma ein rhai ni. Mae Plaid Cymru o'r farn y bydd y cynigion hyn yn helpu i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon ac yn fwy effeithiol; byddant yn helpu i ddiogelu gwasanaethau hanfodol yn y sector cyhoeddus ac yn hollbwysig, yn helpu i adeiladu, cryfhau a grymuso ein cenedl.

18:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the two amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:*

*Insert at end of point 2:*

*'ac yn credu y dylai hyn gynnwys cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.'*

*'and believes that this should include the introduction of the Single Transferable Vote for local government elections.'*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

18:01 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'll start again by making the declaration that I am a member of a local authority, as required by the new code of practice, which we passed earlier on today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Dechreuaf unwaith eto drwy wneud y datganiad fy mod yn aelod o awdurdod lleol, yn ôl gofynion y cod ymarfer newydd a basiwyd gennym yn gynharach heddiw.

When we debated at Stage 1 the current local government Bill going through the Assembly, I described it as a lame duck, simply because the chances of voluntary mergers coming about were virtually nil, and I think that the Minister's map today most probably underlines that. I'd be very surprised indeed if any voluntary mergers emerge as a result of that. However, the proposal, which we've just had put in front of us, is not so much a lame duck as a dog's breakfast, I have to say. It does seem to me that this is a strong testimony to the view that politicians should not be involved in designing democratic structures. Although I take on board what the leader of Plaid Cymru says in terms of this not being another tier of government and not being bureaucracy, I think very different things were being said nearly 15 years ago now when similar structures were proposed for the health service in Wales, with 22 local health boards and seven regions overseeing that. I think Plaid Cymru spokespeople then were very strong in saying that this was bureaucratic, with 30-odd bodies actually running that. I think what we have in front of us is a very similar system indeed.

Pan gawsom ddadl yng Nghyfnod 1 y Bil llywodraeth leol sydd ar hyn o bryd ar ei daith drwy'r Cynulliad, fe'i disgrifiais fel hwyaden gloff, yn syml am fod y tebygolrwydd y caem uno gwirfoddol bron yn ddim, ac rwy'n meddwl bod map y Gweinidog heddiw yn tanlinellu hynny yn ôl pob tebyg. Fe fyddwn i'n synnu'n fawr yn wir os ceir unrhyw uno gwirfoddol o ganlyniad iddo. Fodd bynnag, mae'r cynnig a gyflwynwyd ger ein bron yn awr yn fwy o draed moch na hwyaden gloff, rhaid i mi ddweud. Mae'n ymddangos i mi fod yma dystiolaeth gref o'r farn na ddylai gwleidyddion fod yn rhan o'r broses o gynllunio strwythurau democrataidd. Er fy mod yn derbyn yr hyn y mae arweinydd Plaid Cymru yn ei ddweud o ran y ffaith na fyddai hon yn haen arall o lywodraeth ac nad biwrocratiaeth ydyw, rwy'n meddwl bod pethau gwahanol iawn yn cael eu dweud bron i 15 mlynedd yn ôl bellach pan gafodd strwythurau tebyg eu hargymell ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, gyda 22 o fyrddau iechyd lleol a saith rhanbarth i'w goruchwylio. Rwy'n meddwl bod llefarwyr Plaid Cymru yn dweud yn gadarn iawn bryd hynny fod hyn yn fiwrocrataidd, gyda thua 30 o gyrff yn ei redeg mewn gwirionedd. Rwy'n credu bod yr hyn sydd gennym ger ein bron yn system debyg iawn yn wir.

18:02 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:02 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

18:02 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if you recall the discussion 15 years or so ago, it was about actually creating 22 local health boards to be coterminous with 22 local authorities. The argument was that it was creating far too many bodies. What we are talking about now is a very different situation, where we're talking about a small number of bodies that are providing services.

Wel, os cofiwch y drafodaeth 15 mlynedd yn ôl, roedd yn ymwneud mewn gwirionedd â chreu 22 o fyrddau iechyd lleol i gyd-ffinio â 22 o awdurdodau lleol. Y ddadl oedd ei fod yn creu llawer gormod o gyrff. Mae'r hyn rydym yn sôn amdano yn awr yn sefyllfa wahanol iawn, lle rydym yn siarad am nifer fach o gyrff sy'n darparu gwasanaethau.

18:03 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, if you remember, Rhodri Glyn, it was actually 22 local health boards, seven regions, and a new health and social services department. At the time, Plaid Cymru and other opposition parties were very strong in saying that this was the creation of a large number of bodies to run things. What we have in front of us is 22 councils and seven regions running local government. I have a number of questions about how exactly that will work. In particular, I do have concerns because it's not clear, either in Plaid Cymru's press release or in the speech that we've just heard, how exactly social services and health will interact. What I'm interested in knowing is: are you proposing that social services will be given to the health boards? Are you proposing that health is going to be given to these new regional bodies, or are you proposing some sort of pooling arrangement, which has been tried unsuccessfully for many, many years and quite a few times since this Assembly was introduced? I think doing it in that way will certainly reduce democratic accountability, particularly if you give social services to health. I think taking functions off local government is not the way this debate should go along.

Wel, os cofiwch, Rhodri Glyn, roedd yn 22 o fyrddau iechyd lleol, saith rhanbarth, ac adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol newydd. Ar y pryd, roedd Plaid Cymru a gwrthbleidiau eraill yn dweud yn gadarn iawn mai creu nifer fawr o gyrff i redeg pethau oedd hyn. Yr hyn sydd gennym o'n blaenau yw 22 o gynghorau a saith rhanbarth yn rhedeg llywodraeth leol. Mae gennyf nifer o gwestiynau ynglŷn â sut yn union y bydd hynny'n gweithio. Yn benodol, mae gennyf bryderon am nad yw'n glir, yn natganiad i'r wasg Plaid Cymru nac yn yr araith rydym newydd ei chlywed, sut yn union y bydd y gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn rhyngweithio. Yr hyn y mae gennyf ddiddordeb yn ei wybod yw hyn: a ydych yn cynnig y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu rhoi i'r byrddau iechyd? A ydych yn argymell bod iechyd yn mynd i gael ei roi i'r cyrff rhanbarthol newydd hyn, neu a ydych yn argymell rhyw fath o drefniant rhannu, y rhoddwyd cynnig arno'n aflwyddiannus dros lawer iawn o flynyddoedd a sawl tro ers i'r Cynulliad hwn gael ei gyflwyno? Rwy'n credu y bydd ei wneud yn y ffordd honno yn sicr yn lleihau atebolrwydd democrataidd, yn enwedig os rhowch y gwasanaethau cymdeithasol i iechyd. Nid wyf yn credu mai cymryd swyddogaethau oddi ar lywodraeth leol yw'r ffordd y dylai'r ddadl hon ei dilyn.

When we discussed the Leighton Andrews map earlier on I just stuck to questions, but I did want to point out that we haven't got a consensus in where we're going forward on this, and I think it's unlikely we're going to have a consensus on that in the next election. But in terms of that map, so far we've had council leaders in Caerphilly, Wrexham, Flintshire, the Vale of Glamorgan, Bridgend, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil, Newport, Rhondda Cynon Taf, Monmouthshire, the Welsh Local Government Association, and Alun Davies, Assembly Member, all expressing concerns or opposing this particular map. So, I think, clearly, the Minister has not lost his ability to unite his friends and opponents against him. I don't think that what we have in front of us here in this debate is going to be any better because the question I ask is: if you are setting up these seven regions on top of 22 local authorities, how are those regions going to be scrutinised? How are you going to make sure you have accountability and transparency in terms of delivery of those services, when the members themselves are effectively running the services without a proper scrutiny process? Are you talking about having a—

Pan oeddem yn trafod map Leighton Andrews yn gynharach glynais at gwestiynau, ond roeddwn am dynnu sylw at y ffaith nad oes gennym gonsensws o ran lle rydym yn mynd gyda hyn, ac rwy'n meddwl ein bod yn annhebygol o gael consensws ar hynny yn yr etholiad nesaf. Ond o ran y map, hyd yn hyn rydym wedi cael arweinwyr cynghorau yng Nghaerffili, Wrecsam, Sir y Fflint, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Torfaen, Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Sir Fynwy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac Alun Davies, Aelod Cynulliad, oll yn mynegi pryderon neu'n gwrthwynebu'r map penodol hwn. Felly, rwy'n meddwl ei bod hi'n amlwg nad yw'r Gweinidog wedi colli ei allu i uno ei ffrindiau a'i wrthwynebwyr yn ei erbyn. Nid wyf yn meddwl bod yr hyn sydd gennym o'n blaenau yn y ddadl hon yn mynd i fod yn well o gwbl oherwydd y cwestiwn rwy'n ei ofyn yw: os ydych yn sefydlu'r saith rhanbarth ar ben 22 o awdurdodau lleol, sut y mae'r rhanbarthau hynny'n mynd i gael eu craffu? Sut rydych chi'n mynd i wneud yn siŵr fod gennych atebolrwydd a thryloywder o ran darparu'r gwasanaethau hynny, pan fo'r aelodau eu hunain yn rhedeg y gwasanaethau i bob pwrpas heb broses graffu briodol? A ydych yn sôn am gael—

18:05 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

18:05 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I don't think I'm going to have time. Are you talking about having a leader and a leader-cabinet model—[Interruption.] Let me finish then. Are you talking about having a leader and cabinet model to run those particular bodies or are you talking about them being run by committees? There's a whole range of questions around how exactly that new structure is going to work.

Nid wyf yn meddwl y bydd gennyf amser. A ydych yn sôn am gael arweinydd a model arweinydd-cabinet—[Torri ar draws.] Gadewch i mi orffen. A ydych yn sôn am gael model arweinydd a chabinet i redeg y cyrff penodol hynny neu a ydych chi'n sôn am eu rhedeg gan bwyllgorau? Mae amrywiaeth eang o gwestiynau ynghylch sut yn union y bydd y strwythur newydd hwnnw'n gweithio.

In my view, any reorganisation has to put the delivery of services first. That has to be a priority. The pooling of budgets and partnerships have been tried before and I don't they're going to work. We do need to reform, but that reform should not be botched and it should not be rushed into, and I do agree with Leanne Wood in that regard. That's why, in my view, these new councils should reflect natural communities and why the boundary commission should decide how they're going to be formed. And in terms of our amendment, I also think that a single transferable vote—proportional, fair voting—has to form a part of it, because if you have fair voting, you have a council that reflects the way that people have voted. As a result of that, that council's going to be more effective, more efficient and the services it delivers are going to be more effective and more efficient as well.

Yn fy marn i, rhaid i unrhyw ad-drefnu roi darparu gwasanaethau yn gyntaf. Rhaid i hynny fod yn flaenoriaeth. Rhoddwyd cynnig ar gyfuno cyllidebau a phartneriaethau o'r blaen ac nid wyf yn meddwl eu bod yn mynd i weithio. Mae angen i ni ddiwygio, ond ni ddylid diwygio'n garbwl ac ni ddylid ei ruthro, ac rwy'n cytuno â Leanne Wood yn hynny o beth. Dyna pam, yn fy marn i, y dylai'r cynghorau newydd hyn adlewyrchu cymunedau naturiol, a pham y dylai'r comisiwn ffiniau benderfynu sut y maent yn mynd i gael eu ffurfio. Ac o ran ein gwelliant, rwyf hefyd yn meddwl bod pleidlais sengl drosglwyddadwy—pleidleisio cyfrannol a theg—yn gorfod bod yn rhan o'r mater, oherwydd os oes gennych bleidleisio teg, mae gennych gyngor sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio. O ganlyniad, bydd y cyngor hwnnw'n fwy effeithiol, yn fwy effeithlon ac mae'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn mynd i fod yn fwy effeithiol ac yn fwy effeithlon hefyd.

So, I hope, Deputy Presiding Officer, we can support the amendment. The motion itself, as it is worded, is fairly innocuous, so we're happy to vote for the amendment, but I certainly am not going to endorse this proposal in front of us. I do think that this is actually worse than what we were presented with earlier on.

Felly, rwy'n gobeithio, Ddirprwy Lywydd, y gallwn gefnogi'r gwelliant. Mae'r cynnig ei hun, fel y mae wedi'i eirio, yn eithaf diniwed, felly rydym yn hapus i bleidleisio dros y gwelliant, ond yn sicr, nid wyf yn mynd i gefnogi'r argymhelliad sydd ger ein bron. Rwy'n meddwl bod hwn yn waeth mewn gwirionedd na'r hyn a gyflwynwyd i ni yn gynharach.

18:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Janet Finch-Saunders to move amendment 2, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hagenda i ddiwygio llywodraeth leol yn arwain at fwy o dryloywder ac atebolrwydd democrataidd o fewn llywodraeth leol.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that its local government reform agenda leads to greater transparency and democratic accountability in local government.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

18:06

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am really pleased to see another debate this week on the future of local government here in Wales. Across Wales, those charged with the delivery of some of our most important local services have been waiting with some frustration, anger and fear, following some of the actions coming from the Welsh Labour Government in recent months, especially with regard to the Williams commission proposals. Whilst many of us believe that that published report was a way to examine the workings of all public bodies in Wales, it soon became apparent that this particular report was a Trojan horse sort of exercise by the Welsh Labour Government to start their initial gerrymandering in terms of local government reform. But today, with the statement and map proposals that have come forward from the local government Minister—

Rwy'n falch iawn o weld dadl arall yr wythnos hon ar ddyfodol llywodraeth leol yma yng Nghymru. Ar draws Cymru, mae'r rhai sy'n gyfrifol am gyflwyno rhai o'n gwasanaethau lleol pwysicaf wedi bod yn aros gyda rhywfaint o rwystredigaeth, dicter ac ofn, yn dilyn rhai o'r camau gan Lywodraeth Lafur Cymru yn y misoedd diwethaf, yn enwedig o ran cynigion comisiwn Williams. Er bod llawer ohonom yn credu bod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ffordd o edrych ar waith pob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn fuan daeth yn amlwg fod yr adroddiad penodol hwn yn fath o geffyl pren Troea o ymarfer gan Lywodraeth Lafur Cymru i ddechrau eu jerimandro cychwynnol o ran diwygio llywodraeth leol. Ond heddiw, gyda'r datganiad a'r argymhellion ar gyfer y map sydd wedi'u cyflwyno gan y Gweinidog Llywodraeth Leol—

18:07

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:07 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

No. The person charged with the portfolio responsibility for local government in Wales, and also charged with providing strong leadership, guidance and support to our authorities, and the delivery of their own functions, is actually guilty of betraying local government. While I am not alone in seeing this as one huge fail, and one that comes at a time when many local authorities are facing unprecedented hardships because of the Welsh Labour Government, and despite the Minister stating that the statement was in response to around 700 or 3,000 responses, this report hasn't been published and so we cannot scrutinise it.

Na. Mae'r person sydd â'r cyfrifoldeb portffolio dros lywodraeth leol yng Nghymru, a'r cyfrifoldeb hefyd am ddarparu arweiniad, cyfarwyddyd a chefnogaeth gref i'n hawdurdodau, a'r modd y cyflawnant eu swyddogaethau, yn euog o fradychu llywodraeth leol mewn gwirionedd. Er nad wyf ar ben fy hun yn gweld hyn fel un methiant enfawr, ac un sy'n dod ar adeg pan fo llawer o awdurdodau lleol yn wynebu caledi digynsail oherwydd Llywodraeth Lafur Cymru, ac er bod y Gweinidog yn dweud bod y datganiad yn ymateb i tua 700 neu 3,000 o ymatebion, nid yw'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi ac felly ni allwn ei graffu.

I was present for the Social Services and Well-being (Wales) Bill, which we've now seen taken forward into an Act, and I remember the Deputy Minister at the time very, very strongly and very, very articulately making the case for better integration of health and social care, and yet, this is completely missing from the reforms that the Minister has brought forward today. Term limits, as proposed in the White Paper, have been a contentious issue in my own authority and across Wales, especially given that Labour in Wales has failed over many years to increase opportunity and diversity in local authorities. But it does seem rather ironic and hypocritical that Ministers here, some of the longest serving Cabinet members in the western world, will accept to introduce proposals for a term limit on other senior elected politicians at local government level, so I'm jolly glad that you have listened to those concerns and that you will not be implementing those.

Roeddwn yn bresennol ar gyfer y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y gwelsom yn cael ei wneud yn Ddeddf ac rwy'n cofio'r Dirprwy Weinidog ar y pryd yn cyflwyno'r achos yn gryf iawn ac yn huawdl iawn dros integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, ac eto, mae hyn ar goll yn llwyr o'r diwygiadau y mae'r Gweinidog wedi eu cyflwyno heddiw. Mae terfynau ar hyd gwasanaeth, fel y'u cynigiwyd yn y Papur Gwyn, wedi bod yn fater dadleuol yn fy awdurdod fy hun ac ar draws Cymru, yn enwedig o gofio bod y Blaid Lafur yng Nghymru dros nifer o flynyddoedd wedi methu â chynyddu cyfle ac amrywiaeth mewn awdurdodau lleol. Ond mae'n ymddangos braidd yn eironig a rhagrithiol fod Gweinidogion yma, rhai o'r aelodau Cabinet sydd wedi gwasanaethu hiraf yn y byd gorllewinol, yn fodlon i gynigion gael eu cyflwyno i osod terfyn ar hyd gwasanaeth uwch-wleidyddion etholedig eraill ar lefel llywodraeth leol, felly rwy'n hynod o falch eich bod wedi gwrando ar y pryderon hynny ac na fyddwch yn gweithredu'r rheini.

For our residents, too, council tax is rising in dramatic proportions, services are being cut, and now there is the prospect of costly reforms to gigantic proportions, and the question remains as to how this will improve our residents' experience of the delivery of our vital services.

I'n preswylwyr hefyd, mae'r dreth gyngor yn codi'n ddramatig, mae gwasanaethau'n cael eu torri, ac yn awr mae posibilrwydd o ddiwygiadau costus enfawr, ac mae'r cwestiwn yn parhau ynghylch sut y bydd hyn yn gwella profiad ein trigolion o'r modd y caiff ein gwasanaethau hanfodol eu darparu.

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

I really do look forward to visiting the library and reading the Plaid Cymru models, but up to now, from what I've read from your press release, it reads duplication, centralisation and confusion. Again, it's uncosted. Under Welsh Labour, we've seen senior pay spiralling out of control without any intervention from the Welsh Government, unlawful payments to chief executives, pension fiddles, Porsche-driving procurement, and all at a time of increased council tax for our residents. Welsh taxpayers are certainly losing out in comparison to their counterparts in Scotland and England who have benefitted from a freeze in their council tax, one that could have been enjoyed here in Wales had the consequential funding coming over from the Conservative-led United Kingdom Government not been withheld and squandered on pet projects that have not shown any accountability on spend or deliverable outcome. And it is little wonder that public confidence in your abilities now as the local government Minister is at an all-time low.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ymweld â'r llyfrgell a darllen modelau Plaid Cymru, ond hyd yma, o'r hyn rwyf wedi ei ddarllen yn eich datganiad i'r wasg, mae'n awgrymu dyblygu, canoli a dryswch. Unwaith eto, nid yw wedi ei gostio. O dan Lafur Cymru, rydym wedi gweld cyflogau uwch-swyddogion yn mynd allan o reolaeth heb unrhyw ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru, taliadau anghyfreithlon i brif weithredwyr, ffidlan â phensiynau, proses gaffael sy'n cynnwys gyrru ceir Porsche, a'r cyfan ar adeg pan fo'r dreth gyngor yn codi i'n trigolion. Mae trethdalwyr Cymru yn sicr ar eu colled o gymharu â'u cymheiriaid yn yr Alban a Lloegr sydd wedi elwa o rewi eu treth gyngor, cynllun y gellid bod wedi manteisio arno yma yng Nghymru pe na bai'r arian canlyniadol a ddaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi cael ei gadw'n ôl a'i wastraffu ar hoff brosiectau nad ydynt wedi dangos unrhyw atebolrwydd am wariant neu ganlyniadau y gellid eu sicrhau. Ac nid yw'n fawr o syndod fod hyder y cyhoedd yn eich galluoedd yn awr fel y Gweinidog llywodraeth leol ar ei lefel isaf erioed.

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Welsh Conservatives, on the other hand, believe that true devolution is empowering and supporting very local democracy, promoting an entrepreneurial spirit within our towns and villages, using co-production methods as a means to hold on to our very valuable community assets and see them prosper. Here in Wales, there is no intention to adopt the Localism Act 2011 that sets free these communities, and that is very much a lost opportunity as part of any reform of local government. Welsh Conservatives believe that cutting down the number of local authorities, at the same time seeing unprecedented job losses for our hard-working, front-line workers, against the backdrop of huge financial risk and challenge, is not the way to go. Local empowerment would allow those authorities that do wish to merge to do so, if it can be proven that there would be efficiencies of scale. Steaming ahead with ill-thought-out, non-costed risky mergers is a backwards step.

Cred y Ceidwadwyr Cymreig, ar y llaw arall, fod gwir ddatganoli yn grymuso ac yn cefnogi democratiaeth leol iawn, gan hybu ysbryd entrepreneuraidd yn ein trefi a'n pentrefi, gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu fel modd o ddal gafael ar ein hasedau cymunedol gwerthfawr iawn a'u gweld yn ffynnu. Yma yng Nghymru, nid oes unrhyw fwriad i fabwysiadu Deddf Lleoliaeth 2011 sy'n rhyddhau'r cymunedau hyn, ac mae hynny'n sicr yn gyfle a gollwyd fel rhan o unrhyw broses i ddiwygio llywodraeth leol. Nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylid cwtogi nifer yr awdurdodau lleol, ar yr adeg y gwelwn nifer digynsail o swyddi yn cael eu colli gan ein gweithwyr rheng flaen gweithgar, yn erbyn cefndir o risg a her ariannol anferth. Byddai grymuso lleol yn caniatáu i awdurdodau sy'n dymuno uno i wneud hynny, os gellir profi y gellid sicrhau arbedion maint. Mae gwthio ymlaen â chynlluniau llawn risg i uno heb eu hystyried na'u costio yn gam yn ôl.

18:11

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Ers cychwyn y broses gan Lywodraeth Cymru o ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus, mae Plaid Cymru wedi galw yn gyson i hyn gynnwys yr angen i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn. Er i gomisiwn Williams edrych ar hyn, mae'n deg i ddweud bod pawb yn derbyn taw ymylol oedd y mater yma i waith ac argymhellion Williams. Felly, mae'n flwyddyn olaf y Llywodraeth yma, ac ni fydd ad-drefnu, hyd yn oed o lywodraeth leol yn unig, yn nhymor y Llywodraeth yma. Map yn unig rŷm ni wedi ei gael gan y Llywodraeth, gyda'r flaenoriaeth, felly, ar diriogaeth yn hytrach na swyddogaeth.

Since the start of the process established by the Welsh Government to reorganise public services, Plaid Cymru has consistently called on this to include the need to integrate health and social care services fully. Although the Williams commission looked at this, it's fair to say that everyone accepts that this issue was peripheral to the work and recommendations of Williams. So, it's the last year of this Government, and there will be no reorganisation, even of local government alone, during this Government's term. We've had only a map from the Government, with the priority, therefore, on geography rather than function.

18:12

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

The Member wrote to me recently with an interesting proposal for local government reform in her own region. When did she stop supporting that proposal and start supporting this new Plaid Cymru proposal?

Ysgrifennodd yr Aelod ataf yn ddiweddar gydag argymhelliad diddorol ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn ei rhanbarth ei hun. Pa bryd y rhoddodd hi'r gorau i gefnogi'r cynnig hwnnw a dechrau cefnogi cynnig newydd Plaid Cymru?

18:12

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I still completely support the idea of a revised Dyfed model, and I'm extremely disappointed that you chose to ignore my letter to you, Minister.

Rwy'n dal yn gwbl gefnogol i'r syniad o fodel Dyfed diwygiedig, ac rwy'n hynod o siomedig eich bod wedi dewis anwybyddu fy llythyr atoch, Weinidog.

Felly, gan taw mater yw hyn bellach i Lywodraeth nesaf Cymru, mae Plaid Cymru yn dal i gredu bod angen edrych i integreiddio'r gwasanaeth iechyd a gofal yn llawn, a gwneud hynny law yn llaw ag ad-drefnu llywodraeth leol. Mae Leanne Wood eisoes wedi amlinellu ein bwriad ni gyda llywodraeth leol, sef i gadw 22 awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau lleol, a'u cynllunio ar lefel rhanbarthol drwy awdurdodau cyfun rhanbarthol. Ar yr union un ôl troed rhanbarthol, fe ddylid hefyd edrych i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Therefore, as this is now an issue for the next Welsh Government, Plaid Cymru continues to believe that we need to seek to integrate health and care services fully, and to do that along with local government reorganisation. Leanne Wood has already outlined our intention in terms of local government, namely to retain 22 local authorities to provide local services, and to plan those on a regional level through regional combined authorities. On exactly the same regional footprint, we should also look to integrate health and social care services.

Fe ofynnwyd cwestiynau digon teg gan Peter Black ynghynt ynglŷn â beth yn union oedd manylion Plaid Cymru ar hyn. Rwy'n credu bod yna ddau opsiwn realistig i Lywodraeth nesaf Cymru i edrych arnyn nhw. Y cyntaf yw y byddai proses ffurfiol, statudol o weithredu ar y cyd rhwng awdurdodau cyfun a'r byrddau iechyd sy'n bodoli ar hyn o bryd, i gydgynllunio ac i gydgyllido yn ffurfiol. Dyna'r opsiwn hawsaf i'w weithredu, ac ni fyddai'n golygu, wrth gwrs, uniad ffurfiol sefydliadol llawn.

Peter Black asked some pretty fair questions as to what exactly the Plaid Cymru detail was on this. I think there are two realistic options for the next Welsh Government to consider. The first is that there should be a formal statutory process of collaboration between combined authorities and the existing health boards, to plan jointly and to jointly fund on a formal basis. That is the simplest option to implement, and, of course, that wouldn't mean a formal full institutional merger.

Os caf i gario ymlaen jest i gyflwyno'r ail opsiwn arall, sy'n opsiwn mwy radical a mwy heriol, byddwn i'n dweud. Yr opsiwn hwnnw fyddai i edrych o ddifri ar waredu'r saith bwrdd iechyd presennol a rhoi cyfrifoldeb uniongyrchol am y gwasanaethau integredig i'r awdurdodau cyfun rhanbarthol. Fe ellid wedyn ddarparu strwythur cenedlaethol, sy'n uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru, i reoli a chynllunio rhwydwaith o ysbytai acíwt ac arbenigol yng Nghymru. Fe fyddai'r gwasanaeth ysbytai yn cael ei ddelifro'n lleol ond yn cael ei gynllunio yn genedlaethol, am y tro cyntaf ers creu'r Cynulliad Cenedlaethol yma. Ni fyddai angen saith bwrdd iechyd yn y model yna.

If I could just continue to present the second option, which is a more radical and more challenging option, I would say. That option would be to look in earnest at abolishing the seven current health boards and to place direct responsibility for the integrated services on the regional combined authorities. Then, a national structure could be provided, which is directly accountable to the Welsh Government, to manage and plan a network of acute and specialist hospitals in Wales. The hospital service would be delivered locally but would be planned on a national level, for the first time since the establishment of this National Assembly. There would be no need for seven health boards in that model.

Un fantais arall, wrth gwrs, o hyn yw i wahanu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer iechyd sylfaenol oddi wrth y gyllideb ar gyfer iechyd acíwt, ac fe fuom ni'n trafod yr union fater yma y bore yma yn y pwyllgor iechyd, lle mae yna gonsyrn, wrth gwrs, fod cyllideb y sector iechyd acíwt wastad yn llyncu oddi ar gyllideb y sector sylfaenol. Felly, o ran y gwasanaethau iechyd a gofal integredig, byddai'r strwythur yna o dan yr awdurdodau cyfun, ac fe ellid creu, o dan yr awdurdodau cyfun hynny, bwrdd neu bwyllgor penodol i gynllunio a rheoli gwaith y gwasanaethau integredig. Rwy'n derbyn y cwestiwn, wrth gwrs, na ddylai pawb sy'n rheoli fod, efallai, yn gynghorwyr etholedig yn y strwythur yna, ac fe fyddai angen edrych i apwyntio pobl gydag arbenigedd iechyd i'r model yna.

One other advantage of this, of course, is to separate the budget for primary healthcare from the budget for acute healthcare, and we discussed this very issue this morning in the health committee, where there is concern, of course, that the acute sector's budget always draws from the primary care budget. In terms of integrated health and care services, that structure would be under the combined authorities, and, under those combined authorities, a specific board or committee could be created to plan and manage the integrated services. I accept the point, of course, that not everyone who is in management positions should be elected councillors within those structures, and we would need to look to appoint specialists in the field of health into that model.

Felly, mae gennym ni gynlluniau real, radical a heriol, byddwn i'n ei ddweud, ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru. Rydym wedi bod yn trafod yn y Siambr yma yr angen—y dymuniad—i integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd am y cyfnod hir rwyf i wedi bod yma, ac yn gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf yma. Mae Plaid Cymru nawr o ddifri eisiau nid yn unig ein bod ni'n trafod a siarad am hyn ond bod Llywodraeth nesaf Cymru yn gweithredu ar hyn.

So, we do have very real, radical and challenging proposals, I would say, for the next Welsh Government. We have been discussing in this Chamber the need and the aspiration to integrate health and social care services for the long period of time that I've spent here, and have done so increasingly over the past few years. Plaid Cymru now in earnest wants not only to discuss this, but to the see the next Welsh Government taking action on this.

18:16

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This motion is the first I can remember to discuss public services as a whole, as opposed to dealing with individual service areas. Every Wednesday, one silo after another has been discussed without looking at public services as a whole, so I really welcome this.

Y cynnig hwn yw'r cyntaf y gallaf ei gofio sy'n trafod gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, yn hytrach nag ymdrin â meysydd gwasanaeth unigol. Bob dydd Mercher, trafodwyd un seilo ar ôl y llall heb edrych ar wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, felly rwy'n croesawu hyn yn fawr.

For local government, the challenge is to be large enough to effectively run the major services, but be small enough to be local rather than creating a layer of sub-regional government. When I first became active in politics in the late 1970s, the structure of public services in Wales was very different to those we have today. County councils were the basic building blocks of local services, and further education colleges, polytechnics, institutes of higher education and the fire service were all directly run by county councils, whilst services such as probation and health were organised on a county basis with direct county councillor involvement. Beneath the county council were district councils, which provided the bulk of local services, including almost all public housing. Some county councils actually organised themselves—their services—on a district basis; Mid Glamorgan was a classic example of that.

Ar gyfer llywodraeth leol, yr her yw bod yn ddigon mawr i gynnal y prif wasanaethau yn effeithiol, ond yn ddigon bach i fod yn lleol yn hytrach na chreu haen o lywodraeth is-ranbarthol. Pan ddeuthum yn weithgar mewn gwleidyddiaeth am y tro cyntaf ar ddiwedd y 1970au, roedd strwythur y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wahanol iawn i'r rhai sydd gennym heddiw. Cynghorau sir oedd blociau adeiladu sylfaenol y gwasanaethau lleol, ac roedd colegau addysg bellach, colegau polytechnig, sefydliadau addysg uwch a'r gwasanaeth tân oll yn cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan y cynghorau sir, a gwasanaethau megis y gwasanaeth prawf ac iechyd yn cael eu trefnu ar sail sirol gydag ymwneud uniongyrchol cynghorwyr sir. O dan y cyngor sir, roedd y cynghorau dosbarth yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau lleol, gan gynnwys tai cyhoeddus bron yn gyfan gwbl. Roedd rhai cynghorau sir mewn gwirionedd yn trefnu eu hunain—eu gwasanaethau—ar sail dosbarth; roedd Morgannwg Ganol yn enghraifft glasurol o hynny.

Today, we have a far more fragmented public service, with 22 unitary authorities replacing the former county and district councils, with a proposal to reduce that number back to the original eight or nine—a case of back to the future. Further education colleges, institutes of higher education and the polytechnics of Wales have all left local authority control. The fire service is currently split across Wales into three, and these are controlled by local authority joint boards. Can I say that, for those living in Swansea, being in the same joint board as Machynlleth doesn't work for us?

Heddiw, mae gennym wasanaethau cyhoeddus llawer mwy tameidiog, gyda 22 o awdurdodau unedol yn lle'r hen gynghorau sir a dosbarth, gydag argymhelliad i leihau'r nifer yn ôl i'r wyth neu naw gwreiddiol—achos o fynd yn ôl i'r dyfodol. Mae'r colegau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a cholegau polytechnig Cymru i gyd wedi mynd o reolaeth awdurdodau lleol. Mae'r gwasanaeth tân yn cael ei rannu'n dair rhan ar hyn o bryd ar draws Cymru, ac mae'r rhain yn cael eu rheoli gan gyd-fyrddau'r awdurdodau lleol. A gaf fi ddweud, ar ran y bobl sy'n byw yn Abertawe, nid yw bod yn yr un cyd-fwrdd â Machynlleth yn gweithio i ni?

18:18

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It doesn't work for Machynlleth.

Nid yw'n gweithio i Fachynlleth.

18:18

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Probably not. [Laughter.] Health has new boundaries, different to the old county boundaries, while probation has been made an all-Wales service and has, unfortunately, been privatised.

Nac ydy, mae'n siŵr. [Chwerthin.] Mae i iechyd ffiniau newydd, yn wahanol i'r hen ffiniau sirol, ac mae'r gwasanaeth prawf wedi cael ei wneud yn wasanaeth ar gyfer Cymru gyfan ac yn anffodus, wedi ei breifateiddio.

Within Wales, we have a different organisational structure for every service: 22 unitary authorities—soon to be eight; seven health boards; four police authorities; four education consortia; three fire authorities; and one ambulance board. In Swansea and Neath Port Talbot, we are in the same area as Bridgend for health and policing, but with Carmarthenshire for fire and the education consortium. As we look, Janus-like, east and west for different services, I'm not convinced this produces any coherence across service delivery.

Yng Nghymru, mae gennym strwythur trefniadol gwahanol ar gyfer pob gwasanaeth: 22 awdurdod unedol—i fod yn wyth yn fuan; saith bwrdd iechyd; pedwar awdurdod heddlu; pedwar consortiwm addysg; tri awdurdod tân; ac un bwrdd ambiwlans. Yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, rydym yn yr un ardal â Phen-y-bont ar Ogwr ar gyfer iechyd a phlismona, ond gyda Sir Gaerfyrddin ar gyfer tân a'r consortiwm addysg. Wrth i ni edrych, megis Ianws, i'r dwyrain a'r gorllewin am wahanol wasanaethau, nid wyf yn argyhoeddedig fod hyn yn creu unrhyw gydlyniad wrth ddarparu gwasanaethau.

For those who believe that big is beautiful, then the ambulance service is, obviously, the ideal size. Does size matter? Does Betsi Cadwaladr, the largest health board in Wales, provide the best health service, or Cardiff council the best council services? As someone who serves on the Betsi Cadwaladr scrutiny committee, known to others as the Public Accounts Committee, I'm well aware of the organisational difficulties arising from large organisations, with health boards covering primary and secondary care.

Ar gyfer y rhai sy'n credu bod y mawr yn hardd, yna mae'r gwasanaeth ambiwlans, yn amlwg, o'r maint delfrydol. A yw maint yn bwysig? Ai Betsi Cadwaladr, y bwrdd iechyd mwyaf yng Nghymru, sy'n darparu'r gwasanaeth iechyd gorau, neu ai cyngor Caerdydd sy'n darparu'r gwasanaethau cyngor gorau? Fel rhywun sy'n gwasanaethu ar bwyllgor craffu Betsi Cadwaladr, sy'n gyfarwydd i eraill fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rwy'n ymwybodol iawn o'r anawsterau trefniadol sy'n codi o sefydliadau mawr, gyda byrddau iechyd yn gyfrifol am ofal sylfaenol ac eilaidd.

I listened very intently to what was said by Elin Jones and Leanne Wood. I wanted to make an interruption, because I wanted to ask them—. They both used the term 'social care', and some other people have used the term 'social services'. Are those terms being used interchangeably, or do you actually mean the social care part of social services?

Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedwyd gan Elin Jones a Leanne Wood. Roeddwn i eisiau ymyrryd, oherwydd rwyf am ofyn iddynt—. Defnyddiodd y ddwy y term 'gofal cymdeithasol', ac mae rhai pobl eraill wedi defnyddio'r term 'gwasanaethau cymdeithasol'. A yw'r termau hyn yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, neu a ydych mewn gwirionedd yn golygu y rhan gofal cymdeithasol o'r gwasanaethau cymdeithasol?

18:19

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Interchangeably.

Yn gyfnewidiol.

18:19

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I disagree with you if you're using it interchangeably, because I think there's an argument for social care working much closer with health, but I don't consider that children's services and adoption would actually fit very well within the health model. So, can I ask you to reconsider that, if you're putting this forward, because there is a big difference between dealing with elderly social care on the one hand and certain children's services and children's homes on the other? So, can I hope, as this is the start of your debate on this, that you give that some very serious consideration?

Wel, rwy'n anghytuno â chi os ydych yn eu defnyddio'n gyfnewidiol, gan fy mod yn credu bod dadl dros sicrhau bod gofal cymdeithasol yn gweithio'n llawer agosach gydag iechyd, ond nid wyf o'r farn y byddai gwasanaethau plant a mabwysiadu mewn gwirionedd yn gweddu'n dda iawn i'r model iechyd. Felly, a gaf fi ofyn i chi ailystyried hynny, os ydych yn bwrw ymlaen â hyn, oherwydd mae gwahaniaeth mawr rhwng ymdrin â gofal cymdeithasol i'r henoed ar y naill law a gwasanaethau plant penodol a chartrefi plant ar y llaw arall? Felly, a gaf fi obeithio, gan mai dechrau eich dadl yw hyn, y byddwch yn ystyried hynny o ddifrif?

The 1945 Labour Government created a ministry for health and housing, as they identified the health effects of bad housing. What we need is an informed debate about how public services should be run, an end to the silo mentality, and a move towards more coherent and seamless services. As a start, what if we were to actually recreate county councils and use them again as the basic service-delivery model across all public services provided by the Welsh Government? I'm not necessarily saying everything would be done on a county basis, but the counties could be joined together for certain services, or they could be split up, but everything would be held coherently within those counties. As I said earlier, for those of us living in Swansea who either look east or west, depending on which service it is, it doesn't make a lot of sense.

Creodd Llywodraeth Lafur 1945 weinyddiaeth ar gyfer iechyd a thai, wrth iddynt nodi effeithiau tai gwael ar iechyd. Yr hyn rydym ei angen yw dadl wybodus ynglŷn â sut y dylid rhedeg gwasanaethau cyhoeddus, diwedd ar y meddylfryd seilo, a symud tuag at wasanaethau mwy cydlynol a di-dor. I ddechrau, beth pe baem yn ail-greu cynghorau sir ac yn eu defnyddio eto fel y model darparu gwasanaeth sylfaenol ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan Lywodraeth Cymru? Nid wyf o reidrwydd yn dweud y byddai popeth yn cael ei wneud ar sail sirol, ond gallai'r siroedd ymuno â'i gilydd ar gyfer rhai gwasanaethau, neu gallent gael eu gwahanu, ond byddai popeth yn cael ei gynnwys yn gydlynol yn y siroedd hynny. Fel y dywedais yn gynharach, i'r rhai ohonom sy'n byw yn Abertawe sydd naill ai'n edrych i'r gorllewin neu i'r dwyrain, yn dibynnu ar y gwasanaeth, nid yw'n gwneud llawer o synnwyr.

The final point that I would like to make is that putting everything under one overarching organisation head does not necessarily produce joint working or collaboration. The one thing I can perhaps think of is health: you put primary and secondary care together, but I'm not convinced that putting them under the same roof and with the same chief executive has actually brought any closer working together than existed before. Really, if you're going to get things to work together, you need to organise it at a much lower level and get things integrated—

Y pwynt olaf yr hoffwn ei wneud yw nad yw rhoi popeth o dan un pennaeth sefydliad trosfwaol o reidrwydd yn arwain at gydweithio neu gydweithredu. Yr un peth y gallaf feddwl amdano efallai yw iechyd: rydych yn rhoi gofal sylfaenol ac eilaidd at ei gilydd, ond nid wyf yn argyhoeddedig fod eu rhoi o dan yr un to, gyda'r un prif weithredwr, wedi arwain at gydweithio agosach nag a fodolai cyn hynny. Mewn gwirionedd, os ydych yn mynd i gael pethau i weithio gyda'i gilydd, mae angen i chi ei drefnu ar lefel lawer is ac integreiddio pethau—

18:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish quickly now please.

Gorffennwch yn gyflym yn awr os gwelwch yn dda.

18:21

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—rather than just putting it on the top and thinking everything will be sorted out.

[Yn parhau.]—yn hytrach na'i roi ar y brig a meddwl y bydd popeth yn cael ei ddatrys.

18:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was very quickly finished. [Laughter.]

Cafodd ei orffen yn gyflym iawn. [Chwerthin.]

18:21 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe geisiaf fod mor ufudd â Mike Hedges yn ei ymateb i'ch awgrymiadau chi. A gaf i groesawu yn fawr iawn gyfraniad Mike Hedges i'r drafodaeth yma y prynhawn yma? Roeddwn yn meddwl ei fod yn gyfraniad adeiladol iawn, ac mae e wedi codi un cwestiwn y mae angen i ni edrych arno fe yn ddifrifol iawn, a byddwn i'n gobeithio mai dyma sy'n mynd i ddigwydd nawr, oherwydd y realiti ydy ein bod ni wedi gwastraffu 18 mis o amser ers cyhoeddi adroddiad Williams ar ddechrau 2014. Nid oes trafodaeth wedi bod, rydym wedi bod yn disgwyl i'r Llywodraeth gyflwyno ei map a'i bwriadau, ac rwyf unwaith eto yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi gwneud hynny y prynhawn yma, ond hefyd mae e wedi gosod amserlen, oherwydd y mae'n glir nawr fod yna drafodaeth i ddigwydd rhwng nawr a'r etholiad y flwyddyn nesaf, fod yna ymgynghoriad llawn, ffurfiol yn mynd i ddigwydd, fod angen i bleidiau gwleidyddol i osod yn glir iawn yn eu maniffestos ar gyfer etholwyr a'r etholiad y flwyddyn nesaf beth yw eu bwriadau nhw. Hwyrach bod hynny'n her i'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr, achos nid oes gennym y syniad lleiaf beth maen nhw'n bwriadu ei wneud o ran y cynlluniau yma i ddarparu gwasanaethau.

I'll try to be as obedient as Mike Hedges in responding to your suggestions. Could I welcome greatly the contribution of Mike Hedges to this debate this afternoon? I thought that it was a very constructive contribution, and he has raised one question that we need to look at in earnest, and I would hope that this is what is going to happen now, because the reality is that we have wasted 18 months since the publication of the Williams report at the start of 2014. There has been no discussion, we have been waiting for the Government to present its map and its intentions, and once again I welcome the fact that the Minister has done that this afternoon, but he has also set a timetable, because it's clear now that there will be a discussion between now and the election next year, that there will be a full, formal consultation, that the political parties will need to set out very clearly in their manifestos for the electorate and the elections next year what their intentions are. Maybe that is a challenge for the Liberal Democrats and the Conservatives, because we don't have the faintest idea what they intend to do in terms of these plans to provide services.

18:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Could you just, for the benefit of the elucidation of the Chamber, confirm that you agree with Elin Jones's proposal for the reconfiguration of local government in west Wales?

Er mwyn ei wneud yn glir i'r Siambr, a wnewch chi gadarnhau eich bod yn cytuno â chynnig Elin Jones ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol yng ngorllewin Cymru?

18:23 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall bod Elin Jones wedi ysgrifennu mewn rôl bersonol atoch chi, Weinidog, gyda'i hawgrymiadau. [Chwerthin.] Nid oedd yr awgrymiadau hynny yn dod oddi wrth lefarydd Plaid Cymru ar lywodraeth leol. Gallaf eich sicrhau chi o hynny. Ond rwy'n siŵr eich bod chi wedi rhoi pob sylw ac wedi ystyried yn fanwl yr awgrymiadau roedd Elin Jones wedi eu cyflwyno, ac wedi eu gwrthod nhw.

I understand that Elin Jones has written in a personal capacity to you, Minister, with her suggestions. [Laughter.] Those suggestions didn't come from the Plaid Cymru spokesperson on local government. I can assure you of that. But I'm sure that you have given due attention to, and considered in great detail, the suggestions that Elin Jones presented, and rejected them.

Mae'n bwysig bod y drafodaeth yma yn digwydd hefyd yn ystod y cyfnod yma, oherwydd mae gennym ni nawr yr amserlen. Gadewch i ni gael y drafodaeth yma am syniadau sydd yn codi o'r lle yma, a gadewch i ni gael syniadau adeiladol, creadigol—hwyrach am y tro cyntaf yng nghyd-destun y drafodaeth yma. Mae yna lawer iawn o ddadlau negyddol wedi bodoli ac mae'n parhau, i raddau, yn y Siambr. Rŷm ni wedi ei dderbyn e y prynhawn yma gan y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol: dim un syniad creadigol rhyngddyn nhw, ond yn beirniadu pawb a phob un arall. Mae'r cyfnod yma yn gyfnod ar gyfer cael trafodaeth i weld beth sydd gan y pleidiau i gynnig i etholwyr Cymru. Wedi hynny, fe wneith etholwyr Cymru benderfyniad, oherwydd nid oes dim byd yn fwy pwysig i etholwyr Cymru na'r gwasanaethau yma sy'n cael eu darparu ar eu cyfer nhw. Byddwn yn ategu'n llwyr yr hyn a ddywedodd Leanne Wood ac Elin Jones: ni allwn gael y drafodaeth honno heb ystyried iechyd ac agweddau ar ofal cymdeithasol, ac rwy'n derbyn y pwynt y mae Mike Hedges yn ei wneud am hynny. Mae'n bwysig bod pobl oddi allan nawr yn gweld y drafodaeth yma yn digwydd o fewn y lle yma, oherwydd mae yna feirniadaeth wedi bod o'r hyn sydd wedi digwydd; mae yna sôn am systemau yn cael eu gorfodi ar bobl a diffyg ymgynghori a diffyg gwrando ar bobol. Wel, gadewch i bobl Cymru weld bod yna drafodaeth ddeallus yn digwydd yn y lle yma nawr.

It is important that this discussion is happening during this period, because we do now have a timetable. Let's have this discussion about the ideas that arise from this place, and let us have constructive and creative ideas—maybe for the first time in the context of this discussion. There has been a lot of negative debate and it has continued, to a certain extent, in the Chamber. We have had it this afternoon from the Conservatives and the Liberal Democrats: not one creative idea between them, but criticising everything and everyone. This is a period to have a discussion to see what the parties have to offer to the constituents of Wales. Then, those constituents will make a decision, because there is nothing more important to the constituents of Wales than these services that are delivered for them. I would endorse what Leanne Wood and Elin Jones said: we cannot have that discussion without considering health and aspects of social care, and I accept the point that Mike Hedges made on that. It is important that people outwith now see this discussion happening within this place, because there has been criticism of what's happened; there has been talk about systems being forced on people and a lack of consultation and a lack of listening. Well, let the people of Wales see that there is now an intelligent debate happening here.

O'n rhan ni ym Mhlaid Cymru, yr hyn rŷm ni'n ei ddweud yn glir iawn ydy: mae'n rhaid dechrau gyda'r gwasanaethau a sut rych chi'n darparu y gwasanaethau hynny. Yn hytrach na thynnu llinellau ar fapiau neu bendroni ynglŷn ag union faint o awdurdodau sydd eu heisiau, unwaith rŷch chi'n gweld sut mae'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu, yna fe fydd yr is-strwythurau yn cwympo i'w lle yn naturiol. A gadewch i ni gofio ein bod ni wedi bod yn y fan hyn o'r blaen. Fe ddechreuon ni gydag wyth cyngor sir, ac roedd pobl yn credu ac yn dadlau bod democratiaeth leol yn cael ei cholli, fod yna ddiffyg o ran atebolrwydd, a'u bod nhw'n rhy bell o'r canolfannau lle roedd y penderfyniadau yn cael eu gwneud. Wedyn, fe symudom ni i 22 o awdurdodau, ac wedyn roedd pobl yn dadlau bod gennym ni ormod o gynghorau sir a'u bod nhw'n rhy fach i ddarparu'r gwasanaethau a oedd eu hangen. Felly, mae angen i ni gael ystyriaeth lawer iawn fwy cyfrifol o'r holl broses yma o gyflenwi gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru—ac i raddau helaeth, rŷm ni'n sôn am ddarparu gwasanaethau, mewn llawer cyd-destun, i bobl mwyaf bregus Cymru—a sicrhau ein bod ni'n gwneud hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon. Os gallwn ni ddod i gytundeb ar hynny yn drawsbleidiol, gorau i gyd, ond gadewch chi i ni fod yn onest: ni allwn anwybyddu'r angen i wynebu y cwestiwn mawr yma.

For Plaid Cymru, what we are saying very clearly is: we have to start with the services and how you deliver those services. Rather than drawing lines on a map or cogitating on how many authorities we need, once you see how those services should be provided, then the sub-structures will fall into place naturally. And let's remember that we have been here before. We started with eight county councils, and people thought and argued that local democracy was being lost, that there was a deficit in terms of accountability, and that they were too far away from the centres where decisions were being made. Then, we moved to 22 authorities, and then people argued that we had too many county councils and that they were too small to provide the services that were needed. So, we need to have a full and responsible consideration of this whole process of delivering essential services to the people of Wales—and, to a certain extent, we're talking about providing services, in many contexts, to the most vulnerable people in Wales—and ensure that we do so in the most effective and efficient way possible. If we can come to an agreement on that on a cross-party basis, then better still, but let us be honest: we cannot ignore the need to face up to this major question.

18:27 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Without wishing to bring a note of optimism to this debate this afternoon, it might well be that we are struggling somewhere towards the place where we need to be in the debate on the future of local government. I agree very much with the last two speakers, both Rhodri Glyn Thomas and Mike Hedges, and the points that they made in terms of form and structure and how we take this debate forward. And they're both right in saying as well that it is not sufficient for the opposition party here to simply say, 'We want to retain control of two local authority areas in Wales, and we have no other proposals to make', and for the Liberal Democrats to say, 'We don't have any proposals on the future of local government, except that it must contain an element of STV'. Neither of those are sufficient or adequate contributions to this debate, but at least they have the advantage of being plainly and completely transparent.

Heb ddymuno cyflwyno nodyn o obaith i'r ddadl y prynhawn yma, mae'n ddigon posibl ein bod yn ymdrechu i gyrraedd y man lle y mae angen i ni fod yn y drafodaeth ar ddyfodol llywodraeth leol. Cytunaf yn llwyr â'r ddau siaradwr olaf, Rhodri Glyn Thomas a Mike Hedges, a'r pwyntiau a wnaethant o ran ffurf a strwythur a sut rydym yn symud y ddadl hon yn ei blaen. Ac maent ill dau'n iawn i ddweud hefyd nad yw'n ddigon i'r wrthblaid yma ddweud yn syml, 'Rydym yn awyddus i gadw rheolaeth ar ddwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru, ac nid oes gennym unrhyw gynigion eraill i'w gwneud', ac i'r Democratiaid Rhyddfrydol ddweud, 'Nid oes gennym unrhyw gynigion ar ddyfodol llywodraeth leol, ar wahân i'r ffaith fod yn rhaid iddo gynnwys elfen o bleidlais sengl drosglwyddadwy'. Nid yw'r un o'r rheini'n ddigonol neu'n gyfraniadau digonol i'r ddadl hon, ond o leiaf mae ganddynt y fantais o fod yn eglur ac yn gwbl dryloyw.

In terms of where we are today, I feel that the process that we are now undertaking and the debate that we are having is a good one. It hasn't always been so, and I did welcome very much the White Paper that was issued earlier this year and some of the ideas it contained. I felt that chapter 1 outlined entirely where we've been in local government and the lessons that we need to learn. It's a rare thing to read a Government paper that both reads so well and is written in such an intelligent way. It outlined a series of choices available to us. Some of us will not agree with all of those choices, and some of us will understand that those choices are there in order to create the framework in which a debate can take place. I was delighted to find this morning that the Minister will not be progressing with term limits, for example. It is right and proper that we debate how we take forward and stimulate people to stand for election for local government, and to make local democracy a more competitive part of our democratic experience. But, those are not proposals I would have wished to have seen taken forward, and I welcome the fact that the Minister has not taken those forward today.

O ran ein sefyllfa heddiw, rwy'n teimlo bod y broses rydym yn ei dilyn yn awr a'r drafodaeth rydym yn ei chael yn un dda. Nid yw wedi bod felly bob amser, ac fe groesewais y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn fawr a rhai o'r syniadau ynddo. Roeddwn yn teimlo bod pennod 1 yn amlinellu'n llwyr lle rydym wedi bod mewn llywodraeth leol a'r gwersi y mae angen i ni eu dysgu. Peth prin yw darllen papur Llywodraeth sy'n darllen mor dda ac wedi ei ysgrifennu mewn ffordd mor ddeallus. Roedd yn amlinellu cyfres o ddewisiadau sydd ar gael i ni. Ni fydd rhai ohonom yn cytuno â phob un o'r dewisiadau hynny, a bydd rhai ohonom yn deall bod y dewisiadau hynny yno er mwyn creu fframwaith ar gyfer cynnal dadl. Roeddwn wrth fy modd o weld y bore yma na fydd y Gweinidog yn bwrw ymlaen â therfynau ar hyd gwasanaeth, er enghraifft. Mae'n iawn ac yn briodol ein bod yn trafod sut rydym yn bwrw ymlaen ac yn ysgogi pobl i sefyll etholiad ar gyfer llywodraeth leol, ac i wneud democratiaeth leol yn rhan fwy cystadleuol o'n profiad democrataidd. Ond nid yw'r rheini'n gynigion y byddwn wedi dymuno eu gweld yn cael eu bwrw ymlaen, a chroesawaf y ffaith nad yw'r Gweinidog wedi bwrw ymlaen â hwy heddiw.

I also welcome the energy and the determination that we've seen injected into this debate. I welcome the fact that we are having probably a richer debate on local government today than we've had at any point in our past. It isn't simply a debate about, 'This is my power base and I want that protected against yours'. It isn't that zero-sum option; it's a rich debate on the way forward for local government. And when I say 'local government', I don't simply mean local administration of national policy; I mean local government that takes place as an integral part of our national democracy, and we need to be able to do that.

Rwyf hefyd yn croesawu'r egni a'r penderfyniad rydym wedi'i weld yn cael ei chwistrellu i mewn i'r ddadl hon. Croesawaf y ffaith ein bod yn cael dadl gyfoethocach ar lywodraeth leol heddiw yn ôl pob tebyg nag a gawsom ar unrhyw adeg yn ein gorffennol. Nid dadl syml yw hi am, 'Dyma fy sylfaen grym ac rwyf am ei gwarchod rhag eich un chi'. Nid yw'n opsiwn sero-swm; mae'n ddadl gyfoethog ar y ffordd ymlaen i lywodraeth leol. A phan ddywedaf 'llywodraeth leol', nid gweinyddiaeth leol o bolisi cenedlaethol yn syml rwy'n ei olygu; rwy'n golygu llywodraeth leol sy'n digwydd fel rhan annatod o'n democratiaeth genedlaethol, ac mae angen i ni allu gwneud hynny.

I welcome the ambition and the vision that we've seen. I welcome the fact that we are having this positive debate about how we ensure that local government is empowered and strengthened through and as a part of this process. It's been said already this afternoon that devolution shouldn't simply be a matter of dragging powers down the M4 to sit here in Cardiff bay, that it has to be a process that extends across the whole of our country as well. I want to see us having a debate about how we can, for example, use the general power of competence to create units of governance that do far more than today's local government does, and see how we can empower local government, passing more powers locally to be exercised by local people. I want to see powerful and innovative units of governance with the strength and the capacity to deliver excellence across a range of service areas in a sustainable and engaging way.

Rwy'n croesawu'r uchelgais a'r weledigaeth rydym wedi eu gweld. Croesawaf y ffaith ein bod yn cael y ddadl gadarnhaol hon ynghylch y modd rydym yn sicrhau bod llywodraeth leol yn cael ei grymuso a'i chryfhau drwy'r broses hon ac fel rhan ohoni. Mae wedi cael ei ddweud eisoes y prynhawn yma nad mater syml o lusgo pwerau i lawr yr M4 yma i fae Caerdydd ddylai datganoli fod. Rhaid iddi fod yn broses sy'n ymestyn ar hyd a lled ein gwlad hefyd. Rwyf am ein gweld yn cael dadl ynglŷn â sut y gallwn ddefnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol, er enghraifft, i greu unedau llywodraethu sy'n gwneud llawer mwy nag y mae llywodraeth leol heddiw yn ei wneud, a gweld sut y gallwn rymuso llywodraeth leol, gan drosglwyddo mwy o bwerau yn lleol i'w harfer gan bobl leol. Rwyf am weld unedau llywodraethu pwerus ac arloesol gyda'r cryfder a'r gallu i sicrhau rhagoriaeth ar draws ystod o feysydd gwasanaeth mewn modd cynaliadwy a deniadol.

What's already been said by both Mike German and by Rhodri Glyn Thomas—[Interruption.] Oh, sorry. Mike Hedges. That's a terrible thing to say, isn't it? [Laughter.]

Mae'r hyn sydd eisoes wedi'i ddweud gan Mike German a Rhodri Glyn Thomas—[Torri ar draws.] O, sori. Mike Hedges. Mae hynny'n beth ofnadwy i'w ddweud, onid yw? [Chwerthin.]

18:31 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

He didn't do Swansea. [Laughter.]

Nid oedd yn ymwneud ag Abertawe. [Chwerthin.]

18:31 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, he didn't, and he didn't say very much positive, either.

Nac oedd, ac ni ddywedodd lawer iawn a oedd yn gadarnhaol chwaith.

But the structures and the architecture should follow the debate on purpose and function. The Minister was very clear, speaking in answer to one of my questions earlier this afternoon, on education, about some of the deficiencies we've already seen in some local authorities, including my own. What we must not do is simply to allow some of those issues to cloud our thinking about the future. Structures and the architecture of the maps will follow the debate on purpose and function. Let us have that debate today. We will disagree about some matters, and I've made my disagreements on the element of the map published this morning very clear, and I will continue to argue for an alternative for south-east Wales. That is the nature of this debate. But what I hope will characterise this debate is a commitment—

Ond dylai'r strwythurau a'r bensaernïaeth ddilyn y ddadl ar bwrpas a swyddogaeth. Roedd y Gweinidog yn glir iawn, wrth ateb un o fy nghwestiynau yn gynharach y prynhawn yma ar addysg, am rai o'r diffygion rydym wedi eu gweld eisoes mewn rhai awdurdodau lleol, gan gynnwys fy un i. Yr hyn y mae'n rhaid i ni beidio â'i wneud yw caniatáu i rai o'r materion hynny gymylu ein ffordd o feddwl am y dyfodol. Bydd strwythurau a phensaernïaeth y mapiau yn dilyn y ddadl ar bwrpas a swyddogaeth. Gadewch i ni gael y ddadl honno heddiw. Byddwn yn anghytuno ynghylch rhai materion, ac rwyf wedi gwneud fy anghytundeb ag elfen o'r map a gyhoeddwyd y bore yma yn glir iawn, a byddaf yn parhau i ddadlau am ddewis arall ar gyfer de-ddwyrain Cymru. Dyna natur y ddadl hon. Ond yr hyn rwy'n gobeithio ei weld yn nodweddu'r ddadl hon yw ymrwymiad—

18:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

18:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—to ensuring that we have active, vigorous local government delivering excellence in services across the face of our country.

[Yn parhau.]—i sicrhau bod gennym lywodraeth leol egnïol a gweithredol yn sicrhau gwasanaethau rhagorol ar draws ein gwlad.

18:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rhun ap Iorwerth.

Rhun ap Iorwerth.

18:32 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae yna yn sicr, rwy'n meddwl, gytundeb bod yna ormod o'r drafodaeth hyd at fan hyn wedi bod ar fapiau. Nid wy'n rhoi'r bai ar y Llywodraeth am hynny mewn difrif, achos mae'n anochel bron iawn fod unrhyw drafodaeth ynglŷn ag ad-drefnu llywodraeth leol yn mynd i droi at ba fap fydd yna ar gyfer y drefn newydd. Ond mae'n bwysig rŵan ein bod ni'n canolbwyntio ar yr hyn sydd o sylwedd yn y ddadl yma, ac rydym ni'n sôn, mewn difrif, am ddau beth: ie, delifro gwasanaethau, ond hefyd ddemocratiaeth.

Thank you, Deputy Presiding Officer. There is certainly, I think, consensus that too much of the debate up to this point has been on the maps. I don't blame the Government for that, really, because it's virtually inevitable that any debate regarding the reorganisation of local government will turn to which map will exist in any new regime. But it is important now that we concentrate on the issues of substance in this debate, and we're talking, really, about two things: yes, the delivery of services, but also democracy.

O ran gwasanaethau, mae'r cynnig heddiw yma'n galw am sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu darparu yn effeithlon ac effeithiol, ac wrth gwrs mewn llawer o ffyrdd, mewn llawer o lefydd, mae gwasanaethau—llawer ohonyn nhw—yn cael eu delifro yn effeithlon ac yn effeithiol ar hyn o bryd. Felly, un feirniadaeth amlwg iawn o'r cynlluniau a gafodd eu cyhoeddi gan y Llywodraeth yn gynharach heddiw oedd eu bod nhw, yn ogystal â chael gwared, efallai, ar yr hyn nad oedd yn gweithio, gan roi dalen lân inni ail-greu ac ailddiffinio llywodraeth leol o'r newydd, hefyd yn dileu y pethau hynny sydd yn gweithio yn dda. Mae unrhyw un sy'n awgrymu bod llywodraeth leol yng Nghymru yn methu ym mhob ardal, ym mhob haen, ym mhob maes yn anghywir, ac yn annheg ar y rheini sy'n gwasanaethu mewn llywodraeth leol, mewn llawer o lefydd.

In terms of services, the motion today calls for an assurance that public services in Wales will be provided efficiently and effectively, and of course in many ways, in many areas, many services are delivered efficiently and effectively at present. Therefore, one very obvious criticism of the plans that were published by the Government earlier today is that, in addition to actually abolishing what wasn't working and giving us a clean slate to recreate and redefine local government anew, they also get rid of those things that are working well. Anyone who's suggesting that local government in Wales is failing in all areas, at all levels, and in all fields is wrong, and that is unfair for those who serve in local government in many areas.

Beth bynnag, dechrau o'r dechrau mewn difrif ydy cynnig y Llywodraeth, ond a oes yna ateb amgen? Yn ein tyb ni, fel plaid, oes, mae yna. Mae yna'n sicr ormod o gwestiynau sydd heb eu hateb hyd yma inni allu meddwl am gefnogi y cynlluniau a gafodd eu cyflwyno yn gynharach heddiw.

Anyway, starting anew is really what the Government's proposal constitutes, but is there an alternative solution? In our opinion, as a party, yes, there is. There are certainly too many unanswered questions to date for us to consider supporting the proposals presented earlier today.

Rydych chi wedi clywed gan rai o'm cyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru yn fan hyn am ein cynnig amgen ni o ran sut i ddelifro gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon drwy ffurfioli cydweithio drwy awdurdodau cyfun rhanbarthol. Mae'r Llywodraeth Lafur, mewn difrif, wedi methu yn ei hymdrechion i annog cydweithio. Mae yna fygythiadau wedi bod ar adegau. Mae yna enghreifftiau o gydweithio wedi digwydd, ond lle mae o wedi digwydd, mae o wedi tueddu i ddigwydd mewn ffordd ad hoc, yn amrywio o un rhan o Gymru i ran arall o Gymru yn ei effeithlonrwydd ac ati.

You have heard from some of my Plaid Cymru colleagues about our alternative proposal, in terms of how to deliver effective and efficient services by formalising collaboration through combined regional authorities. The Labour Government, if truth be told, has failed in its attempts to encourage collaboration. There have been threats, at times. There have been examples of collaboration, but where it has occurred, it has tended to happen in an ad hoc manner, varying from one part of Wales to another part of Wales in its efficiency and so on.

Beth rydym ni eisiau ei weld ydy'r cydweithio yma yn digwydd yn gyson ar draws rhanbarthau clir, efo cyfrifoldebau clir yn cael eu rhannu, a hynny o fewn ffiniau lle y gallem ni wedyn symud, yn wirioneddol, fel yr ydym wedi clywed yn barod, at integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol, ac ati.

What we want to see is this collaboration happening consistently across clearly defined regions, with clear responsibilities being shared, and that happening within boundaries where we could then move in earnest, as we have already heard, towards the integration of health and social care and so on.

Gadewch i mi droi at yr elfen o ddemocratiaeth leol yma, sydd yn bwysig. Fel y dywedais i'n gynharach heddiw yma, mae'n hawdd iawn i rywun feirniadu plwyfoldeb, ond ni ddylem gymysgu plwyfoldeb â'r egwyddor o ddemocratiaeth leol, a'r angen i gadw llywodraeth yn agos at y bobl er mwyn annog rhyngweithio rhwng y bobl a'r rheini sy'n eu cynrychioli nhw, ac er mwyn sicrhau perthnasedd haenau gwahanol o lywodraeth i'r boblogaeth y maen nhw'n ei gwasanaethu.

Let me turn to the element of local democracy here, which is important. As I said earlier today here, it's very easy for someone to criticise parochialism, but we shouldn't confuse parochialism with the principle of local democracy, and the need to keep government close to the people in order to encourage interaction between the people and those representing them, and in order to ensure the relevance of the various levels of government to the population that they serve.

Mi soniaf i am Ynys Môn—a gwnewch chi ddim synnu am hynny—achos rwy'n meddwl bod Ynys Môn yn rhoi darlun arbennig o glir i ni. Am ei bod hi'n ynys, mae'r ffiniau yn glir iawn. Rwy'n reit siŵr y buasai pobl mewn rhannau eraill o Gymru yn dweud eu bod hwythau yn teimlo'r un ymdeimlad o berthyn i ardal sydd gan Ynys Môn, ond rwy'n meddwl bod y ddadl dros ddemocratiaeth leol ym Môn, rywsut, yn glir. Mae'n uned weinyddol ers saith canrif. Mae'n un o'r siroedd gwreiddiol yng Nghymru—y 13 ohonyn nhw—ac mae'n uned ddemocrataidd glir, yn ddi-dor ers cenedlaethau lawer, ac mae'n cael ei thrysori. Mi wnaeth y Gweinidog ymateb yn gynharach heddiw i'r hyn y dywedais i drwy ddweud, mewn difrif, fod record cyngor Môn, ar gyfnodau, mewn blynyddoedd diweddar yn ddadl dros ddileu'r cyngor, ond, nac ydy; nid ynddo fo'i hun.

I will mention Ynys Môn—that will come as no surprise to you—because I do think that Ynys Môn gives us a very clear picture. As it's an island, the boundaries are very clearly defined. I'm quite sure that people in other parts of Wales would say that they have that same sense of belonging that's the case in Ynys Môn, but I do think that the argument for local democracy in Ynys Môn, somehow, is clear. It's been an administrative unit for seven centuries. It's one of the original counties in Wales—the 13 of them—and it's a clearly defined democratic unit, uninterrupted for many generations, and it is cherished. The Minister responded earlier today to what I said by saying, if truth be told, that the record of Anglesey council, on occasion, in recent years is an argument for abolishing the council, but it's not; not in and of itself.

Tra bod llawer ohonom ni wedi cywilyddio, heb os, ynglŷn â rhai o'r agweddau a gweithgareddau o fewn yr awdurdod, yn mynd yn ôl rai blynyddoedd, dadl ydy hynny dros fynd i'r afael â'r problemau hynny, fel y gwnaeth y Llywodraeth. Mae'r cwestiwn o atebolrwydd lleol, dywedwn ni, yn fater ar wahân. Mi ddywedodd y Gweinidog hefyd y gallai is-gyngor Môn ddod allan o'r drefniadaeth newydd y mae o yn ei argymell--ac mae o'n rhywbeth rwyf i wedi'i argymell fy hun yn y gorffennol. Ond os cael is-gyngor, neu'r posibilrwydd o gael is-gyngor, pam ddim rhoi i'r cyngor hwnnw statws llawn, ond o fewn cyfundrefn awdurdodau cyfun rhanbarthol, fel yr ydym yn ei argymell, fel plaid?

While many of us have, without doubt, felt ashamed by some of the attitudes and activities that have gone on within the authority, going back over a period of years, that's only an argument for tackling those very problems, as the Government did. The question of local accountability, I would say, is a separate issue. The Minister also said that a sub-council could emerge on Anglesey from the new regime that he is recommending—and it's something that I have recommended myself in the past. But if you are to have a sub-council, or the possibility of having a sub-council, why not give that council full status, but within a regime of regional combined authorities, as we recommend as a party?

Felly, rwy'n ddiolchgar i'r Llywodraeth, i gloi, o'r diwedd am fod wedi cyhoeddi eu cynlluniau nhw. Fel y dywedodd y Gweinidog--

Therefore, I am grateful to the Government for having finally published their plans. As the Minister said—

18:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

Finish, please.

18:37

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Yn parhau.]—mae'r drafodaeth yn parhau. Mae yna ddewisiadau amgen o'n blaenau ni, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau efo'r sgwrs yma'n genedlaethol, ac, wrth gwrs, yn Ynys Môn.

[Continues.]—the discussion continues. There are alternative options before us, and I look forward to continuing this conversation nationally, and, of course, in Anglesey.

18:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

18:38

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, I welcome the opportunity to speak in this debate, and I'm grateful that Plaid Cymru have brought forward their own proposals. Let me just remind the Chamber that we set out our vision for local government in February in our White Paper, 'Power to Local People'. It's a vision based on activist councils engaged in delivering modern, accessible, high-quality public services with and for their local communities, acting as community leaders and agents of change, with leadership focusing on excellence and councils committed to looking outwards at their place-shaping role. My colleague, Alun Davies, made some very positive comments, of course, just now, about that White Paper.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon, ac rwy'n ddiolchgar fod Plaid Cymru wedi cyflwyno eu cynigion eu hunain. Gadewch i mi atgoffa'r Siambr ein bod wedi nodi ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol ym mis Chwefror yn ein Papur Gwyn, 'Grym i Bobl Leol'. Mae'n weledigaeth sy'n seiliedig ar gynghorau gweithgar yn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern a hygyrch o ansawdd uchel gyda, ac ar gyfer eu cymunedau lleol, gan weithredu fel arweinwyr cymunedol a chyfryngau newid, gydag arweinyddiaeth sy'n canolbwyntio ar ragoriaeth a chynghorau wedi ymrwymo i edrych tuag allan ar eu rôl yn llunio lle. Mae fy nghyd-Aelod, Alun Davies, newydd wneud rhai sylwadau cadarnhaol iawn am y Papur Gwyn hwnnw wrth gwrs.

The consultation on that White Paper was one of the most successful and productive ever held by the Welsh Government: over 700 consultation responses and 3,000 responses to the opinion poll, with all local authorities in Wales and 200 community councils taking part in that. I think that demonstrated the interest in what was being proposed.

Mae'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus a chynhyrchiol a gynhaliwyd erioed gan Lywodraeth Cymru: dros 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad a 3,000 o ymatebion i'r arolwg barn, gyda'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru a 200 o gynghorau cymuned yn cymryd rhan ynddo. Credaf fod hynny'n dangos y diddordeb yn yr hyn a oedd yn cael ei gynnig.

Today, as a number of colleagues have said, we have published our view, as a Government, of the appropriate configuration of local government in Wales, and I think it is right that we, as a Government, should lead and make it clear what our desired view is. But I accept, of course, there will be an ongoing debate on the map, given that there can be no legislation before 2016. We have been clear—and I believe the majority of people in Wales agree with us—that continuing with 22 local authorities is unsustainable. I actually believe the majority of people in this Chamber agree with that, as well. There will need to be reform of local government in the next Assembly.

Heddiw, fel y mae nifer o gyd-Aelodau wedi dweud, rydym wedi cyhoeddi ein barn fel Llywodraeth ynglŷn â chyfluniad priodol llywodraeth leol yng Nghymru, ac rwy'n meddwl ei bod yn iawn i ni, fel Llywodraeth, arwain a gwneud yn glir beth yw ein barn ynglŷn â'r hyn a ddymunwn. Ond rwy'n derbyn, wrth gwrs, y bydd y ddadl yn parhau ynglŷn â'r map, o gofio na ellir cael unrhyw ddeddfwriaeth cyn 2016. Rydym wedi bod yn glir—ac rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl Cymru yn cytuno â ni—nad yw parhau gydag 22 o awdurdodau lleol yn gynaliadwy. Rwy 'n credu mewn gwirionedd fod y rhan fwyaf o'r bobl yn y Siambr hon yn cytuno â hynny hefyd. Bydd angen diwygio llywodraeth leol yn y Cynulliad nesaf.

Now, I think it's widely accepted myself that the status quo is not an option and that 22 local authorities in Wales is too many. We know that several of our councils are too small and financially unsustainable to carry on as they are, especially at a time of further and deeper cuts from UK Government. The current structure is failing to deliver quality services in every part of Wales, and we still have education services in special measures in several authorities in Wales. The current system is costing council tax payers millions on duplicated administrative services. As KPMG said last week, £151 million a year could be saved if all councils were as efficient as the best and adopted sector-leading practice. We cannot go on as we are.

Yn awr, rwy'n meddwl ei fod yn cael ei dderbyn yn eang nad yw'r status quo yn opsiwn a bod 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn ormod. Rydym yn gwybod bod nifer o'n cynghorau yn rhy fach ac anghynaladwy yn ariannol i allu parhau fel y maent, yn enwedig ar adeg o doriadau pellach a dyfnach gan Lywodraeth y DU. Mae'r strwythur presennol yn methu darparu gwasanaethau o ansawdd ym mhob rhan o Gymru, ac mae'n dal i fod gennym wasanaethau addysg o dan weithdrefn mesurau arbennig mewn nifer o awdurdodau yng Nghymru. Mae'r system bresennol yn costio miliynau i bobl sy'n talu'r dreth gyngor ar ddyblygu gwasanaethau gweinyddol. Fel y dywedodd KPMG yr wythnos diwethaf, gellid arbed £151 miliwn y flwyddyn pe bai pob cyngor mor effeithlon â'r arfer gorau a'r arfer a fabwysiadwyd sy'n arwain y sector. Ni allwn barhau fel hyn.

We have to understand what Plaid Cymru is actually saying. Peter Black's already, I think, gone into some detail on this. The proposals from Plaid Cymru today mean retaining 22 local authorities. That means retaining 22 leaders, 22 chief executives, and 200 cabinet members for a population of just over 3 million people. It means creating an additional tier of regional government on top of between five and seven regional authorities. That is an increase on the four combined authorities proposed, indeed, by the Welsh Local Government Association last year. I find it hard to say how this would lead to simpler, clearer or more accountable local government. Our proposals, on the other hand, will reduce the cost of politics and administration in local government, and the complexity that goes hand in hand with the current arrangements.

Mae'n rhaid i ni ddeall beth y mae Plaid Cymru yn ei ddweud mewn gwirionedd. Manylodd Peter Black ar hyn eisoes, rwy'n meddwl. Byddai cynigion Plaid Cymru heddiw yn golygu cadw 22 o awdurdodau lleol. Mae hynny'n golygu cadw 22 o arweinwyr, 22 prif weithredwr, a 200 o aelodau cabinet ar gyfer poblogaeth o ychydig dros 3 miliwn o bobl. Mae'n golygu creu haen ychwanegol o lywodraeth ranbarthol ar ben rhwng pump a saith awdurdod rhanbarthol. Mae hynny'n gynnydd ar y pedwar awdurdod cyfun a argymhellwyd yn wir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y llynedd. Rwy'n ei chael hi'n anodd dweud sut y byddai hyn yn arwain at lywodraeth leol sy'n fwy syml, yn fwy clir neu'n fwy atebol. Mae ein cynigion, ar y llaw arall, yn lleihau cost gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol, a'r cymhlethdod sy'n mynd law yn llaw â'r trefniadau presennol.

18:41 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, will you take an intervention?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:41 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course.

Wrth gwrs.

18:41

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you accept that a well-respected Welsh academic has said today that merely reducing the numbers of local authorities will not, in itself, create efficiencies, and that you have to look at those services and how those services are delivered in order to ensure those efficiencies? Will you accept that, Minister, stop talking about numbers, and look at how services are delivered in Wales?

A wnewch chi dderbyn bod academydd uchel ei barch yng Nghymru wedi dweud heddiw na fydd lleihau nifer yr awdurdodau lleol yn unig ynddo'i hun yn creu arbedion effeithlonrwydd, a bod yn rhaid i chi edrych ar y gwasanaethau hynny a sut y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd o'r fath? A wnewch chi dderbyn hynny, Weinidog, rhoi'r gorau i siarad am niferoedd, ac edrych ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu yng Nghymru?

18:41

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I absolutely accept that. That's why I published the report from KPMG, which I commissioned, last week. I suggest that the Member reads that because it goes into some detail as to how efficiencies could be made in advance of merger. What's more, of course, the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy report, produced for the WLGA on the costs of merger, makes suggestions as to how savings would result post merger.

Rwy'n derbyn hynny'n llwyr. Dyna pam y cyhoeddais yr adroddiad gan KPMG yr wythnos diwethaf, a gomisiynwyd gennyf. Awgrymaf fod yr Aelod yn ei ddarllen gan ei fod yn manylu rhywfaint ynglŷn â sut y gellid gwneud arbedion effeithlonrwydd cyn uno. Yn fwy na hynny, wrth gwrs, mae adroddiad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, a gynhyrchwyd ar gyfer y Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gostau uno, yn awgrymu sut y byddai arbedion yn cael eu sicrhau ar ôl uno.

In respect of what Plaid Cymru says about community councils, it's worth pointing out that community councils already cover approximately 96 per cent of Wales's land surface, including 70 per cent of its population. Neither mergers nor clustering would extend the coverage of community councils; they would just change how the ones that currently exist operate. As part of our White Paper, we're already proposing a review of community councils with a view to achieving fewer larger community councils, thereby increasing their capacity and the capability of the sector to contribute to the delivery of local public services.

O ran yr hyn y mae Plaid Cymru yn ei ddweud am gynghorau cymuned, mae'n werth nodi bod cynghorau cymuned eisoes yn weithredol dros oddeutu 96 y cant o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys 70 y cant o'i phoblogaeth. Ni fyddai uno na chlystyru yn ymestyn cyrhaeddiad cynghorau cymuned; ni fyddent ond yn newid y modd y mae'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd yn gweithredu. Fel rhan o'n Papur Gwyn, rydym eisoes yn argymell adolygiad o gynghorau cymuned gyda golwg ar gyflawni llai o gynghorau cymuned mwy o faint, a thrwy hynny gynyddu eu capasiti a gallu'r sector i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Now, one might ask why it is that Plaid Cymru has come forward with a proposal to retain the 22 current local authorities and build on top of that a new tier. I take the very simple view that it's been as hard for them to get consensus in their party as it's been for us, sometimes, to get consensus in our party. [Interruption.] We know that Elin Jones doesn't agree with Rhodri Glyn, that Elin Jones doesn't agree with Ellen ap Gwynn, that Ellen ap Gwynn doesn't agree with Dyfed Edwards, and that there is a difficulty in their party in achieving agreement.

Yn awr, efallai y gellid gofyn pam y mae Plaid Cymru wedi cyflwyno cynnig i gadw'r 22 o awdurdodau lleol cyfredol ac adeiladu haen newydd ar ben hynny. Rwyf o'r farn syml iawn ei bod wedi bod yr un mor anodd iddynt gael consensws yn eu plaid ag y mae wedi bod i ni, weithiau, i gael consensws yn ein plaid ni. [Torri ar draws.] Rydym yn gwybod nad yw Elin Jones yn cytuno â Rhodri Glyn, nad yw Elin Jones yn cytuno ag Ellen ap Gwynn, nad yw Ellen ap Gwynn yn cytuno â Dyfed Edwards, a bod eu plaid yn cael anhawster i sicrhau cytundeb.

18:43

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful. Just for the benefit of the Minister and anybody else listening, I still favour the policies of my great mentor, Cledwyn Hughes: one region for the north.

Rwy'n ddiolchgar iawn. Er budd y Gweinidog ac unrhyw un arall sy'n gwrando, rwy'n dal i ffafrio polisïau fy mentor mawr, Cledwyn Hughes: un rhanbarth ar gyfer y gogledd.

18:43

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And it's also clear that Dafydd Elis-Thomas doesn't agree with anybody in his party. [Laughter.] Can I just remind you of what was said two weeks ago in this Chamber by the acting Plaid Cymru local government spokesperson, during local government questions? He said—Lindsay Whittle, this was—

Ac mae hefyd yn glir nad yw Dafydd Elis-Thomas yn cytuno ag unrhyw un yn ei blaid. [Chwerthin.] A gaf fi eich atgoffa o'r hyn a ddywedwyd bythefnos yn ôl yn y Siambr hon gan lefarydd dros dro Plaid Cymru ar Lywodraeth Leol yn ystod y cwestiynau llywodraeth leol? Dywedodd Lindsay Whittle hyn:

'local government reform does land us with this golden opportunity to take social services out of the hands of local authorities'.

'mae diwygio llywodraeth leol yn rhoi cyfle gwych i ni fynd â gwasanaethau cymdeithasol o ddwylo awdurdodau lleol'.

So, is that the real agenda that's going on here? Well, I think we'll be interested to know. Again, perhaps there's been a change in Lindsay Whittle's position between the time when he said that and the time that Plaid Cymru's front bench published its proposals in the last few days.

Felly, ai dyna'r agenda go iawn sy'n digwydd fan hyn? Wel, rwy'n meddwl y bydd gennym ddiddordeb i wybod. Unwaith eto, efallai fod safbwynt Lindsay Whittle wedi newid rhwng yr amser y dywedodd hynny a'r amser y cyhoeddodd mainc flaen Plaid Cymru ei chynigion yn ystod y dyddiau diwethaf.

Look, I'm glad that a debate has been started. There are serious issues that we've got to engage with, but we will go to the people of Wales next year with a platform that says we will reduce the cost of politics and administration in local government. We will not defend a system of 22 local government leaders, 22 local government chief executives, and 200 cabinet members across Wales. We believe in reform. We will campaign to reduce the cost of politics and administration in local government.

Edrychwch, rwy'n falch fod dadl wedi dechrau. Mae yna faterion difrifol sy'n rhaid i ni eu trafod, ond byddwn yn mynd at bobl Cymru y flwyddyn nesaf gyda sylfaen sy'n dweud y byddwn yn lleihau cost gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol. Ni fyddwn yn amddiffyn system o 22 o arweinwyr llywodraeth leol, 22 prif weithredwr llywodraeth leol, a 200 o aelodau cabinet ar draws Cymru. Rydym yn credu mewn diwygio. Byddwn yn ymgyrchu i leihau cost gwleidyddiaeth a gweinyddiaeth mewn llywodraeth leol.

18:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Simon Thomas to reply.

Simon Thomas i ymateb.

18:44 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. On the whole, this has indeed been a very constructive debate that has focused not only on maps but on public service delivery and how we achieve accountability, more effective delivery, and more efficient delivery. And, for that, I think most of the credit goes to Plaid Cymru and, to be frank, the Labour Party as well, because both parties have at least produced a vision of what they would like to achieve for local government. On a day when, to be frank, Wrexham council has said that it now owns a solar farm and is producing renewable energy, it reminds us that local government can still innovate, can still be a force for change, and can still bring people together to work for their communities. And I think that is the spirit in which we should approach this debate going forward. We do now have two different views of how we could achieve effectiveness in local service delivery, one from ourselves, as Plaid Cymru, and one from the Labour Party. I think it will be for the people of Wales now to have that debate in the next year and to decide to elect the next Government of Wales that will come to a conclusion around these. I look forward, because we certainly didn't hear it today, to more constructive ideas from both the Liberal Democrats and the Conservatives around how they would configure local services—not so much a map, but simply: what are your principles, what are your ideas, how would you deliver the efficiencies and effectiveness that you talk about?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ar y cyfan, mae hon yn wir wedi bod yn ddadl adeiladol iawn sydd wedi canolbwyntio nid yn unig ar fapiau ond ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a sut rydym yn sicrhau atebolrwydd, yn cyflawni'n fwy effeithiol, ac yn darparu'n fwy effeithlon. Ac o ran hynny, rwy'n meddwl bod y rhan fwyaf o'r clod yn mynd i Blaid Cymru ac i fod yn onest, y Blaid Lafur yn ogystal, gan fod y ddwy blaid o leiaf wedi cynhyrchu gweledigaeth o'r hyn yr hoffent ei gyflawni ar gyfer llywodraeth leol. A bod yn onest, ar ddiwrnod pan fo Cyngor Wrecsam wedi dweud ei fod yn awr yn berchen ar fferm solar ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae'n ein hatgoffa y gall llywodraeth leol ddal i arloesi, dal i fod yn rym dros newid a dal i ddod â phobl at ei gilydd i weithio dros eu cymunedau. Ac rwy'n credu mai yn yr ysbryd hwnnw y dylem edrych ar y ddadl hon yn y dyfodol. Bellach mae gennym ddwy farn wahanol ar sut y gallem gyflawni effeithiolrwydd o ran darparu gwasanaethau lleol, un gennym ni ym Mhlaid Cymru ac un gan y Blaid Lafur. Rwy'n meddwl mai lle pobl Cymru yn awr yw cael y ddadl hon yn ystod y flwyddyn nesaf a phenderfynu ethol Llywodraeth nesaf Cymru a fydd yn dod i gasgliad ynglŷn â hyn. Edrychaf ymlaen at gael syniadau mwy adeiladol gan y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr, gan na chlywsom hynny heddiw yn bendant, ynghylch sut y byddent yn cyflunio gwasanaethau lleol—nid yn gymaint map, ond yn syml: beth yw eich egwyddorion, beth yw eich syniadau, sut y byddech yn cyflwyno'r arbedion effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y siaradwch amdanynt?

I was struck by Peter Black's remarks, which seemed to suggest that we can't have public services designed by politicians. I thought that was precisely what politicians were supposed to do, and I hadn't realised the Liberal Democrats had retreated that much from politics over the last couple of months. [Laughter.]

Cefais fy nharo gan sylwadau Peter Black, a oedd i'w weld yn awgrymu na allwn gael gwasanaethau cyhoeddus wedi'u cynllunio gan wleidyddion. Roeddwn i'n meddwl mai dyna'n union beth oedd gwleidyddion i fod i'w wneud, ac nid oeddwn wedi sylweddoli bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi encilio cymaint o wleidyddiaeth dros y misoedd diwethaf. [Chwerthin.]

18:46

## Peter Black Bywgraffiad Biography

I actually said 'structures' defined by politicians, but I think the important point in terms of your earlier thing is that the Liberal Democrats do have a vision, we do support fewer authorities, but we believe that it should be based on natural communities and that the boundary commission should be doing that from an independent point of view.

Mewn gwirionedd dywedais 'strwythurau' a ddiffiniwyd gan wleidyddion, ond rwy'n meddwl mai'r pwynt pwysig o ran eich peth cynharach yw bod gan y Democratiaid Rhyddfrydol weledigaeth, rydym yn cefnogi llai o awdurdodau, ond rydym yn credu y dylai gael ei seilio ar gymunedau naturiol ac y dylai'r comisiwn ffiniau wneud hynny o safbwynt annibynnol.

Senedd.tv Fideo Video

18:47

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

I am struggling to know what a natural community can be in that context. From time immemorial, it's been imposed boundaries that Wales has seen—from the Norman imposition to the Conservative imposition more recently, I'm afraid. So, unless you're going back to something of the Marches, I'm not quite sure what you have. I still don't see the vision; it's a Cheshire cat of a vision—a faint smile of STV on the face of local government. It doesn't seem anything more than that.

Rwy'n ei chael yn anodd gwybod beth y gall cymuned naturiol fod yn y cyd-destun hwnnw. Ers cyn cof, ffiniau a orfodwyd arni y mae Cymru wedi eu gweld—o orfodaeth Normanaidd i orfodaeth y Ceidwadwyr yn fwy diweddar, mae arnaf ofn. Felly, oni bai eich bod yn mynd yn ôl i gyfnod y Gororau, nid wyf yn hollol siŵr beth sydd gennych mewn golwg. Rwy'n dal heb weld y weledigaeth; mae'n gath Caer o weledigaeth—gwên wan y bleidlais sengl drosglwyddadwy ar wyneb llywodraeth leol. Nid yw'n ymddangos ei bod yn fwy na hynny.

I thought Janet Finch-Saunders's speech was designed for another debate, perhaps the usual debate about council tax that we have from the Conservatives here. It was, I think, unfortunate that the Conservatives seemed to set their face against the principle of combined authorities, which, of course, is what they're pursuing in England, and, whatever else you think of our proposals here today, we have to bear in mind that both the Conservatives and, indeed, the Labour Party in England actively seek and promote combined authorities. Indeed, Ed Miliband, of fame, stated last year:

Roeddwn i'n meddwl bod araith Janet Finch-Saunders wedi ei chynllunio ar gyfer dadl arall, y ddadl arferol am y dreth gyngor a gawn gan y Ceidwadwyr yma efallai. Roedd hi'n anffodus, rwy'n credu, fod y Ceidwadwyr i'w gweld yn gwrthwynebu'r egwyddor o awdurdodau cyfun, sef yr hyn y maent yn mynd ar ei drywydd yn Lloegr wrth gwrs, a beth bynnag arall yw eich barn am ein cynigion yma heddiw, rhaid i ni gadw mewn cof fod y Ceidwadwyr ac yn wir, y Blaid Lafur yn Lloegr, yn mynd ati i hyrwyddo awdurdodau cyfun. Yn wir, dywedodd Ed Miliband hyn y llynedd:

'I know the next Labour government'—

I know the next Labour government'—

well, we didn't have that, it's true—

wel, ni chawsom honno, mae'n wir—

'cannot solve every problem by pulling levers in Whitehall.'

'cannot solve every problem by pulling levers in Whitehall.'

If I have a critique of what the Labour Government has done today it is that it smacks still of pulling the levers from the centre in order to achieve change at the local level. What Plaid Cymru has tried to do is build from—

Os oes gennyf feirniadaeth o'r hyn y mae'r Llywodraeth Lafur wedi'i wneud heddiw, mae'n ymwneud â'r ffaith fod hyn yn dal i'w weld fel tynnu liferi o'r canol er mwyn sicrhau newid ar y lefel leol. Yr hyn y mae Plaid Cymru wedi ceisio ei wneud yw adeiladu o—

Senedd.tv Fideo Video

18:48

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv Fideo Video

18:48

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

[Continues.]—the present situation up. Yes, we do retain 22 local authorities—. In a second, if I may. Yes, we do retain 22 local authorities in our model, but those regional functions that are already in existence—and there are a myriad, a myriad, and Mike Hedges reminded us of some of these different bodies, looking east and west like Janus from Swansea—will be aligned better under our proposals. But I'll see what the lead Conservatives have to say.

[Yn parhau.]—o'r sefyllfa bresennol i fyny. Ydym, rydym yn cadw 22 awdurdod lleol—. Mewn eiliad, os caf. Ydym, rydym yn cadw 22 awdurdod lleol yn ein model, ond bydd y swyddogaethau rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli—ac mae nifer dirifedi ohonynt yn wir, ac atgoffwyd ni gan Mike Hedges am rai o'r cyrff gwahanol hyn, sy'n edrych i'r dwyrain a'r gorllewin fel Ianws o Abertawe—yn cael eu halinio'n well o dan ein cynigion ni. Ond caf weld beth sydd gan y Ceidwadwyr arweiniol i'w ddweud.

Senedd.tv Fideo Video

18:48

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way. We certainly have not said that we are against combined authorities, and I've been pretty vocal in actually supporting a combined authority in south-east Wales. There obviously needs to be a strong business case made, but, at the end of this, this is about value for money for the taxpayer and I think we both agree that the Government's policy does not show it can do that.

Diolch i chi am ildio. Yn sicr nid ydym wedi dweud ein bod yn erbyn awdurdodau cyfun, ac rwyf wedi bod yn eithaf uchel fy nghloch mewn gwirionedd yn cefnogi awdurdod cyfun yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'n amlwg fod angen llunio achos busnes cryf, ond yn y pen draw, mae'n ymwneud â gwerth am arian i'r trethdalwr a chredaf ein bod ein dau'n cytuno nad yw polisi'r Llywodraeth yn dangos y gall wneud hynny.

18:49

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I am grateful to Nick Ramsay for giving an alternative view of the Conservatives. And, obviously, not only do Labour and Plaid Cymru have our own internal differences, but the Conservatives have as well—and I'm sure there are five different views on local authority reorganisation amongst the Liberal Democrats. What we have at the moment—let's be clear about it—although we pretend that we have 22 local authorities in Wales and a national Government, is a plethora of regional delivery that is now taking place. Whether it's economic development, education, health and social care—which is actually regionally organised and commissioned at the moment—tourism, strategic planning, waste, aspects of human resources policy, IT procurement or back-office functions, these are all done now at a regional level between authorities and in conjunction and collaboration with authorities. What we don't have are the structures that hold those to account, and what we don't have are the structures that make that regional level answerable to the people who voted in their 22 local authorities.

Wel, diolch i Nick Ramsay am roi golwg amgen gan y Ceidwadwyr. Ac yn amlwg, nid yn unig fod gan Lafur a Phlaid Cymru ein gwahaniaethau mewnol ein hunain, ond mae gan y Ceidwadwyr wahaniaethau o'r fath hefyd—ac rwy'n siŵr fod pum safbwynt gwahanol ar ad-drefnu awdurdodau lleol ymysg y Democratiaid Rhyddfrydol. Gadewch i ni fod yn glir ar hyn—er ein bod yn esgus bod gennym 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Llywodraeth genedlaethol, yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw amryw o ddulliau cyflawni rhanbarthol ar waith. Boed yn ddatblygu economaidd, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol—sy'n cael ei drefnu a'i gomisiynu'n rhanbarthol ar hyn o bryd mewn gwirionedd—twristiaeth, cynllunio strategol, gwastraff, agweddau ar bolisi adnoddau dynol, caffael TG neu gefn swyddfa, caiff y rhain i gyd eu gwneud yn awr ar lefel ranbarthol rhwng awdurdodau ac ar y cyd a thrwy gydweithredu ag awdurdodau. Yr hyn nad oes gennym yw'r strwythurau sy'n dwyn y rhain i gyfrif, a'r hyn nad oes gennym yw'r strwythurau sy'n gwneud y lefel ranbarthol honno'n atebol i'r bobl a bleidleisiodd yn eu 22 awdurdod lleol.

To be fair, the Government tries to address that—that's what their map tries to address—by reforming and going back to a county council-style model. What Plaid Cymru tries to do, in our proposal, is to address that in a different way by utilising the developments of regional government that are already happening under a national Government post-devolution here in Wales, but doing that in a way that becomes coherent, integrated and becomes more answerable to local people. We don't do it by directly electing those authorities—that's true—but we do do it by insisting that those authorities should be elected directly by the full council of the constituent authorities, and we would consult on the appropriate scrutiny process for that. So, we believe that we can have efficiency and cost savings through regional collaboration, through this regional working, and also in advance of any reform. As the Minister reminded us, he himself has commissioned work on this that shows the nature of those savings as around £151 million or so.

I fod yn deg, mae'r Llywodraeth yn ceisio mynd i'r afael â hynny—dyna y mae eu map yn ceisio mynd i'r afael ag ef—drwy ddiwygio a dychwelyd at fodel tebyg i'r cyngor sir. Yr hyn y mae Plaid Cymru yn ceisio ei wneud, yn ein cynnig, yw mynd i'r afael â hynny mewn ffordd wahanol drwy ddefnyddio datblygiadau llywodraeth ranbarthol sydd eisoes yn digwydd o dan Lywodraeth genedlaethol yn sgil datganoli yma yng Nghymru, ond gan wneud hynny mewn ffordd sy'n dod yn gydlynol, yn integredig ac yn fwy atebol i bobl leol. Nid ydym yn gwneud hynny drwy ethol yr awdurdodau hynny'n uniongyrchol—mae hynny'n wir—ond rydym yn ei wneud drwy fynnu y dylai'r awdurdodau gael eu hethol yn uniongyrchol gan gyngor llawn yr awdurdodau cyfansoddol, a byddem yn ymgynghori ar y broses graffu briodol ar gyfer hynny. Felly, rydym yn credu y gallwn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ar gostau drwy gydweithredu'n rhanbarthol, drwy weithio rhanbarthol yn y ffordd hon, a hefyd cyn unrhyw ddiwygio. Fel y cawsom ein hatgoffa gan y Gweinidog, mae ef ei hun wedi comisiynu gwaith ar hyn sy'n dangos bod yr arbedion hynny oddeutu £151 miliwn.

I think Elin Jones was very good in responding to some of the questions—quite rightly—that have been raised, both by Peter Black and Mike Hedges, around the integration of health and social care; those are perfectly reasonable questions. I'm on the radical side of the question that Elin herself posed; I do believe that these new regional combined authorities could become responsible for social care and health together, and we could deal with things like children's services at the 22 authority level, but there is an opportunity to have that debate and to be clear around how that can democratise some of the issues that we've had around health. It's certainly, I would say, in reference to the previous debate we had, a far better and more natural fit than trying to introduce some kind of commissioner process into this, and I think this is a better fit for local government and goes better with the grain of local government development in Wales.

Rwy'n meddwl bod Elin Jones wedi ymateb yn dda iawn i rai o'r cwestiynau—yn gwbl briodol—a godwyd gan Peter Black a Mike Hedges, mewn perthynas ag integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol; maent yn gwestiynau cwbl resymol. Rwyf ar ochr radical y cwestiwn a ofynnodd Elin ei hun; rwy'n credu y gallai'r awdurdodau cyfun rhanbarthol newydd ddod yn gyfrifol am ofal cymdeithasol ac iechyd gyda'i gilydd, a gallem ymdrin â phethau megis gwasanaethau plant ar lefel y 22 awdurdod, ond mae cyfle i gael y ddadl honno a bod yn glir ynglŷn â sut y gall hynny ddemocrateiddio rhai o'r problemau rydym wedi eu cael gydag iechyd. A chyfeirio at y ddadl flaenorol a gawsom, fe ddywedwn ei fod yn bendant yn gweddu'n llawer gwell ac yn fwy naturiol na cheisio cyflwyno rhyw fath o broses comisiynydd i mewn i hyn, ac rwy'n credu bod hyn yn gweddu'n well i lywodraeth leol ac yn cyd-daro'n well â datblygiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mike Hedges did remind us of some of the key things that local government had achieved in Wales, and that's why I wanted to start with the solar farm example, because it has been an innovator and it can be an innovator again. I think Leanne Wood, in particular, reminded us of how local—very much local—authorities, working together with the local community councils, could now, again, become some of the social innovators for new ideas within this proposal from Plaid Cymru.

Cawsom ein hatgoffa gan Mike Hedges o rai o'r pethau allweddol y mae llywodraeth leol wedi eu cyflawni yng Nghymru, a dyna pam roeddwn yn awyddus i ddechrau gyda'r enghraifft o fferm solar, gan fod llywodraeth leol wedi bod yn arloeswr a gall fod yn arloeswr eto. Rwy'n meddwl bod Leanne Wood, yn arbennig, wedi ein hatgoffa o'r modd y gall awdurdodau lleol—lleol, yn bendant—gan gydweithio unwaith eto â'r cynghorau cymuned lleol, ddod yn arloeswyr cymdeithasol dros syniadau newydd yn y cynnig hwn gan Blaid Cymru.

The Alun Davies who speaks in the Chamber must be a different Alun Davies to the one who tweets, but, nevertheless, I think his contribution was fairly positive as well, and, I think, more positive towards the Government than it was towards Plaid Cymru on this occasion. He is right, of course, that devolution is more than about a national level of devolution—it's also how we devolve power within Wales and share power within Wales. I think Rhun ap Iorwerth posed a very good question, because, if the present Labour proposals also envisage some kind of sub-government for Ynys Môn, Ceredigion or any other part of Wales, shouldn't it be better to build up from those constituent parts we already have, in the way that Plaid Cymru proposes, and bring together combined regional authorities?

Rhaid bod yr Alun Davies sy'n siarad yn y Siambr yn wahanol i'r Alun Davies sy'n trydar. Serch hynny, rwy'n meddwl bod ei gyfraniad yn eithaf cadarnhaol hefyd, ac yn fwy cadarnhaol tuag at y Llywodraeth nag at Blaid Cymru y tro hwn. Mae'n iawn, wrth gwrs, fod datganoli yn ymwneud â mwy na lefel genedlaethol o ddatganoli—mae hefyd yn ymwneud â sut rydym yn datganoli grym o fewn Cymru ac yn rhannu grym yng Nghymru. Rwy'n meddwl bod Rhun ap Iorwerth wedi gofyn cwestiwn da iawn, oherwydd os yw cynigion presennol Llafur hefyd yn rhagweld rhyw fath o is-lywodraeth ar gyfer Ynys Môn, Ceredigion neu unrhyw ran arall o Gymru, oni fyddai'n well ei hadeiladu o'r rhannau cyfansoddol sydd gennym eisoes yn y ffordd y mae Plaid Cymru yn ei chynnig, a dod ag awdurdodau rhanbarthol cyfunol at ei gilydd?

In effect, what Plaid Cymru says today is that we believe that this model will mean less upheaval for local authorities, it will keep local accountability, it will align regional development delivery, development and planning far better, it will allow us to address the long-standing concerns that Plaid Cymru have on health and social services integration, and it will allow us to unlock savings earlier. We have put forward our proposals. I don't believe they are—. Apart from mapping, they are not, in principle, very different to what the Labour Party is trying to achieve. We now have two clear visions of local government and local service delivery in Wales; we need four or five to have a proper debate and a proper decision after the next Assembly elections.

Mewn gwirionedd, yr hyn y mae Plaid Cymru yn ei ddweud heddiw yw ein bod yn credu y bydd y model hwn yn golygu llai o gynnwrf i awdurdodau lleol, bydd yn cadw atebolrwydd lleol, bydd yn alinio'r modd y caiff datblygu rhanbarthol ei gyflawni, ei ddatblygu a'i gynllunio yn well o lawer, bydd yn ein galluogi i fynd i'r afael â'r pryderon hirsefydlog sydd gan Blaid Cymru ynglŷn ag integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a bydd yn ein galluogi i sicrhau arbedion yn gynharach. Rydym wedi cyflwyno ein cynigion. Nid wyf yn credu eu bod yn—. Ar wahân i fapio, nid ydynt, mewn egwyddor, yn wahanol iawn i'r hyn y mae'r Blaid Lafur yn ceisio ei gyflawni. Erbyn hyn mae gennym ddwy weledigaeth glir ar gyfer llywodraeth leol a darparu gwasanaethau lleol yng Nghymru; mae arnom angen pedair neu bump i gael dadl briodol a phenderfyniad priodol ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad.

18:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

18:54

# 9. Cyfnod Pleidleisio

# 9. Voting Time

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We'll vote first on the first Welsh Conservatives' debate, the one on dementia care. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 39. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we will now vote on the amendments.

Byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddadl gyntaf y Ceidwadwyr Cymreig, yr un ar ofal dementia. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 9, Against 39, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5785

Result of the vote on motion NDM5785

18:54 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. There voted against one. Therefore amendment 1 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Pleidleisiodd 1 yn erbyn. Felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 1, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 1, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5785

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5785

18:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 48. There were no votes against. Therefore amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 48 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5785

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5785

18:55 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 48. There were no votes against. Therefore amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 48 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5785

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5785

18:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Cynnig NDM5785 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5785 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod dros 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia ac y rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu 31 y cant erbyn 2021.

1. Notes that there are over 45,000 people in Wales living with dementia and that by 2021 this is projected to increase by 31 per cent.

2. Yn cydnabod y cyllid newydd o ychydig dros £5.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau dementia yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

2. Acknowledges the new Welsh Government funding of just over £5.5 million for dementia services improvement in Wales, announced in recent weeks.

3. Yn cydnabod mesurau a weithredwyd gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn gofal dementia a'i wella.

3. Acknowledges measures implemented by the UK Government to invest in and improve dementia care.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i feysydd o arfer gorau o ran gofal dementia o bob rhan o'r DU a thu hwnt er mwyn gwella cyfraddau diagnosis dementia a mynediad at wybodaeth a chefnogaeth briodol.

4. Calls on the Welsh Government to investigate areas of best practice in dementia care from across the UK and further afield to improve dementia diagnosis rates and access to appropriate information and support.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ystâd y GIG mor gyfeillgar â phosibl i bobl sydd â dementia ac i'w gwneud yn ofynnol bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant gorfodol mewn ymwybyddiaeth dementia a gofal dementia.

5. Calls on the Welsh Government to ensure that the NHS estate is as dementia-friendly as possible and to require mandatory training in dementia awareness and dementia care for all healthcare professionals.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob aelod o staff yn y GIG yn cael hyfforddiant priodol mewn gofal i gleifion â dementia.

6. Calls on the Welsh Government to ensure that all staff in the NHS receive appropriate training in care for patients with dementia

18:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. Voted in favour 48. There were no votes against. Therefore the motion as amended is agreed.

*Derbyniwyd cynnig NDM5785 fel y'i diwygiwyd: O blaid 48, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5785 as amended agreed: For 48, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5785 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5785 as amended

18:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the second Welsh Conservative debate, this one on governance and leadership in the NHS. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 38. Therefore the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ail ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, yr un ar lywodraethu ac arweinyddiaeth yn y GIG. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5787

Result of the vote on motion NDM5787

18:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 5. There voted against 43. Therefore amendment 1 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 5 o blaid. Pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 5, Yn erbyn 43, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 5, Against 43, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5787

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5787

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 39. There voted against 9. Therefore amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Pleidleisiodd 9 yn erbyn. Felly mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 39, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5787

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5787

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Cynnig NDM5787 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5787 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraethu da ac arweinyddiaeth effeithiol yn y GIG yng Nghymru a'r angen am atebolrwydd i'r cyhoedd.

1. Notes the importance of good governance and effective leadership in the Welsh NHS and the need for accountability to the public.

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. Voted in favour 39. Voted against 9. Therefore the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 39 o blaid. Pleidleisiodd 9 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5787 fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Yn erbyn 9, Ymatal 0.*

*Motion NDM5787 as amended agreed: For 39, Against 9, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5787 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5787 as amended

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now vote on the Plaid Cymru debate on local government and public services. I call for a vote on the motion, tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 14. Therefore the motion without amendment is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar y ddadl Plaid Cymru ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 14 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 34, Against 14, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5788

Result of the vote on motion NDM5788

18:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would ask those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Gofynnaf i'r Aelodau sy'n gadael y Siambr i wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

18:58

## 10. Dadl Fer: Clefydau'r Croen: Blaenoriaethu Anghenion Pobl yng Nghymru sydd â Chlefydau sy'n Effeithio ar y Croen

## 10. Short Debate: Skin Matters—Prioritising the Needs of People in Wales with Skin Disease

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 10 is the short debate. I call on Nick Ramsay to speak on the topic he has chosen.

Eitem 10 yw'r ddadl fer. Galwaf ar Nick Ramsay i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.

18:58 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I've agreed to allow Kirsty Williams a minute to speak in this debate.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi cytuno i ganiatáu munud Kirsty Williams i siarad yn y ddadl hon.

There is one organ of the body that is virtually bound to cause problems to everyone at some point in their lives, young and old. Problems with this, the largest organ of our bodies, can cause embarrassment, pain, disability and death to all ages, and account for one in five of all GP appointments. In fact, over 720,000 people visit their GP in Wales each year with problems with this organ. It's almost inevitable it will, at the very least, cause each of us some discomfort this year. Yet, across the UK, it attracts little attention or priority, funding and minimal training for medical students or those working in the medical professions. I'm speaking, of course, about our skin.

Mae un organ o'r corff sydd bron yn sicr o achosi problemau i bawb ar ryw adeg yn eu bywydau, yn hen ac yn ifanc. Gall problemau gyda hon, organ fwyaf ein cyrff, achosi embaras, poen, anabledd a marwolaeth i bobl o bob oed, ac mae'n gyfrifol am un o bob pump o'r holl apwyntiadau meddyg teulu. Yn wir, mae dros 720,000 o bobl yn ymweld â'u meddyg teulu yng Nghymru bob blwyddyn gyda phroblemau gyda'r organ hon. Mae bron yn anochel y bydd o leiaf yn achosi rhywfaint o anghysur i bob un ohonom eleni. Eto i gyd, ar draws y DU, ychydig o sylw, blaenoriaeth, a chyllid a roddir tuag at yr organ hon ac ychydig iawn o hyfforddiant a roddir i fyfyrwyr meddygol neu'r rhai sy'n gweithio yn y proffesiynau meddygol. Rwy'n sôn, wrth gwrs, am ein croen.

From teenage acne, sunburn, psoriasis, atopic dermatitis, eczema and so on through to truly crippling and debilitating and often rare conditions, such as epidermolysis bullosa, all the way on to malignant melanoma skin cancer conditions, which pervade the lives of nearly all of us at some point in our lives. Many diseases are so rare that there may be only one or two sufferers in Wales, yet their impact can be truly dreadful.

O acne'r arddegau, llosg haul, soriasis, dermatitis atopig, ecsema ac yn y blaen i gyflyrau gwirioneddol andwyol a gwanychol, a phrin yn aml, megis epidermolysis bullosa, yr holl ffordd i gyflyrau canser y croen melanoma malaen, maent yn treiddio i fywydau bron bawb ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau. Mae llawer o glefydau mor brin mae'n bosibl na cheir mwy nag un neu ddau o ddioddefwyr yng Nghymru, ac eto gall eu heffaith fod yn wirioneddol ofnadwy.

A charity, Skin Care Cymru, is working to put skin disease far higher up the agenda in Wales and to give a voice to those who live with any one of hundreds of conditions. A quick visit to their website, especially the patient stories, vividly illustrates my point. There's a pressing need to identify what the landscape is for skin treatment across Wales. At the moment, no-one knows what provision deficits exist or, indeed, the extent of best practice in the NHS. Skin Care Cymru is presently carrying out a wide-ranging, comprehensive scoping project using data collated from freedom of information requests to map skin-related service provision across Wales. There is a similar project being undertaken by the all-party parliamentary group on skin in England. Further research needs to be done to explore the implementation of the National Institute for Health and Care Excellence quality standards for psoriasis in Wales. The portfolio of patient stories captured and disseminated by patient support groups for people with skin disease, including Changing Faces, clearly convey the negative impact of skin conditions on schooling, relationships, self-esteem and social and leisure activities.

Mae elusen Skin Care Cymru yn gweithio i roi clefydau'r croen yn llawer uwch ar yr agenda yng Nghymru ac i roi llais i'r bobl sy'n byw gydag unrhyw un o gannoedd o gyflyrau. Mae ymweliad cyflym â'u gwefan, yn enwedig storïau'r cleifion, yn dangos fy mhwynt yn fyw iawn. Mae angen dybryd i nodi'r dirwedd ar gyfer triniaethau'r croen ar draws Cymru. Ar hyn o bryd, nid oes neb yn gwybod pa ddiffygion a geir yn y ddarpariaeth neu'n wir, graddau arferion gorau yn y GIG. Ar hyn o bryd, mae Skin Care Cymru yn cynnal prosiect cwmpasu eang a chynhwysfawr gan ddefnyddio data a gasglwyd o geisiadau rhyddid gwybodaeth i fapio darpariaeth gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r croen ledled Cymru. Mae prosiect tebyg yn cael ei wneud gan y grŵp seneddol hollbleidiol ar y croen yn Lloegr. Mae angen gwneud ymchwil pellach i archwilio gweithrediad safonau ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ar gyfer soriasis yng Nghymru. Mae'r portffolio o storïau cleifion a gasglwyd ac a ledaenwyd gan grwpiau cefnogi cleifion i bobl â chlefydau'r croen, gan gynnwys Changing Faces, yn cyfleu yn glir yr effaith negyddol y mae cyflyrau'r croen yn ei chael ar addysg, perthynas ag eraill, hunan-barch a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.

What is already known is that there is no comprehensive and widely accessible psychosocial provision for people in Wales living with chronic, acute and/or debilitating and disfiguring skin conditions. The skin is the most visible part of our bodies, so any disease or problem is apparent to all and sundry. There's no privacy for many sufferers. Just recall the miseries of teenage acne for many of us, but imagine a girl of 14 with psoriasis going to a swimming pool with friends, plucking up the courage to change into swimwear, only to be told to leave by the staff on the grounds it might be catching. That has happened in Wales.

Yr hyn sydd eisoes yn hysbys yw nad oes unrhyw ddarpariaeth seicogymdeithasol gynhwysfawr a hygyrch i bobl yng Nghymru sy'n byw gyda chyflyrau cronig, cyflyrau croen difrifol a/neu wanychol, sy'n anffurfio. Y croen yw'r rhan fwyaf gweladwy o'n cyrff, felly mae unrhyw glefyd neu broblem yn amlwg i'r byd a'r betws. Nid oes preifatrwydd i lawer o ddioddefwyr. Meddyliwch am ofid acne'r arddegau i lawer ohonom, ond dychmygwch ferch 14 oed â soriasis yn mynd i bwll nofio gyda ffrindiau, yn magu digon o ddewrder i newid i ddillad nofio, a chael gorchymyn i adael gan y staff ar y sail y gallai fod yn gyflwr heintus. Mae hynny wedi digwydd yng Nghymru.

For those with facial disfigurements—and it has been estimated there are over 25,000 of them, and a much larger number with bodily disfigurements—there is no dedicated psychosocial help available. It's vital that there should be as part of a holistic approach to healthcare. Without it, unresolved issues will lead to other illnesses caused by stress, with a resulting impact on health provision across the board. There is a unique opportunity for Wales to lead, not only the UK, but Europe as well, and even the world, in providing this essential service. In England, the report by the APPG on skin identified the need for dedicated psychosocial services to tackle the psychological needs of patients with skin diseases. In fact, NICE quality standards for the treatment and management of psoriasis set out the need to offer psychosocial support. However, this remains an optional element of care and, as such, is often unresourced and unavailable to the majority.

Ar gyfer y rhai sydd ag anffurfiad wynebol—ac amcangyfrifwyd fod dros 25,000 ohonynt, a nifer llawer mwy ag anffurfiad corffol—nid oes cymorth seicogymdeithasol pwrpasol ar gael. Mae'n hanfodol y dylai fod cymorth o'r fath ar gael, yn rhan o ymagwedd gyfannol at ofal iechyd. Hebddo, bydd materion heb eu datrys yn arwain at afiechydon eraill a achosir gan straen, gydag effaith ganlyniadol ar y ddarpariaeth iechyd yn gyffredinol. Mae yma gyfle unigryw i Gymru arwain, nid yn unig yn y DU, ond yn Ewrop yn ogystal, a hyd yn oed y byd, drwy ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn. Yn Lloegr, nododd yr adroddiad gan y grŵp seneddol trawsbleidiol ar y croen yr angen am wasanaethau seicogymdeithasol penodol i fynd i'r afael ag anghenion seicolegol cleifion â chlefydau croen. Yn wir, nododd safonau ansawdd NICE ar gyfer trin a rheoli soriasis yr angen i gynnig cefnogaeth seicogymdeithasol. Fodd bynnag, mae hon yn parhau i fod yn elfen ddewisol o ofal ac fel y cyfryw, mae'n aml heb ei chyllido a heb fod ar gael i'r rhan fwyaf o bobl.

Sadly, research shows that people with skin diseases, including psoriasis, are often at a higher risk of suicide. Very often, the side effects of the medication and treatments used to manage skin conditions include depression. This demonstrates the need to prioritise the emotional and psychological wellbeing of people living in Wales with skin conditions.

Yn anffodus, mae ymchwil yn dangos bod pobl sydd â chlefydau croen, gan gynnwys soriasis, yn aml mewn mwy o berygl o hunanladdiad. Yn aml iawn, mae sgil-effeithiau'r feddyginiaeth a'r triniaethau a ddefnyddir i reoli cyflyrau croen yn cynnwys iselder. Mae hyn yn dangos yr angen i flaenoriaethu lles emosiynol a seicolegol pobl sy'n byw gyda chyflyrau croen yng Nghymru.

Research often focuses on the needs of patients with well-known conditions, such as psoriasis. However, there are known to be more than 2,000 diagnosable skin conditions, and little is known about the emotional and psychological wellbeing of people affected across all of those skin conditions in Wales. Further research and work needs to be done to understand the impact of skin disease on people's lives, specifically those living here. This work needs to be translated into and reflected within the medical curriculum for nurses and medics. Health professionals need to recognise the burdens of the treatments and their associated side effects, as well as the impact on quality of life associated with many skin conditions, as well as the physical symptoms.

Mae ymchwil yn aml yn canolbwyntio ar anghenion cleifion â chyflyrau cyfarwydd, megis soriasis. Fodd bynnag, gwyddys bod dros 2,000 o gyflyrau croen y gellid gwneud diagnosis ohonynt, ac ychydig a wyddom am les emosiynol a seicolegol y bobl yr effeithir arnynt ar draws yr holl gyflyrau croen yng Nghymru. Mae angen gwneud gwaith ac ymchwil pellach er mwyn deall effaith clefydau croen ar fywydau pobl, yn benodol y rhai sy'n byw yma. Mae angen trosglwyddo'r gwaith i'r cwricwlwm meddygol a'i adlewyrchu o'i fewn ar gyfer nyrsys a meddygon. Mae angen i weithwyr iechyd proffesiynol gydnabod beichiau'r triniaethau a'u sgil-effeithiau cysylltiedig, yn ogystal â'r effaith ar ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig â llawer o gyflyrau croen, yn ogystal â'r symptomau corfforol.

Understanding the impact of living with skin conditions can inform a dedicated service in local health boards to address patients' psychosocial needs, occupational therapy and access to the provision of services, including skin camouflage services. Psychosocial support services need to be evaluated and understood in terms of impact on quality of life, as well as to establish clinical and cost-effectiveness. Key stakeholders including Skin Care Cymru, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board and others are keen to establish a pilot project to deliver psychosocial support to people affected by chronic and often debilitating skin diseases and conditions, anticipating that the outcomes and impact that such provision will have is in line with the strategy for prudent healthcare in Wales.

Gall deall effaith byw gyda chyflyrau croen lywio gwasanaeth pwrpasol mewn byrddau iechyd lleol i fynd i'r afael ag anghenion seicogymdeithasol cleifion, therapi galwedigaethol a mynediad at wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cuddliwio croen. Mae angen gwerthuso a deall gwasanaethau cymorth seicogymdeithasol o ran yr effaith ar ansawdd bywyd, yn ogystal â phennu effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd. Mae rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Skin Care Cymru, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac eraill yn awyddus i sefydlu prosiect peilot i ddarparu cefnogaeth seicogymdeithasol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan afiechydon a chyflyrau croen cronig a gwanychol yn aml, gan ddisgwyl y bydd canlyniadau ac effaith darpariaeth o'r fath yn unol â'r strategaeth ar gyfer gofal iechyd darbodus yng Nghymru.

If I can turn to some of the challenges. Skin care, principally the medical specialty area of dermatology, is considered to be the Cinderella of the NHS in many respects. For example, despite the huge number of primary and secondary care appointments and the extent of skin diseases in our local populations, the medical curriculum does not give enough time or space for specialist training to encourage interest in a career in dermatology. Until dermatology is given a stronger status in the curriculum, the standard of provision is only likely to get worse and the importance of dermatology will continue to be undermined and underestimated. By failing to provide adequate education in this field, we are going to be failing to meet the needs of patients.

Os caf droi at rai o'r heriau. Ystyrir mai gofal croen, sef maes arbenigedd meddygol dermatoleg yn bennaf, yw Sinderela y GIG ar lawer ystyr. Er enghraifft, er gwaethaf y nifer enfawr o apwyntiadau gofal sylfaenol ac eilaidd a graddau clefydau croen yn ein poblogaethau lleol, nid yw'r cwricwlwm meddygol yn rhoi digon o amser na lle i hyfforddiant arbenigol i ysgogi diddordeb mewn gyrfa ym maes dermatoleg. Hyd nes y rhoddir statws cryfach i ddermatoleg yn y cwricwlwm, mae safon y ddarpariaeth yn debygol o waethygu a bydd pwysigrwydd dermatoleg yn parhau i gael ei danseilio a'i fychanu. Trwy fethu â darparu addysg ddigonol yn y maes hwn, rydym yn mynd i fethu â diwallu anghenion cleifion.

I mentioned the scoping study conducted by Skin Care Cymru. That is requesting detailed information from the higher education institutions delivering medical education to undergraduates and postgraduates to identify the amount of time committed to teaching dermatology. The results of this work need to be considered and acted upon. The scoping project will also assess the training programmes for nurses being delivered in Wales to assess the extent and components of education being delivered in dermatology.

Soniais am yr astudiaeth gwmpasu a gynhaliwyd gan Skin Care Cymru. Mae'n galw am wybodaeth fanwl gan y sefydliadau addysg uwch sy'n cyflwyno addysg feddygol i israddedigion ac ôl-raddedigion er mwyn nodi faint o amser a roddir i addysgu dermatoleg. Mae angen ystyried a gweithredu ar ganlyniadau'r gwaith hwn. Bydd y prosiect cwmpasu hefyd yn asesu'r rhaglenni hyfforddi nyrsys sy'n cael eu cyflwyno yng Nghymru i asesu graddau'r addysg a gyflwynir mewn dermatoleg a pha gydrannau y mae'n eu cynnwys.

It's strange that despite skin disease being the most common reason for patients to see their GP, the GP with a special interest in dermatology is a rarity—only one known in south Wales, that being in ABMU. Again, this needs to be explored, understood and measures to rectify this imbalance need to be put in place.

Er mai clefyd croen yw'r rheswm mwyaf cyffredin i gleifion weld eu meddyg teulu yn ei gylch, mae'n rhyfedd pa mor brin yw meddygon teulu sydd â diddordeb arbennig mewn dermatoleg—un yn unig y gwyddys amdano yn ne Cymru, a hynny yn PABM. Unwaith eto, mae angen archwilio a deall hyn, a rhoi camau ar waith i unioni'r anghydbwysedd.

There's a problem in attracting and keeping dermatologists in posts around Wales as well. Consultant posts are advertised but they too often remain unfilled. As a result, there is a burden as a result of the shortage of dermatologists in the UK. Investing in and keeping talent in the medical speciality area of dermatology needs to be given priority. It's not just about attracting people into that area; it's to make sure we keep them as well.

Mae yna broblem o ran denu a chadw dermatolegwyr mewn swyddi ledled Cymru hefyd. Caiff swyddi meddygon ymgynghorol eu hysbysebu, ond maent yn aros yn wag yn rhy aml. O ganlyniad, mae yna faich o ganlyniad i'r prinder dermatolegwyr yn y DU. Mae angen rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi ym maes arbenigedd meddygol dermatoleg, a chadw talent yn y maes. Nid mater o ddenu pobl i'r maes yn unig yw hyn; mae'n fater o sicrhau ein bod yn eu cadw hefyd.

If I could just mention the unmet needs of patients in Wales living with skin diseases and conditions, there is an inadequate evidence base at the moment to be able to get a clear picture of the landscape of services provided to people in Wales living with skin diseases and conditions. Skin Care Cymru have provided an evidence base to inform a dialogue around ways to enhance this segment of the Welsh population. This is a start. Unmet needs need to be understood better in order to inform the development and design of services and help with the training of tomorrow's doctors. Otherwise, we're not going to move forward.

Os caf sôn am anghenion cleifion yng Nghymru sydd heb eu diwallu, cleifion sy'n byw â chlefydau a chyflyrau croen, mae'r sylfaen dystiolaeth yn annigonol ar hyn o bryd i allu cael darlun clir o dirwedd y gwasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru sy'n byw gyda chlefydau a chyflyrau croen. Mae Skin Care Cymru wedi darparu sylfaen dystiolaeth i lywio trafodaeth ar ffyrdd o wella'r gyfran hon o boblogaeth Cymru. Mae'n ddechrau. Mae angen deall anghenion heb eu diwallu yn well er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a chynllunio gwasanaethau a helpu gyda hyfforddi meddygon y dyfodol. Fel arall, nid ydym yn mynd i symud ymlaen.

We need to capture the best practice and innovation that is occurring across Wales in this area of the life sciences sector. For example, the flagship Welsh Centre for Burns and Plastic Surgery, which serves populations in both Wales and England and is home to the centre for regenerative and reconstructive surgery, which is currently pioneering groundbreaking innovation into cartilage regeneration, and the Welsh Wound Innovation Centre in Llantrisant, a centre of excellence in the prevention and treatment of wounds—all of these are good examples of best practice, and they need to be built on. So, as well as negatives, there are plenty of reasons to celebrate success and development too.

Mae angen i ni nodi arfer gorau ac arloesedd sy'n digwydd ar draws Cymru yn y maes hwn o'r sector gwyddorau bywyd. Er enghraifft, mae'r ganolfan flaenllaw, Canolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru, sy'n gwasanaethu poblogaethau yng Nghymru a Lloegr ac sy'n gartref i'r ganolfan llawdriniaeth adfywiol ac adluniol, sydd ar hyn o bryd yn gwneud gwaith arloesol ar adfywio cartilag, a'r Ganolfan Arloesi ym maes Gwella Clwyfau Cymru yn Llantrisant, canolfan ragoriaeth yn y gwaith o atal a thrin clwyfau—mae pob un o'r rhain yn enghreifftiau da o arfer gorau, ac mae angen iddynt gael eu datblygu. Felly, yn ogystal ag elfennau negyddol, mae digon o resymau i ddathlu llwyddiant a datblygiad hefyd.

There is definitely a need to establish a mechanism to draw together all of these issues and form a platform to enable the voices of patients, clinicians, entrepreneurs and Welsh Government to be heard, and to facilitate collaboration and co-production in this area of health. And collaboration and partnership are critical in ensuring that dermatology achieves attention to address unmet clinical and patient need.

Yn sicr mae angen sefydlu mecanwaith i ddwyn ynghyd yr holl bethau hyn a ffurfio llwyfan i alluogi lleisiau cleifion, clinigwyr, entrepreneuriaid a Llywodraeth Cymru i gael eu clywed, ac i hwyluso cydweithio a chydgynhyrchu ym maes iechyd. Ac mae cydweithio a phartneriaeth yn hollbwysig o ran sicrhau bod dermatoleg yn cael sylw i fynd i'r afael ag anghenion clinigol ac anghenion cleifion sydd heb eu diwallu.

So, what am I asking for today from you, Minister and Deputy Minister? First of all, I'm going to be looking at setting up a cross-party group on skin conditions. They have one in Westminster; I think it would be a good area for us to have one here as well. So, I'm looking for a cross-party—hopefully all-party—representation on that group to raise and pursue some of the issues that I've already mentioned in this debate today. We need to, secondly, consider and explore the implementation of a pilot intervention for the provision of psychosocial support for people in Wales. ABMU and the Welsh Centre for Burns and Plastic Surgery provide a real opportunity to be leading the way in this area in the UK, so we need a pilot that brings these groups together. And also I would like to see a commitment from the Welsh Government to respond to the upcoming report by Skin Care Cymru, which will outline where they believe that we can move forward with services across Wales. I understand that that report will be launched in the autumn. The all-party group on skin conditions in Westminster will be revealing results from their very similar project around the same time, and at that point comparisons will surely be quickly drawn between England and Wales.

Felly, beth rwy'n gofyn amdano gennych heddiw, Weinidog a Ddirprwy Weinidog? Yn gyntaf oll, rwy'n mynd i edrych ar y posibilrwydd o sefydlu grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau croen. Mae ganddynt un yn San Steffan; rwy'n credu y byddai'n faes da i ni ei gael yma hefyd. Felly, rwy'n chwilio am gynrychiolaeth drawsbleidiol—hollbleidiol gobeithio—yn y grŵp hwnnw i godi a mynd ar drywydd rhai o'r materion rwyf eisoes wedi sôn amdanynt yn y ddadl hon heddiw. Yn ail, mae angen i ni ystyried ac ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu ymyrraeth beilot ar gyfer darparu cymorth seicogymdeithasol i bobl yng Nghymru. Mae PABM a Chanolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru yn rhoi cyfle go iawn i arwain y ffordd yn y maes yn y DU, felly mae angen cynllun peilot sy'n dod â'r grwpiau hyn at ei gilydd. Hefyd hoffwn weld ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ymateb i'r adroddiad sydd ar y gweill gan Skin Care Cymru, a fydd yn amlinellu lle y maent yn credu y gallwn symud ymlaen gyda'r gwasanaethau ledled Cymru. Rwy'n deall y bydd yr adroddiad hwnnw yn cael ei lansio yn yr hydref. Bydd y grŵp hollbleidiol ar gyflyrau croen yn San Steffan yn datgelu canlyniadau eu prosiect tebyg tua'r un pryd, a'r adeg honno bydd cymariaethau'n sicr o gael eu gwneud yn gyflym rhwng Cymru a Lloegr.

This is an area where I believe the Welsh Government really can move Wales forward. We can show England how services can be developed, and we can also provide an example for Europe as well, and, indeed, the wider world. I urge the Welsh Government to take forward the lessons of this debate and improve the conditions for people suffering from skin conditions in Wales.

Mae hwn yn faes lle rwy'n credu y gall Llywodraeth Cymru symud Cymru ymlaen mewn gwirionedd. Gallwn ddangos i Loegr sut y gellir datblygu gwasanaethau a gallwn hefyd ddarparu esiampl i Ewrop yn ogystal, ac yn wir, i'r byd ehangach. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â gwersi'r ddadl hon a gwella'r amodau ar gyfer pobl sy'n dioddef o gyflyrau croen yng Nghymru.

19:09

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank Nick Ramsay for bringing the debate to the Chamber today and covering such a wide area? I have just one brief question for the Minister.

A gaf fi ddiolch i Nick Ramsay am gyflwyno'r ddadl hon yn y Siambr heddiw ac am ymdrin â maes mor eang? Mae gennyf un cwestiwn byr i'r Gweinidog.

Minister, you'll be aware that a significant number of Welsh citizens lose their lives to skin cancer, but we're very fortunate with recent developments in the treatment of advanced melanoma, with the successful trialling of pembrolizumab—a new drug that has been granted early access in England, because the whole licensing process hasn't been gone through yet. I'm just wondering whether your officials will be asking the All Wales Medicines Strategy Group to look at when Welsh patients will have access to this particular treatment. It's one of the new set of cancer treatments that are coming on line, which actually uses the body's own immune system to try and defeat the tumours. It's a very promising new branch of cancer treatment, where we've had to rely on traditional chemotherapy, radiotherapy or surgery in the past. I was just wondering whether you could let us know where the Government is on this particular treatment.

Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol fod nifer sylweddol o ddinasyddion Cymru yn colli eu bywydau i ganser y croen, ond rydym yn ffodus iawn o gael y datblygiadau diweddar o ran triniaeth at felanoma datblygedig, gyda llwyddiant y treialon pembrolizumab—cyffur newydd y rhoddwyd caniatâd i'w gyflwyno'n gynnar yn Lloegr, gan nad yw wedi mynd drwy'r broses drwyddedu gyfan eto. Tybed a wnaiff eich swyddogion ofyn i Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru pa bryd y bydd cleifion Cymru yn cael mynediad at y driniaeth benodol hon. Mae'n un o set newydd o driniaethau canser sy'n dod ar-lein, ac sy'n defnyddio system imiwnedd y corff ei hun mewn gwirionedd i geisio goresgyn y tiwmorau. Mae'n gangen newydd addawol iawn o driniaeth canser, lle rydym wedi gorfod dibynnu ar gemotherapi traddodiadol, radiotherapi neu lawdriniaeth yn y gorffennol. Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi adael i ni wybod beth yw barn y Llywodraeth ar y driniaeth benodol hon.

19:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Deputy Minister for Health to reply—Vaughan Gething.

Y Dirprwy Weinidog Iechyd i ateb—Vaughan Gething.

19:11 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Thank you, Nick Ramsay, for tabling today's debate on dermatology and for the wide-ranging and thoughtful contribution that he made. As you set out, dermatology is a wide-ranging speciality, covering over 2,000 skin disorders and conditions. Accurate diagnosis is, of course, fundamental to the successful management and treatment of the variety of skin diseases and disorders.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch i chi, Nick Ramsay, am gyflwyno'r ddadl heddiw ar ddermatoleg ac am y cyfraniad eang a meddylgar a wnaeth. Fel y nodwyd gennych, mae dermatoleg yn arbenigedd eang, sy'n cynnwys dros 2,000 o anhwylderau a chyflyrau croen. Mae diagnosis cywir, wrth gwrs, yn hanfodol i reoli a thrin yr amrywiaeth o glefydau ac anhwylderau croen yn llwyddiannus.

We know skin conditions are amongst the most common diseases encountered by health professionals. In an average clinic, a GP can expect to see several people each day with a skin disease. Every year, about 54 per cent of the population are affected by skin disease and approximately 4,000 deaths occur in the UK annually due to skin disease, most often from malignant melanoma.

Gwyddom fod cyflyrau croen ymysg y clefydau mwyaf cyffredin y bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymdrin â hwy. Mewn clinig cyffredin, gall meddyg teulu ddisgwyl gweld nifer o bobl bob dydd gyda chlefyd croen. Bob blwyddyn, mae tua 54 y cant o'r boblogaeth yn cael eu heffeithio gan glefyd y croen a cheir oddeutu 4,000 o farwolaethau yn y DU bob blwyddyn o ganlyniad i glefydau croen, yn fwyaf aml o felanoma malaen.

I don't have the specific answer to the question posed by Kirsty Williams, but I'm more than happy to write to you to update you on access to the new treatment that you mentioned.

Nid oes gennyf ateb penodol i'r cwestiwn a ofynnodd Kirsty Williams, ond rwy'n fwy na pharod i ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar fynediad at y driniaeth newydd a grybwyllwyd gennych.

We recognise, as Nick Ramsay set out, that inflammatory skin diseases are disabling, disfiguring and can be distressing and reduce quality of life for the individual. The King's Fund published a report in April on how dermatology services can meet current and future demands. The report highlights that the majority of people with dermatological conditions self-care; some estimates put this as high as 86 per cent. It is, of course, important that people are signposted to good information services and that patient support groups have an important role to play in the supply of relevant patient-focused information.

Rydym yn cydnabod, fel y nododd Nick Ramsay, fod afiechydon croen llidus yn anablu, yn anffurfio ac yn gallu peri trallod a chyfyngu ar ansawdd bywyd yr unigolyn. Cyhoeddodd Cronfa'r Brenin adroddiad ym mis Ebrill ar sut y gall gwasanaethau dermatoleg ateb y galw yn y presennol a'r dyfodol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod y rhan fwyaf o bobl sydd â chyflyrau dermatolegol yn gofalu am y cyflwr eu hunain; mae rhai amcangyfrifon yn gosod y ffigur mor uchel ag 86 y cant. Wrth gwrs, mae'n bwysig fod pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gwybodaeth da a bod gan grwpiau cefnogi cleifion rôl bwysig i'w chwarae yn darparu gwybodaeth berthnasol sy'n canolbwyntio ar y claf.

The Welsh Government's developing concept of prudent healthcare in Wales relies, at least in part, on working with clinicians and patients to improve models of care. It should be to determine what the best treatment looks like for the patient themselves. It's about delivering consistent, high quality care and doing no harm, and that is one of the strands we're focusing on in primary care. For some, we know they'll need good access and provision to specialised tertiary care; some also need good access to advice and care from hospital secondary care dermatology teams. We recognise, however, that the future of healthcare cannot rely overly on secondary and tertiary units.

Mae cysyniad datblygol Llywodraeth Cymru ynglŷn â gofal iechyd darbodus yng Nghymru yn dibynnu, yn rhannol o leiaf, ar weithio gyda chlinigwyr a chleifion i wella modelau gofal. Dylai ddisgrifio'r driniaeth orau ar gyfer y claf ei hun. Mae'n ymwneud â darparu gofal o ansawdd uchel yn gyson a pheidio â gwneud niwed, a dyna un o'r elfennau rydym yn canolbwyntio arnynt mewn gofal sylfaenol. I rai, rydym yn gwybod y byddant angen mynediad da a darpariaeth o ofal trydyddol arbenigol; mae rhai hefyd angen mynediad da at gyngor a gofal gan dimau dermatoleg gofal eilaidd mewn ysbyty. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, na all dyfodol gofal iechyd ddibynnu gormod ar unedau eilaidd a thrydyddol.

With a growing population that lives longer, the number of people suffering from skin conditions is increasing. The only sensible response is for more people to be supported in their own community. Primary and community care services need to develop and build their expertise in giving that support—a point made in Nick Ramsay's contribution.

Gyda phoblogaeth gynyddol o bobl sy'n byw'n hirach, mae nifer y bobl sy'n dioddef o gyflyrau croen yn cynyddu. Yr unig ymateb synhwyrol yw i fwy o bobl gael eu cefnogi yn eu cymuned eu hunain. Mae angen datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol i ddatblygu ac adeiladu eu harbenigedd i roi'r cymorth hwnnw—pwynt a wnaed yng nghyfraniad Nick Ramsay.

I'm also pleased that you recognise that these challenges are not unique to Wales; there is a growing international awareness and lessons to be taken from a number of countries where primary care is the essential component of effective, efficient and equitable healthcare. More than 90 per cent of patient contact is with primary and community care services, whether that's GPs, pharmacists, dentists, therapists, physiotherapists, community nurses, or otherwise.

Rwyf hefyd yn falch eich bod yn cydnabod nad yw'r heriau hyn yn unigryw i Gymru; ceir mwyfwy o ymwybyddiaeth yn rhyngwladol ac mae gwersi cynyddol i'w dysgu o nifer o wledydd lle y mae gofal sylfaenol yn elfen hanfodol o ofal iechyd effeithiol, effeithlon a theg. Mae dros 90 y cant o gyswllt cleifion â gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol, boed yn feddygon teulu, fferyllwyr, deintyddion, therapyddion, ffisiotherapyddion, nyrsys cymunedol, neu fel arall.

Primary care is where people's diagnosis most often starts or referrals and treatment pathways are most often agreed, and where recovery normally takes place or is concluded. It's the foundation of our NHS and we need to ensure that it's equipped to manage the growing demand for dermatology care. Another part of the concept of prudent healthcare is about remodelling the relationship between those who use health services in Wales and those who provide them. We have tools to help us do this, such as national standards and guidelines, which set out Welsh Government's expectations for effective care for people with a dermatological condition. Services should be developed and delivered in line with the relevant guidance provided by the British Association of Dermatologists and their quality standards for dermatology. The responsibility for the provision of these services lies, of course, with health boards. They should provide patient-centred care that focuses on outcomes that meet national standards. We are aware of some of the issues in relation to dermatology in Wales, and of course the recent King's Fund report that I mentioned. As Nick Ramsay recognised, there is a national shortage of trained dermatology specialists in the UK, as with a number of other specific speciality areas.

Gofal sylfaenol yw lle y bydd diagnosis pobl yn dechrau gan amlaf neu lle y cytunir ar atgyfeiriadau a llwybrau triniaeth gan amlaf, a lle y mae adferiad fel arfer yn digwydd neu'n dod i ben. Dyma sylfaen ein GIG ac mae angen i ni sicrhau bod gofal sylfaenol yn barod i reoli'r galw cynyddol am ofal dermatolegol. Mae rhan arall o'r cysyniad o ofal iechyd darbodus yn ymwneud ag ailfodelu'r berthynas rhwng y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru a'r rhai sy'n eu darparu. Mae gennym offer i'n helpu i wneud hyn, megis safonau a chanllawiau cenedlaethol, sy'n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal effeithiol i bobl sydd â chyflwr dermatolegol. Dylid datblygu a chyflwyno gwasanaethau yn unol â'r canllawiau perthnasol a ddarperir gan Gymdeithas Dermatolegwyr Prydain a'u safonau ansawdd ar gyfer dermatoleg. Wrth gwrs, y byrddau iechyd sydd â'r cyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaethau hyn. Dylent ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n bodloni safonau cenedlaethol. Rydym yn ymwybodol o rai o'r problemau mewn perthynas â dermatoleg yng Nghymru, ac adroddiad diweddar Cronfa'r Brenin y soniais amdano wrth gwrs. Fel y cydnabu Nick Ramsay, ceir prinder cenedlaethol o arbenigwyr dermatoleg wedi'u hyfforddi yn y DU, fel gyda nifer o feysydd arbenigol penodol eraill.

There are, of course, though, examples of some excellent practice within Wales, such as the direct-access clinical nurse specialist provision for a psoriasis clinic in Aneurin Bevan university health board. I'm encouraged to see the impact of empowered patients who can and do help to design services as, for example, in the Aneurin Bevan health board area and the Gwent patient panel, who I've recently met. That partnership has had positive effects in recent changes in the service that have been prompted and promoted by the patients themselves, and their concerns have been listened to and taken on board by the clinicians that they work with. I'm also aware that Hywel Dda university health board is undertaking a service review of their provision of dermatology. I would encourage patients in other parts of Wales to engage with and help their local health boards to improve services. Equally, health boards need to be open minded and to positively and proactively engage with their public.

Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o arferion rhagorol yng Nghymru, megis y ddarpariaeth o nyrsys clinigol mynediad uniongyrchol ar gyfer clinig soriasis ym mwrdd iechyd prifysgol Aneurin Bevan. Fe'm calonogir o weld effaith cleifion wedi'u grymuso sy'n gallu ac sydd yn helpu i gynllunio gwasanaethau fel y gwneir, er enghraifft, yn ardal bwrdd iechyd Aneurin Bevan a phanel cleifion Gwent, y cyfarfûm â hwy'n ddiweddar. Mae'r bartneriaeth wedi cael effeithiau cadarnhaol ar y newidiadau diweddar yn y gwasanaeth a ysgogwyd ac a hyrwyddwyd gan y cleifion eu hunain, ac mae eu pryderon wedi cael eu clywed a'u hystyried gan y clinigwyr y maent yn gweithio gyda hwy. Rwy'n ymwybodol hefyd fod bwrdd iechyd prifysgol Hywel Dda yn cynnal adolygiad gwasanaeth o'u darpariaeth ddermatolegol hefyd. Byddwn yn annog cleifion mewn rhannau eraill o Gymru i ymgysylltu â'u byrddau iechyd lleol a'u helpu i wella gwasanaethau. Yn yr un modd, mae angen i fyrddau iechyd fod yn agored eu meddwl ac ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn rhagweithiol gyda'u cyhoedd.

We also have access through Cardiff University to a number of internationally recognised postgraduate dermatology training courses. Health and Care Research Wales, through its competitive research funding, is currently funding senior researchers in areas such as bacterial-skin and soft-tissue infection. We also have a funding partner in the Healing Foundation Centre for Children's Burns Research, which has undertaken clinical and patient-relevant research, helping the prevention of burns and improving the outlook for children with burns injuries. We also fund, as Nick Ramsay mentioned, in collaboration with NHS Wales, the Welsh Wound Innovation Centre, which works to improve the management and delivery of wound prevention and treatment. It should enhance the quality of life for patients through better diagnosis and treatment outcomes.

Mae gennym hefyd fynediad drwy Brifysgol Caerdydd i nifer o gyrsiau hyfforddi ôl-raddedig ar ddermatoleg a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, drwy ei gyllid ymchwil cystadleuol, ar hyn o bryd yn ariannu uwch-ymchwilwyr mewn meysydd fel heintiau bacterol ar y croen a meinwe meddal. Mae gennym bartner ariannu hefyd yng Nghanolfan Ymchwil Llosgiadau Plant y Sefydliad Iacháu, sydd wedi gwneud gwaith ymchwil clinigol a pherthnasol i'r claf, gan helpu i atal llosgiadau a gwella'r rhagolygon ar gyfer plant ag anafiadau llosgiadau. Rydym hefyd yn ariannu'r Ganolfan Arloesi ym maes Gwella Clwyfau yng Nghymru, fel y crybwyllodd Nick Ramsay, ar y cyd â GIG Cymru, sefydliad sy'n gweithio i wella rheolaeth a darpariaeth atal a thrin clwyfau. Dylai wella ansawdd bywyd cleifion drwy wella diagnosis a chanlyniadau triniaeth.

I do recognise the need to continue to improve dermatology services in Wales, and particularly the need for health boards to work towards meeting the quality standards and guidance. Medical directors will consider this together with the King's Fund recommendations at their all-Wales meeting in July, and I'm sure we'll all be interested to hear what progress is being made, and the conversations taking place in the Abertawe Bro Morgannwg health board area and with Skin Care Cymru, as Nick Ramsay referred to.

Rwy'n cydnabod yr angen i barhau i wella gwasanaethau dermatoleg yng Nghymru, ac yn enwedig yr angen i fyrddau iechyd weithio tuag at gyrraedd y safonau ansawdd ac arweiniad. Bydd cyfarwyddwyr meddygol yn ystyried hyn ynghyd ag argymhellion Cronfa'r Brenin yn eu cyfarfod ar gyfer Cymru gyfan ym mis Gorffennaf, ac rwy'n siŵr y bydd gan bawb ohonom ddiddordeb mewn clywed pa gynnydd sy'n cael ei wneud, a'r trafodaethau sy'n digwydd yn ardal bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg a gyda Skin Care Cymru, fel y dywedodd Nick Ramsay.

My officials have already met with a number of dermatology charities, such as Skin Care Cymru, and I would urge them to take advantage of this opportunity. I know that in a meeting earlier this week, or within the last week, there was a further opportunity to meet officials within the Welsh Government to explain the current progress of the network and to try to understand how a new, cross-party group, should it be successfully formed, could help to inform the work that we undertake here in Wales.

Mae fy swyddogion eisoes wedi cyfarfod â nifer o elusennau dermatoleg, megis Skin Care Cymru, a byddwn yn eu hannog i fanteisio ar y cyfle hwn. Mewn cyfarfod yn gynharach yr wythnos hon, neu yn ystod yr wythnos diwethaf, cafwyd cyfle arall i gwrdd â swyddogion yn Llywodraeth Cymru i esbonio cynnydd presennol y rhwydwaith ac i geisio deall sut y gallai grŵp trawsbleidiol newydd, o gael ei ffurfio'n llwyddiannus, helpu i lywio'r gwaith a wnawn yma yng Nghymru.

I do want to encourage further support for dermatology health professionals through the national specialist advisory group and the dermatology council for Wales to work as a national network of clinicians to improve services against standards. A clinical network should help health boards to work together, to share intelligence and good practice, and to peer review and benchmark their services in order to ensure that high-quality healthcare is always at the centre of both service design and delivery.

Hoffwn annog rhagor o gefnogaeth i weithwyr iechyd proffesiynol ym maes dermatoleg drwy'r grŵp cynghori arbenigol cenedlaethol a chyngor dermatoleg Cymru i weithio fel rhwydwaith cenedlaethol o glinigwyr i wella gwasanaethau yn erbyn y safonau. Dylai rhwydwaith clinigol helpu byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd, i rannu gwybodaeth ac arfer da, ac i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid a meincnodi eu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gofal iechyd o ansawdd uchel bob amser yn ganolog i gynllun gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu.

Over the next five years, we want to see a change. With health boards moving more of their resource towards primary care—although we've said that over a number of years, to be fair: 'the shift into primary care'—supported by hospitals and other services, rather than continuing with our traditional model where hospital-based care attracts the majority of resources and attention. Providing greater dermatology expertise to GPs, community nurses and others is vital to making that vision a reality, so that the best care, the right care, is provided as close as possible to the patient and their community.

Dros y pum mlynedd nesaf, rydym am weld newid, gyda byrddau iechyd yn symud mwy o'u hadnoddau tuag at ofal sylfaenol—er ein bod wedi dweud hynny dros nifer o flynyddoedd, a bod yn deg: 'y newid i ofal sylfaenol'—yn cael ei gefnogi gan ysbytai a gwasanaethau eraill, yn hytrach na pharhau gyda'n model traddodiadol lle y mae gofal ysbyty yn denu'r rhan fwyaf o'r adnoddau a'r sylw. Mae darparu mwy o arbenigedd dermatolegol i feddygon teulu, nyrsys cymunedol a phobl eraill yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth honno, fel bod y gofal gorau, y gofal iawn, yn cael ei ddarparu mor agos â phosibl at y claf a'i gymuned.

I would like to thank those Members who took part in this debate, and I look forward to seeing if the cross-party group does come into being in the autumn, and to hearing more from Nick Ramsay and Skin Care Cymru.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau a gymerodd ran yn y ddadl hon, ac edrychaf ymlaen at weld a ddaw'r grŵp trawsbleidiol i fodolaeth yn yr hydref, ac at glywed rhagor gan Nick Ramsay a Skin Care Cymru.

19:19 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Minister. That concludes today's proceedings.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Dyna ddiwedd y trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 19:19.*

*The meeting ended at 19:19.*